Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Adroddiad Cryno Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y cyfnod adrodd 2019-2024

Cymru

Rheoliad 9A o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)

This document is also available in English

Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

Dyfyniadau a Argymhellir

Cyfoeth Naturiol Cymru & Llywodraeth Cymru (2026) Adroddiad Cryno Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y cyfnod adrodd 2019-2024: Cymru: Rheoliad 9A o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)

Rhagair gweinidogol

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad cyntaf Cymru ar lefel gwlad sy'n dwyn ynghyd – am y tro cyntaf mewn un cyhoeddiad – asesiad cynhwysfawr o gyflwr, tueddiadau a rheolaeth ar y cynefinoedd, y rhywogaethau a'r adar gwyllt sy'n bwysig yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi carreg filltir bwysig. Mae'n dangos ein hymrwymiad parhaus i safonau amgylcheddol uchel yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ac yn ailddatgan ein huchelgais i gynnal a gwella byd natur yn unol â'r egwyddorion a nodir yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn atgyfnerthu'r dystiolaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar yr angen brys i fynd i'r afael â cholli natur a gwytnwch ecosystemau i ddiogelu byd natur yng Nghymru. Gyda'i gilydd, byddant yn llywio datblygiad polisi yn y dyfodol, yn arwain buddsoddiad, ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau o dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang – gan gynnwys diogelu a rheoli o leiaf 30% o'n tir, dŵr croyw a'n moroedd ar gyfer natur yn effeithiol erbyn 2030.

Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn dangos y cynnydd y mae Cymru wedi'i wneud a graddfa'r heriau sy'n parhau. Trwy fuddsoddiad sylweddol – gan gynnwys trwy'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, Natur am Byth, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, a mentrau adfer mawr a ariennir gan LIFE – rydym yn adfer rhai o gynefinoedd a rhywogaethau mwyaf bregus Cymru, gan wella cyflwr, cysylltedd a gwytnwch safleoedd gwarchodedig Cymru fel rhan o'r rhwydwaith ledled y DU. Ond mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'n cynigion deddfwriaethol ym *Mil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Targedau Bioamrywiaeth) (Cymru)*, a fydd yn ymgorffori egwyddorion amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau ac yn sefydlu targedau bioamrywiaeth statudol ar gyfer Cymru. Bydd y targedau hyn yn darparu fframwaith clir, hirdymor ar gyfer adferiad natur ac atebolrwydd, gan sicrhau bod yr uchelgais a adlewyrchir yn yr adroddiad hwn yn esgor ar gamau gweithredu a chanlyniadau mesuradwy.

Hoffwn ddiolch i Cyfoeth Naturiol Cymru, ein partneriaid ledled Cymru, a'r nifer o sefydliadau, gwirfoddolwyr a chymunedau y mae eu gwaith yn sail i'r adroddiad hwn. Mae eu hymrwymiad parhaus yn hanfodol i sicrhau y gall amgylchedd naturiol Cymru ffynnu i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau.

Huw Irranca-Davies AS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Ionawr 2026

Cynnwys

Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru ii

Dyfyniadau a Argymhellir ii

Rhagair gweinidogol iii

Cynnwys iv

1. Crynodeb gweithredol 1

2. Trosolwg 4

Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi 4

Y cyd-destun polisi ac adrodd ehangach 4

Cwmpas a sylw 5

Statws cadwraethol ffafriol, categorïau asesu a gwerthoedd cyfeirio 5

Statws a thueddiadau rhywogaethau adar 7

Pwysau, mesurau cadwraeth, a rhagolygon yn y dyfodol 8

Methodoleg 9

Ffynonellau data ac adnoddau 9

Rhywogaethau crwydrol 10

Rhywogaethau y tu allan i'r cwmpas adrodd cyfredol 11

Strwythur yr adroddiad 11

3. Crynodeb o ganlyniadau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar 13

3.1 Crynodeb o'r casgliadau 13

Casgliadau rhywogaethau 14

Casgliadau ynghylch cynefinoedd 20

3.2 Pwysau 24

Y prif ganfyddiadau o ran pwysau ar rywogaethau 24

Prif ganfyddiadau o ran pwysau ar gynefinoedd 26

3.3 Mesurau cadwraeth 28

Prif ganfyddiadau o ran mesurau cadwraeth rhywogaethau 28

Prif ganfyddiadau o ran mesurau cadwraeth cynefinoedd 30

4. Statws a thueddiadau rhywogaethau adar 31

4.1 Adrodd am statws poblogaeth 31
Rhywogaethau, isrywogaethau a phoblogaethau 31
Hyd a lled yr adrodd 32
Paramedrau statws poblogaeth 32
4.2 Asesiad o amcangyfrifon poblogaeth y DU 32
4.3 Asesiad o statws y boblogaeth a'r perygl o ddifodiant 33
Adar o bryder cadwraethol (BoCC) 33
Rhestr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) 34
4.4 Asesiadau gildiau rhywogaethau 36
4.5 Asesiad o bwysau oherwydd hela ar rywogaethau y gellir eu hela'n gyfreithlon 36
4.6 Asesiad o bwysau sy'n effeithio ar boblogaeth rhywogaeth 37
4.7 Asesiad o weithredu mesurau cadwraeth 45
4.8 Cyfran o boblogaethau o rywogaethau Prydain sydd o fewn rhwydwaith Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) y DU 46
4.9 Cyfran Cymru o boblogaeth rhywogaeth y DU 49
4.10 Cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau'r DU, strategaethau, gweithgorau ac ati 51
4.11 Llyfryddiaeth 57
4.12 Diolchiadau 58
5. Adroddiadau ar rywogaethau 60
5.1 Rhywogaethau o amffibiaid ac ymlusgiaid 61
S1166 Madfall ddŵr gribog (*Triturus cristatus*) 62
S1213 Broga (*Rana temporaria*) 63
S1261 Madfall y tywod (*Lacerta agilis*) 64
S6284 Llyffant y twyni (*Epidalea calamita*) 65
5.2 Rhywogaethau o ystlumod 66
S1303 Ystlum pedol lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*) 67
S1304 Ystlum pedol mwyaf (*Rhinolophus ferrumequinum*) 68
S1308 Ystlum du (*Barbastella barbastellus*) 69
S1309 Ystlum lleiaf (*Pipistrellus pipistrellus*) 70
S1312 Ystlum mawr (*Nyctalus noctula*) 71
S1314 Ystlum y dŵr (*Myotis daubentonii*) 72
S1317 Ystlum lleiaf Nathusius (*Pipistrellus nathusii*) 73
S1320 Ystlum Brandt (*Myotis brandtii*) 74
S1322 Ystlum Natterer (*Myotis nattereri*) 75

S1323 Ystlum Bechstein (*Myotis bechsteinii*) 76
S1326 Ystlum hirglust (*Plecotus auritus*) 77
S1327 Ystlum adain-lydan (*Eptesicus serotinus*) 78
S1330 Ystlum barfog (*Myotis mystacinus*) 79
S1331 Ystlum Leisler (*Nyctalus leisleri*) 80
S5009 Ystlum lleiaf meinlais (*Pipistrellus pygmaeus*) 81
5.3 Rhywogaethau pysgod 82
S1095 Llysywen bendoll y môr (*Petromyzon marinus*) 83
S1096 Llysywen bendoll y nant (*Lampetra planeri*) 84
S1099 Llysywen bendoll yr afon (*Lampetra fluviatilis*) 85
S1102 Herlyn (*Alosa alosa*) 86
S1103 Gwangen (*Alosa fallax*) 87
S1106 Eog (*Salmo salar*) 88
S1109 Cangen las (*Thymallus thymallus*) 89
S6353 Gwyniad (*Coregonus lavaretus*) 90
S6965 Penlletwad (*Cottus gobio* a phob un arall) 91
5.4 Rhywogaethau o folysgiaid 92
S1013 Malwen droellog Geyer (*Vertigo geyeri*) 93
S1014 Malwen droellog ceg gul (*Vertigo angustior*) 94
S1016 Malwen droellog Desmoulin (*Vertigo moulinsiana*) 95
S1029 Misglen berlog (*Margaritifera margaritifera*) 96
5.5 Rhywogaethau o blanhigion anfasgwlaidd 97
S1378 *Cladonia* isgenws *Cladina*, isgenws o gennau 98
S1395 Petal-lys (*Petalophyllum ralfsii*) 99
S1400 Mwsogl glas (*Leucobryum glaucum*) 100
S1409 Migwyn (*Sphagnum* sp.) 101
S6216 Mwsogl pluog gwyrdd main (*Hamatocaulis vernicosus*) 102
5.6 Rhywogaethau di-asgwrn-cefn eraill 103
S1044 Mursen las Penfro (*Coenagrion mercuriale*) 104
S1065 Glöyn byw brith y gors (*Euphydryas aurinia*) 105
S1083 Chwilen gorniog (*Lucanus cervus*) 106
S1092 Cimwch afon crafanc wen (*Austropotamobius pallipes*) 107
S1034 Gelen feddyginiaethol (*Hirudo medicinalis*) 108
5.7 Rhywogaethau eraill o famaliaid 109
S1341 Pathew (*Muscardinus avellanarius*) 110

S1355 Dyfrgi (*Lutra lutra*) ... 111
S1357 Bele (*Martes martes*) ... 112
S1358 Ffwlbart (*Mustela putorius*) ... 113
5.8 Rhywogaethau o blanhigion fasgwlaidd ... 114
S1413 Cnwp-fwsoglau (*Lycopodium* sp.) ... 115
S1441 Tafolen y traeth (*Rumex rupestris*) ... 116
S1654 Crwynllys cynnar (*Gentianella amarella* ssp. *anglica*) ... 117
S1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol (*Luronium natans*) ... 118
S1849 Celynnen Fair (*Ruscus aculeatus*) ... 119
S1903 Tegeirian y fign galchog (*Liparis loeselii*) ... 120
S6985 Rhedynen Cilarne (*Vandenboschia speciosa*) ... 121
5.9 Marine mammal species ... 122
S1349 Dolffin trwyn potel (*Tursiops truncatus*) yng Nghymru ... 124
S1351 Llamhidydd (*Phocoena phocoena*) yng Nghymru ... 125
S1364 Morlo llwyd (*Halichoerus grypus*) yng Nghymru ... 126
6. Adroddiadau ar gynefinoedd ... 127
6.1 Cynefinoedd arfordirol a chynefinoedd twyni ... 128
H1210 Llystyfiant unflwydd ar linellau drifft ... 129
H1220 Llystyfiant lluosflwydd glannau caregog ... 130
H1230 Clogwyni'r môr â llystyfiant ... 131
H1310 *Salicornia* a rhywogaethau unflwydd eraill ar laid a thywod ... 132
H1330 Dolydd heli lwerydd ... 133
H1420 Prysgwydd morfa heli Môr y Canoldir ... 134
H2110 Egin-dwyni symudol ... 135
H2120 Twyni symudol gyda moresg ... 136
H2130 Twyni sefydlog ... 137
H2150 Rhostir twyni datgalchedig ... 138
H2170 Twyni gyda chorhelyg ... 139
H2190 Llaciau twyni gwlyb ... 140
6.2 Cynefinoedd dŵr croyw ... 141
H3130 Llynnoedd dŵr clir â lefelau isel o faethynnau gyda chorlystyfiant Alpaidd ... 142
H3140 Llynnoedd a phyllau clir, llawn calch gyda rhawn yr ebol ... 143
H3150 Llynnoedd a phyllau maeth-gyfoethog yn naturiol gyda dyfrllys â dail mawr ... 144

H3160 Llynnoedd a phyllau asidaidd wedi'u staenio gan fawn 145
H3180 Tirlynnoedd 146
H3260 Afonydd gyda chrafanc y dŵr a brigwlydd 147
6.3 Cynefinoedd glaswelltir 148
H6130 Glaswelltiroedd metelaidd 149
H6150 Glaswelltiroedd asidig mynyddig 150
H6170 Glaswelltiroedd calchaidd alpaidd ac is-alpaidd 151
H6210 Glaswelltiroedd a thiroedd prysg sych lled-naturiol ar sialc neu galchfaen 152
H6230 Glaswelltir *Nardus* cyfoethog ei rywogaethau 153
H6410 Dolydd gwellt y gweunydd 154
H6430 Cymunedau llystyfiant tal 155
H6510 Gweirgloddiau'r iseldir 156
6.4 Cynefinoedd rhostir 157
H4010 Rhosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd 158
H4030 Rhosydd sych 159
H4060 Rhosydd alpaidd a boreal 160
H5130 Rhosydd meryw 161
6.5 Cynefinoedd morol 162
H1110 Banciau tywod islanwol 163
H1130 Aberoedd 164
H1140 Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol 165
H1150 Morlynnoedd arfordirol 166
H1160 Baeau 167
H1170 Riffiau 168
H1180 Strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy'n gollwng 169
H8330 Ogofâu môr 170
S1376–S1377 Gwelyau maerl 171
6.6 Cynefinoedd ucheldirol 172
H8110 Sgri silicaidd 173
H8120 Sgri calchaidd 174
H8210 Llethrau creigiog calchaidd 175
H8220 Llethrau creigiog silicaidd 176
H8240 Calchbalmentydd 177
H8310 Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd 178

6.7 Cynefinoedd gwlyptiroedd 179
H7110 Cyforgorsydd gweithredol 180
H7120 Cyforgorsydd diraddiedig 181
H7130 Gorgorsydd 182
H7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig 183
H7150 Pantiau ar is-haenau mawn 184
H7210 Ffeniau calchaidd 185
H7220 Tarddellau caregu gyda thwffa 186
H7230 Ffeniau alcalïaidd 187
H7240 Ffurfiannau arloesol alpaidd 188
6.8 Cynefinoedd coetiroedd 189
H9120 Coedwigoedd ffawydd asidoffilig yr Iwerydd 190
H9130 Coedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum* 191
H9180 Coedwigoedd *Tilio-Acerion* 192
H91A0 Hen goedwigoedd derw mes di-goes 193
H91D0 Coetir corsiog 194
H91E0 Coedwigoedd llifwaddodol gyda gwern ac ynn 195
H91J0 Coetir lle mae yw yn drech 196

1. Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae’r adroddiad ar Reoliadau Cynefinoedd 9A yn cynrychioli asesiad lefel gwlad cyntaf Cymru o dan Reoliad 9A o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y’u diwygiwyd yng Nghymru). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n ymgorffori gwybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar ac adar, gan roi cyfrif cynhwysfawr o'u tueddiadau, y pwysau arnynt a mesurau cadwraeth. Mae asesiadau o gyflwr wedi'u cynnwys ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar yn unig. Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn parhau i fod wedi'i wreiddio yng Nghyfarwyddeb Cynefinoedd a Chyfarwyddeb Adar yr Undeb Ewropeaidd ac mae wedi'i ddargadw yng nghyfraith Cymru yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cam arwyddocaol, gan ddod â thystiolaeth a adroddwyd yn flaenorol ar wahân o dan Erthygl 17 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar) ac Erthygl 12 y Gyfarwyddeb Adar (ar gyfer adar) ynghyd mewn un broses integredig.

Y cyfnod adrodd ar gyfer yr asesiad hwn yw 2019–2024. Mae cyhoeddiad yr adroddiad yn cyd-fynd ag asesiadau amgylcheddol statudol eraill megis yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i ddarparu sylfaen dystiolaeth gysylltiedig ar gyfer amgylcheddau daearol, dŵr croyw a morol Cymru. Mae'r cwmpas yn cynnwys tir Cymru, dyfroedd glannau Cymru ac ardaloedd alltraeth sydd wedi'u cysylltu'n ecolegol â Chymru, gan gwmpasu holl gynefinoedd Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a rhywogaethau Atodiad II, IV a V, yn ogystal â phob rhywogaeth o adar gwyllt sy'n bresennol yng Nghymru – gan gynnwys rhywogaethau cynhenid, y rheini a restrir o dan Atodiad I ac Atodiad II y Gyfarwyddeb Adar, ac adar mudol sy’n bresennol yn rheolaidd. Er bod y gydran alltraeth yn destun adrodd ar wahân gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, mae gwybodaeth berthnasol wedi'i hymgorffori yma i roi cyd-destun.

Y fethodoleg ar gyfer asesu statws cadwraethol ffafriol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar

Mae asesiadau o statws cadwraethol ffafriol yn dilyn y dull gweithredu ar gyfer y DU gyfan a nodir yn nogfen dull y DU a gynhelir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, gan sicrhau cysondeb ledled y DU. Lluniwyd mapiau dosbarthiad a gwasgariad gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael, gan ddefnyddio data o raglenni monitro Cyfoeth Naturiol Cymru, asiantaethau partner, cyrff anllywodraethol, sefydliadau ymchwil, a chynlluniau gwyddoniaeth dinasyddion. Asesir statws cadwraethol ffafriol ar gyfer pob cynefin Atodiad I a rhywogaeth Atodiad II, IV a V (heb gynnwys adar) gan ddefnyddio paramedrau megis gwasgariad, ardal, strwythur a swyddogaethau, a rhagolygon y dyfodol ar gyfer cynefinoedd, a phoblogaeth, gwasgariad, cynefin, a rhagolygon y dyfodol ar gyfer rhywogaethau. Caiff pob paramedr ei werthuso fel naill ai ffafriol, anffafriol–annigonol, anffafriol–drwg, neu anhysbys, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd. Defnyddir gwerthoedd cyfeirio ffafriol fel meincnodau ar gyfer y maint lleiaf o ran gwasgariad naturiol, arwynebedd neu boblogaeth sy'n ofynnol i gynefin neu rywogaeth gael ei hystyried yn iach ac yn gynaliadwy. Ar gyfer y cylch adrodd hwn, fe adolygwyd ac addaswyd gwerthoedd cyfeirio ffafriol i adlewyrchu

amgylchiadau Cymru lle bo angen, gan sicrhau bod yr asesiadau'n berthnasol i Gymru.

Crynodeb o statws cadwraethol ffafriol cynefinoedd Cymru, y pwysau arnynt a mesurau cadwraeth

O'r 61 o gynefinoedd a aseswyd yng Nghymru, fe ganfuwyd bod dim ond dau ohonynt oedd mewn cyflwr ffafriol, a bod gan y ddau gynefin hyn dueddiadau sefydlog. Aseswyd bod naw cynefin yn anffafriol–annigonol, gyda chymysgedd o dueddiadau sy'n gwella, sy’n sefydlog, sy’n dirywio neu sy’n anhysbys. Roedd y mwyafrif – 48 o gynefinoedd – mewn cyflwr anffafriol–drwg, gyda'r mwyafrif yn arddangos tueddiadau sefydlog, dirywiol neu anhysbys. Llygredd o ffynonellau cymysg oedd y pwysau safle uchel a chanolig mwyaf cyffredin, gan effeithio ar 55 o gynefinoedd, ac roedd yn parhau i fod y mwyaf arwyddocaol hyd yn oed wrth ystyried pwysau safle uchel yn unig. Roedd arferion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth hefyd yn bwysau mawr, gan effeithio ar 52 o gynefinoedd, yn enwedig rhosydd, gwlyptiroedd, glaswelltiroedd, ucheldiroedd a chynefinoedd dŵr croyw. Roedd newid hinsawdd, datblygu trefol a seilwaith, a rhywogaethau estron a rhai sy’n peri problemau hefyd yn bwysau cyffredin ar draws y gwahanol fathau o gynefinoedd. Mesurau cadwraeth yn ymwneud ag amaethyddiaeth oedd y rhai mwyaf cyffredin, gyda 53 o gynefinoedd â mesurau o'r fath ar waith, ac yna mesurau sy'n mynd i'r afael â llygredd o ffynonellau cymysg a newidiadau a achosir gan ddyn mewn cyflyrau hydrolig.

Crynodeb o statws cadwraethol ffafriol rhywogaethau nad ydynt yn adar yng Nghymru, y pwysau arnynt a mesurau cadwraeth

Ymhlith y 53 o rywogaethau daearol nad ydynt yn adar a aseswyd, fe ganfuwyd bod 14 mewn cyflwr ffafriol, gyda dau yn dangos tueddiadau sy’n gwella a'r gweddill yn sefydlog. Roedd deunaw rhywogaeth mewn cyflwr anffafriol–annigonol, gyda chymysgedd o dueddiadau sy'n gwella, sy’n sefydlog, sy’n dirywio neu sy’n anhysbys. Roedd 16 rhywogaeth mewn cyflwr anffafriol–drwg, gyda'r mwyafrif yn arddangos tueddiadau dirywiol. Ni ellid pennu statws pum rhywogaeth oherwydd diffyg data.

O'r 12 rhywogaeth forol anghrwydrol sy'n byw yn nyfroedd Cymru, fe ganfuwyd bod pedwar mewn cyflwr ffafriol â thueddiadau sefydlog. Aseswyd dwy rywogaeth fel rhai anffafriol–annigonol; roed un ohonynt yn sefydlog ac un â thuedd anhysbys. Roedd un rhywogaeth mewn cyflwr anffafriol–drwg ac yn cael ei hystyried yn sefydlog. Ni ellid pennu statws pum rhywogaeth forol oherwydd diffyg data.

Arferion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth oedd y pwysau yr adroddwyd amdanynt amlaf, gan effeithio ar 44 o rywogaethau, ac yna coedwigaeth a newid hinsawdd. Roedd datblygu trefol a seilwaith yn bwysau a oedd â safle uchel mewn perthynas ag 16 o rywogaethau. Cafodd rhywogaethau pysgod eu heffeithio arnynt yn sylweddol gan bwysau sy'n gysylltiedig â dŵr, gan gynnwys newidiadau mewn cyfundrefnau dŵr, cynhyrchu ynni a llygredd. Mesurau cadwraeth yn ymwneud ag amaethyddiaeth oedd y rheini yr adroddwyd amdanynt amlaf, ac yna mesurau coedwigaeth a seilwaith.

Crynodeb o statws cadwraethol rhywogaethau adar, tueddiadau, y pwysau arnynt a mesurau cadwraeth

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r asesiad cyntaf sy'n benodol i Gymru o statws cadwraethol a thueddiadau poblogaeth rhywogaethau adar sy'n bresennol yn rheolaidd yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar unfed adroddiad ar ddeg Erthygl 12 y DU ac yn cymhwyso dull y DU o adrodd ar boblogaethau rhywogaethau yn hytrach na rhywogaethau unigol. Aseswyd cyfanswm o 350 o boblogaethau rhywogaethau, gan gynnwys poblogaethau bridio, mudol a gaeafu. Asesodd pumed adolygiad y DU o adar o bryder cadwraethol (BoCC5) 245 o rywogaethau, gan nodi dirywiad parhaus ym mhoblogaethau adar y DU. Rhwng BoCC4 a BoCC5, symudodd 23 o rywogaethau i lefel uwch o bryder, tra mai dim ond 11 a oedd wedi gwella o ran statws. Mae asesiadau BoCC yn dangos dirywiad parhaus mewn cymunedau adar sy'n bridio mewn cynefinoedd tir ffermio, coetir ac ucheldir, yn ogystal ag mewn adar môr sy'n bridio ac adar dŵr nad ydynt yn bridio. Mae asesiadau Rhestr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) ym Mhrydain Fawr yn cefnogi'r canfyddiadau hyn. O'r 235 o rywogaethau presennol a aseswyd, roedd gan 108 (46%) o leiaf un boblogaeth mewn perygl o ddiflannu, gan gynnwys 21 mewn perygl difrifol, 41 mewn perygl a 46 dan fygythiad. Mae newidiadau nodedig yn cynnwys y rhegen fraith *Porzana porzana* a phedair rhywogaeth o adar môr yn symud o statws dan ddim bygythiad yn IUCN 1 Prydain Fawr i statws mewn perygl difrifol: pedryn drycin Leach *Oceanodroma leucorhoa*, aderyn drycin y graig *Fulmarus glacialis*, yr wylan gefnddu fwyaf *Larus marinus* a'r pâl *Fratercula arctica*. Ymhlith y rhywogaethau bridio sy'n berthnasol i Gymru a symudwyd i'r categori mewn perygl y mae tinwen y garn *Oenanthe oenanthe*, y ji-binc *Fringilla coelebs* a llinos y mynydd *Linaria flavirostris*.

Aseswyd pwysau ar gyfer pob rhywogaeth o adar gydag amcangyfrifon o'r boblogaeth. Newid hinsawdd oedd y categori pwysau mwyaf cyffredin, gan effeithio ar 48% o boblogaethau rhywogaethau a aseswyd, gan gynnwys 91% o adar môr sy'n bridio yng Nghymru. Effeithiodd gweithgareddau amaethyddol ar 68 o boblogaethau rhywogaethau, ac effeithiodd rhywogaethau estron a phroblematig ar 46 ohonynt. Nodwyd bod clefyd yn bwysau ar 46 o boblogaethau rhywogaethau, gydag 16 wedi'u dosbarthu fel rheini lle roedd effaith uchel. Adroddwyd ar fesurau cadwraeth ar gyfer 208 o boblogaethau o rywogaethau, gyda chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â seilwaith ac amaethyddiaeth yn fwyaf niferus. Er mai newid hinsawdd yw'r pwysau mwyaf cyffredin, dim ond 12 poblogaeth o rywogaethau oedd â mesurau lliniaru cysylltiedig.

Adroddiad gweithredu

Darperir yr holl wybodaeth am weithredu Rheoliadau Cynefinoedd 9A y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2019–2024 yn yr adroddiad gweithredu llawn, sydd wedi'i gynnwys fel atodiad technegol i'r adroddiad cryno hwn. Mae'r atodiad yn cyflwyno'r asesiad cyntaf ar lefel gwlad o Reoliad 9A yng Nghymru, a ddatblygwyd yng nghyd-destun ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnig trosolwg cynhwysfawr o'r camau a gymerwyd i roi effaith i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar ar draws amgylcheddau daearol, dŵr croyw a morol, gyda phwyslais arbennig ar y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth

Arbennig (AGA). Mae'r atodiad yn cynnwys ei grynodeb gweithredol ei hun ac yn gwasanaethu fel y prif ffynhonnell o dystiolaeth dechnegol a dadansoddiad, gan gwmpasu pynciau megis rheoli safleoedd, adfer cynefinoedd, adfer rhywogaethau, systemau ymchwil a monitro, ac integreiddio safleoedd gwarchodedig ag economïau a chymunedau lleol. Dylai darllenwyr sy'n chwilio am ganfyddiadau manwl, methodolegau neu dystiolaeth ategol gyfeirio'n uniongyrchol at yr atodiad technegol am gyfrif llawn.

2. Trosolwg

Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno asesiad lefel gwlad cyntaf Cymru o dan Reoliad 9A o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd yng Nghymru) ("Rheoliadau Cynefinoedd 9A"). Wedi'i baratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, mae'n dwyn ynghyd wybodaeth am gynefinoedd, rhywogaethau nad ydynt yn adar ac adar o bwysigrwydd Ewropeaidd mewn un fformat integredig – sy'n cwmpasu eu cyflwr, tueddiadau, y pwysau arnynt, a'r mesurau sydd ar waith i'w gwarchod.

Mae Rheoliad 9A yn ei gwneud yn ofynnol i adrodd yn rheolaidd ar weithredu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar (92/43/EEC a 2009/147/EC). Nod y cyfarwyddebau hyn – dau o'r offerynnau deddfwriaethol pwysicaf ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn Ewrop – yw cynnal neu adfer cynefinoedd a rhywogaethau rhestredig ar draws eu gwasgariad naturiol. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn canolbwyntio ar gyflawni statws cadwraethol ffafriol ar gyfer cynefinoedd Atodiad I a rhywogaethau Atodiad II, IV a V, tra bod y Gyfarwyddeb Adar yn ceisio sicrhau gwarchodaeth a rheolaeth gynaliadwy ar gyfer pob rhywogaeth adar gwyllt, gan gynnwys y rheini a restrir yn Atodiad I ac adar mudol sy'n bresennol yma yn rheolaidd. Rhan o ddeddfwriaeth yr UE yn wreiddiol, mae eu darpariaethau'n parhau i fod yng nghyfraith Cymru yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, ar ôl cael eu trosi'n ddeddfwriaeth ddomestig drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd.

Mewn cylchoedd adrodd blaenorol, roedd cyfraniad Cymru yn rhan o adroddiadau ar lefel y DU a gydlynwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd. Dyma'r tro cyntaf i Gymru gynhyrchu ei hadroddiad Rheoliadau Cynefinoedd 9A annibynnol ei hun, gan ddarparu cyfrif hygyrch, sy'n canolbwyntio'n fwy, o dystiolaeth, mesurau a chanlyniadau sy'n benodol i Gymru. Mae hefyd yn nodi'r tro cyntaf i wybodaeth a adroddwyd ar wahân yn flaenorol o dan Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (cynefinoedd Atodiad I a rhywogaethau Atodiad II, IV a V, heb gynnwys adar) ac Erthygl 12 o'r Gyfarwyddeb Adar (pob aderyn gwyllt) gael ei dwyn ynghyd mewn un broses adrodd gyfunol.

Y cyd-destun polisi ac adrodd ehangach

Dim ond un o ofynion adrodd amgylcheddol statudol Cymru yw adroddiad Rheoliadau Cynefinoedd 9A. O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynhyrchu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, sy'n mabwysiadu dull eang ar raddfa ecosystemau. Mae'n asesu cyflwr bioamrywiaeth a'r prif dueddiadau a ffactorau sy'n effeithio ar gyflwr adnoddau naturiol, neu'n debygol o effeithio arnynt, ac mae'n tynnu sylw at anghenion a bylchau mewn tystiolaeth, a'r

graddau y mae Cymru'n llwyddo i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Ystyriodd hefyd gyfraniad adnoddau naturiol at y nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ychwanegu maes adrodd statudol pwysig ar gyfer amgylcheddau dyfrol, gan werthuso statws ecolegol a chemegol afonydd, llynnoedd, aberoedd, dyfroedd arfordirol a dŵr daear. Gyda'i gilydd, mae'r tri adroddiad hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth gysylltiedig ar gyfer amgylcheddau daearol, dŵr croyw a morol Cymru.

Mae Rheoliadau Cynefinoedd 9A yn dilyn cylch sy'n cyd-fynd ag amserlen chwe blynedd flaenorol yr UE. Mae tystiolaeth o adroddiad Rheoliadau Cynefinoedd 9A bellach yn bwydo'n uniongyrchol i asesiad yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol o gyflwr a thueddiadau bioamrywiaeth, tra bod yr adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun amgylcheddol a pholisi ehangach ar gyfer dehongli canlyniadau Rheoliadau Cynefinoedd 9A sy'n benodol i nodweddion.

Mae'r adrodd statudol hwn yn cael ei ategu gan bolisi a strategaeth ehangach Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi uchelgeisiau strategol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu dull integredig sy'n cysylltu gwarchodaeth seiliedig ar safleoedd â chamau gweithredu ehangach ar raddfa'r dirwedd a'r morwedd, gan helpu i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a chefnogi gwydnwch ecosystemau. I gael manylion pellach, gweler yr adran ar ysgogwyr polisi yng Nghymru yn atodiadau technegol yr adroddiad gweithredu.

Cwmpas a sylw

Mae'r asesiadau yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu tir Cymru, dyfroedd glannau Cymru ac, ar gyfer cynefinoedd morol, dyfroedd alltraeth perthnasol sydd â chysylltiad ecolegol â Chymru. Er mwyn bod yn gyflawn, mae'r cydrannau alltraeth hyn wedi'u cynnwys yn asesiadau Cymru, tra bydd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur hefyd yn cynhyrchu asesiad ar wahân ar lefel y DU ar gyfer pob ardal alltraeth. Ar gyfer y ddau gynefin Atodiad I sydd â chydrannau alltraeth – H1170 Riffiau ac H1180 Strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy’n gollwng – nid yw'r casgliadau wedi newid p'un a yw ardaloedd alltraeth wedi'u cynnwys ai peidio. Mae'r dull hwn yn sicrhau darlun cydlynol o Gymru wrth alinio â'r broses ledled y DU.

Y cyfnod adrodd ar gyfer yr adroddiad hwn yw 2019–2024 ac mae'n cynnwys pob cynefin Atodiad I, pob rhywogaeth Atodiad II, IV a V, a phob poblogaeth o rywogaethau adar gwyllt sy'n digwydd yng Nghymru, gan gynnwys y rheini sy'n defnyddio dyfroedd alltraeth, fel adar môr, a rhywogaethau morol eraill.

Statws cadwraethol ffafriol, categorïau asesu a gwerthoedd cyfeirio

O dan Erthygl 1 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, diffinnir statws cadwraethol cynefin fel cyfanswm y dylanwadau sy'n gweithredu arno a'i rywogaethau nodweddiadol a all effeithio ar ei ddosbarthiad naturiol hirdymor, ei strwythur, ei swyddogaethau a'i oroesiad. Fe'i hystyrir yn ffafriol pan fydd ei wasgariad naturiol a'r ardaloedd y mae'n eu cwmpasu yn sefydlog neu'n cynyddu; mae'r strwythur a swyddogaethau penodol sy'n angenrheidiol ar gyfer ei gynnal a'i gadw yn yr hirdymor yn bodoli ac yn debygol o barhau; ac mae statws cadwraethol ei rywogaethau nodweddiadol hefyd yn ffafriol.

Ar gyfer rhywogaeth, diffinnir statws cadwraethol fel cyfanswm y dylanwadau sy'n gweithredu arni a all effeithio ar ddosbarthiad a thoreithrwydd ei phoblogaethau yn yr hirdymor. Fe'i hystyrir yn ffafriol pan fydd dynameg y boblogaeth yn dangos ei bod yn cynnal ei hun yn yr hirdymor fel elfen hyfyw o'i chynefinoedd naturiol; pan nad yw ei gwasgariad naturiol yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau hyd y gellir ei ragweld; a phan fydd digon o gynefin yn bodoli, a'i fod yn debygol o barhau i fodoli, i gynnal ei phoblogaethau yn yr hirdymor.

Yn yr adroddiad hwn, cymhwysir y diffiniadau hyn i farnu statws cadwraethol ffafriol ar gyfer pob cynefin Atodiad I a phob rhywogaeth Atodiad II, IV a V (heb gynnwys adar). Mae statws cadwraethol ffafriol yn adlewyrchu a yw cynefin neu rywogaeth mewn cyflwr iach a chynaliadwy, wedi'i asesu trwy gyfres o baramedrau ategol. Ar gyfer cynefinoedd, y paramedrau hyn yw gwasgariad, ardal, strwythur a swyddogaethau, a rhagolygon yn y dyfodol. Ar gyfer rhywogaethau nad ydynt yn adar, y rhain yw poblogaeth, gwasgariad, cynefin y rhywogaeth, a rhagolygon yn y dyfodol.

Caiff pob paramedr, a'r casgliad cyffredinol sy'n deillio o hynny, ei asesu gan ddefnyddio un o bedwar categori safonol:

- Ffafriol – mewn cyflwr da, heb unrhyw bwysau na bygythiadau sylweddol, a disgwylir iddo aros felly.
- Anffafriol–annigonol – heb fod mewn cyflwr da, ond gallai wella gyda mesurau priodol, er bod rhywfaint o bwysau neu fygythiadau yn bresennol.
- Anffafriol–drwg – mewn cyflwr gwael, yn wynebu pwysau neu fygythiadau mawr, ac mewn perygl hirdymor difrifol.
- Anhysbys – gwybodaeth annigonol i ddod i gasgliad dibynadwy.

Mae'r categorïau hyn yn dilyn diffiniadau a nodir yng nghanllawiau adrodd y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar ac fe'u cymhwysir yn gyson ar draws yr holl wledydd sy'n adrodd, gan ganiatáu cymariaethau ar raddfa'r DU ac Ewrop. Dyma'r tro cyntaf i asesiadau statws cadwraethol ffafriol gael eu cynnal yn benodol ar gyfer Cymru; mewn cylchoedd adrodd Erthygl 17 blaenorol, cynhyrchwyd asesiadau ar lefel y DU, felly nid oes cymhariaeth uniongyrchol â chanlyniadau cynharach.

Lle bo modd, darperir tueddiadau hefyd ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar, gan ddangos a yw eu statws yn gwella, yn dirywio neu'n sefydlog. Darperir rhagor o fanylion am y dulliau, y meini prawf asesu a'r ffynonellau data yn nogfen dull y DU a gynhelir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, sy'n nodi'r fethodoleg gyffredin a ddefnyddir ar draws pedair gwlad y DU.

Rhan allweddol o asesu statws cadwraethol ffafriol yw defnyddio gwerthoedd cyfeirio ffafriol. Mae'r rhain yn gosod y meincnod ar gyfer y maint lleiaf o ran gwasgariad naturiol (gwasgariad cyfeirio ffafriol), arwynebedd (arwynebedd cyfeirio ffafriol) neu boblogaeth (poblogaeth gyfeirio ffafriol) sy'n ofynnol er mwyn ystyried cynefin neu rywogaeth i fod mewn cyflwr iach a chynaliadwy. Trothwyon hirdymor yw gwerthoedd cyfeirio ffafriol y mae amodau cyfredol yn cael eu cymharu yn eu herbyn, gan

ddarparu pwynt cyfeirio ar gyfer dehongli canlyniadau asesiadau a nodi graddfa unrhyw ddiffyg.

Ar gyfer y cylch adrodd hwn, y man cychwyn ar gyfer pob gwerth cyfeirio ffafriol oedd y gwerth diweddaraf ar lefel y DU a sefydlwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Datblygwyd y gwerthoedd hyn gan ddefnyddio proses trywydd archwilio sy'n cofnodi pryd y gosodwyd y gwerth cyfeirio ffafriol gyntaf, y dystiolaeth a ddefnyddiwyd, ac unrhyw ddiwygiadau dilynol. Mae'r broses yn manteisio ar ddata a barn arbenigol o gylchoedd adrodd Erthygl 17 blaenorol (2007, 2013 a 2019) a'r sail resymegol a ddefnyddiwyd ym mhroses adrodd 2019.

Adolygwyd pob gwerth cyfeirio ffafriol ar lefel y DU, a ddiffinnir fel gweithredwr (e.e. ystod ganrannol yn hytrach na gwerth absoliwt), gan arbenigwyr o Gymru i asesu pa mor addas ydynt yng nghyd-destun maint, dosbarthiad, tueddiadau poblogaeth, pwysau a nodweddion ecolegol presennol Cymru ar gyfer pob nodwedd. Mewn llawer o achosion, ystyriwyd bod y gwerth cyfeirio ffafriol ar lefel y DU yn briodol ac mae wedi'i fabwysiadu'n uniongyrchol ar gyfer Cymru, yn enwedig lle roedd tystiolaeth yn dangos bod tueddiadau ac amodau ecolegol yng Nghymru yn alinio â'r rheini ar lefel y DU. Lle nad oedd y gwerth cyfeirio ffafriol ar lefel y DU yn gynrychioliadol o amodau Cymru, fe ddatblygwyd gwerth penodol i Gymru gan ddefnyddio tystiolaeth ar raddfa genedlaethol ar gyflwr cynefinoedd, tueddiadau, a phoblogaeth a dosbarthiad rhywogaethau.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod gwerthoedd cyfeirio ffafriol Cymru yn adlewyrchu amgylchiadau lleol yn hytrach na dim ond dyblygu ffigur y DU, gan ganiatáu ar gyfer addasiadau lle mae sefyllfa Cymru yn wahanol – er enghraifft, er mwyn cydnabod ystodau sefydlog neu ddigyfnewid ar gyfer rhai nodweddion, neu i dynnu sylw at berygl difodiant uwch ar gyfer poblogaethau sydd dan fwy o fygythiad yng Nghymru nag mewn mannau eraill yn y DU.

Statws a thueddiadau rhywogaethau adar

Mae adroddiad adar cyntaf Cymru o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn dilyn yn fras y fformat a sefydlwyd gan yr unfed adroddiad ar ddeg o dan Erthygl 12, a roddodd bwyslais ar adrodd ar statws a thueddiadau rhywogaethau adar y DU. Yn y cylch adrodd hwn, o dan Reoliad 9A o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd yng Nghymru), darperir adroddiadau ar adar ar raddfa Cymru.

Mae'r rhestr o rywogaethau adar gwyllt sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad adar y Rheoliadau Cynefinoedd yn seiliedig yn bennaf ar y rheini sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad Erthygl 12 y DU 2019. Mae'r holl rywogaethau a gwmpesir gan Erthygl 12 yn rhywogaethau bridio sy'n bresennol yn rheolaidd neu'n rhywogaethau mudol sy'n bresennol yn rheolaidd. Diwygiwyd rhestr Erthygl 12 er mwyn sicrhau bod y rhywogaethau a'r isrywogaethau mwyaf perthnasol yn y DU wedi'u cynnwys. Gall rhywogaethau adar sy'n ymweld â'r DU i fridio fod yn wahanol i'r rheini sy'n treulio'r gaeaf yma ac sydd wedi bridio mewn mannau eraill, felly dilynwyd dull Erthygl 12 o adrodd ar wahân ar 'boblogaethau rhywogaethau' yn hytrach nag ar rywogaethau unigol yn unig. Mae poblogaeth rhywogaeth yn dynodi rhywogaeth neu isrywogaeth yn ystod y tymor bridio, wrth deithio neu yn ystod y gaeaf.

Nid yw'r cysyniad o statws cadwraethol ffafriol, a ddefnyddir i asesu statws cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn rhan o adrodd ar y Gyfarwyddeb Adar. Mae fformat a gofynion penodol adroddiadau rhywogaethau'r Gyfarwyddeb Adar wedi'u nodi mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yn hytrach, mae asesiadau ar gyfer rhywogaethau adar yn canolbwyntio ar faint y boblogaeth, ei dosbarthiad, a thueddiadau ar ei chyfer. Yn ogystal, bydd yr adroddiad hwn yn ymdrin â newidiadau mewn metrigau adrodd allweddol: dosbarthiad, pwysau, mesurau cadwraeth, gwybodaeth am Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (maint a thuedd y boblogaeth), cynlluniau gweithredu / cynlluniau rheoli rhyngwladol ar gyfer rhywogaethau, a chyfansymiau bagiau hela. Pennir amcangyfrifon a thueddiadau poblogaeth ar raddfa'r DU, gyda chanlyniadau sy'n berthnasol i Gymru yn cael eu cyflwyno. Darperir y datganiad dull ar gyfer yr holl fetrigau adrodd sy'n gysylltiedig ag adar yn y ddogfen dull.

Pwysau, mesurau cadwraeth, a rhagolygon yn y dyfodol

Fel rhan o bob asesiad – gan gynnwys y rheini sy'n ymdrin ag adar, cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar – rydym yn nodi'r prif bwysau sy'n effeithio arnynt ar hyn o bryd, ynghyd â'r mesurau cadwraeth sydd ar waith, neu y mae eu hangen, i fynd i'r afael â'r pwysau hyn.

Gweithgareddau neu ddylanwadau sy'n effeithio ar hyfywedd hirdymor cynefin neu rywogaeth yw pwysau. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, arferion amaethyddol, echdynnu adnoddau, llygredd, neu newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae pob math o bwysau wedi'i restru yn ôl yr effaith y mae'n ei chael (uchel, canolig neu isel) a'i gategoreiddio fel yn y gorffennol, yn mynd rhagddynt, neu'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Er y gellir grwpio pwysau o dan themâu eang megis "amaethyddiaeth" neu "newid hinsawdd", mae'r asesiadau'n cofnodi'r pwysau penodol sy'n berthnasol i bob nodwedd. At ddibenion adrodd, dim ond pwysau canolig ac uchel sydd wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad ffurfiol ar gyfer rhywogaethau nad ydynt yn adar a chynefinoedd, gyda phwysau isel yn cael eu defnyddio fel cyfeirnod mewnol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, ar gyfer nodweddion adar, adroddir ar bwysau isel, canolig ac uchel i gyd.

Mesurau cadwraeth yw'r camau y mae eu hangen i gynnal neu adfer nodwedd i statws cadwraethol ffafriol. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, adfer cynefinoedd, newidiadau mewn rheoli tir, neu fesurau i leihau aflonyddwch. Ar gyfer pob nodwedd, rydym yn asesu a oes angen mesurau cadwraeth, a ydynt wedi'u rhoi ar waith, a pha mor effeithiol y disgwylir iddynt fod yn y 12 mlynedd nesaf. Mae mesurau hefyd wedi'u grwpio o dan themâu eang, ond wedi'u dewis yn benodol ar gyfer pob nodwedd yn seiliedig ar y pwysau a nodwyd.

Mae rhagolygon y dyfodol yn adlewyrchu trywydd disgwyliedig y newid yn statws cadwraethol cynefin neu rywogaeth dros y 12 mlynedd nesaf (sy'n cwmpasu'r ddau gyfnod adrodd ar ôl yr un cyfredol, hyd at 2035). Mae'r asesiad hwn yn cyfuno statws cyfredol pob paramedr (megis gwasgariad, poblogaeth, ansawdd cynefin, neu strwythur a swyddogaethau) â'r cydbwysedd rhwng pwysau parhaus, bygythiadau y disgwylir yn y dyfodol, a'r mesurau cadwraeth sy'n cael eu cymryd neu sydd yn yr arfaeth. Caiff rhagolygon y dyfodol eu dynodi fel da, gwael, drwg neu anhysbys.

Yn y modd hwn, nid yn unig y caiff pwysau a mesurau cadwraeth eu hadrodd amdanynt yn eu rhinwedd eu hunain, ond maent yn llywio'n uniongyrchol y rhagamcan ynghylch a ddisgwylir i gyflwr nodwedd wella, dirywio neu aros yn sefydlog yn y dyfodol hyd y gellir ei ragweld. Darperir manylion llawn y diffiniadau, y meini prawf graddio a'r rheolau penderfynu a ddefnyddir yn yr asesiadau hyn yn nogfen dull y DU a gynhelir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

Methodoleg

Mae'r dulliau a ddefnyddir ar gyfer yr asesiadau hyn yn dilyn y dull y cytunwyd arno ar draws y DU a nodir yn nogfen dull y DU a gynhelir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion llawn am sut mae pob maes yn y ffurflenni asesu yn cael ei gwblhau, sut mae gwahanol fathau o dystiolaeth yn cael eu cyfuno a'u dehongli, a sut y deuir i gasgliadau ar statws a thueddiadau cadwraethol. Mae hefyd yn disgrifio'r rheolau penderfynu, y trothwyon a'r diffiniadau a ddefnyddir i sicrhau cysondeb ledled y DU, ac yn cofnodi lle mae dulliau'n wahanol rhwng pedair gwlad y DU – er enghraifft, wrth drin asesiadau o ddyddodiad nitrogen neu ddewis rhywogaethau nodweddiadol.

Rhan allweddol o'r broses asesu yw defnyddio mapiau i ddangos dosbarthiad a gwasgariad. Lluniwyd mapiau dosbarthiad ar raddfa sgwâr 10 x 10 cilometr gan arbenigwyr, gan ddefnyddio'r ffynonellau data a ddisgrifir yn yr adran *Ffynonellau Data ac Ansawdd*. Mae'r mapiau hyn yn dangos presenoldeb pob cynefin neu rywogaeth yng Nghymru y gwyddys amdani. Ar gyfer y mwyaf o'r nodweddion daearol a dŵr croyw, cafodd mapiau gwasgariad eu deillio wedyn o'r setiau data dosbarthiad hyn gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar ein rhan, gan ddilyn y dulliau a ddisgrifir yn y ddogfen dull. Ar gyfer cynefinoedd morol, ni chynhyrchir map gwasgariad ychwanegol – defnyddir yr un sgwariau 10 x 10 cilometr a ddangosir ar gyfer dosbarthiad i gynrychioli gwasgariad hefyd. Mae'r holl fapiau yn adlewyrchu'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer y cyfnod adrodd a'r dulliau mapio y cytunwyd arnynt a nodir yn y ddogfen dull.

Dyma'r asesiad cyntaf o Reoliadau Cynefinoedd 9A ar lefel Cymru, gan symud o adrodd ar lefel y DU yn flaenorol i ddull penodol i bob wlad. Er bod y fframwaith yn parhau i fod yn gyson â dogfen dull y DU ac adroddiadau blaenorol o dan Erthygl 17 ac Erthygl 12, bu rhai diweddariadau nodedig i ddulliau a chanllawiau ers cylch 2019. Mae'r rhain yn cynnwys rhestr estynedig a diwygiedig o bwysau, rhestr wedi'i diweddaru ac wedi'i haildrefnu o fesurau cadwraeth, a lefelau critigol diwygiedig ar gyfer asesiadau o ddyddodiad nitrogen i adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf. Yn ogystal, gwnaed sawl addasiad llai i ddiffiniadau, trothwyon a rheolau ynghylch gwneud penderfyniadau. Gall y newidiadau hyn ddylanwadu ar rai canlyniadau o'u cymharu â chylchoedd blaenorol, a darperir manylion llawn yn nogfen dull y DU a gynhelir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

Ffynonellau data ac adnoddau

Daw'r dystiolaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys rhaglenni monitro Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun, arolygon asiantaethau partner a chyrff anllywodraethol, setiau data sefydliadau ymchwil, a chynlluniau gwyddoniaeth dinasyddion a gefnogir gan rwydweithiau o wirfoddolwyr. Mae'r holl ddata wedi bod yn destun ymarfer sicrhau ansawdd ac adolygiad gan arbenigwyr er mwyn sicrhau cysondeb â safonau adrodd y cytunwyd arnynt. Mae ffactorau allanol

wedi effeithio ar argaeledd data ar gyfer y cylch adrodd hwn: cyfyngodd cyfyngiadau COVID-19 ar gyfleoedd gwaith maes ac arolygu yn ystod rhannau o'r cyfnod adrodd, gan arwain at lai o ddata ar gyfer rhai nodweddion; yn yr un modd, effeithiodd effaith ffliw adar ar boblogaethau adar gwyllt ar faint a dibynadwyedd y data oedd ar gael ar gyfer rhai rhywogaethau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiolchgar i'r holl sefydliadau, cyrff ymchwil ac unigolion a gyfrannodd ddata, gan gydnabod eu hymrwymiad parhaus i waith monitro er gwaethaf yr heriau hyn. Mae hyn yn cynnwys cyfraniadau contractwr allanol, a gynhaliodd asesiadau ar gyfer nodweddion dethol ac a roddodd fewnbwn arbenigol i'r sylfaen dystiolaeth. Cafwyd cytundeb y darparwyr data i ddefnyddio'r holl setiau data, a chydnabyddir eu cyfraniadau'n llawn yn adrannau perthnasol yr adroddiad.

Ar gyfer y mwyafrif o'r nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau a aseswyd yn yr adroddiad hwn, mae o leiaf rhywfaint o dystiolaeth newydd wedi'i hymgorffori amdanynt ers y cylch adrodd blaenorol. Fodd bynnag, oherwydd absenoldeb arbenigwr ucheldir o Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cyfnod hwn, nid ychwanegwyd unrhyw ddata newydd at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y nodweddion ucheldir canlynol: H8110 Sgri silicaidd ar y lefelau mynyddig i eira (*Androsacetalia alpinae* a *Galeopsietalia ladani*), H8120 Sgri calchaidd a chalch-sgistaidd ar y lefelau mynyddig i alpaidd (*Thlaspietea rotundifolii*), H8210 Llethrau creigiog calchaidd â llystyfiant casmoffytaidd, H8220 Llethrau creigiog silicaidd â llystyfiant casmoffytaidd, ac H8310 Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd. Ar gyfer y nodweddion hyn, mae'r asesiadau'n seiliedig ar dystiolaeth o gylch adrodd 2013–2018, a ddygwyd ymlaen heb ddata newydd ychwanegol. Er nad ychwanegwyd unrhyw dystiolaeth newydd, adolygwyd yr wybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyson â'r fformat adrodd cyfredol ac yn cyd-fynd ag unrhyw ddiweddariadau perthnasol i ddulliau neu ddosbarthiad.

Ar gyfer poblogaethau o adar gwyllt, mae'r prif ffynonellau data fwy neu lai yr un fath ag adroddiadau adar Erthygl 12 blaenorol ac fe'u disgrifir yn fanwl yn y ddogfen dull.

Rhywogaethau crwydrol

Mewn adroddiadau Erthygl 17 blaenorol ar lefel y DU, mae rhywogaethau penodol sy'n bresennol o bryd i'w gilydd yn unig o fewn dyfroedd neu diriogaeth y DU – a elwir yn grwydriaid – wedi'u cynnwys er mwyn bodloni canllawiau adrodd yr UE. O dan ganllawiau'r UE yn y gorffennol ac yn y presennol, rhywogaethau crwydrol yw rhywogaethau nad ydynt yn bresennol yn sefydlog nac yn rheolaidd mewn rhanbarth. Adroddir am y rhain er mwyn sicrhau bod asesiad bioddaearyddol yr UE yn adlewyrchu gwasgariad Ewropeaidd llawn y rhywogaeth, hyd yn oed os mai dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael ac nad oes modd asesu statws cadwraethol llawn. Ar gyfer adroddiad Rheoliadau Cynefinoedd 2025, bydd y DU yn parhau i adrodd ar chwe rhywogaeth ddaearol ac 14 rhywogaeth forol grwydrol ar lefel y DU. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu hasesu yn yr adroddiad lefel Cymru hwn gan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer presenoldeb rheolaidd yma. Mae rhywogaethau crwydrol daearol ar restr bresennol y DU yn cynnwys y styrsiwn (*Acipenser sturio*), yr ystlum gogleddol (*Eptesicus nilssonii*), yr ystlum pwll (*Myotis dasycneme*), ystlum Geoffroy (*Myotis emarginatus*), yr ystlum clustlydan (*Myotis myotis*), yr ystlum deuliw (*Vespertilio murinus*) ac ystlum lleiaf Kuhl (*Pipistrellus kuhlii*). Ar gyfer rhywogaethau crwydrol morol, mae asesiadau wedi'u cynnal ar lefel y

DU, ac mae'r dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer y rhain wedi'i chynnwys yn yr atodiadau technegol i'r adroddiad hwn.

Rhywogaethau y tu allan i’r cwmpas adrodd cyfredol

Nid yw'r afanc (*Castor fiber*) wedi'i gynnwys yn asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd 9A ar lefel Cymru ar gyfer y cylch adrodd hwn. Ar yr adeg y paratowyd yr asesiadau, nid oedd gan afancod amddiffyniad cyfreithiol ffurfiol yng Nghymru, ac felly nid oeddent yn ddarostyngedig i ofynion adrodd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o geisio ychwanegu'r afanc at Atodlen 2 y rheoliadau, a fyddai'n darparu'r warchodaeth hon. Oherwydd nad oes unrhyw newid deddfwriaethol wedi digwydd yn ystod y cyfnod adrodd, nid yw'r rhywogaeth hon wedi'i hasesu y tro hwn.

Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad Rheoliadau Cynefinoedd Cymru 9A hwn wedi'i drefnu i adlewyrchu gofynion statudol Rheoliad 9A a'r fframwaith adrodd sefydledig ar gyfer y DU/UE a ddefnyddiwyd yng nghylchoedd adrodd blaenorol Erthygl 17 (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) ac Erthygl 12 (y Gyfarwyddeb Adar).

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau asesiadau 2019–2024 ar ffurf gryno a manwl. Mae’r cydrannau yn yr **Adroddiad Cryno Cymru hwn ar Reoliadau Cynefinoedd 9A** fel a ganlyn:

- Crynodeb o ganlyniadau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar
- Statws a thueddiadau rhywogaethau adar
- Crynodebau un dudalen ar gyfer pob nodwedd yr adroddwyd amdani (cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar)

I gefnogi a darparu rhagor o fanylion, mae’r atodiadau technegol canlynol yn cyd-fynd â'r adroddiad hwn:

- **Adroddiad Gweithredu Rheoliadau Cynefinoedd 9A**

Mae'r atodiad hwn yn cyfuno'r Adroddiad Gweithredu Cyffredinol a'r Adroddiad Cyffredinol ar Adar, a gyflwynwyd ar wahân yn ystod cylchoedd adrodd cynharach. Mae'n cadw'r un lefel o fanylder ac yn darparu cyd-destun hanfodol ar gyfer yr asesiadau lefel nodwedd.

Mae'r adroddiad gweithredu cyfun yn rhoi trosolwg o sut mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a’r Gyfarwyddeb Adar yn cael eu cymhwyso yng Nghymru. Mae'n cwmpasu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi, dynodi a rheoli safleoedd gwarchodedig, a mesurau ehangach sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion y gyfarwyddeb. Mae hefyd yn crynhoi’r amddiffyniad cyfreithiol i adar a chamau cadwraeth allweddol ar gyfer poblogaethau adar yng Nghymru. Mae'r atodiad technegol hwn yn gosod y cyd-destun polisi a rheolaeth ar gyfer yr asesiadau a gyflwynir yn y prif adroddiad cryno.

- **Methodoleg**

Dogfen dull ar gyfer y DU a gynhelir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, yn manylu ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod y cylch adrodd hwn.

- **Data cynefinoedd**
  - Dogfennau tystiolaeth unigol ar gyfer 61 o gynefinoedd
  - Data gwybodaeth ategol ar gynefinoedd Cymru
  - Casgliadau ynghylch cynefinoedd Cymru

- **Data rhywogaethau nad ydynt yn adar**
  - Dogfennau tystiolaeth unigol ar gyfer 53 o rywogaethau nad ydynt yn adar
  - Data gwybodaeth ategol am rywogaethau nad ydynt yn adar yng Nghymru
  - Casgliadau ynghylch rhywogaethau nad ydynt yn adar yng Nghymru

- **Data rhywogaethau morol**
  - Dogfennau tystiolaeth unigol ar gyfer 27 o rywogaethau morol ar lefel y DU a lefel yr uned rheoli morol berthnasol (gan gynnwys 14 o rywogaethau morol crwydrol yn nyfroedd Cymru)
  - Data gwybodaeth ategol rhywogaethau morol y DU a'r uned reoli
  - Casgliadau ynghylch rhywogaethau morol y DU a'r uned reoli

- **Data adar**
  - Amcangyfrifon o boblogaethau a thueddiadau
  - Newidiadau yn statws cadwraethol y DU (BoCC) a pherygl difodiant ym Mhrydain Fawr (IUCN) ar gyfer poblogaethau a rhywogaethau
  - Pwysau
  - Mesurau cadwraeth
  - Cyfran poblogaeth rhywogaeth o fewn rhwydwaith Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) y DU
  - Cynlluniau gweithredu rhywogaethau

- **Newid ym meddiannaeth bridio adar môr**

- **Asesiadau gildiau adar**

Ar gyfer tri gild adar (adar môr sy'n bridio, adar dŵr sy'n bridio ac adar coetir), mae crynodebau manwl wedi'u cynhyrchu ar y sail bod gan Gymru boblogaethau o bwys rhyngwladol neu gyfrannau sylweddol o boblogaethau'r DU. Nid oes gan y gildiau eraill (adar hirgoes sy'n bridio, adar tir ffermio ac adar yr ucheldir) grynodebau manwl, ond cânt eu trafod yn yr adran adar yn yr adroddiad cryno Rheoliadau Cynefinoedd 9A hwn.

Mae'r strwythur hwn yn sicrhau bod y prif adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth gryno tra bod yr atodiadau technegol yn darparu cyd-destun manwl, cefndir polisi, a mynediad uniongyrchol at y setiau data llawn sy'n sail i'r asesiadau.

3. Crynodeb o ganlyniadau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn adar

Er hwylustod cyflwyno a dehongli, mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau nad ydynt yn adar yr adroddwyd amdanynt o dan Reoliadau Cynefinoedd 9A wedi'u grwpio i gategorïau ecolegol eang. Mae'r grwpiau hyn yn helpu i grynhoi patrymau a thueddiadau ar draws nodweddion cysylltiedig wrth gydnabod bod gan bob cynefin Atodiad I a rhywogaeth Atodiad II, IV neu V ei gofynion ecolegol a'i hanghenion cadwraeth penodol ei hun.

Ar gyfer rhywogaethau, y grwpiau a ddefnyddir yw ystlumod, pysgod, molysgiaid, planhigion anfasgwlaidd (fel bryoffytau a chennau), anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill, mamaliaid eraill, a phlanhigion fasgwlaidd. Ar gyfer cynefinoedd, y grwpiau a ddefnyddir yw arfordirol a thwyni, dŵr croyw, glaswelltiroedd, rhosydd, morol, ucheldiroedd, gwlyptiroedd a choetiroedd.

Mae'n bwysig nodi bod rhai cynefinoedd – yn enwedig yn yr amgylchedd morol ac arfordirol – ar bwys ei gilydd neu'n gorgyffwrdd yn naturiol. Er enghraifft, gellir dod o hyd i fflatiau llaid a fflatiau tywod o fewn aberoedd, gall morfa heli ymylu ardaloedd aberol ac ardaloedd arfordirol, a gall systemau twyni droi'n raddol yn laswelltir arfordirol. Er bod y rhain yn cael eu cyflwyno fel unedau adrodd ar wahân, dylid cofio gorgyffwrdd o'r fath wrth ddehongli mapiau, ffigurau a chanlyniadau cryno.

Mae mamaliaid morol a chrwbanod yn elfennau pwysig o fioamrywiaeth forol Cymru. Rydym wedi darparu crynodebau ar gyfer tair rhywogaeth o famaliaid morol (y dolffin trwyn potel (*Tursiops truncatus*), y llamhidydd (*Phocoena phocoena*) a'r morlo llwyd (*Halichoerus grypus*)) sy'n gyffredin yn nyfroedd Cymru. Mae gan y dolffin trwyn potel a'r llamhidydd unedau rheoli rhanbarthol hefyd. Ni wnaed unrhyw asesiad na chrynodeb ar lefel Cymru ar gyfer rhywogaethau mamaliaid morol a chrwbanod cyffredin neu brin eraill a geir fel arfer yng Nghymru (gweler yr adran ar rywogaethau morol am fanylion), oherwydd bod eu poblogaethau a'u statws cadwraethol yn cael eu hasesu'n well ar raddfa ofodol ehangach y DU. Nid ystyrir ymhellach rywogaethau eraill o famaliaid morol a chrwbanod sy'n cael eu hystyried yn rhywogaethau crwydrol yn nyfroedd Cymru (gweler yr adran ar rywogaethau morol am fanylion), ond mae eu hasesiadau rhywogaethau manwl ar gael ar lefel y DU yn yr atodiadau technegol.

3.1 Crynodeb o'r casgliadau

Darperir crynodeb o'r casgliadau cyffredinol a'r goleddfwyr a gynhwysir yn yr adroddiad Rheoliadau Cynefinoedd 9A cyntaf hwn ar gyfer Cymru yn Nhabl 3.1. Mae'r crynodeb hefyd ar gael yn yr atodiadau technegol ar gyfer casgliadau ynghlych rhywogaethau nad ydynt yn adar, casgliadau ynghylch cynefinoedd a chasgliadau ynghylch rhywogaethau morol.

Tabl 3.1 Crynodeb o'r casgliadau a'r goleddfwyr a gyrhaeddwyd ar gyfer pob cynefin a rhywogaeth a gynhwysir yn adroddiad cyntaf Rheoliadau Cynefinoedd 9A ar gyfer Cymru.

Statws a thueddiad cadwraeth cyffredinol	Rhywogaethau	Rhywogaethau morol	Cynefinoedd
Ffafriol–gwella	2	0	0
Ffafriol–sefydlog	12	4	2
Ffafriol–dirywio	0	0	0
Ffafriol–anhysbys	0	0	0
Cyfanswm ffafriol	**14**	**4**	**2**
Annigonol–gwella	1	0	1
Annigonol–sefydlog	7	1	4
Annigonol–dirywio	8	0	1
Annigonol–anhysbys	2	1	3
Cyfanswm anffafriol-annigonol	**18**	**2**	**9**
Drwg–gwella	2	0	0
Drwg–sefydlog	1	1	12
Drwg–dirywio	12	0	15
Drwg–anhysbys	1	0	21
Cyfanswm anffafriol–drwg	**16**	**1**	**48**
Anhysbys	5	5	2
Cyfanswm anhysbys	**5**	**5**	**2**
Cyfanswm llawn	**53**	**12**	**61**

Casgliadau rhywogaethau

O'r 53 rhywogaeth ddaearol a aseswyd yng Nghymru (Ffigur 3.1), canfuwyd bod 14 mewn cyflwr ffafriol. Ymhlith y rhain, fe ddangosodd dwy rywogaeth dueddiadau sy’n gwella, tra ystyriwyd bod y 12 sy'n weddill yn sefydlog. Aseswyd bod 18 rhywogaeth arall mewn cyflwr anffafriol–annigonol. O'r rhain, roedd un rhywogaeth yn dangos tueddiad sy’n gwella, roedd saith yn sefydlog, roedd wyth yn dirywio, ac roedd gan ddwy dueddiadau nad oedd modd pennu eu statws. Canfuwyd bod 16 rhywogaeth mewn cyflwr anffafriol–drwg, roedd dau yn dangos tueddiadau sy’n gwella, roedd un yn cael ei hystyried yn sefydlog, un yn anhysbys ac roedd y 12 sy'n weddill i gyd yn dangos tueddiadau sy’n dirywio. Ni ellid pennu statws pum rhywogaeth oherwydd diffyg data. I ddod o hyd i fanylion llawn y casgliadau a ddaethpwyd iddynt ar gyfer rhywogaethau yng Nghymru, gweler Tabl 3.2.

O'r 12 rhywogaeth forol nad ydynt yn grwydrol sy'n bresennol yn nyfroedd Cymru, fe ganfuwyd bod pedwar mewn cyflwr ffafriol ac ystyrir bod eu tuedd yn sefydlog. Aseswyd bod dwy rywogaeth arall mewn cyflwr anffafriol–annigonol. O'r rhain, roedd un rhywogaeth yn dangos tuedd sefydlog ac roedd gan un duedd nad oedd modd pennu ei statws. Canfuwyd bod un rhywogaeth mewn cyflwr anffafriol–drwg, ac fe'i hystyriwyd yn sefydlog. Nid oedd modd pennu statws pum rhywogaeth oherwydd diffyg data. I ddod o hyd i fanylion llawn y casgliadau a ddaethpwyd iddynt ar gyfer rhywogaethau morol yng Nghymru, gweler Tabl 3.3.

Ffigur 3.1 Statws cadwraeth cyffredinol rhywogaethau nad ydynt yn adar yng Nghymru heb gynnwys rhywogaethau morol (adroddiadau 2019–2024). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 3.2 Statws cadwraeth cyffredinol rhywogaethau yng Nghymru wedi'i rannu yn ôl grŵp rhywogaethau, heb gynnwys rhywogaethau morol (adroddiadau 2019–2024). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Tabl 3.2 Asesiad statws cadwraethol ffafriol yn ôl rhywogaethau nad ydynt yn adar yn dangos statws (ffafriol (FV), anffafriol–annigonol (U1), anffafriol–drwg (U2), anhysbys (XX)) a thueddiadau (yn gwella (+), yn dirywio (-), anhysbys (x), yn sefydlog (=)). Darparwyd statws a thuedd gyffredinol o adroddiad Erthygl 17 2019 er gwybodaeth. Sylwer, fodd bynnag, bod y gwerthoedd hynny ar gyfer y DU gyfan. Heb gynnwys rhywogaethau morol.

Grŵp	Cod y rhywo-gaeth	Enw cyffredin	Statws cyffredinol (Cymru) 2025	Tuedd gyffredinol (Cymru) 2025	Statws cyffredinol (DU) 2019	Tuedd gyffredinol (DU) 2019	Gwasgariad (Cymru) 2025	Poblogaeth (Cymru) 2025	Cynefin ar gyfer y rhywogaeth (Cymru) 2025	Rhagolygon ar gyfer y dyfodol (Cymru) 2025
Amffibiaid ac ymlusgiaid	S1166	Madfall ddŵr gribog	U1	-	U1	-	FV	U1	XX	XX
Amffibiaid ac ymlusgiaid	S1213	Broga	FV	=	FV	=	FV	FV	FV	FV
Amffibiaid ac ymlusgiaid	S1261	Madfall y tywod	U1	+	U1	+	U1	U1	FV	U1
Amffibiaid ac ymlusgiaid	S6284	Llyffant y twyni	U2	-	U2	=	U1	U2	FV	U2
Ystlumod	S1303	Ystlum pedol lleiaf	FV	+	FV	+	FV	FV	FV	FV

Grŵp	Cod y rhywo-gaeth	Enw cyffredin	Statws cyffredinol (Cymru) 2025	Tuedd gyffredinol (Cymru) 2025	Statws cyffredinol (DU) 2019	Tuedd gyffredinol (DU) 2019	Gwasgariad (Cymru) 2025	Poblogaeth (Cymru) 2025	Cynefin ar gyfer y rhywogaeth (Cymru) 2025	Rhagolygon ar gyfer y dyfodol (Cymru) 2025
Ystlumod	S1304	Ystlum pedol mwyaf	FV	+	FV	+	FV	FV	FV	FV
Ystlumod	S1308	Ystlum du	U1	x	XX	x	U1	XX	XX	XX
Ystlumod	S1309	Ystlum lleiaf	FV	=	FV	+	FV	FV	FV	FV
Ystlumod	S1312	Ystlum mawr	FV	=	FV	=	FV	FV	FV	FV
Ystlumod	S1314	Ystlum Daubenton	FV	=	FV	=	FV	FV	FV	FV
Ystlumod	S1317	Ystlum lleiaf Nathusius	XX		XX		XX	XX	XX	XX
Ystlumod	S1320	Ystlum Brandt	XX		FV	=	XX	XX	FV	XX
Ystlumod	S1322	Ystlum Natterer	FV	=	FV	=	FV	FV	FV	FV
Ystlumod	S1323	Ystlum Bechstein	U2	x	XX		U2	XX	XX	XX
Ystlumod	S1326	Ystlum hirglust	FV	=	FV	=	FV	FV	FV	FV
Ystlumod	S1327	Ystlum adain-lydan	U1	x	FV	=	U1	XX	XX	XX
Ystlumod	S1330	Ystlum barfog	FV	=	FV	=	FV	XX	FV	FV
Ystlumod	S1331	Ystlum Leisler	XX		FV	=	XX	XX	XX	XX
Ystlumod	S5009	Ystlum lleiaf meinlais	FV	=	FV	=	FV	FV	FV	FV
Pysgod	S1095	Llysywen bendoll y môr	U1	=	XX	x	FV	U1	U1	U1
Pysgod	S1096	Llysywen bendoll y nant	U1	=	XX		FV	FV	U1	U1
Pysgod	S1099	Llysywen bendoll yr afon	U1	=	FV	x	FV	FV	U1	U1
Pysgod	S1102	Herlyn	U2	=	U1	=	U1	U2	U1	U2
Pysgod	S1103	Gwangen	U2	+	U1	=	FV	U2	U1	U2
Pysgod	S1106	Eog	U2	-	U1	=	U1	U2	U2	U2
Pysgod	S1109	Cangen las	U1	=	U1	=	FV	FV	U1	U1
Pysgod	S6353	Gwyniad	U1	=	U2	=	FV	U1	U1	U1
Pysgod	S6965	Penlletwad	U1	=	FV	=	FV	FV	U1	U1
Molysgiaid	S1013	Malwen droellog Geyer	U2	-	U1	-	U2	U2	U2	U2
Molysgiaid	S1014	Malwen droellog ceg gul	U1	-	U1	-	FV	U1	XX	U1
Molysgiaid	S1016	Malwen droellog Desmoulin	U2	-	U2	-	FV	U2	XX	U2
Molysgiaid	S1029	Misglen berlog	U2	-	U2	-	U2	U2	U2	U2
Planhigion anfasgwlaidd	S1378	*Cladonia* isgenws *Cladina*, isgenws o gennau	U2	-	U1	x	FV	U2	U1	U2
Planhigion anfasgwlaidd	S1395	Petal-lys	U2	-	U2	-	U1	U2	U2	U2
Planhigion anfasgwlaidd	S1400	Mwsogl glas	U1	-	FV	x	FV	U1	U1	U1
Planhigion anfasgwlaidd	S1409	Migwyn	U1	-	U1	-	FV	U1	U1	U1
Planhigion anfasgwlaidd	S6216	Mwsogl pluog gwyrdd main	U1	-	FV	=	FV	FV	XX	U1
Infertebrataueraill	S1034	Gelen feddyginiaethol	U1	-	FV	+	FV	U1	XX	U1

Grŵp	Cod y rhywo-gaeth	Enw cyffredin	Statws cyffredinol (Cymru) 2025	Tuedd gyffredinol (Cymru) 2025	Statws cyffredinol (DU) 2019	Tuedd gyffredinol (DU) 2019	Gwasgariad (Cymru) 2025	Poblogaeth (Cymru) 2025	Cynefin ar gyfer y rhywogaeth (Cymru) 2025	Rhagolygon ar gyfer y dyfodol (Cymru) 2025
Infertebratau eraill	S1044	Mursen las Penfro	U2	-	U1	-	U2	U2	U2	U2
Infertebratau eraill	S1065	Glöyn byw brith y gors	U2	-	U1	=	U2	U2	U2	U2
Infertebratau eraill	S1083	Chwilen gorniog	XX		FV	=	XX	XX	XX	XX
Infertebratau eraill	S1092	Cimwch afon crafanc wen	U2	-	U2	-	U2	U2	XX	U2
Mamaliaid eraill	S1341	Pathew	U2	-	U2	x	FV	U2	XX	U2
Mamaliaid eraill	S1355	Dyfrgi	FV	=	FV	=	FV	FV	FV	FV
Mamaliaid eraill	S1357	Bele	U1	=	FV	+	FV	U1	XX	FV
Mamaliaid eraill	S1358	Ffwlbart	FV	=	FV	+	FV	FV	FV	FV
Planhigion fasgwlaidd	S1413	Cnwp-fwsoglau	U1	-	U1	x	XX	XX	XX	U1
Planhigion fasgwlaidd	S1441	Tafolen y traeth	U2	-	U1	x	U2	U2	U2	U2
Planhigion fasgwlaidd	S1654	Crwynllys cynnar	XX		U2	x	FV	FV	XX	XX
Planhigion fasgwlaidd	S1831	Llyriad-y-dŵr arnofiol	U1	-	U1	-	FV	U1	U1	U1
Planhigion fasgwlaidd	S1849	Celynnen Fair	FV	=	FV	=	FV	FV	FV	FV
Planhigion fasgwlaidd	S1903	Tegeirian y fign galchog	U2	+	U2	+	U2	U2	U1	U1
Planhigion fasgwlaidd	S6985	Rhedynen Cilarne	FV	=	FV	=	FV	FV	FV	FV

Tabl 3.3 Asesiad statws cadwraethol ffafriol yn ôl rhywogaethau morol yn dangos statws (ffafriol (FV), anffafriol–annigonol (U1), anffafriol–drwg (U2), anhysbys (XX)) a thueddiadau (yn gwella (+), yn dirywio (-), anhysbys (x), yn sefydlog (=)). Darparwyd statws a thuedd gyffredinol o adroddiad Erthygl 17 2019 er gwybodaeth. Sylwer, fodd bynnag, bod y gwerthoedd hynny ar gyfer y DU gyfan. Mae gwerthoedd ar gyfer y dolffin trwyn potel yn cyfeirio at yr ecoteip arfordirol o fewn Uned Reoli Môr Iwerddon. Darperir manylion yr asesiad cyfun yn y DU ar gyfer yr ecoteip arfordirol a'r ecoteip alltraeth yn yr atodiadau technegol. Mae gwerthoedd ar gyfer y llamhidydd yn cyfeirio at Uned Reoli'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon. Mae asesiad cyffredinol y DU ar gyfer y rhywogaeth hon hefyd ar gael yn yr atodiadau technegol.

Grŵp	Cod y rhywogaeth	Enw cyffredin	Gwlad / uned reoli	Statws cyffredinol (Cymru) 2025	Tuedd gyffredinol (Cymru) 2025	Statws cyffredinol (DU) 2019	Tuedd gyffredinol (DU) 2019	Gwasgariad (Cymru) 2025	Poblogaeth (Cymru) 2025	Cynefin ar gyfer y rhywogaeth (Cymru) 2025	Rhagolygon ar gyfer y dyfodol (Cymru) 2025
Mamaliaid morol	S1349	Dolffin trwyn potel	Uned Reoli Môr Iwerddon	FV	=	Heb ei asesu	Heb ei hasesu	FV	FV	XX	FV
Mamaliaid morol	S1351	Llamhidydd	Uned Reoli'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon	U2	=	Heb ei asesu	Heb ei hasesu	FV	U2	XX	XX
Mamaliaid morol	S1364	Morlo llwyd	DU	FV	=	FV	+	FV	FV	XX	FV
Mamaliaid morol	S1350	Dolffin cyffredin	DU	FV	=	XX		FV	FV	XX	FV
Mamaliaid morol	S1365	Morlo cyffredin	DU	U1	=	U1	X	FV	U1	XX	U1
Mamaliaid morol	S2621	Morfil asgellog llwyd	DU	XX		XX		FV	XX	XX	XX
Mamaliaid morol	S1345	Morfil cefngrwm	DU	XX				FV	XX	XX	XX
Mamaliaid morol	S2027	Orca	DU	XX		XX		FV	XX	XX	XX
Ymlusgiaid	S1223	Crwban môr cefn lledr	DU	XX		XX		XX	XX	XX	XX
Mamaliaid morol	S2029	Morfil pengrwn	DU	XX		XX		FV	XX	XX	XX
Mamaliaid morol	S2618	Morfil pigfain	DU	U1	x	XX		FV	U1	XX	XX
Mamaliaid morol	S2030	Dolffin Risso	DU	FV	=	XX		FV	FV	XX	FV

Casgliadau ynghylch cynefinoedd

O'r 61 o gynefinoedd a aseswyd yng Nghymru (Ffigur 3.3), canfuwyd mai dim ond dau oedd mewn cyflwr ffafriol, a dangosodd y ddau ohonynt dueddiadau sefydlog. Aseswyd bod naw cynefin arall mewn cyflwr anffafriol–annigonol. Ymhlith y rhain, roedd un cynefin yn dangos tueddiad o wella, roedd pedwar yn sefydlog, roedd un yn dirywio, ac roedd gan dri dueddiadau nad oedd modd pennu eu statws. Canfuwyd bod 48 o gynefinoedd mewn cyflwr anffafriol–drwg, gyda 12 yn cael eu hystyried yn sefydlog, 15 yn dangos tueddiadau o ddirywio, a'r 21 sy'n weddill â thueddiadau anhysbys. Nid oedd modd pennu statws dau gynefin oherwydd diffyg data. Darperir manylion llawn y casgliadau a ddaethpwyd iddynt ar gyfer cynefinoedd yng Nghymru yn Nhabl 3.4.

Ffigur 3.3 Statws cadwraeth cyffredinol cynefinoedd yng Nghymru (adroddiadau 2019–2024). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 3.4 Statws cadwraeth cyffredinol cynefinoedd yng Nghymru wedi'i rannu yn ôl grŵp (adroddiadau 2019–2024). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Tabl 3.4 Asesiad statws cadwraethol ffafriol yn ôl cynefin yn dangos statws (ffafriol (FV), anffafriol–annigonol (U1), anffafriol–drwg (U2), anhysbys (XX)) a thueddiadau (yn gwella (+), yn dirywio (-), anhysbys (x), yn sefydlog (=)). Darparwyd statws a thuedd gyffredinol o adroddiad Erthygl 17 2019 er gwybodaeth. Sylwer, fodd bynnag, bod y gwerthoedd hynny ar gyfer y DU gyfan.

Grŵp	Cod	Enw'r cy nefin	Statws cyffredinol (Cymru) 2025	Tuedd gyffredinol (Cymru) 2025	Statws cyffredinol (DU) 2019	Tuedd gyffredinol (DU) 2019	Arwynebedd (Cymru) 2025	Gwasgariad (Cymru) 2025	Strwythur a swyddoga-ethau (Cymru) 2025	Rhagolygon ar gyfer y dyfodol (Cymru) 2025
Arfordirol a thwyni	H1210	Llystyfiant unflwydd ar linellau drifft	U1	x	U2	X	U1	U1	U1	U1
Arfordirol a thwyni	H1220	Llystyfiant lluosflwydd glannau caregog	U2	x	U2	=	U2	FV	XX	U2
Arfordirol a thwyni	H1230	Clogwyni'r môr â llystyfiant	U2	-	U2	-	U1	FV	XX	U2
Arfordirol a thwyni	H1310	*Salicornia*	U1	x	U2	X	U1	XX	FV	XX
Arfordirol a thwyni	H1330	Dolydd heli	U2	-	U2	-	U1	FV	U2	U2
Arfordirol a thwyni	H1420	Prysgydd Môr y Canoldir	U1	x	U2	=	U1	XX	XX	U1
Arfordirol a thwyni	H2110	Egin-dwyni symudol	U2	-	U2	-	U1	FV	U1	U2

Grŵp	Cod	Enw'r cy nefin	Statws cyffredinol (Cymru) 2025	Tuedd gyffredinol (Cymru) 2025	Statws cyffredinol (DU) 2019	Tuedd gyffredinol (DU) 2019	Arwynebedd (Cymru) 2025	Gwasgariad (Cymru) 2025	Strwythur a swyddoga-ethau (Cymru) 2025	Rhagolygon ar gyfer y dyfodol (Cymru) 2025
Arfordirol a thwyni	H2120	Symudol gyda moresg	U2	=	U2	-	U1	FV	U2	U2
Arfordirol a thwyni	H2130	Glaswelltir y twyni	U2	=	U2	-	U1	FV	U2	U2
Arfordirol a thwyni	H2150	Twyni sefydlog datgalchedig	U2	x	U2	-	U1	FV	U2	U2
Arfordirol a thwyni	H2170	Twyni gyda *Salix repens*	U2	x	U2	-	U1	FV	U2	U2
Arfordirol a thwyni	H2190	Llaciau twyni gwlyb	U2	x	U2	-	U1	FV	U2	U2
Dŵr croyw	H3130	Merddyfroedd oligo i feso	U2	-	U2	=	FV	FV	U2	U2
Dŵr croyw	H3140	Oligo-meso caled gyda *Chara*	U2	-	U2	=	FV	FV	U2	U2
Dŵr croyw	H3150	Llynnoedd ewtroffig naturiol	U2	=	U2	-	FV	FV	U2	U2
Dŵr croyw	H3160	Llynnoedd dystroffig	U1	+	U2	=	FV	FV	U1	U1
Dŵr croyw	H3180	Tirlynnoedd	FV	=	U2	=	FV	FV	XX	FV
Dŵr croyw	H3260	*Ranunculion*	U2	=	U2	+	FV	FV	U2	U2
Glaswelltiroedd	H6130	Metelaidd	U2	-	U2	-	U1	FV	U2	U2
Glaswelltiroedd	H6150	Alpaidd silicaidd	U2	=	U2	+	U1	FV	U2	U2
Glaswelltiroedd	H6170	Glaswelltiroedd alpaidd	U2	=	U2	-	FV	FV	FV	U2
Glaswelltiroedd	H6210	Glaswelltiroedd sych lled-naturiol	U2	-	U2	=	U2	FV	U2	U2
Glaswelltiroedd	H6230	*Nardus* cyfoethog eu rhywogaethau	U2	x	U2	+	U1	FV	U2	U2
Glaswelltiroedd	H6410	Dolydd gwellt y gweunydd	U2	-	U2	=	U2	FV	U2	U2
Glaswelltiroedd	H6430	Llystyfiant tal hydroffilig ar hyd yr ymylon	U2	x	U2	+	XX	FV	U2	U2
Glaswelltiroedd	H6510	Gweirgloddiau'r iseldir	U2	=	U2	-	U2	FV	XX	U2
Rhosydd	H4010	Rhosydd gwlyb	U2	x	U2	-	U1	FV	XX	U2
Rhosydd	H4030	Rhostiroedd sychion Ewropeaidd	U2	x	U2	+	XX	FV	U1	U2
Rhosydd	H4060	Rhostiroedd Alpaidd a boreal	U2	=	U2	+	U1	FV	U2	U2
Rhosydd	H5130	Rhostiroedd *Juniperus*	U2	x	U2	=	XX	XX	XX	U2
Morol	H1110	Banciau tywod	U1	=	U2	X	FV	FV	U1	XX
Morol	H1130	Aberoedd	U1	=	U2	X	FV	FV	U1	U1
Morol	H1140	Fflatiau llaid a fflatiau tywod	U2	-	U2	X	U1	FV	U2	U2
Morol	H1150	Morlynnoedd arfordirol	U2	-	U1	=	U1	FV	U2	U2
Morol	H1160	Cilfachau a baeau	U2	=	U1	=	FV	FV	U2	U2
Morol	H1170	Riffiau	U1	-	U1	X	U1	XX	U1	U1

Grŵp	Cod	Enw'r cy nefin	Statws cyffredinol (Cymru) 2025	Tuedd gyffredinol (Cymru) 2025	Statws cyffredinol (DU) 2019	Tuedd gyffredinol (DU) 2019	Arwynebedd (Cymru) 2025	Gwasgariad (Cymru) 2025	Strwythur a swyddoga-ethau (Cymru) 2025	Rhagolygon ar gyfer y dyfodol (Cymru) 2025
Morol	H1180	Strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy'n gollwng	XX		XX		XX	XX	FV	XX
Morol	H8330	Ogofâu môr	U1	=	U1	=	XX	FV	U1	XX
Morol	S1376–S1377	Gwelyau maerl	U2	=	XX		U2	FV	U2	U2
Ucheldiroedd	H8110	Sgri silicaidd	XX		U1	+	XX	XX	XX	XX
Ucheldiroedd	H8120	Sgri calchaidd	U2	x	U2	=	XX	XX	U2	XX
Ucheldiroedd	H8210	Llethrau creigiog calchaidd	U2	x	U2	+	XX	FV	U2	XX
Ucheldiroedd	H8220	Llethrau creigiog silicaidd	U2	x	U1	=	XX	XX	U2	XX
Ucheldiroedd	H8240	Calchbalmentydd	U1	=	U2	+	FV	FV	XX	U1
Ucheldiroedd	H8310	Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd	FV	=	FV	=	FV	FV	XX	FV
Gwlyptiroedd	H7110	Cyforgorsydd gweithredol	U2	=	U2	+	U2	FV	U2	U2
Gwlyptiroedd	H7120	Cyforgorsydd diraddiedig	U2	-	U2	+	U1	U1	U2	U2
Gwlyptiroedd	H7130	Gorgorsydd	U2	-	U2	=	U2	U1	U2	U2
Gwlyptiroedd	H7140	Mignenni pontio	U2	-	U2	=	U1	XX	U2	U2
Gwlyptiroedd	H7150	Rhynchosporion	U2	x	U2	=	XX	FV	U1	U2
Gwlyptiroedd	H7210	Corsydd calchaidd gyda *Cladium*	U2	-	U2	+	U2	U1	U2	U2
Gwlyptiroedd	H7220	Tarddellau caregu gyda thwffa	U2	x	U2	-	U1	XX	XX	U2
Gwlyptiroedd	H7230	Ffeniau alcalinaidd	U2	-	U2	=	U2	U1	U2	U2
Gwlyptiroedd	H7240	Ffurfiannau alpaidd arloesol	U2	x	U2	+	XX	XX	XX	U2
Coetiroedd	H9120	Coedwigoedd ffawydd asidffilig	U2	x	U2	=	U1	FV	XX	U2
Coetiroedd	H9130	Coedwigoedd ffawydd *Asperulo–Fagetum*	U2	x	U2	=	U1	FV	XX	U2
Coetiroedd	H9180	Coedwigoedd *Tilio–Acerion*	U2	=	U2	=	U1	FV	U2	U2
Coetiroedd	H91A0	Coedwigoedd hen dderw mes di-goes	U2	x	U2	=	U1	FV	XX	U2
Coetiroedd	H91D0	Coetir corsiog	U2	x	U1	+	U1	FV	XX	U2
Coetiroedd	H91E0	Coedwigoedd llifwaddodol	U2	x	U2	=	U1	FV	XX	U2
Coetiroedd	H91J0	Coedwigoedd *Taxus baccata*	U2	x	U2	=	XX	FV	U2	U2

3.2 Pwysau

O ystyried y pwysau lefel uchel a chanolig, nodwyd 84 o bwysau ar wahân fel rhai sy'n gweithredu ar gynefinoedd ac 87 o bwysau sy'n gweithredu ar rywogaethau nad ydynt yn adar. Cafodd pwysau eu grwpio i 14 categori eang (e.e. 'Arferion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth') at ddibenion dadansoddi (gweler Atodiad 8 i'r ddogfen dull). Pan adroddwyd am nifer o bwysau unigol o dan yr un categori eang ar gyfer rhywogaeth neu gynefin penodol, cawsant eu cyfrif fel un achos o'r categori pwysau hwnnw yn y dadansoddiad, yn hytrach nag fel nifer o bwysau gwahanol. Mae'r categori pwysau 'Datblygu, adeiladu a defnyddio seilwaith ac ardaloedd preswyl, masnachol, diwydiannol a hamdden' wedi'i fyrhau i 'Datblygu trefol a seilwaith' er mwyn eglurder yn y ffigurau canlynol. Mae'r categori pwysau 'Echdynnu a thrin adnoddau byw biolegol (ac eithrio amaethyddiaeth a choedwigaeth)' hefyd wedi'i fyrhau i 'Echdynnu a thrin adnoddau biolegol (ac eithrio amaethyddiaeth a choedwigaeth)'.

Mae'r datganiad dull i'w gael yn y ddogfen Dull ac mae manylion y pwysau sy'n effeithio ar nodweddion unigol ar gael yn y testun tystiolaeth llawn yn yr atodiad technegol.

Y prif ganfyddiadau o ran pwysau ar rywogaethau

Arferion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth oedd y categori pwysau yr adroddwyd amdano amlaf mewn perthynas â rhywogaethau. Pan ystyriwyd pwysau uchel a chanolig (Ffigur 3.5), fe effeithion nhw ar 44 o'r 53 rhywogaeth a aseswyd. Hyd yn oed wrth ganolbwyntio ar bwysau uchel yn unig (Ffigur 3.6), amaethyddiaeth oedd y categori pwysau a ddewiswyd amlaf o hyd, gan effeithio ar 27 o rywogaethau.

Roedd coedwigaeth a newid hinsawdd hefyd yn gysylltiedig â nifer uchel o rywogaethau dan bwysau, gan effeithio ar 29 a 26 o rywogaethau yn y drefn honno pan gyfunwyd pwysau uchel a chanolig (Ffigur 3.5). Fodd bynnag, roedd cyfran y pwysau hyn a gafodd eu graddio fel rhai uchel yn is: dim ond 12 rhywogaeth yr effeithiwyd arnynt gan bwysau sy'n gysylltiedig â choedwigaeth a deg gan newid hinsawdd ar y lefel uchel (Ffigur 3.6). Mewn cyferbyniad, effeithiodd pwysau datblygu trefol a seilwaith ar gyfanswm o 21 o rywogaethau (Ffigur 3.5), gyda chyfran gymharol uchel – 16 o rywogaethau – yn profi'r pwysau hyn ar lefel uchel (Ffigur 3.6).

Mae dylanwad grwpiau rhywogaethau penodol yn amlwg yn y canlyniadau hyn. Cafodd ystlumod, sy'n ffurfio'r grŵp rhywogaethau mwyaf a aseswyd (15 rhywogaeth), eu heffeithio arnynt yn arbennig gan nifer o bwysau uchel. Effeithiwyd ar ddeg rhywogaeth o ystlumod gan ddatblygu trefol a seilwaith, 13 gan ddatblygu a gweithredu systemau trafnidiaeth, naw gan arferion sy'n gysylltiedig â choedwigaeth, a saith gan arferion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Mae'r niferoedd uchel hyn o fewn un grŵp yn cyfrannu'n sylweddol at gyfanswm y pwysau.

Roedd arferion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth hefyd yn bwysau uchel ar grwpiau rhywogaethau eraill: effeithiwyd ar chwech allan o naw rhywogaeth o bysgod, tri allan o bedair rhywogaeth o folysgiaid, pump allan o bum rhywogaeth o blanhigion fasgwlaidd, a thri allan o bum anifail di-asgwrn-cefn arall. Roedd pwysau

datblygu trefol a seilwaith yn uchel yn achos pedwar allan o bum rhywogaeth o blanhigion fasgwlaidd.

Cafodd rhywogaethau pysgod eu heffeithio arnynt yn sylweddol gan bwysau sy'n gysylltiedig â dŵr. Effeithiwyd ar saith allan o naw rhywogaeth o bysgod gan newidiadau mewn cyfundrefnau dŵr a achosir gan ddyn ar lefel uchel. Yn ogystal, profodd pump allan o naw rhywogaeth o bysgod bwysau uchel o ganlyniad i brosesau cynhyrchu ynni a llygredd o ffynonellau cymysg.

Ffigur 3.5 Nifer y rhywogaethau yr effeithiwyd arnynt yn ôl categori pwysau (pwysau canolig ac uchel gyda'i gilydd). Mae'r rhif yn yr allwedd yn dangos sawl nodwedd sydd yn y categori hwnnw ar draws y grwpiau o amffibiaid ac ymlusgiaid (4), ystlumod (15), pysgod (9), molysgiaid (4), planhigion anfasgwlaidd (5), anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill (5), mamaliaid eraill (4) a phlanhigion fasgwlaidd (7). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 3.6 Nifer y rhywogaethau yr effeithir arnynt yn ôl categori pwysau (pwysau uchel yn unig). Mae'r rhif yn yr allwedd yn dangos sawl nodwedd sydd yn y categori hwnnw ar draws y grwpiau o amffibiaid ac ymlusgiaid (4), ystlumod (15), pysgod (9), molysgiaid (4), planhigion anfasgwlaidd (5), anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill (5), mamaliaid eraill (4) a phlanhigion fasgwlaidd (7). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Prif ganfyddiadau o ran pwysau ar gynefinoedd

Llygredd o ffynonellau cymysg oedd y pwysau uchel a chanolig mwyaf cyffredin, gan effeithio ar 55 allan o'r 61 o gynefinoedd a aseswyd (Ffigur 3.7). Hyd yn oed wrth ystyried pwysau uchel yn unig, roedd yn parhau i fod y categori pwysau mwyaf arwyddocaol, gan effeithio ar 46 o gynefinoedd (Ffigur 3.8). Roedd y categori pwysau hwn yn arbennig o gyffredin ar draws pob math o gynefin: effeithiodd ar naw allan o 12 cynefin arfordirol a thwyni, a phob cynefin glaswelltir (8/8), rhostir (4/4) a gwlyptir (9/9), yn ogystal â phump allan o chwe chynefin ucheldir a chwech allan o saith cynefin coetir (Ffigur 3.8).

Roedd arferion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth hefyd yn bwysau mawr, gan effeithio ar 52 o gynefinoedd pan gyfunwyd pwysau uchel a chanolig (Ffigur 3.7), a 43 o gynefinoedd ar lefel pwysau uchel (Ffigur 3.8). Adroddwyd am bwysau amaethyddol uchel ar gyfer pob cynefin rhostir (4/4) a gwlyptir (9/9), a’r mwyafrif o gynefinoedd glaswelltir (7/8), ucheldir (5/6) a dŵr croyw (5/6). Effeithiwyd ar gynefinoedd arfordirol a thwyni mewn chwech allan o 12 achos, a choetiroedd mewn tri allan o chwe achos (Ffigur 3.8).

Cofnodwyd pwysau newid hinsawdd ar gyfer 54 o gynefinoedd pan ystyriwyd pwysau uchel a chanolig gyda'i gilydd (Ffigur 3.7), gyda 25 o'r rheini'n bwysau uchel (Ffigur 3.8). Effeithiodd datblygu trefol a seilwaith ar 46 o gynefinoedd i gyd (Ffigur 3.7), gydag 19 yn profi pwysau uchel (Ffigur 3.8). Adroddwyd am rywogaethau estron a rhywogaethau sy’n peri problemau mewn perthynas â 44 o gynefinoedd (Ffigur 3.7), gyda 29 o'r pwysau hynny wedi'u sgorio fel rhai uchel (Ffigur 3.8).

Ffigur 3.7 Nifer y cynefinoedd yr effeithiwyd arnynt yn ôl categori pwysau (pwysau canolig ac uchel gyda'i gilydd). Mae'r rhif yn yr allwedd yn dangos nifer y nodweddion sydd yn y categori hwnnw ar draws grwpiau arfordirol a thwyni (12), dŵr croyw (6), glaswelltiroedd (8), rhostiroedd (4), morol (9), ucheldiroedd (6), gwlyptiroedd (9) a choetiroedd (7). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 3.8 Nifer y cynefinoedd yr effeithir arnynt yn ôl categori pwysau (pwysau uchel yn unig). Mae'r rhif yn yr allwedd yn dangos nifer y nodweddion sydd yn y categori hwnnw ar draws grwpiau arfordirol a thwyni (12), dŵr croyw (6), glaswelltiroedd (8), rhostiroedd (4), morol (9), ucheldiroedd (6), gwlyptiroedd (9) a choetiroedd (7). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

3.3 Mesurau cadwraeth

Cafodd mesurau cadwraeth eu grwpio i gategorïau eang (e.e. ‘Arferion amaethyddol a chynefinoedd sy’n gysylltiedig ag amaethyddiaeth’) at ddibenion dadansoddi (gweler Atodiad 9 i’r ddogfen dull). Pan adroddwyd ar nifer o fesurau cadwraeth unigol o dan yr un categori eang mewn perthynas â rhywogaeth neu gynefin penodol, cawsant eu cyfrif fel un achos o'r categori mesur cadwraeth hwnnw yn y dadansoddiad, yn hytrach nag fel nifer o fesurau cadwraeth gwahanol.

Mae'r ffigurau a gyflwynir yma yn dangos lle mae mesurau wedi'u nodi fel rhai sydd ar waith neu'n ofynnol, ond nid ydynt yn asesu pa mor effeithiol neu ddigonol yw'r mesurau hynny er mwyn cyflawni statws cadwraethol ffafriol. Darperir manylion am gwmpas, gweithrediad ac effaith y mesurau yn y dystiolaeth ar gyfer pob nodwedd yn yr atodiadau technegol, sy'n rhoi'r cyd-destun llawnach y mae ei angen i werthuso canlyniadau ac anghenion yn y dyfodol.

Prif ganfyddiadau o ran mesurau cadwraeth rhywogaethau

Mesurau cadwraeth yn ymwneud ag arferion amaethyddol a chynefinoedd sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth oedd y categori mesurau yr adroddwyd amdano amlaf mewn perthynas â rhywogaethau. Pan ystyriwyd mesurau uchel a chanolig (Ffigur 3.9), fe'u rhestrwyd ar gyfer 43 o'r 53 rhywogaeth a aseswyd. Hyd yn oed wrth ganolbwyntio ar fesurau uchel yn unig (Ffigur 3.10), amaethyddiaeth oedd y mesur cadwraeth mwyaf cyffredin o hyd, oherwydd ei fod wedi’i restru ar gyfer 30 o rywogaethau.

Rhestrwyd mesurau yn ymwneud ag arferion coedwigaeth a seilwaith hefyd ar gyfer nifer fawr o rywogaethau, gan effeithio ar 32 a 29 o rywogaethau yn y drefn honno pan gyfunwyd mesurau uchel a chanolig (Ffigur 3.9). Roedd y rhain wedi parhau i fod amlwg hyd yn oed wrth ystyried mesurau uchel yn unig (Ffigur 3.10), gyda choedwigaeth wedi'i rhestru ar gyfer 17 rhywogaeth a seilwaith ar gyfer 18.

Mae dylanwad grwpiau rhywogaethau penodol yn amlwg yn y canlyniadau hyn. Cyfrannodd ystlumod, sy'n ffurfio'r grŵp rhywogaethau mwyaf a aseswyd (15 rhywogaeth), yn sylweddol at y tri grŵp mesurau cadwraeth uchaf. Roedd gan 13 rhywogaeth ystlumod fesurau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth wedi'u rhestru, roedd gan 13 mesurau sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu systemau trafnidiaeth, roedd gan 11 fesurau sy'n gysylltiedig â choedwigaeth, ac roedd gan ddeg weithrediadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â seilwaith wedi'u rhestru. Mae'r niferoedd uchel hyn o fewn un grŵp yn cyfrannu'n sylweddol at gyfanswm y pwysau.

Roedd rhywogaethau pysgod hefyd yn amlwg mewn sawl categori mesurau cadwraeth uchel allweddol. Roedd gan saith o'r naw rhywogaeth o bysgod fesurau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth wedi'u rhestru, tra bod gan wyth fesurau sy'n mynd i'r afael â llygredd o ffynonellau cymysg a newidiadau a achosir gan ddyn mewn cyflyrau hydrolig.

Ffigur 3.9 Nifer y rhywogaethau sydd â mesurau cadwraeth ar waith (mesurau canolig ac uchel gyda'i gilydd). Mae'r rhif yn yr allwedd yn dangos sawl nodwedd sydd yn y categori hwnnw ar draws y grwpiau o amffibiaid ac ymlusgiaid (4), ystlumod (15), pysgod (9), molysgiaid (4), planhigion anfasgwlaidd (5), anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill (5), mamaliaid eraill (4) a phlanhigion fasgwlaidd (7). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 3.10 Nifer y rhywogaethau sydd â mesurau cadwraeth ar waith (mesurau uchel yn unig). Mae'r rhif yn yr allwedd yn dangos sawl nodwedd sydd yn y categori hwnnw ar draws y grwpiau o amffibiaid ac ymlusgiaid (4), ystlumod (15), pysgod (9), molysgiaid (4), planhigion anfasgwlaidd (5), anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill (5), mamaliaid eraill (4) a phlanhigion fasgwlaidd (7). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Prif ganfyddiadau o ran mesurau cadwraeth cynefinoedd

Mesurau cadwraeth yn ymwneud ag arferion amaethyddol a chynefinoedd sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth oedd y categori mesurau yr adroddwyd amdano amlaf mewn perthynas â chynefinoedd. Pan ystyriwyd mesurau uchel a chanolig, fe'i rhestrwyd ar gyfer 52 allan o'r 61 o gynefinoedd a aseswyd (Ffigur 3.11). Hyd yn oed wrth ystyried mesurau cadwraeth uchel yn unig, roedd yn parhau i fod y mesur mwyaf cyffredin, yr adroddwyd amdano ar gyfer 45 o gynefinoedd (Ffigur 3.12). Roedd y categori mesurau cadwraeth hwn yn arbennig o gyffredin ar draws pob math o gynefin: arfordirol a thwyni (6/12), dŵr croyw (5/6), glaswelltir (7/8), rhostir (4/4), morol (5/9), ucheldiroedd (6/6), cynefinoedd gwlyptir (9/9), yn ogystal â thri allan o saith cynefin coetir (Ffigur 3.12).

Roedd llygredd o ffynonellau cymysg a newidiadau a achosir gan ddyn mewn cyflyrau hydrolig ar gyfer sawl defnydd hefyd yn grŵp mesurau cadwraeth pwysig, yr adroddwyd amdano ar gyfer 48 o gynefinoedd pan gyfunwyd mesurau uchel a chanolig (Ffigur 3.11), a 36 o gynefinoedd ar lefel mesurau uchel (Ffigur 3.12). Adroddwyd am fesurau uchel ar gyfer llygredd o ffynonellau cymysg ar gyfer pob cynefin rhostir (4/4) y mwyafrif o'r cynefinoedd morol (7/9), cynefinoedd gwlyptir (8/9), ucheldir (4/6), arfordirol a thwyni (8/12), a dŵr croyw (5/6) (Ffigur 3.12).

Ffigur 3.11 Nifer y cynefinoedd sydd â mesurau cadwraeth ar waith (mesurau canolig ac uchel gyda'i gilydd). Mae'r rhif yn yr allwedd yn dangos nifer y nodweddion sydd yn y categori hwnnw ar draws grwpiau arfordirol a thwyni (12), dŵr croyw (6), glaswelltiroedd (8), rhostiroedd (4), morol (9), ucheldiroedd (6), gwlyptiroedd (9) a choetiroedd (7). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 3.12 Nifer y cynefinoedd a chanddynt fesurau cadwraeth ar waith (uchel yn unig). Mae'r rhif yn yr allwedd yn dangos nifer y nodweddion sydd yn y categori hwnnw ar draws grwpiau arfordirol a thwyni (12), dŵr croyw (6), glaswelltiroedd (8), rhostiroedd (4), morol (9), ucheldiroedd (6), gwlyptiroedd (9) a choetiroedd (7). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

4. Statws a thueddiadau rhywogaethau adar

Mae adroddiad adar cyntaf Cymru o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn dilyn y fformat a sefydlwyd gan yr unfed adroddiad ar ddeg o dan Erthygl 12, sy'n rhoi pwyslais mawr ar adrodd ar statws a thueddiadau rhywogaethau adar. Darperir y datganiad dull ar gyfer pob metrig yr adroddir amdano yn y ddogfen dull. I gael manylion pellach, gweler yr adran trosolwg ar statws a thueddiadau rhywogaethau adar uchod.

4.1 Adrodd am statws poblogaeth

Rhywogaethau, isrywogaethau a phoblogaethau

Rydym yn adrodd ar statws poblogaethau ar raddfa'r DU, sef dull tebyg i'r adrodd ar statws a thueddiadau pob rhywogaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer Erthygl 12 yn 2019 gyda rhai ychwanegiadau (h.y. y rhywogaethau hynny a ystyrir ei bod yn debygol eu bod wedi dianc, neu y tybir eu bod wedi dianc, neu'r rhai sydd wedi'u rhyddhau'n fwriadol). Nodwyd pob rhywogaeth o adar a aseswyd i fod yn rhywogaeth fridio a/neu fudol sy'n bresennol yn rheolaidd. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio dull adrodd Erthygl 12 y DU o adrodd ar wahân ar 'boblogaethau rhywogaethau' yn hytrach na

rhywogaethau unigol. Mae poblogaeth rhywogaeth yn dynodi rhywogaeth neu isrywogaeth yn ystod y tymor bridio, wrth deithio neu yn ystod y gaeaf. Roedd y rhestr adrodd ar gyfer adar yn cynnwys 350 o boblogaethau rhywogaethau, yn cynnwys 241 o wahanol rywogaethau neu isrywogaethau sy'n bridio, yn mudo neu'n gaeafgysgu yn y DU yn rheolaidd.

Hyd a lled yr adrodd

Ymchwiliodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i ba mor ymarferol yw cynhyrchu adroddiadau ar statws a thueddiadau ar gyfer pob rhywogaeth o adar gwyllt ar raddfa gwlad. Cynhaliwyd ymarfer peilot gan ddefnyddio'r gïach cyffredin *Gallinago gallinago* (Martay ac eraill, 2023). Dewiswyd y gïach cyffredin gan fod y rhywogaeth hon yn cyflwyno heriau a fyddai'n debygol o godi gydag arbenigwyr cynefin cymharol anghyffredin eraill. Canfu'r astudiaeth beilot o'r gïach cyffredin y byddai'n heriol, hyd yn oed ar raddfa'r DU, darparu amcangyfrifon poblogaeth cyfoes a newidiadau tymor byr a hirdymor mewn dosbarthiad oherwydd ffynonellau data sydd wedi dyddio fwyfwy (Martay ac eraill, 2023). Byddai'r heriau hyn yn waeth byth ar raddfa gwlad.

Paramedrau statws poblogaeth

Darperir y paramedrau statws poblogaeth ar gyfer adrodd yn Nhabl 38 yn y ddogfen dull. Y dull oedd cymhwyso'r un metrigau o ran maint y boblogaeth, tueddiadau mewn toreithrwydd a newidiadau dosbarthiad fel y'u hadroddwyd yn unfed adroddiad ar ddeg y DU o dan Erthygl 12 yn 2019.

4.2 Asesiad o amcangyfrifon poblogaeth y DU

Mae gwybod cyfanswm yr adar mewn poblogaeth yn bwysig wrth wneud penderfyniadau am bolisi cadwraeth a dulliau rheoli cadwraeth ar safle, ond mae hefyd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Tueddiadau dros amser yw'r adnoddau mwyaf gwerthfawr ar gyfer asesu statws rhywogaethau adar at lawer o ddibenion cadwraeth. Ar ben hynny, mae angen gwybodaeth am gyfanswm unrhyw boblogaeth rhywogaeth hefyd i ddeall yn llawn y bygythiadau y gallai rhywogaeth eu hwynebu, i werthuso'r risg o ddifodiant, ac i wneud penderfyniadau ynghylch sut i amddiffyn rhywogaethau. Un o'r defnyddiau pwysicaf o amcangyfrifon poblogaeth cenedlaethol a rhyngwladol i helpu i warchod poblogaethau adar yw galluogi safleoedd i gael eu dynodi ac felly eu gwarchod ar y sail eu bod yn cynnal canran bwysig o boblogaeth rhywogaeth (Confensiwn Ramsar 2012). Mae amcangyfrifon poblogaeth gyfan hefyd yn bwysig wrth asesu'r risg y bydd rhywogaeth yn diflannu, e.e. mae rhywogaeth â phoblogaeth fach yn fwy tebygol o fod mewn perygl o ddifodiant cenedlaethol (neu fyd-eang), yn enwedig os yw cyfran fawr o'r boblogaeth wedi'i lleoli ar nifer fach o safleoedd. Felly mae amcangyfrifon o faint poblogaeth yn offeryn cadwraeth allweddol ochr yn ochr â thueddiadau poblogaeth a gwybodaeth arall.

Roedd adroddiad Erthygl 12 y DU yn 2019 yn cynnwys 293 o boblogaethau rhywogaethau yn cwmpasu 241 o wahanol rywogaethau neu isrywogaethau. Mae'r adroddiad cyntaf ar adar o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys 350 o boblogaethau rhywogaethau yn cwmpasu 279 o rywogaethau neu isrywogaethau. Mae hyn yn cynnwys 18 rhywogaeth y bernir ei bod yn debygol eu bod wedi dianc, neu y tybir eu bod wedi yn dianc, neu sydd wedi'u rhyddhau'n fwriadol, fel yr ŵydd benrhesog *Anser indicus*, y dylluan fawr *Bubo bubo* a'r paun *Pavo cristatus*.

Darperir amcangyfrifon poblogaeth y DU ar gyfer 343 o boblogaethau rhywogaethau ar ffurf maint lleiaf y boblogaeth, maint mwyaf y boblogaeth neu werth unigol gorau. Oherwydd cyfyngiadau data, nid oes amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer yr aderyn drycin Balearig *Puffinus mauretanicus* (mudol), yr ŵydd benrhesog *Anser indicus* (bridio), yr ŵydd frech *Anser canagicus* (bridio), ffesant Amherst *Chrysolophus amherstiae* (bridio), y carfil bach *Alle alle* (heb fod yn bridio), yr wylan fechan *Hydrocoloeus minutus* (heb fod yn bridio) a hwyaden goch yr eithin *Tadorna ferruginea* (bridio).

Gellir dod o hyd i'r datganiad dull yn y ddogfen dull ac mae'r wybodaeth ategol yn yr atodiad technegol: taenlen data adar Cymru – statws poblogaeth.

4.3 Asesiad o statws y boblogaeth a'r perygl o ddifodiant

O dan Gyfarwyddeb Adar yr UE, adroddir ar werthoedd pob paramedr yn unig, ac nid yw statws cadwraeth y rhywogaeth yn cael ei asesu gan bob aelod-wladwriaeth. Fodd bynnag, yn absenoldeb adrodd ar statws cadwraethol ffafriol, mae adrodd ar adar yn y DU o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn gyfle i gyflwyno asesiad mwy gwrthrychol a meintiol o newidiadau yn statws poblogaeth rhywogaethau adar y DU trwy gymhwyso asesiadau o adar o bryder cadwraethol yn y DU (BoCC) ac asesiadau Prydain Fawr yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur.

Adar o bryder cadwraethol (BoCC)

Mae'r broses o nodi rhywogaethau adar â blaenoriaeth yn y DU wedi'i hen sefydlu trwy gymhwyso asesiadau BoCC bob chwe blynedd. Mae asesiad BoCC y DU yn defnyddio meini prawf safonol i ddyrannu rhywogaethau i restrau coch, oren neu wyrdd yn dibynnu ar y lefel o bryder o ran eu cadwraeth. Cyhoeddwyd yr asesiad ffurfiol cyntaf ar gyfer adar y DU yn 1990 (Batten ac eraill, 1990), ac mae pedwar asesiad pellach wedi cael eu cyhoeddi ers hynny, y diweddaraf ohonynt gan Stanbury ac eraill(2021) a Stanbury ac eraill(2024). Er bod pedwar asesiad BoCC wedi'u cynnal yng Nghymru, adroddir ar ddadansoddiadau mewn newidiadau mewn statws cadwraeth ar raddfa'r DU, gan gymhwyso asesiadau BoCC5 y DU (Stanbury ac eraill, 2021; Stanbury ac eraill, 2024) ac ail asesiad Prydain Fawr yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (Stanbury ac eraill, 2021; Stanbury ac eraill, 2024).

Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf a ddefnyddir gan BoCC i asesu'r lefel o bryder o ran cadwraeth i gyd yn asesu statws cadwraeth o ran iechyd cymharol poblogaeth. Yma, rydym yn cyflwyno meini prawf BoCC, sy'n asesu newidiadau yn nifer a dosbarthiad y boblogaeth i'r tueddiadau tymor byr a hirdymor, yn hytrach na meini prawf eraill megis canran y boblogaeth Ewropeaidd y mae'r DU yn gyfrifol amdani.

Gellir dod o hyd i'r datganiad dull yn y ddogfen dull ac mae'r wybodaeth ategol yn yr atodiad technegol: taenlen data adar Cymru – BoCC.

Y prif ganfyddiadau

Asesodd pumed adolygiad BoCC yn y DU 245 o rywogaethau, gan eu neilltuo i restrau coch, oren a gwyrdd wedi'u diweddaru o bryder cadwraeth, ac awgrymodd ddirywiad parhaus yn statws poblogaethau adar y DU. Ar sail newid o ran tueddiadau mewn poblogaeth a gwasgariad ar gyfer rhywogaethau sy'n bridio a

rhywogaethau nad ydynt yn bridio, allan o’r holl rywogaethau adar a aseswyd gan BoCC5 y DU, nid oedd 206 o rywogaethau yn dangos unrhyw newid yn rhestrau BoCC y DU rhwng BoCC4 a BoCC5.

Mae cyfanswm o 23 o rywogaethau wedi symud yn negyddol rhwng rhestrau. Symudodd 12 rhywogaeth o oren i goch, symudodd naw rhywogaeth o wyrdd i oren, a symudodd dwy rywogaeth yn syth o wyrdd i goch (y llinos werdd *Chloris chloris* a'r grugiar wen *Lagopus muta*). Nid yw'r grugiar wen yn rhywogaeth sy'n bridio yng Nghymru. O'r 23 rhywogaeth hyn, dim ond dwy oedd yn gysylltiedig â phoblogaethau nad oeddent yn bridio (alarch Bewick / alarch y twndra *Cygnus columbianus bewickii* a'r lleian wen *Mergellus albellus*) ac roedd y gweddill yn boblogaethau bridio, gan gynnwys yn fras adar y môr, adar tir ffermio, adar coetir ac adar yr ucheldir. Mae statws 11 rhywogaeth wedi gwella. Symudodd saith rhywogaeth o goch i oren: yr eryr môr *Haliaeetus albicilla*, y fulfran werdd *Gulosus aristotelis*, y fronfraith *Turdus philomelos*, y coch dan adain *Turdus iliacus*, y gwybedog brith *Ficedula hypoleuca*, y tingoch du *Phoenicurus ochruros* a’r siglen lwyd *Motacilla cinerea*. O'r rhywogaethau hyn, nid yw’r eryr môr na'r coch dan adain yn rhywogaethau bridio yng Nghymru. Symudodd yr wylog ddu *Cepphus grille*, y grugiar goch *Lagopus lagopus*, yr alarch dof *Cygnus olor* a glas y dorlan *Alcedo atthis* o'r rhestr oren i'r rhestr werdd.

Mae wyth rhywogaeth a nodwyd yn BoCC4 y DU yn parhau i fod yn gyn-fridwyr, sef: ceiliog y waun *Otis tarda*, cwtiad Caint *Charadrius alexandrines*, pibydd Temminck *Calidris temminckii*, y goswennol ddu *Chlidonias niger*, tylluan yr eira *Bubo scandiacus*, y pengam *Jynx torquilla*, yr euryn *Oriolus oriolus* a’r llinos frech *Serinus serinus*.

Wrth asesu asesiadau blaenorol BoCC y DU, mae pob un wedi dangos dirywiad parhaus o ran statws cadwraeth poblogaethau adar y DU. Mae cymhariaeth rhwng BoCC4 a BoCC5 yn cefnogi'r duedd hon, ac ar ben hynny mae rhywogaethau sy'n gysylltiedig â chymunedau adar sy'n bridio mewn amgylcheddau coetir ac arfordirol a morol yn parhau i ddirywio.

Rhestr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN)

Yn fwy diweddar, mae adar Prydain wedi cael eu hasesu gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) (Stanbury ac eraill, 2017; Stanbury ac eraill, 2021; Stanbury ac eraill, 2024). Mae’r broses asesu ar gyfer Rhestr Goch Prydain Fawr yr IUCN yn defnyddio meini prawf sydd wedi’u sefydlu a’u safoni, ac a gydnabyddir yn rhyngwladol, i asesu'r perygl difodiant, wedi'u llywio gan brinder y rhywogaeth, cyfyngiad ei gwasgariad a chyfradd ei dirywiad (wedi'i fesur ar sail deg mlynedd neu dair cenhedlaeth, pa un bynnag yw'r hiraf). Nid yw asesiadau Rhestr Goch yr IUCN ar gyfer adar ym Mhrydain yn ddewis amgen yn lle asesiadau BoCC, ac nid ydynt yn eu disodli ychwaith.

Defnyddir asesiadau Rhestr Goch yr IUCN i asesu statws byd-eang rhywogaethau, ond gellir eu cymhwyso hefyd ar raddfeydd rhanbarthol, cenedlaethol neu leol i asesu'r perygl difodiant ar y raddfa honno. Mae meini prawf Rhestr Goch yr IUCN yn cymhwyso trothwyon meintiol i wahanol gyfuniadau o faint a dirywiad poblogaeth, maint a dirywiad gwasgariad, a dadansoddiad meintiol o berygl difodiant. Mae cam ychwanegol ar gyfer asesiadau Rhestr Goch rhanbarthol yn gwerthuso a allai poblogaethau allranbarthol effeithio ar berygl difodiant y boblogaeth ranbarthol.

Mae defnyddio asesiad Rhestr Goch ranbarthol yr IUCN yn caniatáu i statws rhywogaethau adar gael ei cymharu â statws tacsonau eraill. Gellir cymharu statws rhywogaethau adar yn y DU ar y Rhestr Goch hefyd â statws adar ar raddfeydd daearyddol (a byd-eang) eraill. Ar ben hynny, gellir defnyddio mynegeion y Rhestr Goch i olrhain newidiadau yn statws ar y Rhestr Goch dros amser ar gyfer grwpiau o rywogaethau. Mae mynegeion y Rhestr Goch wedi'u nodi fel dangosyddion ar gyfer sawl targed yn Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming–Montreal a gellir eu defnyddio i adrodd ar dueddiadau bioamrywiaeth ar raddfeydd cenedlaethol (Raimondo ac eraill, 2023). Oherwydd cyfyngiadau data, nid oes asesiad Rhestr Goch yr IUCN ar gyfer Cymru.

Gellir dod o hyd i'r datganiad dull yn y ddogfen dull ac mae'r wybodaeth ategol yn yr atodiad technegol: taenlen data adar Cymru– newid mewn poblogaeth yr IUCN a thaenlen data adar Cymru – newid o ran rhywogaethau'r IUCN.

Y prif ganfyddiadau

Ar gyfer rhywogaethau adar gwyllt sydd wedi cael eu hasesu ar gyfer Rhestr Goch Prydain Fawr yr IUCN fwy nag unwaith, mae'n bosibl archwilio tueddiadau rhwng asesiadau o ran y perygl difodiant cyffredinol. Mae hyn yn seiliedig ar nifer y rhywogaethau ym mhob categori ar y Rhestr Goch a nifer y rhywogaethau sy'n symud i gategori uwch o berygl difodiant rhwng asesiadau oherwydd dirywiad gwirioneddol i'w statws, neu i gategori is o berygl difodiant oherwydd gwelliant gwirioneddol i'w statws. Defnyddiwyd data o'r ail adolygiad o Restr Goch ranbarthol yr IUCN o'r perygl difodiant i rywogaethau ym Mhrydain Fawr er mwyn asesu 243 o rywogaethau, gan wneud asesiadau o boblogaethau ar gyfer 293 o rywogaethau (210 sy'n bridio, 83 nad ydynt yn bridio). Aseswyd 50 o rywogaethau ar gyfer poblogaethau bridio a phoblogaethau nad ydynt yn bridio (Stanbury ac eraill, 2021; Stanbury ac eraill, 2024).

Wrth ystyried rhywogaethau sydd bellach wedi'u dosbarthu fel rhai diflanedig, fe awgrymodd yr asesiadau terfynol ar gyfer y 235 o rywogaethau sy'n bodoli fod gan 115 o rywogaethau (49%) o leiaf un boblogaeth a benderfynwyd ei bod mewn perygl o ddifodiant (26 o rywogaethau mewn perygl difrifol, 40 o rywogaethau mewn perygl a 49 o rywogaethau dan fygythiad). Ar y sail bod asesiad Rhestr Goch Prydain Fawr cyntaf yr IUCN wedi'i gynnal dim ond pedair blynedd ynghynt, nid yw Stanbury ac eraill (2021; 2024) yn cyflwyno gwerthusiad manwl o newid. Fodd bynnag, maent yn nodi gwahaniaethau nodedig, megis y rhegen fraith *Porzana porzana* a phedryn drycin Leach *Oceanodroma leucorhoa* yn symud i'r statws 'mewn perygl difrifol', o'r statws 'mewn perygl' a 'dan ddim bygythiad' yn y drefn honno. Mae deg poblogaeth arall, pob un wedi'i hasesu'n flaenorol i fod â statws 'dan beth bygythiad' neu 'dan ddim bygythiad', yn symud o leiaf dau gategori i statws uwch o fygythiad. Ymhlith y rhywogaethau bridio sy'n berthnasol i Gymru a symudodd i statws 'mewn perygl' oedd tinwen y garn *Oenanthe oenanthe*, y ji-binc *Fringilla coelebs* a llinos y mynydd *Linaria flavirostris*, tra bod yr hwyaden gopog *Aythya fuligula*, y bioden fôr *Haematopus ostralegus*, glas y dorlan *Alcedo atthis* a'r wennol *Hirundo rustica*, sef rhywogaethau sy'n bridio, ynghyd â'r rhostog gynffonfraith *Limosa lapponica*, nad yw'n bridio, yn symud i statws 'dan fygythiad'. Mae poblogaethau bridio'r wyach fawr gopog *Podiceps cristatus* a thelor Dartford *Curruca undata* yn symud o statws 'dan fygythiad' yn IUCN1 Prydain Fawr i statws 'dan ddim bygythiad'.

Mae'n bwysig nodi, yn wahanol i asesiadau BoCC, nad yw proses yr IUCN yn ystyried arwyddocâd rhyngwladol poblogaethau Prydain Fawr. Fodd bynnag, mae llawer o gyffredinrwydd rhwng canlyniadau asesiadau IUCN2 Prydain Fawr a BoCC5 y DU (Stanbury ac eraill, 2021; Stanbury ac eraill, 2024). O gyfanswm y rhywogaethau sydd â phoblogaeth mewn perygl difodiant (mewn perygl difrifol, mewn perygl, dan fygythiad) yn ôl meini prawf cymhwyso proses yr IUCN, mae pob un ond saith ar restrau coch neu oren BoCC y DU. Oherwydd bod proses Rhestr Goch ranbarthol yr IUCN yn canolbwyntio ar berygl difodiant, mae asesiadau'n tueddu i nodi rhywogaethau â niferoedd isel iawn, gwasgariadau cyfyngedig a/neu ostyngiadau sydyn diweddar. Mae hyn oll yn deg, gan mai'r rhain yw'r rhywogaethau sydd fwyaf tebygol o ddiflannu.

Mae adaregwyr y DU yn cydnabod yn eang ein bod ni’n hynod ffodus yn y DU i gael nifer fawr o wirfoddolwyr ymroddedig sy’n cyfrannu data tuag at gynlluniau monitro adar sefydledig, fel yr Arolwg Adar Bridio (BBS) a’r Arolwg Adar Gwlyptiroedd (WeBS). Mae'n amlwg, heb y data hyn, na fyddai blaenoriaethu'r DU nac asesiadau statws Prydain Fawr yn bosibl. Er gwaethaf bodolaeth y setiau data cyfoethog hyn, mae bylchau yn ein gwybodaeth o hyd. Er enghraifft, mae ansicrwydd yn y data tueddiadau ynghylch 20 o rywogaethau sy'n bridio yn y DU, gan gynnwys ar gyfer y dylluan glustiog *Asio flammeus*, sef tylluan brin ond â phresenoldeb rheolaidd yn y DU, gan fridio mewn cynefinoedd ucheldirol, ond rhywogaeth y mae ei phoblogaethau'n amrywio'n flynyddol.

4.4 Asesiadau gildiau rhywogaethau

Fel y dogfennwyd yn y ddogfen dull, nid oedd yn bosibl darparu asesiadau o rywogaethau adar unigol. Felly, mabwysiadwyd dull cydlynol ar draws pedair asiantaeth a gweinyddiaeth ddatganoledig gwledydd y DU i ddarparu asesiadau gildiau rhywogaethau. Lluniwyd tri asesiad gildiau rhywogaethau: adar y môr sy'n bridio, adar coetir sy'n bridio ac adar dŵr nad ydynt yn bridio, oherwydd bod gan Gymru boblogaethau DU a/neu fioddaearyddol pwysig. Mae'r asesiadau hyn yn rhoi crynodeb o newidiadau mewn poblogaethau, statws cadwraeth, pwysau a mesurau cadwraeth. Cyflwynir yr asesiadau yn atodiad technegol Asesiad gildiau rhywogaethau adar yr adroddiad hwn.

4.5 Asesiad o bwysau oherwydd hela ar rywogaethau y gellir eu hela’n gyfreithlon

Mae deddfwriaeth y DU sy'n rheoleiddio gweithgareddau hela wedi'i dylanwadu'n fawr gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, yn enwedig y Gyfarwyddeb Adar (79/409/EEC, 2009/147/EC) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC). Mae'r cyfarwyddebau'n gosod rhwymedigaeth ar aelod-wladwriaethau'r UE i sicrhau bod yr arfer o hela yn cydymffurfio ag egwyddorion defnydd doeth a rheolaeth ecolegol gytbwys, fel y gellir elwa ar y rhywogaethau sy’n cael eu hela wrth gynnal eu statws cadwraethol ffafriol. Un o'r dulliau i gynorthwyo gyda hyn yw casglu data'n rheolaidd ar doreithrwydd anifeiliaid a nifer yr anifeiliaid a laddwyd.

Mae pob aderyn gwyllt yng Nghymru wedi cael amddiffyniad cyfreithiol ers i’r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad gael ei deddfu yn 1981. Mae'r Ddeddf yn trosi Erthygl 5 o Gyfarwyddeb Adar Gwyllt 1979 (2009/147/EC), sy'n ei gwneud yn ofynnol i system

o amddiffyniad cyffredinol gael ei sefydlu ar gyfer "*pob rhywogaeth o adar sy'n byw'n naturiol yn y gwyllt yn nhiriogaeth Ewropeaidd yr aelod-wladwriaethau y mae'r cytuniad yn berthnasol iddynt*", gan gynnwys "*eu hwyau, eu nythod a'u cynefinoedd*". Mae Atodlen 2 i Ddeddf 1981 yn rhestru nifer o rywogaethau adar, yn bennaf adar hela neu adar gwyllt, y gellir eu lladd neu eu cymryd y tu allan i'r tymor caeedig neu gan bersonau awdurdodedig ar unrhyw adeg.

Nid oes gan y DU gynllun cofnodi bagiau statudol, er bod rhywfaint o ddata a gwybodaeth a adroddir yn wirfoddol ar gael o ffynonellau eraill. Mae Aebischer (2019) wedi amcangyfrif bagiau ar gyfer 2012/13, yn seiliedig ar raddnodi Cyfrifiad Bagiau Helwriaeth Cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt (GWCT) yn erbyn dau arolwg helaeth o unigolion sy'n cymryd rhan mewn saethu chwaraeon.

Er bod amcangyfrifon o fagiau helwriaeth y DU wedi'u darparu yn 11eg adroddiad Erthygl 12 y DU ar weithredu'r Gyfarwyddeb Adar, gan ddefnyddio amcangyfrifon yn Aebischer (2019), fe ddaeth asesiad diweddar o ba mor ddigonol yw data o'r fath ar gyfer amcangyfrif graddfa a chynaliadwyedd cynaeafu rhywogaethau hela o adar dŵr yn y DU yn fanwl gywir (Madden, Ellis a Cameron, 2025), a gomisiynwyd gan DEFRA, i'r casgliad bod yr wybodaeth sydd gan y DU ar fagiau helwriaeth yn "rhannol, yn gyfyngedig ac yn debygol o fod yn dueddol". Ar y sail honno, adroddodd DEFRA i'r Cytundeb ar Warchod Adar Dŵr Mudol Affricanaidd-Ewrasiaidd (AEWA), yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2024 ar gynaeafu, "nad yw'r DU yn gallu cyflwyno adroddiad data cynaeafu ar gyfer y cyfnod 2019–2023, gan nad ydym yn ystyried bod amcangyfrif manwl gywir ar gael bellach". O ganlyniad, cyngor y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i gyrff cadwraeth natur statudol y DU yw na ellir darparu unrhyw amcangyfrifon dibynadwy o fagiau helwriaeth i'w cynnwys yn adroddiad 2025 o dan Reoliad 9A y Rheoliadau Cynefinoedd ac, felly, ni ddarperir unrhyw amcangyfrifon yn yr adroddiad hwn.

4.6 Asesiad o bwysau sy'n effeithio ar boblogaeth rhywogaeth

Y cyngor yng nghanllawiau a dull yr UE oedd i adrodd ar yr asesiad o bwysau ar gyfer y rhywogaethau hynny y mae Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) wedi'u dosbarthu ar eu cyfer yn unig (yr hyn y mae'r UE yn ei alw'n 'rhywogaethau sbarduno AGA'). Fodd bynnag, mae Cymru yn cyflwyno data ar bwysau ar gyfer pob rhywogaeth y cyflwynwyd amcangyfrifon poblogaeth ar ei chyfer.

Gellir dod o hyd i'r datganiad dull yn y ddogfen dull ac mae'r wybodaeth ategol yn yr atodiad technegol: Taenlen data Adar Cymru – pwysau.

Y prif ganfyddiadau

At ei gilydd, roedd 274 o boblogaethau rhywogaethau (*N* = 194 o rywogaethau) sy'n bridio a/neu'n gaeafu'n rheolaidd yng Nghymru, sy'n cynrychioli 74% o gyfanswm nifer poblogaethau rhywogaethau'r DU a aseswyd. O'r 178 o bwysau unigol a nodwyd, barnwyd bod gan 73 effaith uchel, ganolig neu isel ar boblogaethau rhywogaethau Cymru. Cafodd y pwysau hyn eu grwpio i ffurfio 16 prif gategori pwysau (Ffigur 4.1).

Newid hinsawdd oedd y categori pwysau uchaf, gan effeithio ar 124 o boblogaethau rhywogaethau (84 o rywogaethau bridio a 40 o rywogaethau nad ydynt yn bridio) (Ffigur 4.1), sy'n cynrychioli 48% o'r holl boblogaethau rhywogaethau a aseswyd yng Nghymru. O'r 25 o boblogaethau rhywogaethau adar y môr a aseswyd, fe gafodd 19 allan o 21 o rywogaethau bridio Cymru eu heffeithio gan newid hinsawdd (91%) a deg rhywogaeth nad ydynt yn bridio allan o 21 o rywogaethau sy'n gaeafu neu'n teithio trwy Gymru'n rheolaidd (48%). Er bod llawer o ffactorau sy'n achosi newid ym mhoblogaeth adar y môr, nid yw rhywogaethau â thueddiadau a gofynion ecolegol tebyg o reidrwydd yn cael eu heffeithio arnynt gan gasgliad cyffredin o bwysau (Burnell ac eraill, 2023). Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae ymchwil wedi dod i'r casgliad bod effeithiau uniongyrchol (e.e. digwyddiadau tywydd megis glaw trwm, gwyntoedd cryfion) ac effeithiau anuniongyrchol (e.e. cynnydd yn nhymheredd wyneb y môr yn dylanwadu ar argaeledd bwyd) yn sgil newid hinsawdd ar boblogaethau adar y môr. Er bod 13 o'r 20 rhywogaeth o adar y môr sy'n bridio wedi cynyddu yng Nghymru (Burnell ac eraill, 2023), nid yw'n glir i ba raddau y bydd poblogaethau adar y môr Cymru yn gallu newid eu dosbarthiadau bridio i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

Ymhlith categorïau pwysau sylweddol eraill oedd **gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth**, a effeithiodd ar 68 o boblogaethau rhywogaethau (46 o rywogaethau bridio a 22 o rywogaethau nad ydynt yn bridio) a **rhywogaethau estron ac sy'n peri pryder**, a effeithiodd ar 46 o boblogaethau rhywogaethau (40 o rywogaethau bridio a chwe rhywogaeth nad ydynt yn bridio). Nid yw effaith pwysau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth yn syndod o ystyried bod arolwg amaethyddol a garddwrol Cymru, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023, yn awgrymu bod 90% o dir yn cael ei roi i amaethyddiaeth, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer magu defaid (8.7 miliwn) a gwartheg (1.1 miliwn). Yn yr arolwg hwn, fe dyfwyd grawnfwydydd ar draws 51,000 hectar, sy'n cyfrif am lai na 3% o'r holl dir amaethyddol yng Nghymru, tra bod glaswelltiroedd parhaol a phorfeydd garw yn cyfrif am 76% o ddefnydd tir ar ddaliadau amaethyddol Cymru.

Un o'r enghreifftiau mwyaf clir o sut mae rheoli tir ffermio wedi effeithio ar newid tueddiadau ym mhoblogaethau adar tir ffermio yw dangosydd adar tir ffermio y DU rhwng 1970 a 2023 (DEFRA, 2025), sy'n awgrymu tuedd boblogaeth gyfanredol o ostyngiad o 61% mewn 19 rhywogaeth o adar tir ffermio. Yma, roedd y gostyngiadau'n gryfach ar gyfer arbenigwyr tir ffermio (e.e. y bras melyn *Emberiza citronella*) na'r cyffredinolwyr (e.e. y fwyalchen *Terdus merula*). O'r 12 rhywogaeth o adar hirgoes sy'n bridio yng Nghymru, effeithiwyd ar naw rhywogaeth gan arferion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Roedd y rhain yn cynnwys rhywogaethau y mae eu niferoedd yn gostwng yn ddifrifol megis y gylfinir (*Numenius arquata*) a'r pibydd coesgoch (*Tringa totanus*).

Mae dangosydd adar môr y DU wedi gostwng 37% ers 1986 (DEFRA, 2025). Bu gostyngiad graddol yn y boblogaeth rhwng 2000 a 2013, ond ers hynny mae wedi profi gostyngiad serth a sydyn o 15% yn y cyfnod tymor byr o bum mlynedd ers 2019 (gweler crynodeb asesiad gild adar y môr).

Mae ein hasesiad ar gyfer Cymru yn awgrymu bod 46 o boblogaethau rhywogaethau, yn bennaf yn cynnwys adar y môr sy'n bridio, adar y dŵr nad ydynt yn bridio ac adar ysglyfaethus, yn cael eu heffeithio arnynt nawr ac yn y dyfodol gan glefydau (**Categori: Clefydau planhigion ac anifeiliaid, pathogenau a phlâu**). O'r

rhain, barnwyd bod clefydau’n cael effaith uchel ar 16 o boblogaethau rhywogaethau (Ffigur 4.2). Gall clefydau gael effeithiau sylweddol a negyddol ar fioamrywiaeth, gan sbarduno newid yn y boblogaeth o ganlyniad i lefelau atgynhyrchu a goroesi is (Daszak ac eraill, 2000).

Mae ffliw adar wedi'i gofnodi ymhlith llawer o rywogaethau adar ledled y byd. Gall y feirws hwn fod yn bresennol ar ffurf ffliw adar pathogenedd uchel (HPAI), sy'n arwain at lefelau sylweddol o forbidrwydd a marwolaeth ymhlith adar gwyllt, dofednod ac adar caeth. Cafwyd digwyddiad episŵotig digynsail yn haf 2022, a oedd yn parhau yn 2023. Cafodd hwn effaith fawr ar adar y môr sy’n bridio mewn cytrefi ac adar y dŵr ac adar ysglyfaethus sy’n gaeafu. Bu newid yn arwyddocâd clefydau sydd wedi dod i'r amlwg ers yr 11eg adroddiad Erthygl 12.

Darparodd cyfrifiad adar y môr Prydain ac Iwerddon diweddaraf (Seabirds Count: 2015–2021) feincnod cadarn ar gyfer deall effeithiau HPAI ar adar y môr sy’n bridio – ar y boblogaeth gyfan, ar y lefel ranbarthol ac ar y lefel leol (Burnell ac eraill, 2023). Serch hynny, am fod y gallu i ganfod y feirws yn gymharol gyfyngedig, nid oes gennym ddealltwriaeth o’r fath am boblogaethau adar ysglyfaethus. Mesurodd Tremlett ac eraill (2025) effeithiau digwyddiad episŵotig HPAI 2022 ar boblogaethau adar y môr yn y DU, gan dynnu sylw at ostyngiadau sylweddol yn niferoedd bridio mulfrain llwyd *Morus bassanus*, gwylanod penddu *Larus ridibundus*, gwylanod cefnddu lleiaf *Larus fuscus*, môr-wenoliaid cyffredin *Sterna hirundo* a môr-wenoliaid pigddu *Thalasseus sandvicensis* ledled Cymru. Dioddefodd yr wylan benddu y gostyngiad mwyaf (-77%) o bob rhywogaeth adar y môr yng Nghymru ers cyfrifiad Seabirds Count 2015–21 o ganlyniad i’r achosion o HPAI yng Nghymru.

Pan werthuswyd categorïau pwysau gyda rhestrau o rywogaethau ar BoCC4 Cymru, canfuwyd bod 84 o rywogaethau sy'n bridio wedi’u heffeithio gan newid hinsawdd, ac o'r rhain roedd 21 rhywogaeth ar y rhestr werdd, 28 rhywogaeth ar y rhestr oren a 34 rhywogaeth ar y rhestr goch. O ran adar nad ydynt yn bridio yng Nghymru, fe gafodd naw rhywogaeth ar y rhestr werdd, 15 rhywogaeth ar y rhestr oren a 15 rhywogaeth ar y rhestr goch eu heffeithio gan newid hinsawdd (Ffigur 4.3). Yn yr un modd, newid hinsawdd oedd y pwysau sylweddol ar rywogaethau bridio Prydain Fawr sydd mewn perygl o ddiflannu, gan effeithio ar 35 o rywogaethau (11 mewn perygl difrifol, 21 mewn perygl ac 13 dan fygythiad) (Ffigur 4.4). Er bod newid hinsawdd yn un o’r prif bwysau ar adar y dŵr nad ydynt yn bridio, y pwysau mwyaf sylweddol a effeithiodd ar boblogaethau'r rhywogaethau hyn oedd **echdynnu a meithrin adnoddau byw biolegol (heblaw amaethyddiaeth a choedwigaeth)**. Roedd cyfanswm o 52 o rywogaethau Prydain Fawr a restrir gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn gysylltiedig â'r categori hwn, gan gynnwys pedair rhywogaeth mewn perygl difrifol, naw rhywogaeth mewn perygl ac 17 rhywogaeth dan fygythiad.

Ffigur 4.1. Categorïau pwysau sy'n effeithio ar rywogaethau adar sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio yng Nghymru. Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 4.2. Effaith categorïau pwysau ar adar sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio yng Nghymru. Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 4.3. Categorïau pwysau yn ôl BoCC4 Cymru. Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 4.4. Asesiad o bwysau yn ôl Rhestr Goch Prydain Fawr yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Yn debyg i boblogaethau ledled y DU, mae adar yng Nghymru yn wynebu ystod eang o bwysau, ac mae effaith y pwysau hynny’n amrywio. Gall rhai pwysau gyfrannu'n unigol neu'n gyfunol at ysgogi newid mewn poblogaethau, yn dibynnu ar ba mor fregus yw’r rhywogaethau, pa mor sensitif ydynt, eu hamlygiad a’u hanghenion ecolegol. Mae Ffigur 4.5a-f yn dangos nifer y poblogaethau rhywogaethau o fewn chwe grŵp o rywogaethau (adar y môr sy'n bridio, adar hirgoes sy'n bridio, adar tir ffermio sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio, adar y dŵr nad ydynt yn bridio, adar yr ucheldir sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio, ac adar coetir sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio) sy'n cael eu heffeithio gan gategorïau pwysau. Newid hinsawdd yw'r prif gategori sy'n effeithio ar y nifer fwyaf o boblogaethau o rywogaethau o'i gyfansymio ar draws pob un o'r chwe grŵp o rywogaethau. Mae Ffigur 4.6a-f yn dangos effaith pob categori pwysau ar yr un chwe grŵp o rywogaethau.

Ffigur 4.5 a-f. Pwysau yn ôl gild rhywogaethau: a) adar y môr sy'n bridio, b) adar hirgoes sy'n bridio, c) adar tir ffermio sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio, d) adar y dŵr nad ydynt yn bridio, e) adar yr ucheldir sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio, ac f) adar y coetir sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio. Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 4.6 a-f. Effaith pwysau yn ôl gild rhywogaethau: a) adar y môr sy'n bridio, b) adar hirgoes sy'n bridio, c) adar tir ffermio sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio, d) adar y dŵr nad ydynt yn bridio, e) adar yr ucheldir sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio, ac f) adar y coetir sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio. Mae lliwiau'r bariau'n dangos yr effaith o bwysau a aseswyd yng Nghymru (uchel, canolig, isel, neu heb ei hasesu). Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

4.7 Asesiad o weithredu mesurau cadwraeth

O ran pwysau, dim ond ar gyfer y rhywogaethau hynny y mae Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) wedi'u dynodi ar eu cyfer y mae angen asesu mesurau cadwraeth. Fodd bynnag, mae'r DU yn cyflwyno data ar fesurau cadwraeth ar gyfer pob rhywogaeth y cyflwynwyd amcangyfrifon poblogaeth ar ei chyfer.

Rydym yn adrodd ar y broses o weithredu mesurau cadwraeth ar lefel pob gwlad unigol. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau ar gyfer adrodd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ac yn caniatáu i bolisi datganoledig gael ei adlewyrchu'n briodol. Bydd y broses o adrodd ar weithredu yn cael ei halinio yn erbyn pwysau, gan ganiatáu dealltwriaeth dda o ba fecanwaith sy'n cyfrannu at liniaru pwysau penodol.

Gellir dod o hyd i'r datganiad dull yn y ddogfen dull ac mae'r wybodaeth ategol yn yr atodiad technegol: Taenlen data Adar Cymru – Mesurau Cadwraeth.

Y prif ganfyddiadau

Roedd cyfanswm o 13 o fesurau cadwraeth yn gysylltiedig â'r poblogaethau rhywogaethau hynny lle roedd o leiaf un categori pwysau wedi'i nodi. Roedd nifer fach o rywogaethau nad oes angen mesurau cadwraeth arnynt o gwbl. Yn bennaf, rhywogaethau estron yw'r rhain a'r rhywogaethau hynny lle nad oes unrhyw bwysau wedi'u nodi. Mesurau cadwraeth yn ymwneud â seilwaith, gweithrediadau a gweithgareddau oedd y categori yr adroddwyd amdano fwyaf ar gyfer poblogaethau o rywogaethau (59 o fesurau ar gyfer adar sy'n bridio a 63 o fesurau ar gyfer adar nad ydynt yn bridio). Mesurau yn ymwneud ag amaethyddiaeth oedd yr ail gategori mesur uchaf, gan effeithio ar 72 o boblogaethau o rywogaethau (60 o rywogaethau bridio, 12 o rywogaethau nad ydynt yn bridio) (Ffigur 4.7). Er mai newid hinsawdd oedd y pwysau a oedd â'r effaith fwyaf ar boblogaethau o rywogaethau (Ffigur 4.1), dim ond â 12 poblogaeth o rywogaethau yr oedd mesurau a adroddwyd i liniaru'r categori pwysau hwn yn gysylltiedig (tair rhywogaeth sy'n bridio, naw rhywogaeth nad ydynt yn bridio).

Pan gawsant eu hasesu, roedd angen mesur cadwraeth ar 208 o boblogaethau o rywogaethau i liniaru pwysau cysylltiedig (Ffigur 4.8). O'r pedwar categori asesu, 'Ymgymerwyd â rhan o'r mesurau a nodwyd' oedd yr un pwysicaf. Roedd hyn yn cyfrif am 133 o boblogaethau o rywogaethau (87 o rywogaethau bridio, 46 o rywogaethau nad ydynt yn bridio), sy'n cynrychioli 64% o 208 o boblogaethau o rywogaethau. Roedd y categorïau lleiaf pwysig fel a ganlyn: 'Mesurau wedi'u nodi, ond dim un wedi'i gymryd eto' ac 'Angen mesurau ond na ellir eu nodi' (Ffigur 4.8).

Ffigur 4.7. Mesurau cadwraeth ar gyfer adar sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio yng Nghymru. Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

Ffigur 4.8. Cynnydd ar roi mesurau cadwraeth ar waith. Lawrlwythwch y data sylfaenol ar gyfer y ffigur hwn (Excel).

4.8 Cyfran o boblogaethau o rywogaethau Prydain sydd o fewn rhwydwaith Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) y DU

Mae ystadegau sy'n ymwneud â phresenoldeb rhywogaethau cymwys yn rhwydwaith AGA y DU wedi'u tynnu o Gam 1 o drydydd adolygiad rhwydwaith y DU (Stroud ac eraill, 2016). Ar gyfer yr adolygiad, fe gasglwyd asesiadau poblogaeth o'r 2000au, fel arfer o ran olaf y degawd (e.e. ar gyfer adar y dŵr nad ydynt yn bridio, defnyddiwyd data WeBS o'r cyfnod pum mlynedd rhwng 2005/06 a 2009/10). Mae cyfansymiau wedi'u cyfrifo ar gyfer cyfres AGA pob rhywogaeth fel y'i diffinnir gan Stroud ac eraill (2001), yn amodol ar unrhyw newidiadau sy'n deillio o ddosbarthiadau AGA ers 2001. Roedd adroddiadau Erthygl 12 cynharach yn gofyn am gyfanswm poblogaeth y rhywogaethau ar rwydweithiau AGA cenedlaethol, boed fel rhywogaethau cymwys neu'n bresennol yn achlysurol fel arall. Fel y nodwyd yn 11eg adroddiad Erthygl 12 y

DU, nid yw'n ymarferol deillio'r ystadegyn hwn ar gyfer y DU, felly'r hyn a gyflwynir yw cyfanswm y gyfres AGA (h.y. cyfanswm nifer y rhywogaethau cymwys). Mae'r 'duedd tymor byr o faint y boblogaeth yn y rhwydwaith AGA' yn deillio o gymhariaeth syml o gyfansymiau cyfresi AGA yn y 1990au (Stroud ac eraill, 2001) ac o'r 2000au (Stroud ac eraill, 2016). Nid yw'n caniatáu ar gyfer chwyddiant cyfansymiau cyfresi a allai fod wedi digwydd o ganlyniad i ddosbarthiadau ychwanegol a allai fod wedi digwydd ers 2001.

Gellir dod o hyd i'r datganiad dull yn y ddogfen dull ac mae'r wybodaeth ategol yn yr atodiad technegol: Taenlen data Adar Cymru – cyfran AGA.

Y prif ganfyddiadau

Aseswyd cyfanswm o 325 o boblogaethau o rywogaethau yn y DU (216 o rywogaethau, isrywogaethau neu hiliau) ar gyfer cyfran y boblogaeth Brydeinig a'r boblogaeth fioddaearyddol o fewn cyfres AGA y DU. O'r rhain, nid yw 196 o boblogaethau o rywogaethau'n nodweddion o rwydwaith AGA y DU, y mae'r mwyafrif ohonynt yn olfanod sy'n bridio, e.e. y golomen wyllt *Columba oenas*. O'r 129 o boblogaethau o rywogaethau sy'n weddill, roedd gan 25 o boblogaethau (19.4%) gynrychiolaeth o 0.1–10% o fewn rhwydwaith AGA y DU, roedd gan 30 o boblogaethau (23.3%) gynrychiolaeth o 11%–30%, roedd gan 33 o boblogaethau (25.6%) gynrychiolaeth o 31–60%, roedd gan 27 o boblogaethau (20.9%) gynrychiolaeth o 61–90%, ac roedd gan wyth poblogaeth (6.2%) gynrychiolaeth o fwy na 90%, ond nid 100% (Tabl 4.1). Mae gan ddwy rywogaeth (poblogaeth yr ŵydd ddu *Branta bernicla hrota* yn Svalbard a Denmarc a dryw Fair Isle *Troglodytes troglodytes fridariensis*) 100% o'u poblogaeth ym Mhrydain Fawr o fewn cyfres AGA y DU (Stroud ac eraill, 2016). O'r poblogaethau o rywogaethau sy'n weddill, mae gan bedair rhywogaeth (y trochydd mawr *Gavia immer*, grugiar y coed *Tetrao urogallus*, yr wylan fechan *Hydrocoloeus minutus* a'r fôr-hwyaden ddu *Malanitta nigra*) ganran anhysbys o'u poblogaeth ym Mhrydain Fawr o fewn y rhwydwaith AGA.

Mae Cymru yn bwysig i sawl aderyn sy'n bridio o fewn rhwydwaith AGA y DU. Er enghraifft, mae saith Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar gyfer y frân goesgoch yng Nghymru, sy'n cwmpasu dros 7,500 hectar. Mae cyfres AGA y frân goesgoch yng Nghymru yn cynrychioli 35% o boblogaeth fridio Cymru, 32% o boblogaeth fridio Prydain Fawr, a thua 77% o gyfres AGA y DU (Cross ac eraill, 2020). Ymhlith y rhywogaethau pwysig eraill yng Nghymru sydd â chyfrannau cymharol uchel o'u poblogaeth Gymreig o fewn cyfres AGA y DU y mae aderyn drycin Manaw, yr hugan a'r fôr-hwyaden ddu.

Tabl 4.1. Poblogaethau o rywogaethau lle mae mwy na 90% o boblogaeth Prydain Fawr o fewn cyfres AGA y DU (data gan Stroud ac eraill, 2016)

Rhywogaeth	Cyfran o boblogaeth Prydain Fawr yng nghyfres AGA y DU (Stroud ac eraill, 2016)	Cyfran y boblogaeth fioddaearyddol yng nghyfres AGA y DU (Stroud ac eraill, 2016)	Nodwedd yn rhwydwaith AGA Cymru
Yr ŵydd wyran (heb fod yn bridio, poblogaeth Svalbard/Denmarc)	91.2%	91.2% (Svalbard a De-orllewin yr Alban)	Nac ydy
Y fôr-wennol wridog (bridio)	94%	3.8% (Ewrop)	Ydy
Yr hugan (bridio)	95.9%	54.1% (byd)	Ydy
Y fôr-hwyaden ddu	96%	<0.1% (gorllewin Siberia a gogledd Ewrop)	Ydy
Pâl Manaw	96.2%	78.6% (byd)	Ydy
Gŵydd y llafur	98%	0.9% (gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Ewrop)	Nac ydy
Y pedryn drycin Ewropeaidd	99%	5.35 (gogledd-ddwyrain yr Iwerydd)	Ydy
Pedryn drycin Leach	99.2%	21% (gogledd-ddwyrain yr Iwerydd)	Nac ydy
Yr ŵydd ddu (heb fod yn bridio, Svalbard a Denmarc)	100%	46.7% (Svalbard a Denmarc)	Nac ydy
Dryw Fair Isle	100%	100% (byd)	Nac ydy

4.9 Cyfran Cymru o boblogaeth rhywogaeth y DU

Nid oes yr un o rywogaethau adar gwyllt Cymru yn endemig, ond mae rhai yn rhan o boblogaethau sydd o bwys i'r DU ac, mewn rhai achosion, maent yn cynrychioli dosbarthiadau biodaearyddol a/neu fyd-eang pwysig o ran niferoedd a gwasgariad. Mae gallu pennu pwysigrwydd cenedlaethol rhywogaeth, neu 'gyfrifoldeb', yn hanfodol ar gyfer monitro a deall ffactorau sy'n achosi newid poblogaeth, newidiadau mewn tueddiadau ac ymyriadau cadwraeth a allai fod â goblygiadau ar gyfer cynnal poblogaethau ar draws y DU. Mae'r asesiad o bwysigrwydd yn y DU yn dibynnu ar gasglu data safonol a data dibynadwy ar amcangyfrifon poblogaeth o'r DU a Chymru.

Gellir dod o hyd i'r datganiad dull yn y ddogfen dull ac mae'r wybodaeth ategol yn yr atodiad technegol: Taenlen data Adar Cymru – statws poblogaeth.

Y prif ganfyddiadau

Gan ddefnyddio'r ffynonellau data sydd ar gael, roedd yn bosibl darparu cyfran ddangosol ar gyfer Cymru ar gyfer 274 o boblogaethau o rywogaethau o'u poblogaethau amcangyfrifedig yn y DU. Yn achos 52 rhywogaeth o adar dŵr nad ydynt yn bridio, oherwydd gwahaniaethau casglu data, fe benderfynwyd pa mor bwysig oedd poblogaeth Cymru gan ddefnyddio poblogaeth Prydain Fawr.

Mae Cymru yn cynnal cyfrannau mawr o boblogaeth y DU neu Brydain (mwy na 30%) ar gyfer 12 o boblogaethau o rywogaethau (Tabl 4.2). Awgrymir bod mwy nag 80% o boblogaethau'r gwybedog brith *Ficedula hypoleuca* a thelor y coed *Phylloscopus sibilatrix* yn y DU wedi'i lleoli yng Nghymru ac mae eu dirywiad yng Nghymru yn adlewyrchu dirywiad ar draws gweddill y DU. Mae gan unrhyw newid negyddol yn statws cadwraethol y rhywogaethau hyn yng Nghymru oblygiadau uniongyrchol ar gyfer poblogaethau'r DU ac ar gyfer cynnal a chadw eu gwasgariad. Yn achos rhywogaethau o adar coetir eraill fel y tingoch *Phoenicurus phoenicurus*, gwalch Marth *Accipiter gentilis* a'r gwybedog brith, er bod cyfran Cymru o'u poblogaeth yn y DU yn llai, sef 46%, 33% a 32% yn y drefn honno, gall camau rheoli ddal i gael dylanwad pwysig ar statws cyffredinol poblogaeth y DU.

Ymhlith y rhywogaethau eraill y mae gan Cymru gyfran sylweddol o boblogaeth y DU ohonynt y mae'r frân goesgoch, gan gynnwys adar sy'n bridio a rhai nad ydynt yn bridio (mae tua 79% o boblogaeth y DU yng Nghymru – gweler Hayhow ac eraill, 2018), a phâl Manaw (mae gan Cymru 61% o boblogaeth y DU a 39% o boblogaeth y byd – gweler Burnell ac eraill, 2023).

O'r holl adar dŵr nad ydynt yn bridio a geir yng Nghymru, dim ond gŵydd ddu Canada *Branta bernicla hrota* (hil Svalbard/Denmarc) oedd â mwy na 30% o boblogaeth Prydain wedi'i lleoli yng Nghymru (Tabl 4.2). Roedd gan dair rhywogaeth o adar dŵr nad ydynt yn bridio, y mae pob un yn gaeafu yng Nghymru, fwy nag 20%, ond llai na 30%, o boblogaeth Prydain: y pibydd coeswyrdd *Tringa nebularia*, pioden y môr *Haematopus ostralegus* a'r pibydd coesgoch mannog *Tringa erythropus*.

Tabl 4.2. Poblogaethau o rywogaethau adar Cymru sy'n cynrychioli 30% neu fwy o boblogaeth y DU neu Brydain Fawr.

Poblogaeth rhywogaeth	**Amcangyfrif poblogaeth Cymru**	**Amcangyfrif poblogaeth y DU**	**Cyfran poblogaeth Cymru o boblogaeth y DU**
Telor yr ardd (bridio)	39,500 (parau)	125,224 (parau)	31.5%
Y gwybedog mannog (bridio)	5,700 (parau)	17,824 (parau)	31.9%
Gwalch Marth (bridio)	310 (parau)	954 (parau)	32.5%
Y barcud coch (bridio)	2,117 (parau)	6,350 (parau)	33.3%
Y tingoch cyffredin	50,500 (parau)	110,504 (parau)	45.7%
Y fulfran (*Phalacrocorax carbo carbo*) (heb fod yn bridio)	2,894 (unigolion)	5,041 (unigolion)	57.4%
Pâl Manaw (bridio)	480,627 (safleoedd sydd i bob golwg wedi'u meddiannu)	786,743 (safleoedd sydd i bob golwg wedi'u meddiannu)	61.1%
Yr ŵydd ddu (*Branta bernicla hrota*) (heb fod yn bridio)	1,645 (unigolion)	2,389 (unigolion)	68.9%
Y frân goesgoch (bridio)	236 (parau)	300 (parau)	78.7%
Y crëyr bach (bridio)	1,273 (parau)	1,496 (parau)	85.1%
Y gwybedog brith (bridio)	15,000 (parau)	17,227 (parau) – maint poblogaeth uchaf y DU	87.1%
Telor y coed (bridio)	2,850 (parau)	3,302 (parau)	93.2%

4.10 Cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau'r DU, strategaethau, gweithgorau ac ati

Mae adrodd ar gynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau, strategaethau a gweithgorau yn nodwedd newydd sydd wedi'i chynnwys yn adroddiadau ar adar gwledydd y DU yn 2025. Rhestrir cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau, strategaethau a gweithgorau ar gyfer pob rhywogaeth/poblogaeth yn y DU y mae cynllun, strategaeth neu weithgor yn bodoli ar ei chyfer, ac mae manylion am fesurau cydlynol ar adar wedi'u darparu. Dim ond o fewn un o bedair gwlad y DU y mae rhai o'r cynlluniau'n gweithredu, e.e. Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Adfer y Gylfinir.

Er mwyn eglurder, nid yw cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau, strategaethau na gweithgorau sydd â chylch gwaith eang, ond nad ydynt yn nodi rhywogaethau unigol, wedi'u cynnwys. Mae'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer pob cynllun gweithredu ar gyfer rhywogaeth, strategaeth neu weithgor yn nodi mesurau cadwraeth a all gefnogi adferiad rhywogaethau/poblogaethau unigol.

Gellir dod o hyd i'r datganiad dull yn y ddogfen dull ac mae'r wybodaeth ategol yn yr atodiad technegol: Taenlen data Adar Cymru – cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau.

Y prif ganfyddiadau

At ei gilydd, mae 73 o boblogaethau rhywogaethau sy'n berthnasol i Gymru yn gysylltiedig â chynllun gweithredu ar gyfer rhywogaeth, strategaeth neu weithgor (Tabl 4.3). Mae cytundebau rhyngwladol a lofnodwyd gan y DU yn cynrychioli 90 o boblogaethau rhywogaethau, yn enwedig adar y môr sy'n bridio ac yn gaeafu ac adar dŵr nad ydynt yn bridio, yn bennaf trwy ymrwymiadau i Gynllun Gweithredu Rhanbarthol OSPAR ar gyfer adar morol yng Ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd (2024–2030) a'r Cytundeb ar Warchod Adar Dŵr Mudol Affricanaidd-Ewrasiaidd (AEWA).

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth gwarchod adar môr i Gymru a fydd yn cynhyrchu asesiadau cyfredol o lefel y bygythiad ar gyfer 48 o boblogaethau rhywogaethau adar y môr (bridio, nad ydynt yn bridio a theithio) o 30 rhywogaeth, gan gynnwys hwyaid y môr nad ydynt yn bridio megis y trochydd gyddfgoch *Gavia stellata* a'r fôr-hwyaden ddu *Melanitta nigra*. Yn ogystal, bydd y strategaeth yn nodi'r categorïau pwysau pwysicaf ar gyfer pob rhywogaeth ac yn pennu i ba raddau y mae'r pwysau/problemau yn gyffredin ar draws yr asesiadau o rywogaethau. Yr unig gynllun adfer adar gwyllt yng Nghymru yw ar gyfer gylfinirod sy'n bridio. Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno fframwaith sy'n amlinellu'r trywydd strategol i warchod gylfinirod sy'n bridio dros raglen weithredu deng mlynedd o hyd (2021–2031). Mae'r fframwaith ar gyfer gweithredu wedi'i ddatblygu gan y bartneriaeth Gylfinir Cymru yn ôl safonau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ac mae wedi'i gynllunio i alinio camau gweithredu ar gyfer adferiad â chynllun gweithredu rhyngwladol yr AEWA ar gyfer y gylfinir. Mae gweithgorau rhywogaethau sengl eraill yn cynnwys: Fforwm Brain Coesgoch Cymru, sef fforwm aml-bartner sy'n defnyddio tystiolaeth i gynorthwyo ymdrechion i adfer y frân goesgoch yng Nghymru, Gweithgor Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las Cymru, a Gweithgor Eryrod Môr Cymru a Lloegr.

Mae Grŵp Llywio Adar Coetiroedd y DU yn grŵp ar y cyd rhwng sefydliadau sy'n cynrychioli'r pedwar corff cadwraeth natur statudol ym mhob gwlad, y maes cadwraeth a'r byd academaidd. Mae'r grŵp llywio wedi defnyddio tystiolaeth a barn arbenigol i ddatblygu fframwaith i gynorthwyo ymdrechion i adfer naw rhywogaeth o adar coetir sydd mewn perygl o ddiflannu. Mae'r gyfres hon o rywogaethau yn cynnwys tri aderyn coetir (telor y coed, y gwybedog brith a'r gylfinbraff) y mae dros 50% ohonynt yn byw yng Nghymru.

Tabl 4.3. Poblogaethau o rywogaethau Cymru sy'n gysylltiedig â chynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth a lofnodwyd gan y DU, cynllun gweithredu yng Nghymru / y DU, strategaeth neu weithgor.

Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth a lofnodwyd gan y DU / strategaeth / gweithgor	**Nifer y rhywogaethau**	**Enwau'r rhywogaethau**
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth gŵydd dalcenwen yr Ynys Las *Anser albifrons flavirostris* 2012–2022. AEWA. 2012. Astudiaeth Gŵydd Dalcenwen yr Ynys Las (GWGS).	1	Gŵydd Dalcen Wen yr Ynys Las *Anser albifrons flavirostris* (heb fod yn bridio)
Fframwaith cadwraeth ar gyfer y boda tinwen yn y Deyrnas Unedig. 2011. Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC).	1	Boda tinwyn *Circus cyaneus* (bridio a heb fod yn bridio)
Platfform Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Gwyddau AEWA.	1	Gŵydd lwyd *Anser anser* (heb fod yn bridio)
Platfform Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Gwyddau AEWA. Cynllun rheoli rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol ar gyfer yr ŵydd wyran (poblogaeth Rwsia / yr Almaen a'r Iseldiroedd, poblogaeth dwyrain yr Ynys Las / yr Alban ac Iwerddon, poblogaeth Svalbard / de-orllewin yr Alban). 2018. AEWA.	1	Gŵydd wyran *Branta leucopsis* (heb fod yn bridio)
Platfform Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Gwyddau AEWA. Cynllun rheoli rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth ar gyfer poblogaeth yr ŵydd droetbinc yn Svalbard (Cyfres Cytuniad Rhif 48). 2012. AEWA.	1	Gŵydd droetbinc *Anser brachyrhynchus* (heb fod yn bridio)
Gweithgor Rhyngwladol AEWA ar gyfer y Rhostog Gynffonddu.	1	Rhosgoch gynffonddu *Limosa limosa* (heb fod yn bridio)
Gweithgor Rhyngwladol AEWA ar gyfer y Rhostog Gynffonddu. Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth y rhostog gynffonddu *Limosa l. limosa* ac *L. l. islandica*. 2008. AEWA.	1	Rhostog gynffonddu *Limosa limosa islandica* (heb fod yn bridio)
Gweithgor Rhyngwladol AEWA ar gyfer y Rhostog Gynffonddu. Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth y rhostog gynffonddu *Limosa l. limosa* ac *L. l. islandica*. AEWA. 2008. Cynllun gweithredu aml-rywogaeth rhyngwladol er cadwraeth adar hirgoes sy'n bridio mewn cynefinoedd glaswelltir gwlyb yn Ewrop (2018–2028). Naturschutzbund Deutschland (NABU). 2018.	1	Rhostog gynffonddu *Limosa limosa limosa* (heb fod yn bridio)
Cynllun Rheoli'r UE ar gyfer yr Hwyaden Benddu 2009–2011. UE.	1	Hwyaden benddu *Aythya marila* (heb fod yn bridio)
Cynllun Rheoli'r Hwyaden Lostfain yr UE 2007–2009. UE.	1	Hwyaden lostfain *Anas acuta* (heb fod yn bridio)
Cynllun Rheoli'r Undeb Ewropeaidd 2009–2011 i'r Cwtiad Aur. UE. 2009.	1	Cwtiad aur *Pluvialis apricaria* (bridio a heb fod yn bridio)

Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth a lofnodwyd gan y DU / strategaeth / gweithgor	Nifer y rhywogaethau	Enwau'r rhywogaethau
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth (dwyrain yr Iwerydd) er cadwraeth y fôr-wennol wridog *Sterna dougallii* (2021–2030). Datblygwyd o dan fframwaith prosiect LIFE y fôr-wennol wridog (LIFE14 NAT/UK/000394). Y Comisiwn Ewropeaidd 2021. Cynllun gweithredu rhanbarthol OSPAR ar gyfer adar morol yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd (2024–2030). 2024. OSPAR. Rhwydwaith Môr-wenoliaid Môr Iwerddon.	1	Môr-wennol wridog *Sterna dougallii* (bridio)
Cynllun gweithredu aml-rywogaeth rhyngwladol er cadwraeth adar hirgoes sy'n bridio mewn cynefinoedd glaswelltir gwlyb yn Ewrop (2018–2028). Naturschutzbund Deutschland (NABU). 2018.	6	Y pibydd coesgoch *Tringa totanus*, y gïach *Gallinago gallinago*, pibydd y mawn *Calidris alpina schinzii*, y bioden fôr *Haematopus ostralegus*, y gornchwiglen *Vanellus vanellus* (pob un ohonynt ddim yn bridio)
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth yr hwyaden fwythblu (poblogaeth y Môr Baltig, Môr y Gogledd a'r Môr Celtaidd, poblogaeth Norwy a Rwsia, poblogaeth Svalbard a Thir Franz Josef) – (Cyfres Cytuniad Rhif 75). 2022. AEWA.	1	Hwyaden fwythblu *Somateria mollissima* (bridio)
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth rhegen yr ŷd. 2006. Confensiwn ar Gadwraeth Rhywogaethau Mudol (CMS) ac AEWA.	1	Rhegen yr ŷd *Crex crex* (cyn-fridwr)
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth y gylfinir. 2015. AEWA. Gweithgor Rhyngwladol AEWA ar gyfer y Gylfinir. Cynllun gweithredu aml-rywogaeth rhyngwladol er cadwraeth adar hirgoes sy'n bridio mewn cynefinoedd glaswelltir gwlyb yn Ewrop (2018–2028). Naturschutzbund Deutschland (NABU). 2018. Cynllun Gweithredu Rhywogaeth y DU – wrthi'n cael ei ddatblygu (2025). Grŵp llywio'r gylfinir LIFE y DU. 2020–2024.	1	Gylfinir *Numenius arquata* (bridio a heb fod yn bridio)
Cynllun gweithredu'r DU ar gyfer rhywogaeth y gylfinir – wrthi'n cael ei ddatblygu	1	Gylfinir *Numenius arquata* (bridio)
Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Adfer y Gylfinir. 2021. Gylfinir Cymru.	1	Gylfinir *Numenius arquata arquata* (bridio)
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth y llwybig (cyflawn) (Cyfres Cytuniad Rhif 35) 2008. AEWA.	1	Llwybig *Platalea leucorodia* (heb fod yn bridio)
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth y durtur (2018 i 2028). 2018. Y Comisiwn Ewropeaidd: Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr Amgylchedd.	1	Turtur *Streptopelia turtur* (cyn-fridwr)
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth gŵydd ddu Canada (poblogaeth Arctig uchel dwyrain Canada) *Branta bernicla hrota*. 2006. AEWA.	1	Gŵydd ddu *Branta bernicla hrota* (heb fod yn bridio)
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth yr hwyaden gynffon-hir 2016–2025. Gweithgor Rhyngwladol Môr-hwyaid AEWA. Cynllun gweithredu rhanbarthol OSPAR ar gyfer adar morol yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd (2024–2030). 2024. OSPAR.	1	Hwyaden gynffon-hir *Clangula hyemalis* (heb fod yn bridio)

Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth a lofnodwyd gan y DU / strategaeth / gweithgor	Nifer y rhywogaethau	Enwau'r rhywogaethau
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth poblogaeth alarch Bewick yng ngogledd-orllewin Ewrop (Cyfres Cytuniad Rhif 44). 2012. AEWA.	1	Alarch y twndra *Cygnus columbianus bewickii* (heb fod yn bridio)
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth gŵydd lafur y taiga (*Anser fabalis fabalis*). 2015. AEWA. Tasglu Gwyddau Llafur y Taiga (AEWA).	1	Gŵydd y llafur *Anser fabalis fabalis* (heb fod yn bridio)
Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth môr-hwyaden y Gogledd (poblogaeth gorllewin Siberia a gogledd Ewrop / gogledd-orllewin Ewrop). 2018. AEWA. Cynllun Rheoli Môr-hwyaden y Gogledd UE 2007–2009. UE. Gweithgor Rhyngwladol Môr-hwyaid AEWA. Cynllun gweithredu rhanbarthol OSPAR ar gyfer adar morol yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd (2024–2030). 2024. OSPAR.	1	Môr-hwyaden y Gogledd *Melanitta fusca* (heb fod yn bridio)
Cynllun gweithredu rhanbarthol OSPAR ar gyfer adar morol yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd (2024–2030). 2024. OSPAR.	29	Pâl (*Fratercula arctica*), aderyn drycin Balearig (*Puffinus mauretanicus*), gwylog ddu (*Cepphus grylle*), gwylan benddu (*Larus ridibundus*), gwylan goesddu (*Rissa tridactyla*), trochydd gyddfddu (*Gavia arctica*), gwylog (*Uria aalge* a phob un arall), môr-hwyaden ddu (*Melanitta nigra* s. str.), mulfran werdd (*Phalacrocorax aristotelis aristotelis*), pedryn drycin (*Hydrobates pelagicus*), aderyn drycin y graig (*Fulmarus glacialis*), gwylan gefnddu fwyaf (*Larus marinus*), mulfran (*Phalacrocorax carbo carbo*), mulfran (*Phalacrocorax carbo sinensis*), trochydd mawr (*Gavia immer*), sgiwen fawr (*Catharacta skua*), gwylan y penwaig (*Larus argentatus argenteus*), pedryn drycin Leach (*Hydrobates leucorhous*), gwylan gefnddu leiaf (*Larus fuscus* a phob un arall), gwylan fechan (*Hydrocoloeus minutus*), aderyn drycin Manaw (*Puffinus puffinus*), gwylan Môr y Canoldir (*Larus melanocephalus*), gwylan fewian (*Larus canus*), hugan (*Morus bassanus*), sgiwen y Gogledd (*Stercorarius parasiticus*), llurs (*Alca torda*), trochydd gyddfgoch (*Gavia stellata*), môr-wennol bigddu (*Thalasseus sandvicensis*), gwylan goesfelen (*Larus michahellis*) (i gyd yn boblogaethau nad ydynt yn bridio)
Cynllun gweithredu rhanbarthol OSPAR ar gyfer adar morol yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd (2024–2030). 2024. OSPAR. Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth unigol er cadwraeth yr hwyaden fwythblu (poblogaeth y Môr Baltig, Môr y Gogledd a'r Môr Celtaidd, poblogaeth Norwy a Rwsia, poblogaeth Svalbard a Thir Franz Josef) – (Cyfres Cytuniad Rhif 75). 2022. AEWA.	1	Hwyaden fwythblu *Somateria mollissima* (heb fod yn bridio)

Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth a lofnodwyd gan y DU / strategaeth / gweithgor	**Nifer y rhywogaethau**	**Enwau'r rhywogaethau**
Cynllun gweithredu rhanbarthol OSPAR ar gyfer adar morol yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd (2024–2030). 2024. OSPAR. Rhwydwaith Môr-wenoliaid Môr Iwerddon.	3	Môr-wennol y gogledd *Sterna paradisaea*, môr-wennol gyffredin *Sterna hirundo*, môr-wennol fach *Sternula albifrons* (pob un ohonynt yn bridio)
Cynllun ar gyfer adfer a chadwraeth gwalch y pysgod yn Ewrop ac, yn benodol, yn rhanbarth Môr y Canoldir. 2016. Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop.	1	Gwalch y pysgod *Pandion haliaetus* (bridio)
Ring Ouzel Study Group: https://www.ringouzel.info/index.html	1	Mwyalchen y mynydd *Turdus torquatus* (bridio)
Cynllun gweithredu ar gyfer rhywogaeth y barcud coch yn yr Undeb Ewropeaidd. 2010.	1	Barcud coch *Milvus milvus* (bridio a heb fod yn bridio)
Gweithgor Rhyngasiantaethol Brain Coesgoch y DU	1	Brân goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax* (bridio a heb fod yn bridio)
Grŵp Llywio Adar Coetiroedd y DU	8	Cyffylog *Scolopax rusticola*, gwybedog brith *Ficedula hypoleuca*, gylfinbraff *Coccothraustes coccothraustes*, titw'r wern *Poecile palustris*, gwybedog mannog *Muscicapa striata*, titw'r helyg *Poecile montanus*, telor y coed *Phylloscopus sibilatrix* (pob un ohonynt yn bridio)
Grŵp Llywio Adar Coetiroedd y DU. Woodpecker Network: https://www.woodpecker-network.org.uk/index.php	1	Cnocell fraith leiaf *Dryobates minor* (bridio)
Woodpecker Network: https://www.woodpecker-network.org.uk/index.php	2	Cnocell werdd *Picus viridis*, cnocell fraith fwyaf *Dendrocopos major* (pob un arall) (bridio)
Gweithgor Eryrod Môr Cymru a Lloegr	1	Eryr môr *Haliaeetus albicilla*
Fforwm Brain Coesgoch Cymru	1	Brân goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax* (bridio a heb fod yn bridio)
Gweithgor Gwyddau Talcenwen yr Ynys Las Cymru	1	Gŵydd dalcenwen yr Ynys Las *Anser albifrons flavirostris* (heb fod yn bridio)

Cynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth a lofnodwyd gan y DU / strategaeth / gweithgor	Nifer y rhywogaethau	Enwau'r rhywogaethau
Strategaeth Cadwraeth Adar Môr ddrafft Cymru. 2024. Llywodraeth Cymru.	30	Môr-wennol y gogledd *Sterna paradisaea*, pâl *Fratercula arctica*, aderyn drycin Balearig *Puffinus mauretanicus*, gwylog ddu *Cepphus grylle*, gwylan benddu *Larus ridibundus*, gwylan goesddu *Rissa tridactyla*, hwyaden fwythblu *Somateria mollissima*, gwylog *Uria aalge* (pob un arall), môr-hwyaden ddu *Melanitta nigra* s. str., hwyaden yr eithin *Tadorna tadorna*, môr-wennol gyffredin *Sterna hirundo*, mulfran werdd *Phalacrocorax aristotelis aristotelis*, pedryn drycin *Hydrobates pelagicus*, aderyn drycin y graig *Fulmarus glacialis*, gwylan gefnddu fwyaf *Larus marinus*, mulfran *Phalacrocorax carbo carbo*, mulfran *Phalacrocorax carbo sinensis*, trochydd mawr *Gavia immer*, gwylan y penwaig *Larus argentatus argenteus*, gwylan gefnddu leiaf *Larus fuscus* (pob un arall), gwylan fach *Hydrocoloeus minutus*, môr-wennol fechan *Sternula albifrons*, aderyn drycin Manaw *Puffinus puffinus*, gwylan Môr y Canoldir *Larus melanocephalus*, hugan *Morus bassanus*, gwalch y penwaig *Alca torda*, hwyaden frongoch *Mergus serrator*, trochydd gyddfgoch *Gavia stellata*, môr-wennol wridog *Sterna dougallii*, môr-wennol bigddu *Thalasseus sandvicensis*

4.11 Llyfryddiaeth

Batten, L. A., Bibby, C. J., Clement, P., Elliott, G. D., a Porter, R. F. 1990. *Red Data Birds in Britain*. Poyser, Llundain.

Burnell, D., Perkins, A. J., Newton, S. F., Bolton, M., Tierney, T. D., a Dunn, T. E. 2023. *Seabirds Count: a census of breeding seabirds in Britain and Ireland (2015–2021).* Lynx Edicions, Barcelona.

Confensiwn Ramsar 2012. *Strategic Framework and guidelines for the future development of the List of Wetlands of International Importance of the Convention on Wetlands (Ramsar, Iran, 1971).* 131 tt.

Cross, A.V., Stratford, A., Johnstone, I., Thorpe, R.I.T., Dodd, S., Peach, W., Buchanan, G. a Moorhouse-Gann, R. 2020. Red-billed Chough Wales research programme. Natural Resources Wales Science Report Series (adroddiad heb ei gyhoeddi)

Daszak, P., Cunningham, A.A. a Hyatt, A.D. 2000. Emerging infectious diseases of wildlife: threats to biodiversity and human health. Science 21, 443-449.

Defra. 2025. Wild bird populations in the UK and in England: Annual trends in wild bird populations in the UK.

Hayhow, D.B., Johnstone, I., Moore, A.S, Mucklow, C., Stratford, A., Šúr, M. ac Eaton, M.A. 2018. Breeding status of Red-billed Choughs *Pyrrhocorax pyrrhocorax* in the UK and Isle of Man in 2014, Bird Study, 65:4, 458-470.

JNCC, DAERA, NatureScot, NE, NRW (2026). The Approach to Assessing Conservation Status of Habitats and Species for the 2019–2024 Habitats Regulations Country Reporting. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough. Available to download from: https://jncc.gov.uk/our-work/habitats-regulations-reporting-2019-to-2024/

Madden, J.R., Ellis, M. a Cameron, T. 2025.An Assessment of Sufficiency of Data Availability on UK Waterbird Harvests for Accurately Estimating the Scale and Sustainability of Harvest of AEWA-Listed Waterbird Populations. *JNCC Report 779 (Research and Review Report)*, JNCC, Peterborough, ISSN 0963-8091. https://hub.jncc.gov.uk/assets/5f7051a8-b7a9-4c29-813a-715160a3fbbf

Martay, B., Noble, D. a Massimino, D. 2023.The use of EU Birds Directive (Article 12) species' status and trends reports for Habitats Regulations (2019) in England & Wales, Scotland, and Northern Ireland – Pilot study: Common Snipe *Gallinago gallinago*. *JNCC Report 740*, JNCC, Peterborough, ISSN 0963-8091. https://hub.jncc.gov.uk/assets/b14e80a6-0aa8-4724-a44f-71e5b671e14f

Raimondo, D., Young, B.E., Brooks, T.M. ac eraill 2023. Using Red List indices to monitor extinction risk at national scales. Conservation Science and Practice. 5:1.

Stanbury, A., ac eraill 2017. The risk of extinction for birds in Great Britain. *Brit. Birds* 110: 502–517.

Stanbury, A.J., Eaton, M.A., Aebischer, N.J., Balmer, D., Brown, A.F., Douse, A., Lindley, P., McCulloch, N., Noble, D.G. ac Win, I. 2021. The Status of our bird populations: the fifth Birds of Conservation Concern in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of man and second IUCN assessment of extinction risk for Great Britain. British Birds 114: 723-747.

Stanbury, A.J., Eaton, M.A., Aebischer, N.J., Balmer, D., Brown, A.F., Douse, A., Lindley, P., McCulloch, N., Noble, D.G. ac Win, I. 2024. The Status of the UK's breeding seabirds: an addendum to the fifth Birds of Conservation Concern in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of man and second IUCN Red List assessment of extinction risk for Great Britain. British Birds 117: 471-487.

Stroud, D.A., Chambers, D., Cook, S., Buxton, N., Fraser, B., Clement, P., Lewis, I., McLean, I., Baker, H. a Whitehead, S. 2001. *The UK SPA network: its scope and content*. Cyfrolau 1–3. JNCC, Peterborough http://jncc.defra.gov.uk/page-1418

Stroud, D.A., Bainbridge, I.P., Maddock, A., Anthony, S., Baker, H., Buxton, N., Chambers, D., Enlander, I., Hearn, R.D., Jennings, K.R, Mavor, R., Whitehead, S. a Wilson, J.D. – ar ran Gweithgor Gwyddonol AGA a Ramsar y DU (goln.)2016. *The status of UK SPAs in the 2000s: the third network review*. 1,108 tt. JNCC, Peterborough. http://jncc.defra.gov.uk/page-7309

Tremlett, C. J., Morley, N., a Wilson, L. J. 2024. UK Seabird Colony Counts in 2023 Following the 2021/22 Outbreak of Highly Pathogenic Avian Influenza. RSPB Research Report 76. RSPB, Sandy.

4.12 Diolchiadau

Cafodd yr adroddiad ei ddrafftio gyda chyfraniad gan Grŵp Cynghori ar Adrodd ar Adar 9A Cyrff Cadwraeth Natur y Gwledydd a oedd yn cynnwys Alison Giacomelli (Natural England); Simon Foster, Andrew Stevenson a Lucy Quinn (NatureScot); Ronan Owens (DAERA); Patrick Lindley (Cyfoeth Naturiol Cymru); ac Ian Mitchell a Mat Parsons (JNCC). Gwnaeth Matty Murphy (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Rebecca Laidlaw (Cyfoeth Naturiol Cymru) sylwadau defnyddiol ar ddrafftiau cynharach o'r adroddiad.

Ymgymerwyd â'r gwaith i lunio'r amcangyfrifon poblogaeth a gyflwynir yn Adran 4.2 gan David Noble (Ymddiriedolaeth Adareg Prydain) ac Iain Woodward (Ymddiriedolaeth Adareg Prydain) ar gyfer adar bridio daearol mwy cyffredin; Ilka Win, Daisy Burnell, Matt Parsons a Tim Dunn (JNCC) ar gyfer adar y môr sy'n bridio; Teresa Frost, Graham Austin, Stephen McAvoy ac Ian Woodward (Ymddiriedolaeth Adareg Prydain) a Simon Wotton (RSPB) ar gyfer adar y dŵr nad ydynt yn bridio ym Mhrydain Fawr; a Teresa Frost a Graham Austin (Ymddiriedolaeth Adareg Prydain) a David Tierney (Gwasanaeth Parciau Cenedlaethol a Bywyd Gwyllt) ar gyfer adar y dŵr nad ydynt yn bridio ar ynys Iwerddon. Hoffwn ddiolch i Mark Eaton, ysgrifennydd y Panel Adar Bridio Prin, am ei waith diflino a manwl wrth greu'r archif cenedlaethol o ddata a gwybodaeth am adar prinnaf y DU. Heb ei ymdrech enfawr ef (a'i ragflaenwyr) dros ddegawdau, byddai ein gwybodaeth am boblogaethau'r rhywogaethau hyn yn brin.

Bu Ymddiriedolaeth Adareg Prydain yn hael iawn wrth sicrhau bod mapiau ar gael ac roedd wedi deillio ystadegau o'r atlas o adar sy'n bridio a'r adar sy'n gaeafu ym Mhrydain ac Iwerddon (Balmer ac eraill 2013). Defnyddiwyd y data hyn yn flaenorol yn yr 11eg adroddiad a Veronica Mendez a David Noble (Ymddiriedolaeth Adareg Prydain). Gwnaed asesiadau o bwysau, bygythiadau a mesurau cadwraeth gan Grŵp Cynghori ar Adrodd ar Adar 9A y cyrff cadwraeth natur statudol.

Ymgymerwyd â gwaith i lunio cyfansymiau ar gyfer cyfresi AGA yn Adran 4.8 fel rhan o adolygiad 2008–2014 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a oruchwyliwyd gan Weithgor Gwyddonol AGA a Ramsar (Stroud ac eraill, 2016). Fel rhan o’r gwaith hwn, cafodd ymarfer casglu data enfawr ei gynnal. Cydnabyddir y sawl a ddarparodd ddata a chymorth eraill ar gyfer yr adolygiad yn llawn gan Stroud ac eraill(2016) ac maent yn cynnwys llawer o'r un unigolion a restrir uchod. Cydlynwyd yr adolygiad gan David Stroud ac Ant Mattock (JNCC) ac fe'i harweiniwyd gan Ian Bainbridge (cadeirydd Gweithgor Gwyddonol AGA a Ramsar).

Cafodd yr arolygon y deilliodd y data yn yr adroddiad hwn ohonynt eu hariannu neu eu trefnu, ymhlith eraill, gan y sefydliadau canlynol (a'u cyrff rhagflaenol): BirdWatch Ireland, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BAO), Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt (GWCT), y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, grwpiau astudio adar ysglyfaethus yn yr Alban, Cymru a Lloegr, yr RSPB, Cymdeithas Adareg Cymru (WOS), Clwb Adaregwyr yr Alban (SOC), NatureScot ac Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir (WWT). Yn olaf, mae'n bwysig cydnabod na fyddai'r asesiad hwn wedi bod yn bosibl heb ymdrechion enfawr gan ddegau o filoedd o wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser (a'u hadnoddau) i gymryd rhan mewn arolygon systematig ac ymdrechion monitro adar y DU ers y 1960au. Rydym yn cydnabod eu cyfraniad sylweddol i’r asesiad a’u diddordeb ynddo, a hebddynt byddai gwybodaeth am adar newidiol y DU yn llawer prinnach.

5. Adroddiadau ar rywogaethau

Mae pob map dosbarthiad a gwasgariad sydd wedi'i gynnwys yn y crynodebau rhywogaethau un dudalen wedi'i seilio ar gofnodion grid sgwâr 10 cilometr yr ystyrir eu bod yn cynrychioliadol o'r cyfnod adrodd cyfredol. Cynhyrchwyd y mapiau hyn gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gweler yr adrannau cyflwyniadol ar fethodoleg a ffynonellau ac adnoddau data i gael rhagor o fanylion.

Mae ffiniau'r arfordir a ddangosir ar y mapiau wedi'u deillio o fapiau daearegol rhanbarthol yr Awdurdod Olew a Nwy (OGA) a Lloyd's Register SNS, sy'n ffynhonnell agored ac wedi'u trwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3. © 2017 Awdurdod Olew a Nwy.

5.1 Rhywogaethau o amffibiaid ac ymlusgiaid

S1166 Madfall ddŵr gribog

S1213 Broga

S1261 Madfall y tywod

S6284 Llyffant y twyni

S1166 Madfall ddŵr gribog (*Triturus cristatus*)

Mae'r fadfall ddŵr gribog (*Triturus cristatus*) yng Nghymru yn nodedig am fyw am amser hir ac yn profi amrywiadau naturiol yn ei phoblogaeth. Ceir poblogaethau sylweddol mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol yng ngogledd-ddwyrain Cymru, pyllau ar dir ffermio gwastad gorllewin Swydd Gaer, a rhanbarthau eraill â dwysedd uchel o byllau sy'n cefnogi ei strwythur metaboblogaeth. Defnyddir modelu addasrwydd cynefinoedd a dadansoddiadau DNA amgylcheddol (eDNA) i wella dealltwriaeth o ddata gwasgariad a phoblogaeth. Mae colli cysylltedd cynefinoedd ac effaith datblygiadau amdrefol ar fetaboblogaethau yn bryderon cydnabyddedig. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y fadfall ddŵr gribog, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1166/.

Mae o leiaf 331 o sgwariau un cilometr sydd wedi'u meddiannu wedi'u cofnodi yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli cynnydd o 244 yn 2019, a briodolir i gofnodion newydd o arolygon dan arweiniad datblygiadau, yn enwedig gan ddefnyddio eDNA. Fodd bynnag, nid yw'r data hyn yn dangos a yw bridio'n digwydd yn y safleoedd hyn ai peidio, a heb gynnal arolygon systematig droeon, mae'n anodd cadarnhau a yw colled poblogaeth yn digwydd ai peidio, ac felly mae monitro trwy sgwariau un cilometr yn ddull cyfyngedig ar gyfer asesu tueddiadau gwirioneddol. Mae data monitro yn dangos bod poblogaethau sy'n gostwng mewn pedair allan o bum Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), gyda'r bumed yn dangos naill ai sefydlogrwydd neu ddirywiad; aseswyd yr holl ACAau ddiwethaf fel rhai anffafriol.

Ymhlith y prif bwysau y mae colli a darnio cynefinoedd o ganlyniad i gydgrynhoi tir amaethyddol, trefoli, a datblygu seilwaith megis ffyrdd. Mae defnyddio bioladdwyr ar gyfer amaethyddiaeth, echdynnu mwynau o ardaloedd ôl-ddiwydiannol, a choedwigo cynefinoedd agored hefyd yn effeithio'n negyddol ar ansawdd ac argaeledd cynefinoedd. Mae olyniaeth naturiol mewn pyllau, llygredd o dir cyfagos, a rhywogaethau goresgynnol, gan gynnwys pysgod a phathogenau megis *Batrachochytrium salamandrivorans* (Bsal), yn fygythiadau ychwanegol.

Mae mesurau'n canolbwyntio ar ddiogelu, adfer a rheoli cynefinoedd, yn enwedig drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol a chynllunio gofodol. Mae'r rhain yn cynnwys atal cynefinoedd naturiol rhag cael eu trawsnewid, adfer nodweddion ffiniol a phyllau, a sicrhau ansawdd dŵr a chysylltedd. Mae camau gweithredu penodol yn mynd i'r afael â rheoli rhywogaethau goresgynnol, tynnu silt o byllau, a rheoli cynefinoedd mewn safleoedd ôl-ddiwydiannol ac ACA. Caiff unrhyw waith plannu coed ger pyllau bridio ei reoleiddio i osgoi cysgodi, ac mae seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau yn ceisio lleihau niwed a gwella cynefinoedd.

Er bod yr ardal o gynefinoedd addas yn ddigonol ar y cyfan, mae'r ansawdd yn cael ei beryglu fwyfwy gan olyniaeth pyllau, gorfaethu, a dim digon o reoli gweithredol. Gallai cynllunio gofodol wella canlyniadau drwy dargedu mesurau cadwraeth cadarnhaol, ond mae bylchau data cyfredol a gwyliadwriaeth gyfyngedig yn llesteirio'r gallu i gynhyrchu rhagolygon cywir. Mae dyfodol y rhywogaeth yn ansicr oherwydd y cyfyngiadau hyn, ochr yn ochr â bygythiadau newydd megis *Batrachochytrium salamandrivorans*. Heb gynllun monitro cynhwysfawr a rhoi mesurau rheoli ar waith yn effeithiol, mae rhagolygon y rhywogaeth ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn anhysbys.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r fadfall ddŵr gribog ar lefel Cymru yn dosbarthu ei statws cadwraethol cyffredinol fel anffafriol–annigonol. Er nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Mike Hammett

Map dosbarthiad ar gyfer S1166

Map gwasgariad ar gyfer S1166

S1166 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 331

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 62

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1166 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1213 Broga (*Rana temporaria*)

Mae'r broga (*Rana temporaria*) yn gyffredin iawn ledled Cymru, er ei fod yn parhau i fod heb ei gofnodi'n ddigonol, gyda llawer o sgwariau grid 10 cilometr yn cael eu cynrychioli gan ddata hanesyddol yn unig. Mae'r rhywogaeth hon yn meddiannu ystod eang o gynefinoedd o lefel y môr i ucheldiroedd o dros 300 metr, gan gynnwys ardaloedd lled-naturiol a threfol, ar yr amod bod corff dŵr silio addas a digon o gynefin daearol ar gyfer twrio am fwyd. Fel arfer, mae oedolion yn dychwelyd i'w pyllau geni i fridio, gan eu gwneud yn agored i ddarnio cynefinoedd a cholled pyllau. Gall bygythiadau posibl yn y dyfodol godi o glefyd hefyd.

Yng Nghymru, mae dosbarthiad presennol y rhywogaeth wedi'i seilio ar ddata hirdymor ac, yn aml, mae'n cymryd yn ganiataol bod y rhywogaeth yn parhau i fod yn bresennol mewn safleoedd lle y'i cofnodwyd yn hanesyddol. Mae cofnodion wedi'u caffael o'r Arolwg Amffibiaid Cenedlaethol, y Cynllun Cofnodi Amffibiaid ac Ymlusgiaid Cenedlaethol, ac achosion damweiniol o weld y rhywogaeth a gofnodwyd gan ganolfannau cofnodi lleol. Mae mapio dosbarthiad yn deillio o gofnodion sgwâr o un cilometr ac yn cynrychioli amcangyfrif o'r boblogaeth leiaf. Ni welwyd unrhyw newid sylweddol yn y boblogaeth dros y tymor byr. Er nad oes gwerthusiad ffurfiol o ansawdd cynefin, ymddengys fod yr ardal gyffredinol yn ddigonol i gynnal poblogaethau.

Ymhlith y prif bwysau ar y rhywogaeth y mae dwysáu amaethyddol ac ailstrwythuro cynefinoedd, sy'n diraddio amgylcheddau daearol a dyfrol. Mae cael gwared ar ffiniau caeau a rhoi'r gorau i reoli pyllau yn gwaethygu ansawdd a chysylltedd cynefinoedd. Mae rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys *Crassula* a phlanhigion dyfrol eraill, yn lleihau cynefinoedd yn ffisegol ac yn cymhlethu'r broses o'u rheoli. Gall seilwaith ffyrdd ddarnio cynefinoedd ac achosi marwolaethau uniongyrchol yn ystod mudo, tra bod nodweddion dŵr ffo a draenio sy'n gysylltiedig â hyn yn peri risgiau ychwanegol. Mae clefydau megis cytridiomycosis ac, yn enwedig, *Ranavirus* wedi'u nodi ymhlith y boblogaeth a gallant achosi marwolaethau ar raddfa fawr.

Ystyrir yn debygol y bydd y rhywogaeth yn parhau i fod yn sefydlog yng Nghymru am y dyfodol hyd y gellir ei ragweld. Mae ei dosbarthiad eang a'i wydnwch i addasiadau i gynefinoedd yn ategu'r rhagolygon hyn. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw newid yng ngwasgariad na phoblogaeth y rhywogaeth dros y 12 mlynedd nesaf. Mae annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn cynlluniau monitro fel arolwg silio PondNet a Record Pool yn cyfrannu at y broses barhaus o gasglu data. Fodd bynnag, mae effeithiau newid hinsawdd, yn enwedig gaeafau cynhesach, ar hyfywedd hirdymor y rhywogaeth yn parhau i fod yn anhysbys.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r broga yn pennu ei statws cadwraethol cyffredinol fel un ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD V

Llun gan: Thomas Doherty-Bone, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1213

Map gwasgariad ar gyfer S1213

S1213 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 10x10 cilometr

Maint y boblogaeth: 244

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1213 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1261 Madfall y tywod (*Lacerta agilis*)

Mae madfall y tywod (*Lacerta agilis*) yng Nghymru yn meddiannu cynefinoedd twyni tywod, lle mae'n dodwy wyau mewn tywod agored ac yn ceisio lloches mewn moresg trwchus. Nid yw gwaith monitro'n cael ei wneud yn systematig ar bob safle bob blwyddyn.

Roedd madfallod y tywod wedi diflannu yng Nghymru nes i raglen ailgyflwyno ddechrau yn 1995. Erbyn 2013, cawsant eu cofnodi mewn 13 o sgwariau un cilometr, gan gynyddu i 26 sgwâr erbyn 2024. Yn adroddiad 2019, cydnabuwyd 15 o sgwariau un cilometr, gan eithrio chwe sgwâr lle rhyddhawyd y rhywogaeth heb ganiatâd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth enetig ddiweddar wedi nodi bod y poblogaethau hyn yn gyson yn enetig â'r poblogaethau a ailgyflwynwyd ac mae'r cofnodion hyn wedi'u cynnwys yn adroddiad 2024.

Y prif bwysau a bygythiadau sy'n effeithio ar fadfallod y tywod yw sefydlogi twyni a lleihad yn yr ardaloedd o dywod agored y mae eu hangen ar gyfer dodwy wyau. Mae prosesau olyniaeth naturiol, gan gynnwys ymlediad prysgwydd, yn arwain at gysgodi cynefinoedd a symudedd twyni gwaeth. Gall dyddodiad nitrogen atmosfferig a llygryddion eraill yn yr awyr gyfrannu at y broses o sefydlogi twyni tywod. Ymhlith y pwysau is ychwanegol y mae tanbori, e.e. gostyngiad ym mhoblogaeth cwningod oherwydd effeithiau clefydau a'r effaith y caiff hyn ar reoleiddio cynefin twyni tywod. Mae effeithiau newid hinsawdd fel lefel y môr yn codi a newidiadau mewn tymheredd yn peri risgiau i batrymau atgenhedlu a strwythur cynefinoedd y rhywogaeth.

Mae camau cadwraeth wedi canolbwyntio ar reoli cynefinoedd i arafu olyniaeth naturiol a rheoli rhywogaethau brodorol a rhywogaethau goresgynnol sy'n peri problemau. Mae mesurau adfer cynefinoedd, gan gynnwys darnio tywod a thynnu priddoedd cyfoethog, wedi'u gweithredu. Mae gwaith ailgyflwyno'r rhywogaeth wedi'i wneud mewn amrywiol safleoedd, yn bennaf o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae angen cymryd mesurau i fynd i'r afael â rhywogaethau a allai fod yn rhywogaethau goresgynnol megis peithwellt. Ymhlith yr ymyriadau a wnaed i reoli systemau arfordirol y mae ymyriadau megis bylchu twyni er mwyn adfer symudiad naturiol y tywod.

Mae poblogaethau a ailgyflwynwyd yn bridio ac yn ehangu mewn safleoedd presennol, er bod ehangiad y cynefin twyni wedi'i gyfyngu'n ffisegol. Mae'r boblogaeth yn sefydlog ar hyn o bryd, ond mae ansawdd y cynefin yn dirywio ychydig ac mae'n disgwyl y bydd yn parhau i ddirywio dros y 12 mlynedd nesaf. Rhagwelir y bydd gwasgariad y rhywogaeth yn parhau i fod yn sefydlog yn ystod y cyfnod hwn, gyda cholled sylweddol neu ehangiad gwasgariad yn cael ei ystyried yn annhebygol. Gall pwysau presennol gyfyngu ar ba mor effeithiol yw'r mesurau cadwraeth presennol wrth atal dirywiad cynefinoedd.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o fadfall y tywod yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn gwella, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD IV

Llun gan: Mike Hammett

Map dosbarthiad ar gyfer S1261

Map gwasgariad ar gyfer S1261

S1261 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 26

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn cynyddu

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1261 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn gwella

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S6284 Llyffant y twyni (*Epidalea calamita*)

Mae llyffant y twyni (*Epidalea calamita*) yn bridio mewn pyllau bas a geir ar dwyni tywod neu ardaloedd mewndirol o forfa heli. Mae ei gynefin daearol yn cynnwys llystyfiant pori byr, ac mae ei safleoedd bridio yn agored i olyniaeth llystyfiant neu gytrefu gan rywogaethau eraill megis y llyffant dafadennog neu bysgod, os na chânt eu rheoli.

Roedd llyffantod y twyni wedi diflannu yng Nghymru o'r 1960au hyd at 1995, pan ddigwyddodd y cyntaf o gyfres o ailgyflwyniadau fel rhan o brosiect i adfer y rhywogaeth. Mae pob safle ailgyflwyno yng Nghymru yn cael ei fonitro bob blwyddyn am wrywod sy'n galw a llinynnau o rifftoedd. Mae'r poblogaethau hyn yn ymledu ym mhob safle, gan feddiannu pyllau dŵr a reolir neu byllau dŵr a grëwyd, gyda niferoedd cynyddol o linynnau o rifftoedd a llyffantod bach newydd. Mae niferoedd y boblogaeth yn amrywio gyda lefelau'r dŵr mewn pyllau dŵr bridio, er bod ymdrechion achub yn cael eu defnyddio os yw pyllau dŵr yn sychu'n gynamserol. O 2013 i 2018, fe gynyddodd nifer y sgwariau un cilometr a feddiannir o chwech i 11, cyn gostwng i naw erbyn 2019–2024 yn sgil diweddaru cofnodion a'r ffaith nad oedd y rhywogaeth yn parhau i fod yn bresennol mewn rhai safleoedd.

Mae'r rhywogaeth yn wynebu sawl pwysau a bygythiad parhaus yng Nghymru. Mae tanbori neu orbori yn arwain at sefydlogi a darnio twyni tywod, gan olygu nad yw rhai cynefinoedd yn addas bellach. Mae ymlediad prysgwydd yn achosi siltio mewn pyllau ac yn eu sychu. Mae rhywogaethau brodorol megis pysgod a llyffantod dafadennog yn ysglyfaethu neu'n trechddisodli larfâu llyffantod y twyni, tra bod cytrefu planhigion yn newid addasrwydd cynefinoedd, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol megis *Clematis vitalba*. Mae nitrogen yn yr awyr a llygredd dŵr wyneb yn hybu olyniaeth llystyfiant. Ymhlith y bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae lefelau'r môr yn codi a nifer uwch o byllau dŵr sy'n dysychu oherwydd tymereddau uwch. Mae colli cynefinoedd oherwydd datblygiadau arfordirol yn gwaethygu'r problemau hyn ymhellach.

Mae camau cadwraeth yn cynnwys rheoli cynefinoedd i atal olyniaeth a gwarchod darnau tywodlyd agored. Rheolir rhywogaethau brodorol a goresgynnol sy'n peri problemau, ac weithiau mae angen adfer cynefin ar ôl eu tynnu. Mae adfer cynefin o fudd i dwyni tywod a'r rhywogaeth. Mae ailgyflwyniadau wedi digwydd mewn sawl safle, ac y mae potensial i ehangu hyn i ardaloedd newydd ag amodau addas. Mae ymyriadau hydrolegol, megis torri twyni, yn cefnogi deinameg naturiol twyni. Mae angen rheolaeth barhaus ar y safleoedd presennol i gynnal addasrwydd bridio ac atal gordyfiant.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r boblogaeth a ailgyflwynwyd yn cynyddu o fewn safleoedd rhyddhau, gydag ymdrechion ar y gweill i nodi lleoliadau ychwanegol. Mae'r cynlluniau hyn yn ddibynnol ar addasrwydd cynefinoedd a rheoli priodol. Fodd bynnag, mae risgiau'n parhau yn y dyfodol, yn enwedig effeithiau posibl ffwng cytrid ar hyfywedd y boblogaeth ac effeithiau ehangach newid hinsawdd, megis ansefydlogrwydd arfordirol a sychder. Er y gallai strategaeth ar gyfer rhagor o ailgyflwyniadau ehangu gwasgariad y rhywogaeth, mae'r rhagolygon yn parhau i fod yn ansicr er yn sefydlog.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lyffant y twyni yn nodi bod ei statws cadwraeth cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd sefydlog.

ATODIAD IV

Llun gan: Mike Hammett

Map dosbarthiad ar gyfer S6284

Map gwasgariad ar gyfer S6284

S6284 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 9

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S6284 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

5.2 Rhywogaethau o ystlumod

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

S1303 Ystlum pedol lleiaf

S1304 Ystlum pedol mwyaf

S1308 Ystlum du

S1309 Ystlum lleiaf

S1312 Ystlum mawr

S1314 Ystlum y dŵr

S1317 Ystlum lleiaf Nathusius

S1320 Ystlum Brandt

S1322 Ystlum Natterer

S1323 Ystlum Bechstein

S1326 Ystlum hirglust

S1327 Ystlum adain-lydan

S1330 Ystlum barfog

S1331 Ystlum Leisler

S5009 Ystlum lleiaf meinlais

S1303 Ystlum pedol lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*)

Mae angen mosäig cymhleth o gynefinoedd i gynnal ymddygiad fforio, clwydo a chymudo'r ystlum pedol lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*). Mae coetiroedd yn gynefinoedd fforio pwysig, ac mae'r mwyaf o'r gweithgarwch yn digwydd o fewn 2 i 2.5 cilometr o glwydfannau'r haf ac 1.2 cilometr o safleoedd gaeafgysgu. Pan fo cynefinoedd fforio, clwydfannau'r haf a chlwydfannau gaeafgysgu i gyd yn agos at ei gilydd, a chyda chysylltedd da rhyngddynt, mae cytrefi'n tueddu i ffynnu os yw'r amodau clwydo'n ddelfrydol. Yn aml, mae angen gwelliannau i'r clwydfannau er mwyn sicrhau ystod addas o amodau. Mae clwydfannau gyda'r nos hefyd yn bwysig ac yn gallu ymestyn y diriogaeth fforio, gan ganiatáu i ystlumod arbed ynni wrth ddychwelyd i'r clwydfannau mamolaeth, sy'n aneffeithlon. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr ystlum pedol lleiaf, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1303/.

Ceir ystlumod pedol lleiaf ar draws llawer o Gymru, heblaw gogledd Ynys Môn, arfordir Ceredigion, a rhannau o ogledd Sir Gaerfyrddin. Mae Gwynedd, Conwy, gogledd Powys, de Powys a Sir Fynwy ymhlith ei gadarnleoedd. Ar hyn o bryd, yr amcangyfrif poblogaeth gorau yw 31,279 o unigolion, yn seiliedig ar 70% o feddiannaeth gan fenywod. Cynyddodd y duedd boblogaeth o 2017 i 2022 yn sylweddol, sef 31.2%, ar sail y data ar gyfer clwydfannau gaeafgysgu, a chynyddodd 6.5% ar sail y data ar gyfer clwydfannau mamolaeth, er nad oedd yr olaf yn arwyddocaol yn ystadegol.

Ymhlith y prif bwysau y mae datblygiadau adeiladu sy'n effeithio ar safleoedd clwydo, colli cynefinoedd oherwydd arferion coedwigaeth, datblygu seilwaith, colli cysylltedd tirwedd, a gweithgareddau hamdden yn amharu ar safleoedd gaeafgysgu. Mae adeiladu ffyrdd, a'r goleuadau cysylltiedig, yn peri risgiau o wrthdrawiad ac o ddarnio llwybrau cymudo.

Mae camau cadwraeth drwy amddiffyniad cyfreithiol yn mynd i'r afael â bygythiadau i glwydfannau o ganlyniad i ddatblygiadau, trafnidiaeth/seilwaith, a hamdden a goleuadau. Mae mesurau sy'n canolbwyntio ar gynefinoedd yn cynnwys adfer nodweddion cysylltedd tirwedd, addasu arferion amaethyddol, a rheoli defnydd coedwigoedd i gefnogi anghenion cynefin y rhywogaeth.

Mae'r duedd boblogaeth yn gadarnhaol ac yn debygol o barhau felly o dan senarios newid hinsawdd. Mae'n debyg y bydd y gwasgariad yn parhau i fod yn sefydlog, gyda photensial iddo ehangu o dan amodau hinsawdd yn y dyfodol. Ystyrir bod y cynefin sydd ar gael yn ddigonol ac yn sefydlog, gan gefnogi statws cadwraethol ffafriol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r ystlum pedol lleiaf yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn gwella, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1303

Map gwasgariad ar gyfer S1303

S1303 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 29,827

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 5,750

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn cynyddu

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1303 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Yn gwella

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1304 Ystlum pedol mwyaf (*Rhinolophus ferrumequinum*)

Mae angen clytwaith o gynefinoedd, gan gynnwys porfeydd, dolydd a choetiroedd collddail, ar yr ystlum pedol mawr (*Rhinolophus ferrumequinum*). Mae'r mwyaf o'r fforio yn digwydd o fewn pedwar cilometr i'r glwydfan, ond maent yn hedfan pellteroedd hwy na hyn yn rheolaidd. Mae'r rhywogaeth yn ffyddlon iawn i'w chlwydfannau. Fel arfer, mae clwydfannau mamolaeth mewn toeau hen adeiladau, ac mae clwydfannau gaeafgysgu fel arfer o dan y ddaear mewn ogofâu, mwyngloddiau neu seleri sy'n cynnig tymereddau sefydlog a lleithder uchel. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr ystlum pedol mwyaf, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1304/.

Mae gan yr ystlum pedol mwyaf ddosbarthiad cyfyngedig ym Mhrydain Fawr. Yng Nghymru, mae pum clwydfan famolaeth y gwyddys amdanynt; mae pob un yn y de, ac mae'r tri mwyaf yn Sir Benfro.
Amcangyfrifir mai 4,512 o unigolion yw maint y boblogaeth, yn seiliedig ar 70% o fenywod yn byw yn y cytrefi mamolaeth. Cynyddodd tuedd poblogaeth Cymru o 2017 i 2022 yn sylweddol, yn seiliedig ar ddata arolygon o glwydfannau gaeafgysgu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, arsylwyd bod y rhywogaeth wedi ymledu tua'r gogledd.

Ymhlith y prif bwysau parhaus y mae rhoi'r gorau i systemau bugeiliol a diffyg gwartheg sy'n pori yn agos at safleoedd clwydo. Mae'r sefyllfa hon hefyd wedi'i gwaethygu oherwydd y defnydd o anthelmintigau oherwydd bod chwilod y dom yn elfen allweddol o ddeiet yr ystlum, ynghyd â threfoli cynyddol, sy'n arwain at golli cynefinoedd fforio ac effeithiau ar safleoedd clwydo. Mae adeiladu seilwaith llinol, a'r goleuadau sy'n gysylltiedig â hyn, yn tarfu ar lwybrau cymudo ac yn cynyddu'r risg o farwolaethau o wrthdrawiadau. Gall gweithgareddau hamdden o fewn safleoedd tanddaearol tarfu ar ystlumod sy'n gaeafgysgu, ac mae ailagor mwyngloddiau neu fwyngloddiau sy'n cwympo yn gallu bygwth safleoedd gaeafgysgu. Mae arferion coedwigaeth sy'n lleihau ansawdd a maint coetiroedd, colli clwydfannau paru, a thrychinebau naturiol megis gwanwynau oer hwyr hefyd yn peri risgiau. Gall y boblogaeth a'r gwasgariad fod yn agored i niwed oherwydd bod canrannau mawr o'r boblogaeth fridio o fewn dim ond pum clwydfan famolaeth. Byddai effaith colli unrhyw un yn dra arwyddocaol.

Mae camau cyfreithiol a gweinyddol a dynodiadau safleoedd yn sicrhau bod cynefinoedd yn cael eu diogelu a'u rheoli'n unol â chadwraeth ystlumod, gan fynd i'r afael â phwysau o ddatblygiadau a gweithgarwch hamdden. Rhaid i'r broses o ddylunio seilwaith a goleuadau ffyrdd ystyried anghenion y rhywogaeth. Rhaid i gynlluniau amaethyddol a choedwigaeth reoli pori a'r defnydd o anthelmintigau, a chadw nodweddion tirwedd bach. Mae cynllunio ar lefel y dirwedd yn ardaloedd cymudo a fforio wedi'u gwarchod yn bwysig i rywogaethau sy'n symud llawer.

Ystyrir bod rhagolygon y dyfodol ar gyfer yr ystlum pedol mwyaf yng Nghymru yn gadarnhaol oherwydd gwarchodaeth gyfreithiol o'r clwydfannau mamolaeth a chlwydfannau gaeafgysgu hysbys, tueddiadau poblogaeth cadarnhaol, a'r ffaith na ddisgwylir y bydd unrhyw ddirywiad yn ansawdd cynefin na gwasgariad. Dros yr hirdymor, mae'n disgwyl y bydd y rhywogaeth yn parhau i ehangu ei gwasgariad tua'r gogledd a disgwylir i effeithiau newid hinsawdd, megis gwanwynau cynhesach, gefnogi twf poblogaeth pellach ac ehangu gofodol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r ystlum pedol mwyaf yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn gwella, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1304

Map gwasgariad ar gyfer S1304

S1304 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 4,512

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 3,027

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn cynyddu

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn cynyddu

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1304 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Yn gwella

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1308 Ystlum du (*Barbastella barbastellus*)

Mae'r ystlum du (*Barbastella barbastellus*) yn arbenigwr ar goetiroedd sy'n defnyddio clytwaith cymhleth o gynefinoedd ar gyfer clwydo, fforio a chymudo. Mae fforio fel arfer yn digwydd mewn coetiroedd neu barciau, yn ogystal ag ar hyd ymylon coedwigoedd, gwrychoedd, dyfrffyrdd, a ffyrdd â choed ar eu hyd. Y clwydfannau a ffefrir yw mannau cul mewn coed neu adeiladau, yn aml mewn craciau, holltau a thu ôl i risgl rhydd. Wyth cilometr yw tiriogaeth graidd y benywod o gytrefi mamolaeth, ond gallant hedfan pellteroedd maith yn gyflym, gan groesi cynefinoedd agored iawn yn aml, gan gynnwys twyndiroedd a gweundiroedd, er mwyn cyrraedd coetiroedd eraill neu brif ardaloedd fforio hyd at 20 cilometr i ffwrdd. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr ystlum du, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1308/.

Mae'r ystlum du yn rhywogaeth brin yng Nghymru ac mae ganddo ddosbarthiad gwasgaredig a dwysedd poblogaeth isel. Dim ond yn y de-ddwyrain a Sir Benfro y mae bridio wedi'i gadarnhau. Nid yw'r amcangyfrif poblogaeth wedi'i ddiweddaru ers Harris ac eraill 1995 oherwydd data annigonol, ac nid oes modd nodi unrhyw duedd tymor byr. Ystyrir bod y rhywogaeth wedi'i than-gofnodi ac, o ganlyniad i hyn, mae'r data ar ddosbarthiad o ansawdd gwael.

Ymhlith y prif bwysau y mae arferion coedwigaeth megis torri a thrin coed, llwyrdorri, a chael gwared ar hen goed neu goed marw, sy'n effeithio ar argaeledd clwydfannau. Mae newidiadau amaethyddol megis newid sut y caiff tir ei ddefnyddio a'i ddraenio, a chael gwared ar nodweddion tirwedd bach, yn lleihau cynefinoedd fforio ac yn amharu ar lwybrau cymudo. Mae'n debyg bod defnyddio plaladdwyr yn lleihau argaeledd ysglyfaeth, oherwydd bod y rhywogaeth yn bwydo'n bennaf ar wyfynod. Mae pathogenau goresgynnol sy'n bygwth coed llydanddail brodorol, a datblygiadau seilwaith llinol, hefyd yn peri bygythiadau sylweddol.

Ymhlith y camau cadwraeth a nodwyd y mae addasu arferion coedwigaeth, atal trosi cynefinoedd, cynnal coed marw, ac adfer nodweddion tirwedd bach. Mae amddiffyniad cyfreithiol yn parhau i fod yn angenrheidiol, er bod bylchau data yn cyfyngu ar y gallu i roi mesurau pellach ar waith. Felly mae gwella gwybodaeth am y rhywogaeth yn flaenoriaeth yng Nghymru. Mae dwysedd isel y boblogaeth a'r ddibyniaeth ar gynefinoedd penodol yn gwaethygu pa mor fregus yw'r rhywogaeth i golled cynefinoedd a gostyngiad yn nifer yr ysglyfaethau.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer yr ystlum du yng Nghymru yn parhau i fod yn ansicr oherwydd diffyg data ynghylch gwasgariad a maint y boblogaeth. Heb ddealltwriaeth well, mae'r broses o roi cynlluniau cadwraeth effeithiol ar waith yn cael ei rhwystro a gall poblogaethau gael eu colli cyn iddynt gael eu darganfod. Gallai arolygon acwstig eang, gan ddefnyddio methodolegau sefydledig, wella gwybodaeth, ond mae angen digon o adnoddau. Mae prinder y rhywogaeth, a'i dibyniaeth ar gynefinoedd nad ydynt wedi'u cofnodi'n ddigonol, yn cyflwyno heriau o ran diogelu'r rhywogaeth.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r ystlum du ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) yn nodi statws anhysbys. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn anhysbys, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1308

Map gwasgariad ar gyfer S1308

S1308 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 500

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Anhysbys

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1308 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws y boblogaeth: Anhysbys (XX)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1309 Ystlum lleiaf (*Pipistrellus pipistrellus*)

Mae'r ystlum lleiaf (*Pipistrellus pipistrellus*) yn doreithiog ac wedi'i ddosbarthu'n eang ledled Cymru, ac mae'n debygol bod unrhyw fylchau o ran ei ddosbarthiad oherwydd diffyg data arolwg yn unig. Fel arfer, mae'n clwydo mewn adeiladau o wahanol fathau, o eglwysi hynafol i fyngalos modern. Mae llawer o gofnodion yn deillio o ymholiadau gan aelwydydd neu arolygon ymgynghorwyr sy'n ymwneud â datblygiadau. Nid oes modd pennu cofnodion maes cyn y rhaniad tacsonomegol rhwng *P. pipistrellus* a *P. pygmaeus* (1997) yn hyderus i'r naill rywogaeth na'r llall.

Amcangyfrifir bod maint y boblogaeth rhwng 96,600 a 732,000 o unigolion, a 297,000 yw'r amcangyfrif gorau. Deilliwyd y ffigurau hyn gan ddefnyddio dwysedd ystlumod llawn dwf ar draws lefelau ansawdd cynefinoedd a'u lluosi â'r arwynebedd trigiadwy. Er bod data cyfrif clwydfannau'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Monitro Ystlumod (NBMP) yn dangos dirywiad sylweddol dros yr hirdymor a'r tymor byr yng Nghymru, nid oes modd llunio tuedd ddibynadwy oherwydd bod y rhywogaeth yn newid ei chlwydfannau'n aml.

Mae pwysau wedi'u categoreiddio i'r rheini sy'n effeithio ar glwydfannau a'r rheini sy'n effeithio ar fforio a chymudo. Mae datblygu trefol a'r llygredd sy'n gysylltiedig â hyn, gan gynnwys golau a sŵn, yn effeithio ar safleoedd clwydo. Gall arferion adeiladu modern a deunyddiau toi gyfyngu ymhellach ar gyfleoedd clwydo addas. Gall gweithgareddau amaethyddol a choedwigaeth ddiraddio cynefinoedd a lleihau biomas pryfed. Ymhlith y pryderon penodol y mae newidiadau o ran sut y caiff tir ei ddefnyddio, cael gwared ar nodweddion tirwedd, a defnyddio cemegau. Mae seilwaith megis tyrbinau gwynt a ffyrdd yn arwain at farwolaethau o ganlyniad i wrthdrawiadau.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae addasu seilwaith ynni gwynt a thrafnidiaeth i liniaru effeithiau. Mae amddiffyniadau cyfreithiol yn gofyn am fesurau lliniaru pan fydd datblygiadau'n effeithio ar glwydfannau. Mae effeithiau llygredd a throsi tir yn cael sylw drwy gynlluniau cyfreithiol ac amaeth-amgylcheddol. Mae canllawiau'n cefnogi cynllunwyr, datblygwyr a rheolwyr tir i ddiwallu anghenion cadwraeth ystlumod.

Ystyrir bod gwasgariad, poblogaeth ac argaeledd cynefinoedd yr ystlum lleiaf yng Nghymru yn y dyfodol yn sefydlog ar y cyfan. Mae'r cynefin yn parhau i fod yn ddigonol ac yn eang ei wasgariad. Er nad oes modd mesur tueddiadau poblogaeth sy'n benodol i Gymru, mae'r duedd tymor byr ar gyfer Prydain Fawr yn sefydlog. Fodd bynnag, gall pwysau yn y dyfodol o newidiadau deddfwriaeth, polisïau cynllunio a datblygu gyflwyno heriau na gwyddys amdanynt eto.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r ystlum lleiaf yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd sy'n gwella.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1309

Map gwasgariad ar gyfer S1309

S1309 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 297,000

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Ansicr

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1309 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1312 Ystlum mawr (*Nyctalus noctula*)

Mae'r ystlum mawr (*Nyctalus noctula*) yn rhywogaeth o ystlum eang ei gwasgariad sy'n gymharol gyffredin yng Nghymru. Fel arfer, mae'n gysylltiedig â choetiroedd, ac mae'r mwyaf o'r clwydfannau y gwyddys amdanynt mewn coed, er ei fod yn defnyddio adeiladau hefyd. Mae'r rhywogaeth yn hedfan yn bwerus ac yn uniongyrchol, ac fe'i gwelir yn aml mewn mannau agored uwchben canopi'r coed, yn plymio'n serth i ddal pryfed. Mae'n cynhyrchu galwad ecoleoli uchel sy'n fwy canfyddadwy dros bellteroedd hir na llawer o rywogaethau, er y gall bod yn anos ei adnabod yn gywir mewn cynefinoedd mwy swnllyd oherwydd pa mor debyg yw i alwadau *N. leisleri* ac *Eptesicus serotinus*.

Er nad oes rhaglen arolygu strwythuredig o ran dosbarthiad yn bodoli, mae mapiau gwasgariad sydd wedi'u diweddaru'n cynnwys data diweddar sy'n cael eu casglu'n ddidrafferth ar ffurf arolygon ansafonol. Nid yw tuedd boblogaeth y rhywogaeth yng Nghymru yn hysbys oherwydd diffyg data ynghylch tueddiadau, ond mae tuedd Prydain Fawr yn sefydlog dros yr hirdymor a'r tymor byr fel ei gilydd.

Oherwydd bod yr ystlum mawr yn rhywogaeth sy'n clwydo mewn coed yn bennaf, mae'n agored i golli safleoedd clwydo o ganlyniad i weithgareddau sy'n ymwneud â chael gwared ar goed marw, coed sydd yn y broses o farw, neu hen goed yn ogystal â gweithgarwch llwyrgwympo. Mae pwysau sy'n lleihau biomas pryfed hedfan, megis defnyddio plaladdwyr, ansawdd dŵr gwael, a symleiddio cynefinoedd o ganlyniad i arferion amaethyddol, hefyd yn peri risgiau. Er bod y rhywogaeth yn clwydo mewn coed yn bennaf, mae ei defnydd achlysurol o adeiladau yn ei gwneud yn agored i effeithiau sy'n gysylltiedig â gwaith datblygu. Mae tyrbinau gwynt yn fygythiad sylweddol, ac mae astudiaethau o gyfandir Ewrop yn dangos eu bod yn achosi risg uchel o farwolaethau ystlumod ynghyd ag effeithiau ar lefel y boblogaeth.

Mae amddiffyniadau cyfreithiol a chamau gweinyddol ar waith i ddiogelu clwydfannau'r ystlum mawr. Mae mesurau cadwraeth sy'n addasu rheolaeth coedwigoedd hefyd yn ofynnol i amddiffyn clwydfannau a chynefinoedd fforio. Nod cynlluniau amaethyddol yw cynnal cynefinoedd clwydo a hyrwyddo toreithrwydd ymhlith pryfed ysglyfaeth. Rhaid rheoli gweithrediad tyrbinau gwynt i liniaru marwolaethau ystlumod.

Er gwaethaf bylchau yn y data, mae'r ystlum mawr yn parhau i fod yn rhywogaeth gymharol gyffredin ac eang ei gwasgariad yng Nghymru. Oherwydd nid oes unrhyw arwydd o ostyngiad yn y gwasgariad na'r boblogaeth a bod y cynefin sydd ar gael yn sefydlog, ystyrir bod rhagolygon y rhywogaeth ar gyfer y dyfodol yn sefydlog ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r risg uchel a achosir gan ddatblygiadau ynni gwynt yn parhau i fod yn bryder sylweddol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r ystlum mawr yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1312

Map gwasgariad ar gyfer S1312

S1312 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 759

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Anhysbys

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1312 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl

S1314 Ystlum y dŵr (*Myotis daubentonii*)

Mae ystlum y dŵr (*Myotis daubentonii*) wedi'i ddosbarthu'n eang yng Nghymru. Yn bennaf, mae'r rhywogaeth yn fforio uwchben cyrff dŵr agored ac afonydd sy'n llifo'n araf. Ceir y clwydfannau mewn coed yn bennaf, weithiau mewn tyllau adeileddau a wnaed gan ddyn neu bontydd. Gwelir ystlum y dŵr yn rheolaidd mewn niferoedd isel wrth gynnal arolygon gaeafgysgu, ond mae cofnodion o glwydfannau mamolaeth yn brin yng Nghymru.

Mae'r rhywogaeth hon yn gymharol hawdd ei hadnabod o blith ystlumod *Myotis* oherwydd ei phatrymau hedfan a fforio nodweddiadol dros gyrff dŵr. Fel rhywogaeth eang ei gwasgariad, credir bod rhai bylchau ymddangosiadol yn ei gwasgariad yn adlewyrchu diffygion data yn hytrach nag absenoldeb gwirioneddol. Ystyrir bod tueddiadau poblogaeth ar gyfer y tymor byr a'r hirdymor yn sefydlog yng Nghymru.

Ymhlith y prif bwysau sy'n effeithio ar ystlum y dŵr y mae newidiadau o ran sut y caiff tir ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth, tynnu dŵr, a datblygu trefol. Mae argaeledd clwydfannau dan fygythiad o ganlyniad i addasiadau i gynefinoedd, gan gynnwys datblygu seilwaith a gweithrediadau gwaith coed. Mae cynefinoedd fforio yn wynebu pwysau oherwydd newidiadau yn y ffordd y caiff dŵr ei reoli, llygredd, goleuadau o amgylch pontydd a dyfrffyrdd, ac aflonyddwch sŵn. Mae darnio cynefinoedd a lleihad biomas pryfed ysglyfaeth gan lygredd neu addasu cynefin hefyd yn peri bygythiadau parhaus.

Ymhlith y mesurau cadwraeth cyfredol y mae amddiffyniadau cyfreithiol ar gyfer clwydfannau a gweithredu cynlluniau rheoli tir yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a rheoli dŵr. Nod y strategaethau yw cynnal cyfanrwydd cynefinoedd clwydo a fforio, lleihau llygredd golau, sŵn a dŵr, a sicrhau bod cynllunio'n ystyried llwybrau cymudo ystlumod. Cynghorir y dylai datblygiadau seilwaith gynnwys mesurau lliniaru, megis croesfannau diogel. Mae effeithiau gweithgareddau hamdden, megis effeithiau ogofa ar safleoedd heidio a safleoedd gaeafgysgu, hefyd wedi'u targedu ar gyfer eu lleihau.

Ystyrir bod rhagolygon ystlum y dŵr yng Nghymru ar gyfer y dyfodol yn sefydlog. Mae'r rhywogaeth yn parhau i fod yn eang ei gwasgariad ac yn defnyddio clytwaith amrywiol o gynefinoedd. Ni nodwyd unrhyw ffactorau tymor byr sy'n awgrymu y bydd ei gwasgariad yn ehangu neu grebachu, ac asesir bod y tueddiadau o ran gwasgariad a phoblogaeth yn sefydlog. Er nad oes digon o ddata ar newidiadau i ansawdd cynefinoedd, mae'r ffaith bod dosbarthiad y rhywogaeth yn parhau i fod yn eang a'i bod yn defnyddio amryw o gynefinoedd yn arwydd bod amodau ei chynefin yn sefydlog. Felly, mae'n debygol y bydd y rhagolygon cyffredinol ar gyfer y rhywogaeth yng Nghymru dros y 12 mlynedd nesaf yn parhau i fod yn sefydlog.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ystlum y dŵr yn nodi bod ei statws cadwraeth cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1314

Map gwasgariad ar gyfer S1314

S1314 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 108,000

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1314 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1317 Ystlum lleiaf Nathusius (*Pipistrellus nathusii*)

Mae poblogaeth ystlum lleiaf Nathusius (*Pipistrellus nathusii*) y DU yn rhannol fudol, er nad yw cyfran yr ystlumod preswyl i ystlumod mudo'n hysbys. Mae ystlum lleiaf Nathusius yn gysylltiedig yn gryf â chyrff dŵr mawr ac fel arfer maent yn fforio mewn cynefinoedd torlannol a choetiroedd llydanddail a chymysg. Mae cofnodion ar gyfer ystlum lleiaf Nathusius yn wasgaredig iawn, oherwydd nad yw dewisiadau cynefin nodweddiadol yn cael eu harolygu'n gyffredin ar gyfer datblygiadau. Mae cynlluniau wedi'u targedu yn gymharol lwyddiannus wrth gofnodi'r rhywogaeth pan gânt eu gweithredu. Er gwaethaf cofnodion synhwyrydd, dim ond yn 2024 y cafodd unigolyn ei ddal yn y Gogledd fel rhan o arolwg wedi'i dargedu. Mae nifer isel wedi cael eu dal yn y De, lle mae cofnodion synhwyrydd yn fwy cyffredin.

Ni ddarganfuwyd unrhyw safleoedd mamolaeth yng Nghymru ac mae ei statws gwirioneddol yn parhau i fod yn aneglur. Nid oes modd amcangyfrif y boblogaeth wirioneddol ac nid oes modd amcangyfrif tuedd ychwaith.

Mae datblygiadau ynni gwynt, tonnau a llanw yn peri risg uchel i'r rhywogaeth, y gwyddys ei bod mewn perygl o wrthdrawiadau tyrbinau yn Ewrop. Gall seilwaith megis ffyrdd a rheilffyrdd, ynghyd ag arferion amaethyddol a choedwigaeth, effeithio ar gymudo, cynefinoedd fforio, ac argaeledd ysglyfaeth pryfed.

Mae mesurau cyfreithiol a gweinyddol yn parhau i fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gwarchodaeth effeithiol o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae canllawiau wedi'u datblygu i gefnogi cynllunwyr a datblygwyr i asesu effeithiau ynni gwynt ar y tir ar ystlumod, gan argymell mesurau lliniaru priodol, ac mae gwybodaeth bellach i egluro'r sefyllfa yn yr arfaeth. Efallai fod gan brosiectau ynni gwynt ar y môr effeithiau nas mesurwyd ar ystlumod sy'n mudo ar hyn o bryd.

Mae cofnodion yn parhau i fod yn wasgaredig iawn, gan adlewyrchu argaeledd recordiadau acwstig cyfyngedig ac ymdrechion arolygu lleol. Mae angen arolygon wedi'u targedu i asesu tueddiadau o ran poblogaeth a gwasgariad. Er bod ansawdd y cynefin yn parhau i fod yn ansicr, mae'n disgwyl y bydd yr ardal yn parhau i fod yn sefydlog, ac nid oes unrhyw ffactorau penodol sy'n achosi newid wedi'u nodi. Ystyrir bod dyfodol cynefin y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog ar y cyfan.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ystlum lleiaf Nathusius yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anhysbys. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anhysbys. Nid adroddwyd ar unrhyw duedd gyffredinol o ran statws cadwraeth yn yr asesiad hwn ar lefel Cymru na'r asesiad blaenorol ar lefel y DU oherwydd bod y statws yn anhysbys.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1317

Map gwasgariad ar gyfer S1317

S1317 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 91

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Anhysbys

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1317 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws y boblogaeth: Anhysbys (XX)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anhysbys (XX)

Tuedd gyffredinol: Amherthnasol

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1320 Ystlum Brandt (*Myotis brandtii*)

Mae ystlum Brandt (*Myotis brandtii*) yn rhywogaeth gudd sy'n aml yn cael ei drysu â'r ystlum barfog ac ystlum Alcathoe. Mae adnabod acwstig yn anodd oherwydd paramedrau ecoleoli sy'n gorgyffwrdd a thebygrwydd ei alwad â rhywogaethau *Myotis* eraill, gan wneud monitro'n heriol. Pan fo cofnodion dibynadwy yn bodoli, maent yn awgrymu bod ystlum Brandt yn llawer prinnach na'r ystlum barfog, gydag ychydig iawn o glwydfannau mamolaeth yng Nghymru y gwyddys amdanynt.

Mae ystlum Brandt wedi'i ddosbarthu'n eang ledled Cymru, er y gallai bylchau mewn data adlewyrchu tan-gofnodi yn hytrach nag absenoldeb. Oherwydd anawsterau adnabod, mae cofnodion ar gyfer yr ystlum barfog ac ystlum Brandt wedi'u cyfuno, ac mae hyn yn debygol o dueddu'r amcangyfrif o ran dosbarthiad o blaid yr ystlum barfog, sy'n fwy cyffredin. Mae data monitro yn awgrymu tuedd boblogaeth sefydlog dros y tymor byr yng Nghymru, er nad yw'n arwyddocaol yn ystadegol, ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn. Dylid dehongli'r duedd hon yn ofalus gan ei bod yn cyfuno data o ddwy rywogaeth â gofynion ecolegol gwahanol a statws cadwraethol gwahanol o bosibl.

Mae ystlum Brandt yn wynebu pwysau ar ei gynefinoedd clwydo a chynefinoedd fforio. Ymhlith y pwysau sy'n gysylltiedig â chlwydo y mae datblygiadau a gwaith trosi adeiladau, arferion coedwigaeth, ac amharu ar safleoedd gaeafgysgu trwy ddefnydd hamdden o safleoedd tanddaearol. Mae pwysau fforio a chymudo yn deillio o bori dwys, datblygu seilwaith, darnio cynefinoedd, a cholli nodweddion tirwedd bach.

Mae amddiffyniadau cyfreithiol a gweinyddol ar waith, ond mae angen gorfodi a rheoli cynefinoedd gwarchodedig yn barhaus. Defnyddir cynlluniau rheoli tir er mwyn sicrhau bod cynefinoedd coetir a ffiniau caeau ger clwydfannau yn addas ar gyfer pryfed ysglyfaeth. Mae ymdrechion cynllunio yn canolbwyntio ar gynnal llwybrau cymudo a lliniaru aflonyddwch gan weithgareddau hamdden mewn safleoedd heidio a gaeafgysgu. Er gwaethaf amddiffyniadau cyfreithiol, mae diffyg data penodol ar gyfer y rhywogaeth yn llesteirio ymdrechion cynllunio cadwraeth ac asesu effaith effeithiol.

Ystyrir bod gwasgariad a phoblogaeth y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, ond mae cyfyngiadau data a gorgyffwrdd â'r ystlum barfog yn cuddio tueddiadau. Ni nodwyd unrhyw ffactorau penodol sy'n achosi newid tymor byr, ac ystyrir bod tueddiadau o ran cynefin hefyd yn sefydlog.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ystlum Brandt yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anhysbys. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) yn nodi statws ffafriol. Nid oes angen asesu tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru, ond roedd yn sefydlog yn y gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD IV

Llun gan: Daniel Hargreaves

Map dosbarthiad ar gyfer S1320

Map gwasgariad ar gyfer S1320

S1320 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 315

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1320 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anhysbys (XX)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anhysbys (XX)

Tuedd gyffredinol: Amherthnasol

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1322 Ystlum Natterer (*Myotis nattereri*)

Mae ystlum Natterer (*Myotis nattereri*) wedi'i ddosbarthu'n eang ac yn cael ei gofnodi'n gyffredin yng Nghymru, gyda bylchau o ran dosbarthiad yn debygol o fod oherwydd diffyg cofnodi yn hytrach nag absenoldeb gwirioneddol. Mae'r rhywogaeth fel arfer yn gysylltiedig â choetiroedd llydanddail, coridorau afonydd â choed ar eu hyd, parcdiroedd, a gwrychoedd wrth ymyl porfeydd. Ceir clwydfannau mamolaeth mewn coed, blychau ystlumod, ac adeiladau megis ysguboriau ac eglwysi, yn aml ger coetiroedd. Mae gaeafgysgu a heidio yn digwydd mewn safleoedd tanddaearol, gan gynnwys twneli, ogofâu a thai iâ.

Mae ystlum Natterer wedi'i gofnodi ledled Cymru, ac fe'i hystyrir yn rhywogaeth eang ei gwasgariad. Nid oes unrhyw arolygon dosbarthiad strwythuredig wedi'u cynnal, ond cânt eu cofnodi'n gyffredin gan arolygon datblygu ac arolygon gaeafgysgu. Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn amrywio o 1,900 i 332,000 o unigolion, a 52,300 yw'r amcangyfrif gorau. Mae'r amcangyfrifon eang hyn oherwydd ansicrwydd ynghylch defnyddio coetiroedd ac adeiladau ar gyfer clwydfannau mamolaeth. Dangosodd y duedd boblogaeth tymor byr gynnydd o 13.4%, ond nid oedd hyn yn arwyddocaol yn ystadegol, ac adroddir bod y duedd yn sefydlog felly.

Ymhlith y pwysau sy'n effeithio ar ystlum Natterer y mae colled clwydfannau neu amhariad ar glwydfannau oherwydd gwaith coedwigaeth, adeiladu ac addasu adeiladau, a gweithgareddau hamdden megis ogofa. Mae newidiadau mewn arferion coedwigaeth ac amaethyddiaeth, gan gynnwys cael gwared ar nodweddion tirwedd bach, defnyddio dulliau rheoli plâu, a newidiadau yn y ffordd y caiff tir ei ddefnyddio, yn effeithio ar ardaloedd cymudo a fforio. Mae ffyrdd, seilwaith, goleuadau artiffisial, a llygredd dyfrffyrdd hefyd yn peri bygythiadau parhaus.

Mae mesurau cadwraeth cyfredol yn canolbwyntio ar reolaethau cyfreithiol a gweinyddol i warchod safleoedd clwydo ac ardaloedd fforio. Mae adfer nodweddion tirwedd amaethyddol ac addasu arferion coedwigaeth yn bwysig i'r rhywogaeth. Mae datblygu seilwaith ac effeithiau goleuadau yn gofyn am ddylunio a rheolaethau gofalus. Gall cynlluniau rheoli tir amgylcheddol helpu i gynnal argaeledd pryfed ysglyfaeth ger clwydfannau. Mae cynllunio ar raddfa'r dirwedd a rheoli amhariad gan weithgareddau hamdden mewn safleoedd heidio a gaeafgysgu hefyd yn rhan o'r dull cadwraeth gofynnol.

Mae dyfodol ystlum Natterer yng Nghymru yn debygol o fod yn gadarnhaol. Mae gwasgariad a phoblogaeth y rhywogaeth yn sefydlog ar hyn o bryd, heb unrhyw ffactorau tymor byr a fydd yn arwain at ehangu na dirywiad wedi'u nodi. Er bod diffyg data manwl ar ansawdd cynefinoedd, mae defnydd y rhywogaeth o glytwaith o gynefinoedd a thueddiadau cyfredol yn awgrymu y bydd amodau cynefinoedd yn parhau i fod yn sefydlog. At ei gilydd, asesir bod y rhagolygon ar gyfer y gwasgariad, y boblogaeth a'r cynefin yn sefydlog.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ystlum Natterer yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1322

Map gwasgariad ar gyfer S1322

S1322 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 52,300

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1322 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1323 Ystlum Bechstein (*Myotis bechsteinii*)

Mae ystlum Bechstein (*Myotis bechsteinii*) yn rhywogaeth brin, sy'n ddibynnol ar goetiroedd, y mae angen clytwaith cymhleth o gynefinoedd arno er mwyn clwydo, fforio a chymudo. Fel arfer, mae'n clwydo mewn ceudodau coed, megis tyllau cnocell y coed neu dyllau pydredd. Mae cytrefi mamolaeth yn ffafrio coetiroedd collddail hynafol sy'n amrywiol eu hadeiladwaith, yn enwedig y rheini â choed derw ac isdyfiant trwchus. Mae ardaloedd fforio fel arfer yn fach a rhwng 500 a 1,500 metr o'r clwydfannau, ond gallant ymestyn hyd at bedwar cilometr. Yn y gaeaf, ceir unigolion yn clwydo ar eu pennau eu hunain mewn safleoedd tanddaearol megis ogofâu a mwyngloddiau, er bod ceudodau coed yn debygol o gael eu defnyddio. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ystlum Bechstein, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1323/.

Dim ond yn ddiweddar y cadarnhawyd bod y rhywogaeth hon yn bridio ac yn preswylio yng Nghymru, yn dilyn arolygon trapio yn ne Sir Fynwy yn 2018. Mae trapio wedi'i dargedu wedi hynny mewn coetiroedd a reolir gan CNC yn y De-orllewin wedi cynhyrchu cofnodion presenoldeb pellach. Er gwaethaf y canfyddiadau hyn, mae'r dosbarthiad yng Nghymru yn parhau i fod yn rhywbeth nas deallir yn dda iawn. Amcangyfrifir bod y boblogaeth o leiaf 116, gydag uchafswm o 626, ac amcangyfrif gorau o 249 o unigolion. Mae'r amcangyfrifon hyn yn dibynnu ar fodelu sy'n seiliedig ar gynefinoedd gan ddefnyddio hyd a lled coetiroedd llydanddail. Nid oes digon o ddata i bennu tueddiadau tymor byr yng Nghymru.

Mae ystlum Bechstein yn wynebu sawl pwysau sy'n gysylltiedig yn bennaf â newidiadau mewn rheolaeth coetiroedd. Mae datblygu seilwaith megis ffyrdd a rheilffyrdd yn cyflwyno risgiau trwy ddarnio cynefinoedd a llwybrau cymudo, ac mae llygredd golau yn effeithio ymhellach ar ymddangosiad a fforio. Mae colled nodweddion tirwedd bach megis gwrychoedd ac effaith pathogenau goresgynnol ar goed llydanddail hefyd yn peri bygythiadau. Mae gofynion arbenigol y rhywogaeth, ei dwysedd isel, a'i thwf araf yn ei gwneud yn fwy agored i'r pwysau hyn.

Mae camau cadwraeth yn canolbwyntio ar addasu neu atal arferion coedwigaeth niweidiol ynghyd â rheoli datblygiadau, seilwaith a goleuadau. Er bod presenoldeb ystlum Bechstein mewn coetiroedd gwarchodedig megis Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Dyffryn Gwy wedi'i gadarnhau, nid oes unrhyw ACAau yng Nghymru yn ei restru fel nodwedd gymhwyso. Mae amddiffyniadau cyfreithiol yn parhau i fod yn angenrheidiol, ond mae bylchau mewn gwybodaeth yn rhwystro gweithredu cynhwysfawr. Mae angen ymchwil bellach i nodi a gweithredu mesurau effeithiol.

Mae'r rhagolygon ar gyfer ystlum Bechstein yng Nghymru yn parhau i fod yn ansicr. Er bod cofnodion diweddar yn awgrymu dosbarthiad ehangach nag a wyddys amdano'n flaenorol, mae prinder y golygfeydd a gadarnhawyd a'r cwmpas arolwg cyfyngedig yn atal dealltwriaeth lawn o'i wasgariad a deinameg y boblogaeth. Mae arolygon parhaus sydd wedi'u targedu ac asesiadau o gynefinoedd yn hanfodol i gynorthwyo proses wybodus o reoli a diogelu'r rhywogaeth anodd ei gweld hon er mwyn sicrhau nad yw cytrefi'n cael eu colli cyn iddynt hyd yn oed gael eu darganfod.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ystlum Bechstein yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) yn nodi statws anhysbys. Y duedd gyffredinol o ran statws cadwraethol yn yr asesiad hwn ar lefel Cymru yw anhysbys. Nid adroddwyd am yr ystlum yn yr asesiad blaenorol ar lefel y DU oherwydd bod y statws cyffredinol yn anhysbys.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1323

Map gwasgariad ar gyfer S1323

S1323 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 249

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Ansicr

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Anhysbys

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1323 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–drwg (U2)

Statws y boblogaeth: Anhysbys (XX)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1326 Ystlum hirglust (*Plecotus auritus*)

Mae'r ystlum hirglust (*Plecotus auritus*) yn gyffredin ac yn eang ei wasgariad ledled Cymru. Mae'n debyg bod bylchau yn ei ddosbarthiad yn adlewyrchu data arolwg cyfyngedig yn hytrach nag absenoldeb gwirioneddol. Mae'r rhywogaeth yn clwydo mewn adeiladau a choed, er bod clwydfannau mewn coed wedi'u tan-gofnodi. Mae gan y rhywogaeth alwadau ecoleoli tawel iawn, ac felly nid yw wedi'i chofnodi'n ddigonol yn acwstig ychwaith.

Nid oes unrhyw arolygon strwythuredig o ddosbarthiad wedi'u cynnal ar gyfer yr ystlum hirglust. Fel arfer, mae cofnodion yn deillio o arsylwadau ar sail *ad hoc*, arolygon ymgynghori, ac arolygon o safleoedd gaeafgysgu. Yr amcangyfrif gorau o boblogaeth oedolion yng Nghymru yw 96,600 o unigolion, gyda lleiafswm o 5,370 ac uchafswm o 228,000. Mae'r amcangyfrifon eang hyn oherwydd ansicrwydd ynghylch defnyddio coetiroedd ac adeiladau ar gyfer clwydfannau mamolaeth. Ystyriwyd bod y duedd boblogaeth tymor byr a adroddwyd yn sefydlog, er gwaethaf gostyngiad o 19.9%, gan nad oedd y gostyngiad yn arwyddocaol yn ystadegol. Ers ei gyhoeddi, mae'r ffigur hwn wedi cynyddu i ostyngiad sylweddol o -53.6%.

Ymhlith y prif bwysau ar yr ystlum hirglust y mae effeithiau ar glwydo ac effeithiau ar ei gynefin. Mae pwysau sy'n gysylltiedig â chlwydfannau yn cynnwys addasu adeiladau, trosi ysguboriau a llofftydd, a gweithrediadau gwaith coed yn cael gwared ar glwydfannau mewn coed. Mae'r rhywogaeth yn arbennig o agored i golli clwydfannau oherwydd ei gofynion penodol a'r ffaith ei bod yn sensitif i fwy o olau. Mae cynefinoedd cymudo a fforio yn cael eu heffeithio arnynt gan newidiadau mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth, megis symleiddio tirweddau a darnio cynefinoedd. Ymhlith y pwysau ychwanegol arni y mae datblygu seilwaith a gwrthdrawiadau â cherbydau, y mae'r rhywogaeth yn agored iddynt oherwydd ei bod yn hedfan yn isel ac yn araf.

Mae amddiffyniadau cyfreithiol yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod safleoedd clwydo yn cael eu diogelu. Ymhlith y mesurau cadwraeth sydd ar waith y mae strategaethau rheoli tir a chynllunio i warchod ac adfer cynefinoedd fforio a chynnal opsiynau clwydo. Nod arferion rheoli yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth yw cynorthwyo argaeledd pryfed ysglyfaeth ac ansawdd cynefinoedd clwydo. Mae ymyriadau penodol hefyd yn targedu lleihau effeithiau ffyrdd a gweithgareddau hamdden, gan gynnwys tarfu ar safleoedd gaeafgysgu, gyda chynllunio ar raddfa'r dirwedd i ddiogelu llwybrau cymudo a thiroedd fforio.

Ystyrir bod rhagolygon yr ystlum hirglust yng Nghymru yn sefydlog o ran ei wasgariad a'i gynefin. Ni nodwyd unrhyw ffactorau tymor byr ar gyfer newid yn ei wasgariad, ac mae'r rhywogaeth yn parhau i feddiannu dosbarthiad tebyg i gyfnodau adrodd blaenorol. Er bod gostyngiadau diweddar mewn data tueddiadau yn destun pryder, mae angen rhagor o ddata i gadarnhau a deall yr hyn sy'n ysgogi'r dirywiad. Mae rhagolygon ar gyfer cynefinoedd hefyd yn sefydlog, ac ni welwyd unrhyw newidiadau mawr mewn ansawdd nac argaeledd cynefinoedd.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r ystlum hirglust yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1326

Map gwasgariad ar gyfer S1326

S1326 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 96,600

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1326 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1327 Ystlum adain-lydan (*Eptesicus serotinus*)

Mae'r ystlum adain-lydan (*Eptesicus serotinus*) yn un o ystlumod mwyaf Cymru. Mae'n defnyddio amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer fforio, gan gynnwys caeau agored wedi'u ffinio gan ymylon coetiroedd, glannau afonydd, gerddi, parciau ac ardaloedd amwynder. Fel ystlumod mawr, maent yn gallu teithio pellteroedd sylweddol a gallant ddefnyddio sawl safle fforio bob nos. Fel arfer, mae clwydfannau mamolaeth ystlumod adain-lydan mewn hen dai neu eglwysi, ond weithiau mewn tai mwy modern. Maent yn defnyddio gwagleoedd to a waliau ceudod, y gellir eu cyrraedd yn aml trwy dyllau yn y wal allanol. Ni ddeuir o hyd i'r ystlum adain-lydan yn gaeafgysgu'n aml iawn; mae'n debygol eu bod yn aros mewn adeiladau, ond weithiau fe'u ceir mewn safleoedd tanddaearol.

Yng Nghymru, mae dosbarthiad a phoblogaeth yr ystlum adain-lydain wedi'u diffinio'n wael. Mae'r ystlum wedi cael ei gofnodi yn y De ers amser maith, ond mae ei wir wasgariad yn parhau i fod yn ansicr, gyda dim ond ychydig o glwydfannau mamolaeth hysbys. Mae galwadau ecoleoli'r rhywogaeth yn gorgyffwrdd â galwadau rhywogaethau *Nyctalus* sy'n hanu o ystlumod mewn amgylcheddau llawn gwrthrychau, sy'n aml yn creu ansicrwydd ynghylch cofnodion. Ystyriwyd yn flaenorol ei fod yn absennol yn y Gogledd, ond yn 2011 fe ddarganfuwyd clwydfannau mamolaeth arwyddocaol, ynghyd â sawl clwydfan arall yn y blynyddoedd dilynol. Fodd bynnag, nid yw'r dosbarthiad gwirioneddol yn y Gogledd yn glir ac mae angen astudiaethau wedi'u ffocysu o hyd. Oherwydd prinder data, nid oes modd pennu tueddiadau poblogaeth ar gyfer Cymru.

Mae'r ystlum adain-lydan yn destun amrywiaeth o bwysau. Gellir colli clwydfannau yn ystod gwaith adeiladu a phrosiectau datblygu. Mae cynefinoedd fforio yn cael eu heffeithio arnynt gan ddwysáu amaethyddol, symleiddio'r dirwedd, ac arferion rheoli plâu sy'n lleihau nifer y pryfed ysglyfaeth. Gall datblygiadau seilwaith megis ffyrdd arwain at wrthdrawiadau a cholli cynefinoedd. Gall y rhywogaeth hefyd wynebu risgiau o osodiadau ynni gwynt fel rhywogaeth sydd â risg ganolig o wrthdrawiadau.

Mae angen mesurau cyfreithiol a gweinyddol i ddiogelu clwydfannau a rheoli cynefinoedd yn effeithiol. Rhaid cynllunio ar raddfa'r dirwedd i gadw llwybrau cymudo a sicrhau parhad ardaloedd fforio. Ymhlith y camau cadwraeth y mae adfer nodweddion tirwedd bach, addasu rheolaeth coedwigoedd, ac adfer arferion ffermio traddodiadol. Nod y strategaethau hyn yw cefnogi anghenion ecolegol y rhywogaeth ar draws amgylcheddau amaethyddol ac adeiledig.

Mae rhagolygon dyfodol yr ystlum adain-lydan yng Nghymru yn parhau i fod yn aneglur. Mae rhagolygon ar gyfer gwasgariad a phoblogaeth wedi'u nodi'n anhysbys oherwydd data annigonol a than-gofnodi. Mae'n ansicr a fyddai cofnodion newydd yn adlewyrchu ehangu gwirioneddol neu ddulliau canfod gwell. Fodd bynnag, mae argaeledd cynefinoedd yn ymddangos yn sefydlog gan nad oes unrhyw fygythiadau ar raddfa fawr i gynefinoedd wedi'u nodi, sy'n awgrymu bod y cynefinoedd hyn yn parhau i fod yn sefydlog.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r ystlum adain-lydan ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nod tuedd sefydlog.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1327

Map gwasgariad ar gyfer S1327

S1327 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 98

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Anhysbys

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1327 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws y boblogaeth: Anhysbys (XX)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1330 Ystlum barfog (*Myotis mystacinus*)

Mae'r ystlum barfog (*Myotis mystacinus*) yn rhywogaeth gudd sy'n aml yn cael ei drysu ag ystlum Brandt ac ystlum Alcathoe. Mae adnabod acwstig yn anodd oherwydd paramedrau ecoleoli sy'n gorgyffwrdd a thebygrwydd ei alwad â rhywogaethau *Myotis* eraill, gan wneud monitro'n heriol.

Mae'r ystlum barfog wedi'i ddosbarthu'n eang ledled Cymru, a gallai rhai bylchau amlwg yn ei ddosbarthiad adlewyrchu tan-gofnodi. Oherwydd anawsterau adnabod, mae cofnodion ar gyfer yr ystlum barfog ac ystlum Brandt wedi'u cyfuno, ac mae hyn yn debygol o dueddu'r amcangyfrif o ran dosbarthiad o blaid yr ystlum barfog, sy'n fwy cyffredin. Mae data monitro yn awgrymu tuedd boblogaeth sefydlog dros y tymor byr yng Nghymru, er nad yw'n arwyddocaol yn ystadegol, ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn. Dylid dehongli'r duedd hon yn ofalus gan ei bod yn cyfuno data o ddwy rywogaeth â gofynion ecolegol gwahanol a statws cadwraethol gwahanol o bosibl.

Mae'r ystlum barfog yn wynebu pwysau ar ei gynefinoedd clwydo a chynefinoedd fforio. Ymhlith y pwysau sy'n gysylltiedig â chlwydo y mae datblygiadau a gwaith trosi adeiladau, arferion coedwigaeth, ac amharu ar safleoedd gaeafgysgu trwy ddefnydd hamdden o safleoedd tanddaearol. Mae pwysau fforio a chymudo yn deillio o bori dwys, datblygu seilwaith, darnio cynefinoedd, a cholli nodweddion tirwedd bach.

Mae amddiffyniadau cyfreithiol a gweinyddol ar waith, ond mae angen gorfodi a rheoli cynefinoedd gwarchodedig yn barhaus. Defnyddir cynlluniau rheoli tir er mwyn sicrhau bod cynefinoedd coetir a ffiniau caeau ger clwydfannau yn addas ar gyfer pryfed ysglyfaeth. Mae ymdrechion cynllunio yn canolbwyntio ar gynnal llwybrau cymudo a lliniaru aflonyddwch gan weithgareddau hamdden mewn safleoedd heidio a gaeafgysgu. Er gwaethaf amddiffyniadau cyfreithiol, mae diffyg data penodol ar gyfer y rhywogaeth yn llesteirio ymdrechion cynllunio cadwraeth ac asesu effaith effeithiol.

Ystyrir bod rhagolygon y dyfodol ar gyfer yr ystlum barfog yng Nghymru yn sefydlog ar draws paramedrau gwasgariad, poblogaeth a chynefin. Ni nodwyd unrhyw ffactorau dros y tymor byr a fyddai'n achosi newidiadau sylweddol i'w ddosbarthiad na'i doreithrwydd. Er gwaethaf cyfyngiadau data a heriau o ran gwahanu rhywogaethau, mae'r dosbarthiad eang parhaus a'r cynefin digonol tybiedig yn awgrymu bod y rhywogaeth yn parhau i fod yn hyfyw.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r ystlum barfog yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1330

Map gwasgariad ar gyfer S1330

S1330 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 315

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1330 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anhysbys (XX)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1331 Ystlum Leisler (*Nyctalus leisleri*)

Mae ystlum Leisler (Nyctalus leisleri) yn brin ledled Cymru, gyda'r cofnodion mwyaf dibynadwy wedi'u crynhoi yn y De-ddwyrain. Mae'n fforio mewn amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys coetiroedd, porfeydd, ardaloedd torlannol, ac ar hyd ymylon coetiroedd. Mae clwydfannau mamolaeth a gaeafgysgu wedi'u lleoli'n bennaf mewn coed, ond gwyddys bod yr ystlum hefyd yn defnyddio adeiladau.

Nid yw statws y rhywogaeth yng Nghymru yn eglur. Mae poblogaethau preswyl yn hysbys yn rhanbarth Dyffryn Gwy, ac mae cofnodion arfordirol yn dangos mudo posibl rhwng Prydain Fawr ac Iwerddon. Mae cofnodion acwstig gwasgaredig yn bodoli ledled Cymru, ond gall eu dilysu fod yn anodd mewn amgylcheddau anniben oherwydd gorgyffwrdd sylweddol ag *N. noctula* ac *Eptesicus serotinus*. Nid oes modd asesu tueddiadau poblogaeth a gwasgariad yng Nghymru ar hyn o bryd oherwydd diffygion data.

Mae'r prif bwysau ar y rhywogaeth yn ymwneud â cholled clwydfannau mewn coed ac adeiladau, a gostyngiadau yn nifer y pryfed ysglyfaeth. Gall arferion coedwigaeth megis cael gwared ar hen goed neu goed sy'n marw, llwyrgwympo, a lleihau nifer y coedwigoedd hynafol leihau nifer y clwydfannau sydd ar gael. Mae datblygu heb ei reoli ac addasiadau i adeiladau hefyd yn peri risgiau trwy golled clwydfannau. Gall newidiadau amaethyddol, gan gynnwys rhoi'r gorau i arferion traddodiadol, cael gwared ar nodweddion tirwedd bach, a chynyddu'r defnydd o blaladdwyr, leihau biomas pryfed ac amodau fforio addas. Mae tyrbinau gwynt yn cynrychioli bygythiad sylweddol, gydag astudiaethau'n dangos bod ystlum Leisler yn rhywogaeth sy'n wynebu perygl uchel o wrthdrawiadau, a allai arwain at effeithiau ar lefel y boblogaeth.

Mae amddiffyniadau cyfreithiol a chamau gweinyddol ar waith i ddiogelu clwydfannau ystlum Leisler. Fodd bynnag, gyda gwybodaeth gyfyngedig am leoliad clwydfannau, mae hyn yn heriol, yn enwedig o fewn lleoliadau coedwig. Nod y camau cadwraeth sydd ar waith ar hyn o bryd yw amddiffyn cynefinoedd clwydo a fforio ar draws tirweddau amaethyddol a thirweddau coedwigaeth. Mae'r rhain yn cynnwys adfer nodweddion tirwedd bach, addasu arferion amaethyddol ac addasu rheolaeth coedwigaeth i gynorthwyo clwydfannau a chynefinoedd ystlumod. Anogir cynllunio ar raddfa'r dirwedd i ddiogelu llwybrau cymudo a chymerir mesurau hefyd i liniaru risgiau o osodiadau ynni adnewyddadwy trwy addasu dyluniadau, gan gynnwys micro-leoli tyrbinau gwynt ac addasu eu gweithrediad.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer ystlum Leisler yng Nghymru yn awgrymu sefydlogrwydd o ran gwasgariad heb unrhyw ffactorau y gwyddys amdanynt sy'n dylanwadu ar ehangiad na chrebachiad y gwasgariad. Fodd bynnag, mae rhagolygon y boblogaeth yn parhau i fod yn anhysbys oherwydd data annigonol, ac nid oes modd asesu ansawdd y cynefin yn ddibynadwy. Yn absenoldeb pwysau adnabyddadwy sy'n debygol o achosi newid sylweddol, disgwylir i gynefin a phoblogaeth aros yn gymharol sefydlog oni bai fod poblogaethau newydd yn cael eu darganfod y tu hwnt i'r gwasgariad y gwyddys amdano ar hyn o bryd.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ystlum Leisler yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anhysbys. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) yn nodi statws ffafriol. Nid oes angen asesu tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru oherwydd bod y statws yn anhysbys, ond roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU yn nodi bod y duedd yn sefydlog.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1331

Map gwasgariad ar gyfer S1331

S1331 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 45

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Anhysbys

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1331 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws y boblogaeth: Anhysbys (XX)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anhysbys (XX)

Tuedd gyffredinol: Amherthnasol

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S5009 Ystlum lleiaf meinlais (*Pipistrellus pygmaeus*)

Mae'r ystlum lleiaf meinlais (*Pipistrellus pygmaeus*) yn doreithiog ac wedi'i ddosbarthu'n eang ledled Cymru, ac mae'n debygol bod unrhyw fylchau o ran ei ddosbarthiad oherwydd diffyg data arolwg yn unig. Mae'n clwydo yn aml mewn adeiladau o wahanol fathau, gan gynnwys eglwysi hynafol, ysguboriau a byngalos modern. Mae llawer o gofnodion yn deillio o ymholiadau gan berchnogion tai neu arolygon datblygu gan ymgynghorwyr. Nid oes modd pennu cofnodion maes cyn y rhaniad tacsonomegol rhwng *P. pipistrellus* a *P. pygmaeus* (1997) yn hyderus i'r naill rywogaeth na'r llall.

Amcangyfrifir bod maint y boblogaeth rhwng 202,000 a 862,000 o unigolion, a 478,000 yw'r amcangyfrif gorau. Deilliwyd y ffigurau hyn gan ddefnyddio dwysedd ystlumod llawn dwf ar draws lefelau ansawdd cynefinoedd a'u lluosi â'r ardaloedd trigiadwy. Er bod data cyfrif clwydfannau'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Monitro Ystlumod (NBMP) yn dangos dirywiad sylweddol dros yr hirdymor a'r tymor byr yng Nghymru, nid oes modd llunio tuedd ddibynadwy oherwydd bod y rhywogaeth yn newid ei chlwydfannau'n aml.

Mae pwysau wedi'u categoreiddio i'r rheini sy'n effeithio ar glwydfannau a'r rheini sy'n effeithio ar fforio a chymudo. Mae datblygu trefol a'r llygredd sy'n gysylltiedig â hyn, gan gynnwys golau a sŵn, yn effeithio ar safleoedd clwydo. Gall arferion adeiladu modern a deunyddiau toi gyfyngu ymhellach ar gyfleoedd clwydo addas. Gall gweithgareddau amaethyddol a choedwigaeth ddiraddio cynefinoedd a lleihau biomas pryfed. Ymhlith y pryderon penodol y mae newidiadau o ran sut y caiff tir ei ddefnyddio, cael gwared ar nodweddion tirwedd, a defnyddio cemegau. Mae seilwaith megis tyrbinau gwynt a ffyrdd yn arwain at farwolaethau o ganlyniad i wrthdrawiadau.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae addasu seilwaith ynni gwynt a thrafnidiaeth i liniaru effeithiau. Mae amddiffyniadau cyfreithiol yn gofyn am fesurau lliniaru pan fydd datblygiadau'n effeithio ar glwydfannau. Mae effeithiau llygredd a throsi tir yn cael sylw drwy gynlluniau cyfreithiol ac amaeth-amgylcheddol. Mae canllawiau'n cefnogi cynllunwyr, datblygwyr a rheolwyr tir i ddiwallu anghenion cadwraeth ystlumod.

Ystyrir bod gwasgariad, poblogaeth ac argaeledd cynefinoedd yr ystlum lleiaf meinlais yng Nghymru yn y dyfodol yn sefydlog ar y cyfan. Mae'r cynefin yn parhau i fod yn ddigonol ac yn eang ei wasgariad. Er nad oes modd mesur tueddiadau poblogaeth sy'n benodol i Gymru, mae'r duedd tymor byr ar gyfer Prydain Fawr yn sefydlog. Fodd bynnag, gall pwysau yn y dyfodol o newidiadau deddfwriaeth, polisïau cynllunio a datblygu gyflwyno heriau na wyddys amdanynt eto.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r ystlum lleiaf meinlais yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD IV

Llun gan: Sam Dyer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S5009

Map gwasgariad ar gyfer S5009

S5009 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 478,000

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Ansicr

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S5009 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

5.3 Rhywogaethau pysgod

Llun gan: Rich Cove, Cyfoeth Naturiol Cymru

S1095 Llysywen bendoll y môr

S1096 Llysywen bendoll y nant

S1099 Llysywen bendoll yr afon

S1102 Herlyn

S1103 Gwangen

S1106 Eog

S1109 Cangen las

S6353 Gwyniad

S6965 Penlletwad

S1095 Llysywen bendoll y môr (*Petromyzon marinus*)

Y mwyaf o'r tair rhywogaeth o lysywod pendoll brodorol yn y DU, mae llysywen bendoll y môr (*Petromyzon marinus*) yn bysgodyn esgynnol sydd â dosbarthiad eang ar draws afonydd hygyrch yng Nghymru. Mae'n nodwedd ddynodedig mewn chwe afon yng Nghymru a thair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) forol. Mae angen gro afon glân ar lysywod pendoll y môr ar gyfer silio. Mae'r larfâu (amosetiaid) yn tyllu mewn gwelyau o silt a thywod organig mewn dŵr afonydd dyfnach, gan fwydo ar facteria ac algâu. Mae pysgod ifanc yn mudo o afonydd i'r môr, lle maent yn bwydo'n barasitig ar ystod eang o rywogaethau o bysgod ysglyfaeth, gan gynnwys y gwyniad môr, yr eog, a rhywogaethau mwy megis yr heulgi. Mae eu gwasgariad llawer yn ehangach yn yr amgylchedd morol na llysywen bendoll yr afon. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lysywen bendoll y môr, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1095/.

Oherwydd nad oes data cyfrifiad cywir ar gael ar lefel Cymru, asesir y boblogaeth gan ddefnyddio dosbarthiad graddfa fanwl (nifer y sgwariau 1 cilometr sydd wedi'u meddiannu). Amcangyfrifir bod y boblogaeth bresennol yn meddiannu 428 o sgwariau 1 cilometr ledled Cymru, er bod tan-gofnodi yn debygol o arwain at danamcangyfrif. Mae'r gwasgariad 10 cilometr sgwâr sydd wedi'i fapio wedi'i seilio ar gofnodion o gronfeydd data ac arsylwadau silio mewn amrywiol afonydd yng Nghymru. Nodwyd cynnydd o 29% ym maint y boblogaeth o'i gymharu â'r cylch adrodd blaenorol, yn ôl pob tebyg oherwydd cynnydd yn ymdrech arsylwyr mewn lleoliadau silio yn hytrach na chynnydd gwirioneddol yn y boblogaeth. Mae amrywiadau mawr wedi'u cofnodi ym maint rhediadau oedolion, gyda chyfrifon blynyddol ar afon Tywi rhwng 2015 a 2023 yn amrywio o 743 i 5,858.

Ymhlith y prif bwysau y mae dinistrio cynefinoedd trwy garthu, gwaith peirianneg, gan gynnwys argaeau a choredau, a llygredd sy'n effeithio ar ddatblygiad larfâu. Gall newid hinsawdd effeithio ar gyfundrefnau llif ac argaeledd rhywogaethau ysglyfaeth trwy achosi mwy o lifogydd a sychder a newidiadau yn nhymheredd y môr. Mae llygredd amaethyddol gwasgaredig yn cyfrannu at broblemau ansawdd dŵr mewn cynefinoedd dŵr croyw a chynefinoedd morol. Fodd bynnag, ni chredir bod y pwysau hyn yn debygol o fygwth poblogaeth llysywen bendoll y môr o ddifrif ar hyn o bryd.

Mae mesurau cadwraeth yn canolbwyntio ar wella cynefinoedd afonydd a chael gwared ar rwystrau sy'n llesteirio mudo trwy adfer afonydd a phrosiectau pysgodfeydd. Mae'r mentrau hyn wedi gwella neu adfer 854 cilometr o afonydd yng Nghymru ac wedi mynd i'r afael â 77 o rwystrau, gan wella mynediad i 954 cilometr o afonydd.

Mae'n disgwyl i'r boblogaeth barhau i fod yn sefydlog dros y degawd nesaf, er y gallai effeithiau hinsawdd megis llifoedd is a llifogydd effeithio ar oroesiad larfâu a sefydlogrwydd cynefinoedd. Gallai gwaith arfaethedig megis gosod llwybrau pysgod newydd mewn rhwystrau allweddol wella mynediad i gynefinoedd i fyny'r afon a gwella gwydnwch y boblogaeth.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o lysywen bendoll y môr ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) yn nodi statws anhysbys. Asesir bod tuedd gyffredinol ar gyfer cynefinoedd y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd anhysbys.

ATODIAD II

Llun gan: Annalisa Bianchessi

Map dosbarthiad ar gyfer S1095

Map gwasgariad ar gyfer S1095

S1095 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 428

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 292

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Ansicr

S1095 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1096 Llysywen bendoll y nant (*Lampetra planeri*)

Mae llysywen bendoll y nant (*Lampetra planeri*) yn rhywogaeth dŵr croyw y gellid dod o hyd iddi yn y mwyaf o'r afonydd yng Nghymru. Mae'r llysywod pendoll llawndwf bach a main yn silio yn y gwanwyn mewn gro glân. Mae eu larfâu, a elwir yn amosetiaid, yn treulio hyd at chwe blynedd yn tyllu mewn silt a thywod, gan fwydo ar fater organig cyn metamorfforeiddio. Yn wahanol i'r rhywogaethau o lysywod pendoll brodorol eraill, nid yw llysywen bendoll y nant ar ei ffurf lawndwf yn bwydo. Mae llysywen bendoll y nant yn nodwedd ddynodedig mewn chwe Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lysywen bendoll y nant, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1096/.

Oherwydd nad oes data cyfrifiad cywir ar gael ar lefel Cymru, asesir y boblogaeth gan ddefnyddio dosbarthiad graddfa fanwl (nifer y sgwariau 1 cilometr sydd wedi'u meddiannu). Mae'r mwyaf o'r cofnodion yn ymwneud â larfâu a gasglwyd trwy arolygon heb eu targedu, oherwydd ni chynhaliwyd unrhyw arolygon ar y llysywen bendoll yn benodol rhwng 2019 a 2024. Mae maint y boblogaeth bresennol yn 94% o faint y cylch blaenorol, yn ôl pob tebyg oherwydd llai o ymdrech samplu yn hytrach na gostyngiad gwirioneddol. Dylid nodi nad oes modd gwahaniaethu larfâu llysywen bendoll y nant oddi wrth larfâu llysywen bendoll yr afon.

Mae llysywen bendoll y nant yn cael eu heffeithio arnynt gan nifer o bwysau gwahanol, gan gynnwys newidiadau ffisegol i gyrff dŵr megis argaeau ac addasiadau llif. Mae llygredd o amaethyddiaeth, da byw, a ffynonellau cymysg yn diraddio ansawdd cynefinoedd ymhellach. Ymhlith y bygythiadau y mae draenio a newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i amodau anfiotig megis llifoedd dŵr sydd wedi'u newid. Fodd bynnag, ni chredir bod y pwysau hyn yn debygol o fygwth poblogaeth llysywen bendoll y nant o ddifrif ar hyn o bryd.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae ymdrechion adfer afonydd, mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo, rheoli rhywogaethau goresgynnol, a phrosiectau lleihau llygredd dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau partner. Mae'r mentrau hyn wedi gwella neu adfer 854 cilometr o amgylchedd afonydd ac wedi mynd i'r afael â 77 o rwystrau, gan wella symudiad pysgod ar draws 954 cilometr o afonydd.

Mae llysywen bendoll y nant yn rhywogaeth sefydlog eang ei gwasgariad yng Nghymru, ac mae'n disgwyl y bydd yn parhau felly dros y degawd nesaf, er y gallai effeithiau hinsawdd megis llifoedd is a llifogydd effeithio ar y gallu i larfâu oroesi a sefydlogrwydd cynefinoedd. Bydd gweithgareddau adfer ar y cyd â gwaith dalgylch integredig o fudd i'r boblogaeth drwy wella prosesau afonol naturiol a mynd i'r afael â llu o bwysau.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o lysywen bendoll y nant ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) yn nodi statws anhysbys. Nid adroddwyd ar unrhyw duedd gyffredinol o ran statws cadwraethol yn yr asesiad blaenorol ar lefel y DU oherwydd bod y statws yn anhysbys. Yn y cylch adrodd hwn, asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog.

ATODIAD II

Llun gan: Hawlfraint Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1096

Map gwasgariad ar gyfer S1096

S1096 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 1,494

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 495

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Ansicr

S1096 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1099 Llysywen bendoll yr afon (*Lampetra fluviatilis*)

Mae llysywen bendoll yr afon (*Lampetra fluviatilis*) yn bysgodyn esgynnol sydd â dosbarthiad eang ar draws afonydd hygyrch yng Nghymru. Mae'r larfâu yn treulio hyd at 4.5 mlynedd yn tyllu mewn silt a thywod ac yn bwydo ar fater organig cyn metamorfforeiddio. Yna maen nhw'n mudo i'r môr, lle maen nhw'n bwydo'n barasitig ar ystod eang o bysgod ysglyfaeth. Ar ôl dwy flynedd mewn dyfroedd arfordirol, mae'r llysywod pendoll llawndwf yn dychwelyd i afonydd yn y gwanwyn i silio mewn gro â digon o ocsigen ac yn marw yn fuan wedyn. Mae llysywen bendoll yr afon yn nodwedd ddynodedig mewn chwe Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol a thair ACA forol. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lysywen bendoll yr afon, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1099/.

Oherwydd nad oes data cyfrifiad cywir ar gael ar lefel Cymru, asesir y boblogaeth gan ddefnyddio dosbarthiad graddfa fanwl (nifer y sgwariau 1 cilometr sydd wedi'u meddiannu). Amcangyfrifir bod y boblogaeth bresennol yn 1,988 o sgwariau 1 cilometr, sy'n ostyngiad bach i 92% o faint y boblogaeth yn y cylch blaenorol, yn ôl pob tebyg oherwydd llai o ymdrech samplu yn hytrach na gostyngiad gwirioneddol. Yn gyffredinol, mae'r rhywogaeth hon wedi'i than-gofnodi yng Nghymru, ac nid oes unrhyw arolygon penodol wedi'u cynnal o larfâu llysywod pendoll. Nid oes gan larfâu llysywen bendoll y nant a llysywen bendoll yr afon unrhyw nodweddion nodweddiadol o ran eu morffoleg, gan gymhlethu'r broses o adnabod y gwahanol rywogaethau wrth ymgymryd â gwaith monitro.

Ymhlith y prif bwysau y mae addasiadau ffisegol megis argaeau a choredau, sy'n amharu ar lwybrau mudo ac yn newid siâp afonydd, a llygredd a newid hinsawdd. Gall newidiadau llifoedd o ganlyniad i dynnu dŵr a seilwaith effeithio'n negyddol ar gamau bywyd y llysywen bendoll. Ni chredir bod y pwysau hyn yn debygol o fygwth poblogaeth llysywen bendoll yr afon o ddifrif ar hyn o bryd.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae ymdrechion adfer afonydd, mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo, rheoli rhywogaethau goresgynnol a phrosiectau lleihau llygredd dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau partner. Mae'r mentrau hyn wedi gwella neu adfer 854 cilometr o amgylchedd afonydd ac wedi mynd i'r afael â 77 o rwystrau, gan wella mynediad pysgod mudol i 954 cilometr o afonydd. Mae llwybrau pysgod wedi'u cynllunio ar gyfer sawl rhywogaeth, ac yn aml yn cael eu gweithredu yn ystod prosiectau seilwaith neu brosiectau adfer ehangach. Mae sawl rhwystr yn parhau i atal mynediad i gynefinoedd addas ychwanegol, e.e. coredau Canaston a Hwlffordd yn ACA Afonydd Cleddau.

Mae llysywen bendoll yr afon yn rhywogaeth sefydlog ac eang ei gwasgariad yng Nghymru, ac mae'n disgwyl y bydd yn parhau felly dros y degawd nesaf, er y gallai effeithiau hinsawdd megis llifoedd is a llifogydd effeithio ar y gallu i larfâu oroesi a sefydlogrwydd cynefinoedd. Bydd gweithgareddau adfer ar y cyd â gwaith dalgylch integredig o fudd i'r boblogaeth drwy wella prosesau afonol naturiol a mynd i'r afael â llu o bwysau.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lysywen bendoll yr afon yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd anhysbys.

ATODIAD II, V

Llun gan: Hawlfraint Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1099

Map gwasgariad ar gyfer S1099

S1099 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 1,988

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 660

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Ansicr

S1099 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1102 Herlyn (*Alosa alosa*)

Mae’r herlyn (*Alosa alosa*) yn bysgodyn esgynnol maint canolig yn nheulu'r penwaig sy'n silio yn y nos mewn afonydd mawr ddiwedd y gwanwyn a dechrau'r haf. Mae'r wyau'n drifftio pellter byr i lawr yr afon cyn setlo mewn rifflau bas, gan ddeor o fewn tua phedwar i saith diwrnod. Mae herlod ifanc yn gaeafgysgu yn yr afon cyn mudo i'r môr y gwanwyn canlynol. Yn y môr, maent yn byw mewn dyfroedd mewndirol i ddechrau, gan symud i ardaloedd dyfnach wrth iddynt dyfu a bwydo ar gramenogion yn yr urdd Mysida. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr herlyn, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o’r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1102/.

Mae union ddosbarthiad yr herlyn yng Nghymru yn parhau i fod yn ansicr iawn oherwydd prinder y rhywogaeth a'r ffaith ei bod yn anodd ei gwahaniaethu'n ddibynadwy oddi wrth y wangen, sy'n perthyn yn agos iddi ac y mae'r herlyn yn croesi â hi. Mae'n debyg bod unrhyw silio wedi'i ganolbwyntio o amgylch afonydd mwy sy'n mynd i mewn i Fôr Hafren, yn enwedig afonydd Wysg, Gwy a Thywi. Gwneir cofnodion am yr herlyn mewn afonydd eraill, megis afon Dyfrdwy ac afon Conwy, yn ysbeidiol ac nid ydynt yn dangos unrhyw dystiolaeth o silio.

Rhwng 2006 a 2018, roedd 188 o sgwariau 1 cilometr yn cynnwys herlod neu wyau herlod. Roedd tri chofnod credadwy gan bysgotwyr o herlod o afon Gwy yn 2012.

Mae rhwystrau megis coredau ac argaeau yn rhwystro’r rhywogaeth rhag mudo ac yn effeithio'n sylweddol ar symudiadau’r herlyn. Gall gwaith tynnu dŵr gael gwared ar wyau sy'n drifftio, ond ni wyddys yn sicr beth yw effaith hyn ar lefel y boblogaeth. Gall newidiadau ffisegol i afonydd, megis sythu ac atgyfnerthu, ddirywio cynefinoedd silio a chynefinoedd herlod ifanc. Mae llygredd, yn enwedig o amaethyddiaeth ddwys, yn peri risg, er bod herlod yn llai sensitif na salmonidau yn hyn o beth.

Yn yr amgylchedd morol, mae systemau oeri gorsafoedd pŵer yn trapio nifer fawr o bysgod, gan gynnwys pysgod ifanc. Mae cynlluniau ynni llanw o amgylch arfordir Cymru yn bryder yn y dyfodol oherwydd effeithiau posibl ar herlod sy'n mudo.

Mae prosiect Pedair Afon LIFE yn gwella mynediad i bysgod mudol yn nalgylch afon Wysg. Roedd prosiect Datgloi’r Hafren yn gwella mynediad yn rhan isaf afon Hafren, ond mae angen mesurau pellach i gyrraedd silfeydd Cymru. Mae angen mesurau ychwanegol yn nalgylchoedd afon Wysg ac afon Hafren. Gellir ystyried magu mewn caethiwed a rhyddhau i ailsefydlu poblogaethau, yn amodol ar astudiaethau dichonoldeb.

Mae’r herlyn yn parhau i fod yn brin iawn yng Nghymru ac efallai nad yw’n bodoli mwyach mewn poblogaethau hyfyw. Mae rhagolygon ar gyfer gwasgariad y rhywogaeth yn y dyfodol yn wael oherwydd diffyg adferiad, er gwaethaf mynediad gwell a hinsawdd sy'n cynhesu. Mae'n annhebygol y bydd y boblogaeth yn gwella oherwydd gostyngiad poblogaethau o darddiad Ffrainc. Nid oes disgwyl y bydd unrhyw ddirywiad mawr i’w gynefin yn y dyfodol agos.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r herlyn yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy’n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, V

Llun gan: Prosiect Herlod LIFE+

Oherwydd ansicrwydd ynghylch cofnodion, nid oes mapiau dosbarthiad na gwasgariad wedi'u cynnwys yma.

S1102 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 173

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 172

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1102 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i’r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1103 Gwangen (*Alosa fallax*)

Mae'r wangen (*Alosa fallax*) yn bysgodyn esgynnol yn nheulu'r penwaig. Mae'n silio yn ystod y nos yn yr ardaloedd eang, graeanog mewn afonydd mwy ar ddiwedd y gwanwyn a dechrau'r haf. Mae wyau'n drifftio i lawr yr afon am gyfnod byr cyn deor o fewn pedwar i saith diwrnod, gan setlo mewn rifflau bas. Mae gwangod ifanc yn aros mewn afonydd am tua thri mis cyn mudo i'r môr, lle maent yn bwydo ar gramenogion i ddechrau ac yn ddiweddarach yn symud i bysgod bach. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y wangen, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1103/.

Mae adnabod y rhywogaeth yn anodd oherwydd pa mor debyg yw i'r herlyn a chyfraddau croesfridio uchel, gyda rhai poblogaethau yng Nghymru yn cynnwys croesrywiau'n bennaf. Mae dosbarthiad y rhywogaeth wedi'i grynhoi mewn afonydd mwy sy'n llifo i Fôr Hafren, yn enwedig afonydd Wysg, Gwy a Thywi. Yn ogystal, amheuir bod poblogaethau ychwanegol yn afonydd Eryri megis afonydd Dwyryd, Glaslyn a Mawddach.

Oherwydd diffyg data cyfrifiad ynghylch ei phoblogaeth, bu'n rhaid amcangyfrif y boblogaeth gan ddefnyddio nifer y sgwariau un cilometr sydd wedi'u meddiannu. Amcangyfrifir bod maint y boblogaeth yn 173 o sgwâr un cilometr. Mae'r boblogaeth bresennol yn cynrychioli 72% o'r gwerth cyfeirio ffafriol ar gyfer Cymru. Amcangyfrifwyd tueddiadau gan ddefnyddio cicsamplu ar gyfer wyau. Mae poblogaeth afon Wysg wedi cynyddu'n sylweddol, efallai fod poblogaeth afon Gwy yn cynyddu, ac mae poblogaeth afon Tywi yn ymddangos yn sefydlog.

Ymhlith y pwysau mawr y mae addasiadau i afonydd megis coredau ac argaeau, sy'n rhwystro mudo, a thynnu dŵr, sy'n lleihau'r arwynebedd gwlyb ac a all gael gwared ar wyau sy'n drifftio. Mae sythu afonydd ac atgyfnerthu glannau yn diraddio cynefinoedd silio a chynefinoedd pysgod ifanc. Mae llygredd o ffynonellau amaethyddol a systemau oeri gorsafoedd pŵer yn peri risgiau mewn amgylcheddau dŵr croyw ac amgylcheddau morol. Ymhlith y bygythiadau yn y dyfodol hefyd y mae cynlluniau ynni'r llanw arfaethedig a'r posibilrwydd o lyncu microblastigion.

Ymhlith y prif ymdrechion cadwraeth y mae prosiect Pedair Afon LIFE yn afon Wysg a phrosiect Datgloi'r Hafren. Mae'r mesurau sylfaenol yn canolbwyntio ar wella mynediad i bysgod mudol ac ymdrin â llygredd ac addasu cynefinoedd. Disgwylir y bydd yr ymdrechion hyn yn cefnogi'r broses o adfer y wangen a rhywogaethau eraill o bysgod mudol.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer y wangen yng Nghymru yn sefydlog, gyda chynnydd posibl o ran ba mor addas yw'r cynefin oherwydd newid hinsawdd. Gall tymereddau cynhesach ostwng y gyfradd marwolaethau a rhoi hwb i lefel y boblogaeth. Gallai mynediad ehangach yn sgil prosiectau cadwraeth adfer poblogaethau i'w hen wasgariadau a gwella gwydnwch y rhywogaeth. Mae cynnydd parhaus yn dibynnu ar osgoi rhwystrau mudo newydd a chynnal cynefinoedd ac ansawdd dŵr.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r wangen yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg mynediad parhaus i'r rhannau o afon Hafren yng Nghymru ac mae'n debyg ei fod yn rhy besimistaidd. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn gwella, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd sefydlog.

ATODIAD II, V

Llun gan: Sefydliad Gwy ac Wysg

Map dosbarthiad ar gyfer S1103

Map gwasgariad ar gyfer S1103

S1103 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 173

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 172

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn cynyddu

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1103 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn gwella

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1106 Eog (*Salmo salar*)

Mae’r eog (*Salmo salar*) yn bresennol ledled Cymru yn y mwyafrif o’r nentydd, afonydd ac aberoedd. Mae angen dŵr o ansawdd uchel arnynt yn ystod pob cyfnod o fywyd, ac y mae angen gwelyau o ro glân ar eogiaid llawndwf sy'n silio hyd at 40 centimetr o ddyfnder, ac y mae angen dŵr croyw bas sy'n llifo'n gyflym ar yr eogiaid ifanc. Mae eogiaid yn mudo o gynefinoedd morol yn ôl i'w hafonydd genedigol i silio. Yn hanesyddol mewn afonydd llai yng Nghymru, mae eogiaid llawndwf sy'n dychwelyd wedi cael eu dominyddu gan leisiaid, sy'n treulio un gaeaf yn y môr. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr eog, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o’r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1106/.

Mae’n disgwyl y bydd eogiaid yn bresennol yn y mwyaf o gyrsiau dŵr Cymru, ac nid yw eu gwasgariad wedi newid yn sylweddol ers 2019.

Dengys yr asesiadau diweddaraf fod pob un o’r 23 prif afon lle ceir eogiaid yn methu â chyflawni eu terfynau cadwraeth a'u hamcanion rheoli. Mae pob un o'r 23 wedi'u dosbarthu fel afonydd “mewn perygl” yn 2024, a rhagwelir y byddant yn parhau i fod “mewn perygl” yn 2029. Rhwng 2019 a 2023, fe ostyngodd maint cymedrig amcangyfrifedig y boblogaeth yng Nghymru, ac roedd ffigur 2023, sef 8,593 o bysgod, yn cynrychioli’r ffigur isaf ers i gofnodion ddechrau yn 1997. Mae data wedi’u modelu yn dangos gostyngiad o 86% ym mhoblogaethau o eogiaid yng Nghymru dros y 15 mlynedd diwethaf.

Mae eogiaid yng Nghymru yn wynebu llawer o bwysau oherwydd eu defnydd o gynefinoedd amrywiol ar gyfer silio, bwydo a mudo. Mae newid hinsawdd yn effeithio ar bob agwedd ar eu cylchred bywyd trwy newidiadau i dymheredd, llifogydd ac amodau morol, gan leihau’r gyfradd goroesi a thwf. Ymhlith y prif bwysau eraill y mae rhwystrau ffisegol i fudo, addasu cynefinoedd, llygredd gwasgaredig a llygredd o darddle penodol, ecsbloetiaeth gan bysgodfeydd, llygredd aer, a rhywogaethau estron goresgynnol. Ymhlith y bygythiadau yn y dyfodol y mae ymlediad rhywogaethau goresgynnol ychwanegol, effeithiau datblygiadau ynni adnewyddadwy, lefelau uwch o wenwyndra o ganlyniad i blaladdwyr oherwydd cynhesu, a phresenoldeb microblastigion yn y môr.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae ymdrechion adfer afonydd, mynd i'r afael â rhwystrau sy’n atal pysgod rhag mudo, rheoli rhywogaethau goresgynnol, a phrosiectau lleihau llygredd dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau partner. Mae'r mentrau hyn wedi gwella neu adfer 854 cilometr o amgylchedd afonydd trwy fesurau megis cyfyngu ar fynediad da byw i gyrsiau dŵr a gwella cysgod a gorchuddiad. Yn ogystal, mae'r prosiectau hyn wedi mynd i'r afael â 77 o rwystrau, gan wella mynediad pysgod mudol i 954 cilometr o afonydd. Mae mentrau adfer cynefinoedd wedi gwella 855 cilometr o afonydd. Cyflwynwyd is-ddeddfau pysgota yn 2020, 2021 a 2023, ac mae rheolaethau ychwanegol wedi'u cynnig ar gyfer 2025. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn monitro ansawdd dŵr ac yn gorfodi cydymffurfedd rheoleiddiol.

Mae’r eog yn profi gostyngiad difrifol yng Nghymru ac yn wynebu difodiant mewn sawl ardal erbyn 2030. Mae rhagolygon yn dangos mai dim ond afonydd Gwy, Dyfrdwy a Dysynni a allai gynnal poblogaethau hyfyw erbyn yr amser hwnnw. Mae newid hinsawdd yn achosi dirywiad cynyddol i gynefinoedd ar draws amgylcheddau dŵr croyw ac amgylcheddau morol. Er gwaethaf ymdrechion cadwraeth sylweddol, mae effaith gyfunol y ffactorau hyn yn gwneud difodiant ar draws llawer o Gymru o fewn yr 20 mlynedd nesaf yn bosibilrwydd gwirioneddol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o’r eog ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd sefydlog.

ATODIAD II, V

Llun gan: Jack Perks

Map dosbarthiad ar gyfer S1106

Map gwasgariad ar gyfer S1106

S1106 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr oedolion

Maint y boblogaeth: 12,900

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 11,070

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1106 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i’r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1109 Cangen las (*Thymallus thymallus*)

Mae'r gangen las (*Thymallus thymallus*) yn bysgodyn sy'n silio yn y gwanwyn sy'n byw mewn afonydd a nentydd oer, ocsigenedig gyda llif amrywiol a cheryntau cryf. Mae'n tueddu i ffafrio dŵr dyfnach a graddiannau mwy ysgafn na'r brithyll, ac yn aml mae'n symud mewn heigiau yn ystod y tymor silio. Yn naturiol, ceir y gangen las mewn tri dalgylch yng Nghymru: afon Gwy, afon Hafren ac afon Dyfrdwy.

Er ei bod yn anodd canfod y gangen las gan ddefnyddio dulliau electrobysgota, mae manylion daliadau a data arolygon cyfyngedig wedi ategu'r broses o fapio dosbarthiad. Mae cymharu'r map poblogaeth cyfeirio ffafriol â'r map poblogaeth cyfredol yn awgrymu bod y rhywogaeth yn meddiannu bron â phob cynefin addas o fewn gwasgariad brodorol y rhywogaeth i'r graddau uchaf posibl. Nid oes unrhyw dystiolaeth o grebachiad diweddar yn ei gwasgariad na gostyngiad systematig yn y boblogaeth.

Yng Nghymru, mae poblogaeth y gangen las yn sefydlog ac efallai ei bod yn cynyddu, yn seiliedig ar gofnodion daliadau pysgotwyr ar draws ei thri dalgylch brodorol. Mae data o gystadleuaeth bysgota flynyddol ar afon Dyfrdwy yn dangos cynnydd graddol mewn niferoedd ers 2006.

Mae'r gangen las yn wynebu sawl pwysau parhaus yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys llygredd o ffynonellau cymysg o amaethyddiaeth ac ardaloedd trefol, sy'n arwain at fethiannau ansawdd dŵr cemegol a biolegol. Mae newidiadau hydromorffolegol megis addasiadau llifoedd a newidiadau ffisegol afonydd, gan gynnwys cael gwared ar falurion coediog, hefyd yn effeithio ar strwythur cynefinoedd. Mae tymereddau uwch mewn afonydd o ganlyniad i newid hinsawdd a diffyg cysgod hefyd yn gwaethygu'r amodau. Ymhlith y pwysau ychwanegol y mae rhwystrau i fudo, rhywogaethau brodorol sy'n peri problemau megis adar pysgysol, a rhywogaethau goresgynnol megis y cimwch afon arwyddol. Mae pwysau pysgota yn fach iawn, gyda'r mwyaf o'r pysgotwyr yn ymarfer arferion dal a rhyddhau.

Ymhlith yr ymdrechion cadwraeth ar gyfer y gangen las y mae amrywiaeth o fesurau sydd â'r nod o wella ansawdd a chysylltedd cynefinoedd. Ymhlith y prif fentrau y mae prosiect LIFE Afon Dyfrdwy a phrosiect Adfer Afon Gwy Uchaf, sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i symudiadau pysgod, atal da byw rhag defnyddio'r afon, a llygredd amaethyddol. Ar y cyd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau partner wedi adfer neu warchod rhannau helaeth o afonydd a chynefinoedd. Cefnogir yr ymdrechion hyn gan reoleiddio pysgota am y gangen las a deddfwriaeth pysgodfeydd wedi'i thargedu, tra bod is-ddeddfau cenedlaethol a chlybiau pysgota yn hyrwyddo arferion cynaliadwy.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer y gangen las yng Nghymru yn gymharol sefydlog. Mae'r rhywogaeth yn parhau i feddiannu rhan helaeth o'i chynefin ac mae'n disgwyl y bydd yn cynnal ei gwasgariad a'i phoblogaeth dros y 12 mlynedd nesaf. Er bod ansawdd y cynefin yn parhau i fod yn annigonol, nid yw'n dirywio'n sylweddol a gall wella oherwydd ymwybyddiaeth gynyddol a phrosiectau adfer parhaus. Os bydd ymyriadau rheoli tir ac afonydd presennol yn mynd rhagddynt, mae'n debygol y bydd niferoedd y gangen las yn parhau i fod yn wydn, er y byddai gwaith monitro parhaus – megis manylion daliadau pysgotwyr – yn gwella dealltwriaeth o ddeinameg y boblogaeth.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r gangen las ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD V

Llun gan: Rich Cove, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1109

Map gwasgariad ar gyfer S1109

S1109 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 520

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1109 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S6353 Gwyniad (*Coregonus lavaretus*)

Y gwyniad – yr enw cynhenid am y rhywogaeth *Coregonus lavaretus* – yw'r unig aelod o'r genws *Coregonus* a geir yng Nghymru. Mae'n bresennol yn naturiol yn Llyn Tegid yn unig, lle mae wedi bod yn bresennol ers diwedd yr oes iâ ddiwethaf. Mae'n rhywogaeth dŵr agored sydd angen dŵr oer â digon o ocsigen. Yn y gaeaf, mae gwyniaid yn byw yn y llyn cyfan ac yn silio mewn dyfroedd bas tuag adeg y flwyddyn newydd. Yn yr haf, maent wedi'u cyfyngu yn bennaf i ddŵr dyfnach, lle mae'r dŵr yn aros yn oer a'r lefelau ocsigen yn gymharol sefydlog. Mae'r rhywogaeth yn bwydo'n fanteisgar ar anifeiliaid di-asgwrn-cefn o ffynonellau benthig a phlanctonig a gall gyrraedd hyd o 40 centimetr. Hyd eu hoes yw tua saith mlynedd.

Yn ogystal â phoblogaeth Llyn Tegid, mae poblogaeth sydd wedi'i thrawsleoli yn Llyn Arenig Fawr, y cafodd ei chyflwyno yno yn y 2000au rhag ofn y byddai gostyngiad trychinebus o ran lefel yr ocsigen yn Llyn Tegid. Ni chynhaliwyd unrhyw waith monitro'n ddiweddar o'r naill boblogaeth na'r llall, ac o ganlyniad i hyn nid oes digon o ddata i bennu tuedd tymor byr y boblogaeth.

Mae'r gwyniad yn cael ei effeithio arno'n bennaf gan orfaethu o ffynonellau amaethyddol a phreswyl, gan arwain at ordyfiant algâu a lefelau is o ocsigen. Gall dyddodiadau silt hefyd effeithio ar ansawdd gro silio. Gall rheoli lefelau llynnoedd trwy ddulliau artiffisial wneud wyau'n agored i ddysychu ar ôl silio. Mae rhywogaethau goresgynnol megis *Crassula helmsii* ac *Elodea nuttallii* yn bygwth silfeydd. Mae newid hinsawdd yn peri bygythiad difrifol trwy ddwysáu gordyfiant algâu a disbyddu ocsigen oherwydd mwy o haenu a dŵr ffo sy'n cynnwys maethynnau, yn enwedig yn Llyn Tegid.

Er nad oes unrhyw gamau penodol wedi'u rhoi ar waith ar gyfer y gwyniad yn y cylch adrodd presennol, argymhellir prosiect rheoli dalgylch hirdymor. Dylai hwn anelu at leihau faint o faethynnau a gwaddod sy'n cyrraedd y llyn o amaethyddiaeth, carthffosiaeth a ffynonellau lleol eraill. Byddai'r prosiect yn cynnwys rhanddeiliaid, gan gynnwys trigolion lleol, ffermwyr a chwmnïau dŵr. Gellid ystyried ymdrechion rheoli ar gyfer rhywogaethau goresgynnol megis *Crassula helmsii*, er efallai na fydd difa effeithiol yn ymarferol.

Mae'r gwyniad yn agored iawn i lwytho maethynnau a newid hinsawdd, sy'n bygwth ei gynefin dŵr dwfn, sy'n ddibynnol ar ocsigen, trwy fwy o ordyfiant algâu a haenu estynedig. Mae risg sylweddol o hypocsia trychinebus yn Llyn Tegid, a allai arwain at gwymp yn y boblogaeth, yn enwedig o ystyried bod y llyn hwn yn cynnal dros 90% o boblogaeth Cymru. Mae'r boblogaeth sydd wedi'i thrawsleoli yn Llyn Arenig Fawr mewn llai o berygl oherwydd lefelau isel o faethynnau yn y llyn. Heb ymyrraeth i leihau faint o faethynnau a ryddheir i'r llyn, mae'n debygol y bydd amodau cynefinoedd yn y dyfodol yn dirywio, gan beryglu goroesiad y rhywogaeth yn Llyn Tegid.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r gwyniad ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD V

Llun gan: Ian Winfield

Map dosbarthiad ar gyfer S6353

Map gwasgariad ar gyfer S6353

S6353 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: Amherthnasol

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Anhysbys

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S6353 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S6965 Penlletwad (*Cottus gobio* a phob un arall)

Mae'r penlletwad (*Cottus gobio*) yn bysgodyn bach sy'n byw ar lawr cyrff dŵr, y gellir ei adnabod wrth ei ben mawr, ac fel arfer nid yw'n tyfu'n hirach na 15 centimetr. Mae'n byw mewn afonydd, nentydd a llynnoedd caregog â dyfroedd bas, clir a chyflym a swbstradau caled megis gro neu goblau. Nid yw'r rhywogaeth yn goddef afonydd sydd wedi'u llygru llawer. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y penlletwad, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r disgrifiad: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1163/.

Mae'r penlletwad yn eang ei wasgariad ledled Cymru ac eithrio yn y gogledd a'r gorllewin pell, lle mae wedi bod yn absennol ers yr oes iâ ddiwethaf. Mae'n nodwedd ddynodedig mewn chwe Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol. Mae dosbarthiad y penlletwad wedi aros yn gyson dros y 25 mlynedd diwethaf.

Oherwydd nad oes data cyfrifiad cywir ar gael ar lefel Cymru, asesir y boblogaeth gan ddefnyddio dosbarthiad graddfa fanwl (nifer y sgwariau 1 cilometr sydd wedi'u meddiannu). Yr amcangyfrif ar gyfer 2019–2024 o sgwariau un cilometr sydd wedi'u meddiannu yw 2,249, i lawr o 2,798 yn 2018, yn bennaf oherwydd llai o ymdrech arolygu. Mae'n debyg bod maint y boblogaeth wedi'i danamcangyfrif oherwydd tan-gofnodi a chyfyngiadau arolygon, ond ar y cyfan mae'n ymddangos yn sefydlog.

Mae'r penlletwad yn cael ei effeithio gan addasiadau i gynefinoedd, gan gynnwys rhwystrau sy'n cyfyngu ar symudiadau'r pysgod a newidiadau ffisegol megis argaeau a sianelu. Mae llifoedd isel, tymereddau uchel, a lefelau is o ocsigen toddedig oherwydd newidiadau hydrolegol yn cyfyngu ymhellach ar nifer y cynefinoedd addas. Mae gweithgareddau amaethyddol yn cyfrannu at lygredd a siltio, sy'n diraddio swbstradau gro sy'n hanfodol ar gyfer atgenhedlu a llochesu. Mae rhywogaethau goresgynnol yn gwaethygu dirywiad cynefinoedd trwy ysglyfaethu, ansefydlogi glannau afonydd, a chynyddu faint o waddod sy'n cyrraedd cyrsiau dŵr. Mae newid hinsawdd yn peri bygythiad ansicr, ond tebygol, trwy newid cyfundrefnau llif, lefelau is o ocsigen toddedig, a chynnydd mewn tymereddau dŵr. Fodd bynnag, ni chredir bod y pwysau hyn yn debygol o fod yn fygythiad difrifol i boblogaeth y penlletwad ar hyn o bryd.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae ymdrechion adfer afonydd, mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo, rheoli rhywogaethau goresgynnol, a phrosiectau lleihau llygredd dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau partner. Mae'r mentrau hyn wedi gwella neu adfer 854 cilometr o amgylchedd afonydd ac wedi mynd i'r afael â 77 o rwystrau, gan wella symudiad pysgod ar draws 954 cilometr o afonydd. Mae llwybrau pysgod wedi'u cynllunio ar gyfer sawl rhywogaeth, ac yn aml yn cael eu gweithredu yn ystod prosiectau seilwaith neu brosiectau adfer ehangach. Fodd bynnag, efallai na fydd llawer o ysgolion pysgod o fudd i'r penlletwad oherwydd nad yw'r rhywogaeth yn nofio'n dda iawn.

Mae poblogaethau penlletwad yng Nghymru yn sefydlog ar hyn o bryd ac mae'n disgwyl y byddant yn aros felly dros y degawd nesaf. Rhagwelir y bydd parhau i weithredu mesurau cadwraeth sydd wedi'u targedu yn cynnal ansawdd cynefinoedd ac yn gwella gwydnwch y boblogaeth. Fodd bynnag, mae effeithiau posibl newid hinsawdd, megis cyfundrefnau hydrolegol newidiol a thymheredd uwch, yn parhau i fod yn bryder. Mae angen ymchwil bellach i ddeall gofynion o ran llif ac effeithiau ecolegol unrhyw aflonyddwch ar ddeinameg y penlletwad.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r penlletwad ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II

Llun gan: Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S6965

Map gwasgariad ar gyfer S6965

S6965 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 2,249

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 848

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Ansicr

S6965 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

5.4 Rhywogaethau o folysgiaid

Llun gan: Roy Anderson

S1013 Malwen droellog Geyer

S1014 Malwen droellog ceg gul

S1016 Malwen droellog Desmoulin

S1029 Misglen berlog

S1013 Malwen droellog Geyer (*Vertigo geyeri*)

Mae gan falwen droellog Geyer (*Vertigo geyeri*) ddosbarthiad darniog, gweddilliol yn Ynysoedd Prydain, gyda phoblogaethau gwasgaredig yn yr Alban, gogledd Lloegr, gogledd-orllewin Cymru ac Iwerddon, lle mae'n gysylltiedig yn bennaf â thryddiferiadau a llaciau calchaidd agored. Ecotonau cul a hynod bregus yw'r rhain sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau mewn arferion pori neu hydroleg, yn enwedig gan nad yw tryddiferiadau a feddiannir gan y rhywogaeth yn aml yn fwy nag ychydig o fetrau sgwâr o ran eu harwynebedd. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am falwen droellog Geyer, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1013/.

Yng Nghymru, mae malwen droellog Geyer wedi'i chofnodi mewn tri lleoliad: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig / Gwarchodfa Natur Genedlaethol (SoDdGA/GNG) Cors Geirch, SoDdGA/GNG Cors Eddreiniog a SoDdGA Waun Eurad – mewn tryddiferiadau agored, llawn hesg sydd fel arfer â thwmpathau o gorsfrwyn du. Ers 2008, dim ond yn Waun Eurad y mae wedi'i chofnodi ac mae bellach yn cael ei hystyried yn rhywogaeth sydd wedi diflannu o'r safleoedd eraill yn dilyn chwiliadau helaeth aflwyddiannus amdani'n ddiweddar. Mae'r boblogaeth ar Waun Eurad yn fach, gyda chyfanswm o 66 o gregyn wedi'u cofnodi ym mis Tachwedd 2021.

Ymhlith y pwysau ar y rhywogaeth y mae tanbori a gorbori, cefnu ar arferion rheoli glaswelltiroedd traddodiadol, a llygredd o weithgareddau amaethyddol. Ymhlith y pwysau hydrolegol arni y mae addasiadau i lifoedd dŵr ac efallai gweithgarwch tynnu dŵr ar raddfa fach. Ymhlith y pwysau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae newidiadau mewn tymheredd a dyddodiad, sychder a dirywiad cynefin o ganlyniad i newid hinsawdd.

Ymhlith y camau cadwraeth y mae ymdrechion i sefydlu cyfundrefnau pori priodol i gynnal tryddiferiadau agored ac ymdrechion i osgoi tanbori a gorbori. Gwneir ymchwil i'r effaith y mae newidiadau hydrolegol yn ei chael ar hyn o bryd yn Waun Eurad. Mae'r penderfyniad i ailgyflwyno'r rhywogaeth i Gors Erddreiniog yn cael ei ystyried fel rhan o brosiect Natur am Byth!.

Oherwydd bod y rhywogaeth bellach wedi'i chyfyngu yng Nghymru i un lleoliad bach sy'n cynnal dim ond 6,250 metr sgwâr o gynefin addas, mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer malwen droellog Geyer yn wael iawn. Er bod gan Waun Eurad warchodaeth statudol, nid yw hyn wedi atal y falwen rhag difodi o'i lleoliadau eraill yng Nghymru. Bydd sychderau haf diweddar wedi cael effaith andwyol ar y boblogaeth sy'n weddill.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o falwen droellog Geyer yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II

Llun gan: Roy Anderson

Map dosbarthiad ar gyfer S1013

Map gwasgariad ar gyfer S1013

S1013 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 1

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 1

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1013 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–drwg (U2)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1014 Malwen droellog ceg gul (*Vertigo angustior*)

Roedd y falwen droellog ceg gul (*Vertigo angustior*) yn eang ei gwasgariad dros dirweddau iseldir agored yn y DU ar ddechrau'r cyfnod ôl-rewlifol ond bellach mae'n dangos dosbarthiad darniog, gweddilliol. Ar hyn o bryd, mae poblogaethau wedi'u cyfyngu i safleoedd arfordirol a mewndirol yn Nwyrain Anglia, ardal Gait Barrows yng ngogledd Swydd Gaerhirfryn a Cumbria, Moryd Solway yn ne-orllewin yr Alban, safleoedd ger Aberdeen, arfordir Gogledd Antrim yng Ngogledd Iwerddon, a thair system twyni tywod ar Benrhyn Gŵyr ac yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r falwen yn byw mewn mannau llaith sy'n fas-gyfoethog ac sy'n draenio'n rhydd ac sy'n cael eu heffeithio'n anaml gan ddysychu neu lifogydd cyfnodol. Yma, mae'n meddiannu llystyfiant cynnes, agored a byr, gan gynnwys gweiriau, mwsoglau a pherlysiau isel, lle mae'n pori ar ficro-ffyngau ac algâu ar lystyfiant marw sy'n agos at y ddaear. Ymhlith ei gynefinoedd y mae ardaloedd rhyngbarthol o forfa heli, calchbalmentydd, glaswelltiroedd corsiog mewndirol a glaswelltiroedd twyni tywod. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y falwen droellog ceg gul, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1014/.

Yng Nghymru, fe'i ceir mewn llaciau twyni aeddfed, cynefinoedd twyni sych, ac ardaloedd rhyngbarthol rhwng twyni a morfeydd heli ar Dwyni Nicholaston ac Oxwich, arfordir a Choedwig Pen-bre, a Thwyni Whiteford. Mae'n absennol o Dwyni Lacharn–Pentywyn, Twyni Llangynydd, Twyni Abertawe a Three Cliffs Bay.

Yn aml, mae'n byw mewn lleiniau bach a chul, gyda rhai ardaloedd dim ond yn mesur rhyw 50 centimetr o led a 50–200 metr o hyd. Mae 15 o fonadau wedi'u meddiannu (sgwâr 1 x 1 cilometr) ers 2006: wyth ym Mhen-bre, pedwar yn Whiteford, dau yn Oxwich, ac un yn Nicholaston. Mae arolygon diweddar ar Dwyni Whiteford wedi tynnu sylw at ddosbarthiad mwy eang nag a werthfawrogwyd yn flaenorol. Mae poblogaethau ym Mhen-bre, Nicholaston ac Oxwich yn fach ac mae is-boblogaethau wedi'u colli i olyniaeth ac ymlediad prysgwydd.

Mae'r prif bwysau sy'n effeithio ar y falwen yn gysylltiedig ag olyniaeth naturiol a dwyster arferion pori – ac mae tanbori a gorbori yn gallu dirywio ansawdd y cynefin. Mae'r penderfyniad i gefnu ar arferion rheoli tir traddodiadol a draenio amaethyddol yn bygwth ei chynefinoedd ymhellach. Gall llifogydd arwain at golled cynefinoedd yn Nhwyni Whiteford ac yng Nghoedwig Pen-bre. Ymhlith y bygythiadau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd y mae eithafion tymheredd, patrymau dyddodiad gwahanol a sychder yn yr haf, codiad yn lefel y môr, a newidiadau i leoliad, maint ac ansawdd cynefinoedd.

Mae ymdrechion cadwraeth wedi canolbwyntio ar gynnal lefelau pori addas ar Dwyni Whiteford. Mae gwaith yn cael ei wneud ar Dwyni Oxwich i glirio prysgwydd i adfer yr ardal ryngbarthol rhwng y twyni a'r morfa heli. Yng Nghoedwig Pen-bre, ymhlith y mesurau y mae eu hangen y mae gwaith clirio prysgwydd a lladd glaswellt er mwyn ailsefydlu amodau agored, arloesol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r falwen droellog ceg gul yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, er gwaethaf ei dosbarthiad ehangach ar Dwyni Whiteford.

ATODIAD II

Llun gan: Roy Anderson

Map dosbarthiad ar gyfer S1014

Map gwasgariad ar gyfer S1014

S1014 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 15

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 5

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1014 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1016 Malwen droellog Desmoulin (*Vertigo moulinsiana*)

Yn y DU, mae malwen droellog Desmoulin (*Vertigo moulinsiana*) yn gysylltiedig yn bennaf â gwernydd, ffeniau a chorsydd bas-gyfoethog ar dir isel sy'n ymylu ar afonydd, camlesi, llynnoedd a phyllau dŵr. Yn gyffredinol, mae arni angen strwythur llystyfiant tal a hydroddaeareg sefydlog, lle mae'r lefel trwythiad un ai ar wyneb y ddaear, neu ychydig uwchben, am lawer o'r flwyddyn a lle mae unrhyw lifogydd tymhorol o osgled isel iawn. Yn yr haf a'r hydref, mae'r malwod yn dringo llystyfiant tal, ond yn hafgysgu ar ddail isaf planhigion mewn amodau garw. Maent yn disgyn i lefel y deiliach, ac yn gwneud llai dros gyfnod y gaeaf. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am falwen droellog Desmoulin, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1016/.

Cofnodwyd y falwen am y tro cyntaf yng Nghymru ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Cors Geirch yn 1998, gyda chofnodion dilynol o orlifdir afon Penrhos yn 2002 a SoDdGA Rhos Goch yn 2007. Mae pedwar monad sydd wedi'u meddiannu (sgwariau 1 x 1 cilometr) wedi'u cofnodi ers 1998 ar draws y tri safle hyn mewn dau hectad: dau ar safle Cors Geirch, un ar safle Rhos Goch, ac un ar orlifdir afon Penrhos. Mae'r cofnodion diweddar ar safle Cors Geirch wedi'u cyfyngu i un monad.

Ymhlith y pwysau parhaus a phwysau tebygol ar y rhywogaeth yn y dyfodol y mae penderfyniad i gefnu ar arferion pori, lladd gwair a draenio tir amaethyddol neu eu gwneud gormod. Ymhlith y bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae newidiadau mewn tymheredd, dyddodiad ac ansawdd cynefinoedd, a sychder yn yr haf. Ymhlith y bygythiadau eraill y mae llygredd o amaethyddiaeth, gweithgarwch tynnu dŵr, a phrosesau naturiol nad ydynt wedi'u rheoleiddio.

Ymhlith y gwaith cadwraeth a wnaed ar safleoedd Cors Geirch a Rhos Goch y mae clirio prysgwydd i gynnal cynefin ffen agored. Efallai y bydd angen rheoli pori yng Nghors Geirch hefyd. Mae gorlifdir afon Penrhos, heb amddiffyniad statudol, yn parhau i fod yn agored i newidiadau amaethyddol a hydrolegol.

Mae poblogaeth Cors Geirch wedi gostwng yn sydyn ers 2008 ac nid yw wedi gwella, ac mae cyfrifon isel yn parhau i gael eu cofnodi ar draws nifer o arolygon. Gall maint y boblogaeth amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn oherwydd newidiadau i gynefinoedd, llystyfiant, lleithder a hydroleg, gan ei gwneud yn anodd pennu tueddiadau. Fodd bynnag, mae niferoedd isel rhwng 2016 a 2019 yn awgrymu gostyngiad sylweddol yn yr ardal hon. Mae'n disgwyl y bydd poblogaeth Rhos Goch yn parhau i fod yn sefydlog os cynhelir lefelau dŵr ac os rheolir prysgwydd.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o falwen droellog Desmoulin yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II

Llun gan: Roy Anderson

Map dosbarthiad ar gyfer S1016

Map gwasgariad ar gyfer S1016

S1016 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 4

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 2

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1016 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1029 Misglen berlog (*Margaritifera margaritifera*)

Mae’r fisglen berlog (*Margaritifera margaritifera*) yn gragen ddeuglawr fawr a geir mewn dyfroedd sy’n llifo sydd â lefelau isel o faethynnau. Mae oedolion yn hidlo bwyd a gallant fyw am dros ganrif. Mae eu cylchred bywyd yn cynnwys cyfnod parasitig byr ar dagellau brithyllod neu eogiaid ifanc, ac ar ôl hynny mae'r rhai ifanc yn byw wedi'u claddu mewn gro glân neu dywod am tua phum mlynedd cyn dechrau hidlo bwyd. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y fisglen berlog, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o’r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1029/.

Roedd y fisglen berlog yn eang ei gwasgariad yng Nghymru gynt, ond mae bellach mewn perygl difrifol. Mae'r poblogaethau sy'n weddill yn fach, yn dameidiog, ac yn debygol o gynnwys llai na 1,500 o unigolion at ei gilydd. Mae arolygon diweddar yn cadarnhau presenoldeb ac absenoldeb ar draws sawl lleoliad, gyda dim ond 10.3% o'r gwerth cyfeirio ffafriol wedi'i feddiannu.

Ers 2019, mae colli 19 sgwâr un cilometr yn cynrychioli dirywiad o 25% yn ôl y metrig hwn, sy'n cyfateb i ostyngiad poblogaeth blynyddol o tua 4%. Mae hyn yn cael ei ysgogi gan ddiffyg recriwtio, gan fod cregyn gleision ifanc naill ai'n cael eu golchi allan o'r afon neu'n cael eu mygu gan siltio mewn gro.

Ymhlith y prif bwysau y mae newidiadau morffolegol o garthu hanesyddol a draenio tir sy'n ansefydlogi swbstradau ac yn tagu gro. Mae gweithgareddau coedwigaeth yn cyfrannu'n gymedrol trwy lygredd dŵr ac effeithiau hydromorffolegol. Mae newid hinsawdd yn peri risgiau cynyddol o ganlyniad i lifogydd a achosir gan stormydd a llifoedd isel a achosir gan sychder. Er nad oes pysgota anghyfreithlon am berlau ar hyn o bryd, mae bygythiad isel gweddilliol yn parhau.

Heb ymdrechion cadwraeth wedi’u targedu, rhagwelir y bydd y rhywogaeth yn diflannu yng Nghymru o fewn dau ddegawd. Mae'r strategaeth genedlaethol yn cyfuno adfer cynefinoedd a magu mewn caethiwed i wrthdroi gostyngiad yn y boblogaeth. Er bod colledion gwasgariad a phoblogaeth yn debygol dros y tymor byr, mae llwyddiant hirdymor yn dibynnu ar weithredu strategaeth effeithiol a rheoli tir yn well. Mae tueddiadau cadarnhaol yn dechrau dod i'r amlwg, ond mae monitro ac ymyriadau parhaus yn hanfodol.

Cyflwynir camau cadwraeth drwy strategaeth sy'n cyfuno adfer cynefinoedd â magu mewn caethiwed a rhyddhau. Mae prosiectau megis Perlau mewn Perygl, LIFE Dyfrdwy, a Phedair Afon LIFE yn adfer cynefinoedd. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod ffensys, trapiau gwaddodion, ac ailosod gro a chlogfeini. Mae magu mewn caethiwed yn digwydd mewn deorfeydd ym Mhowys a Cumbria, ac mae cregyn gleision ifanc yn cael eu hailgyflwyno o dan amodau rheoledig, gan ddechrau yn 2024.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o’r fisglen berlog yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, V

Misglod perlog ifanc a fagwyd mewn caethiwed. Llun gan: John Taylor, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1029

Map gwasgariad ar gyfer S1029

S1029 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 59

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 22

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1029 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–drwg (U2)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn gwaethygu

I ddod o hyd i’r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

5.5 Rhywogaethau o blanhigion anfasgwlaidd

Llun gan: Sam Bosanquet, Cyfoeth Naturiol Cymru

S1378 *Cladonia* isgenws *Cladina*, isgenws o gennau

S1395 Petal-lys

S1400 Mwsogl glas

S1409 Migwyn

S6216 Mwsogl pluog gwyrdd main

S1378 *Cladonia* isgenws *Cladina*, isgenws o gennau

Mae *Cladonia* 'is-genws *Cladina*' yn grŵp o gennau sy'n ffurfio matiau podetia â changhennau cymhleth, a elwir yn aml yn 'gennau mwsogl carw'. Ar un adeg, fe ystyriwyd y cennau hyn yn genws ar wahân, ond bellach deellir eu bod wedi esblygu ffurfiau twf tebyg yn annibynnol o fewn y genws monoffyletig *Cladonia*. Mae pum rhywogaeth – *Cladonia arbuscula*, *C. ciliata*, *C. portentosa*, *C. rangiferina* a *C. stygia* – yn bresennol yng Nghymru. Maent i gyd yn tyfu ar y ddaear, yn bennaf mewn cynefinoedd rhostir a mawndir.

Mae'r map dosbarthiad yn cynnwys cofnodion ers 1990, gyda'r data diweddaraf o 2017. Mae'n bosibl bod sgwariau gyda chofnodion cyn 1990 yn unig, wedi'u lleoli ym Morgannwg, Sir Benfro, Ynys Môn a Chlwyd, wedi colli poblogaethau oherwydd colled cynefinoedd a llygredd aer. Mae'r dosbarthiad posibl mwyaf yn cynnwys 171 sgwâr 10 cilometr, er mai 118 sgwâr yw'r ffigur mwy realistig, wedi'i seilio ar ddata ar ôl 1990.

Y prif bwysau ar *Cladonia* isgenws *Cladina* yw colli cynefinoedd a llygredd aer. Mae'r penderfyniad i roi'r gorau i ddulliau rheoli tir traddodiadol, megis rhoi'r gorau i bori a lladd gwair, yn achosi i gynefinoedd lle mae *Cladonia* yn tyfu gau. Mae llygredd aer yn deillio o weithgareddau amaethyddol a diwydiannol. Mae colled a dirywiad cynefinoedd mawndir a rhostir hefyd wedi'i nodi oherwydd y ffactorau hyn.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae atal trosi cynefinoedd naturiol a chynefinoedd lled-naturiol, a lleihau llygredd aer o amaethyddiaeth a diwydiant. Mae rhai camau gweithredu yn rhan o fframweithiau deddfwriaethol ehangach, gan gynnwys mesurau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae ymdrechion adfer lleol megis ailwlychu mawndiroedd ac ailgyflwyno pori yn mynd rhagddynt, gan gynnwys prosiectau megis prosiect Cyforgorsydd Cymru LIFE. Gall ymdrechion i leihau llygredd nitrogen o drafnidiaeth hefyd ddarparu buddion lleol i gynefinoedd *Cladonia*.

Nid oes unrhyw dystiolaeth o gynaeafu *Cladonia* isgenws *Cladina* yng Nghymru. Er gwaethaf y mesurau cadwraeth presennol, mae llygredd aer yn parhau i fod yn fygythiad mawr, gyda hyder cymedrol yn unig y bydd y mesurau hyn yn ei reoli'n ddigonol. Yn ddamcaniaethol, gallai ymyriadau i amddiffyn cynefinoedd rhostir a mawndir helpu i liniaru rhai colledion. Fodd bynnag, ystyrir bod rhagolygon y rhywogaeth yng Nghymru ar gyfer y dyfodol yn wael.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o *Cladonia* isgenws *Cladina*, isgenws o gennau, yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod cynefin cyffredinol y rhywogaethau yng Nghymru yn dirywio, o'i gymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws anhysbys.

ATODIAD V

Llun gan: Sam Bosanquet (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Map dosbarthiad ar gyfer S1378

Map gwasgariad ar gyfer S1378

S1378 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 10x10 cilometr

Maint y boblogaeth: 118

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1378 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1395 Petal-lys (*Petalophyllum ralfsii*)

Mae’r petal-lys (*Petalophyllum ralfsii*) yn tyfu mewn cynefinoedd olyniaethol cynnar o fewn ardaloedd llac calchaidd ar dir isel sy'n gorlifo'n dymhorol mewn systemau twyni arfordirol. Mae wedi cael ei weld mewn 19 o systemau twyni tywod o amgylch arfordir Cymru a chafodd ei gyflwyno dros dro hefyd mewn safle mewndirol. Parhaodd y gytref fewndirol am lai na phum mlynedd. Er y ceir y mwyaf o'r cytrefi presennol o fewn safleoedd y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol yn y DU, fe gollwyd rhai o'r cytrefi hyn o fewn y deng mlynedd diwethaf. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y petal-lys, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o’r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1395/.

Mae’r petal-lys wedi’i gofnodi mewn wyth system twyni yn ystod y cylch adrodd cyfredol: Aberffraw, Twyni Brownslade, Twyni Lacharn, Merthyr Mawr, Morfa Dyffryn, Twyni Niwbwrch, Twyni Pentywyn, ac Ynys-las. Mae'r poblogaethau'n sefydlog neu'n cynyddu mewn pump o'r lleoliadau hyn. Tybir bod Twyni Talacre yn parhau i gynnal y rhywogaeth, tra bod ei statws yn Nhwyni Broomhill yn ansicr ac mae o bosibl wedi'i cholli. Rhwng 2013–2018 a 2019–2024, fe ostyngodd nifer yr ardaloedd â meddiannwyd o 13 i 10, gyda gostyngiad amcangyfrifedig o 23% i 38% yn yr ardaloedd hynny y’u meddiannwyd a gostyngiad ym meddiant celloedd grid o 21 i 16.

Ymhlith y prif bwysau y mae tanbori sy'n arwain at olyniaeth naturiol, a llygredd aer eang. Mae dyddodi nitrogen atmosfferig yn effeithio ar 100% o gynefin y rhywogaeth hon yng Nghymru. Mae rhywogaethau goresgynnol, yn enwedig *Hippophae*, yn cyflwyno problemau mewn sawl safle. Mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â choedwigaeth wedi lleihau lefelau dŵr, yn enwedig yn Nhywyn Niwbwrch, ac mae gweithgareddau carthu tywod wedi effeithio ar symudedd y twyni tywod. Er bod effeithiau cyrsiau golff ac amddiffynfeydd môr wedi lleihau, fe wnaethant achosi colledion hanesyddol o gytrefi. Mae tynnu dŵr daear a newidiadau mewn dyddodiad a achosir gan yr hinsawdd yn newid deinamig llaciau twyni a strwythur llystyfiant ymhellach.

Mae pob safle o’r rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol yn y DU sydd â’r petal-lys wedi bod yn destun dulliau rheoli twyni i wella cynefinoedd olyniaethol cynnar, gan gynnwys camau gweithredu o dan y rhaglen Twyni Byw LIFE. Mae Twyni Byw LIFE a phartneriaid wedi cynnal gwaith rheoli rhywogaethau goresgynnol, yn ogystal ag ansefydlogi twyni tywod trwy gloddio a chrafu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio llygredd aer ac allyriadau amaethyddol. Mae gweithrediadau milwrol wedi cael eu haddasu mewn dau safle, sydd bellach yn cynnal poblogaethau cynyddol o'r rhywogaeth.

Er gwaethaf ymdrechion cadwraeth ar raddfa fawr, mae’r petal-lys yn parhau i ddirywio yng Nghymru o ran meddiannu safleoedd, gorchudd celloedd grid, a thoreithrwydd unigol. Mae dirywiad yn ansawdd cynefinoedd yn parhau, ac mae cytrefu cynefinoedd newydd yn gyfyngedig, yn enwedig o fewn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol. Er bod pyllau dŵr tymhorol newydd wedi'u creu ac mae un wedi cynnal y petal-lys ers o leiaf bum mlynedd, nid yw adferiad ehangach yn amlwg eto. Mae hyder yn y rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn isel oherwydd yr ansicrwydd hwn, a gallai dirywiadau parhaus arwain at golledion pellach heb adferiad effeithiol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r petal-lys yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II

Llun gan: Sam Bosanquet (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Map dosbarthiad ar gyfer S1395

Map gwasgariad ar gyfer S1395

S1395 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr ardaloedd lleol

Maint y boblogaeth: 10

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 8

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1395 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i’r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1400 Mwsogl glas (*Leucobryum glaucum*)

Ceir y mwsogl glas (*Leucobryum glaucum*) yn bennaf mewn cynefinoedd rhostir a chorsydd yng Nghymru, gyda llai o achosion mewn coetiroedd. Mae'r rhywogaeth eang ei gwasgariad ledled y wlad, gyda'r crynodiadau uchaf yn y gogledd a'r gorllewin. Er bod dwy rywogaeth debyg yn bodoli mewn lleoliadau coetir, dim ond i'r mwsogl glas y mae'r crynodeb hwn yn berthnasol. Gall cynaeafu *Leucobryum* mewn coetiroedd effeithio ar rywogaethau cysylltiedig nad ydynt wedi'u cynnwys yma.

Yng Nghymru, mae'r rhywogaeth wedi'i dosbarthu ar draws o leiaf 94 o sgwariau 10x10 cilometr, yn ôl cofnodion ar ôl 2000, yn seiliedig ar ddata gan Gymdeithas Fryolegol Prydain. Efallai fod y dosbarthiad hwn yn tangynrychioli'r boblogaeth wirioneddol, oherwydd nad yw llawer o ardaloedd wedi cael eu harolygu ers cyn 1990. Mae cofnodion a wnaed rhwng 2000 a 2018 wedi'u cynnwys i wneud iawn am dan-arolygu ers 2019. Ni chafodd cofnodion hŷn o cyn 2000 eu cynnwys oherwydd difodiant lleol posibl oherwydd colled cynefinoedd a llygredd aer, yn enwedig yn nwyrain Cymru a Llŷn.

Ymhlith y prif bwysau ar y mwsogl glas y mae llygredd aer a dirywiad cynefinoedd. Ymhlith y pwysau effaith uchel y mae atal pori ar fawndiroedd a rhostiroedd, coedwigo'r cynefinoedd hyn, a llygredd aer amaethyddol a diwydiannol. Ymhlith y pwysau cymedrol neu leol ychwanegol y mae llosgi ar gyfer amaethyddiaeth, echdynnu mawn (wedi'i atal bellach), datblygu tyrbinau gwynt, llygredd traffig ffyrdd, a datblygiadau tai. Er nad yw cynaeafu masnachol yn cael ei ystyried yn bwysau yng Nghymru, mae'r rhywogaeth yn parhau i fod yn fregus i newidiadau amgylcheddol a newidiadau i'r ffordd y caiff tir ei ddefnyddio.

Ymhlith y mesurau cadwraeth cyfredol y mae amddiffyniadau cyfreithiol ar gyfer cynefinoedd â blaenoriaeth o dan gyfraith y DU a Chymru, sy'n helpu i ddiogelu cynefinoedd sy'n cynnal y mwsogl glas. Mae ymdrechion i leihau llygredd aer o ddiwydiant yn rhannol effeithiol, tra bod mesurau sy'n mynd i'r afael ag allyriadau amaethyddol wedi'u cynllunio o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae buddion lleol yn deillio o ymdrechion i adfer arferion pori a hydroleg mawndiroedd, megis trwy brosiect Cyforgorsydd Cymru LIFE. Gall mesurau rheoli llygredd sy'n targedu trafnidiaeth gynnig rhywfaint o fudd lleol ychwanegol.

Er gwaethaf amddiffyniadau cyfreithiol ac ymyriadau wedi'u targedu, mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer y mwsogl glas yng Nghymru yn parhau i fod yn wael. Mae'r rhywogaeth yn parhau i wynebu pwysau sylweddol o ran cynefinoedd a llygredd. Er mai colli cynefinoedd yw'r prif fygythiad, dim ond cymedrol yw'r hyder yn effeithiolrwydd mesurau rheoli presennol a chynlluniedig. Er bod gwasgariad y rhywogaeth yn parhau i fod yn gymharol sefydlog, mae lefelau'r boblogaeth yn gostwng ychydig, ac mae ansawdd y cynefin wedi dirywio.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r mwsogl glas yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd anhysbys.

ATODIAD V

Llun gan: Sam Bosanquet, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1400

Map gwasgariad ar gyfer S1400

S1400 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer celloedd grid map 10x10 cilometr

Maint y boblogaeth: 94

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1400 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1409 Migwyn (*Sphagnum* sp.)

Mae gan fwsoglau *Sphagnum* oddefgarwch ecolegol eang ledled Cymru, gan feddiannu cynefinoedd gwlyb, bas-niwtral i fas-dlawd. Maent yn gydrannau pwysig o ecosystemau corsiog, rhostiroedd gwlyb, a ffeniau o ansawdd gwael. Gellir dod o hyd i'r rhywogaeth hefyd mewn cymunedau o laciau bas-dlawd a bas-niwtral, glaswelltiroedd corsiog, coetiroedd gwlyb, a choedwigoedd glaw Celtaidd. Mae rhai rhywogaethau'n brin, tra bod eraill yn gymharol gyffredin. Mae dosbarthiad cyffredinol y grŵp yn cael ei lunio gan ddosbarthiad y rhywogaethau mwy eang eu gwasgariad.

Ceir *Sphagnum* mewn 224 o sgwariau 10x10 cilometr yng Nghymru yn seiliedig ar bob cofnod ar ôl 1990. Y boblogaeth leiaf tebygol yw 197 sgwâr, gyda chofnodion o'r cyfnod ar ôl 2000, ac mae'r fwyaf posibl yn cynnwys 231 sgwâr os yw cofnodion cyn 1990 yn parhau i adlewyrchu cytrefi sy'n parhau i fodoli. Mae'r map cyfredol yn cynnwys cofnodion o 2000–2024, gan fod llawer o boblogaethau a gofnodwyd cyn 2019 yn debygol o fodoli o hyd.

Ymhlith y pwysau parhaus a phwysau tebygol ar *Sphagnum* yn y dyfodol y mae rhoi'r gorau i ddulliau rheoli traddodiadol megis pori a lladd gwair, a gorbori a thanbori. Mae arferion amaethyddol yn cyfrannu'n sylweddol trwy losgi, llygredd maethynnau ac aer, a draenio. Mae coedwigo ac echdynnu mawn hefyd wedi effeithio ar grŵp y rhywogaethau, er bod arferion cloddio mawn wedi'u hatal. Ymhlith y pwysau llai eraill y mae llygredd o ganlyniad i drafnidiaeth a gweithgareddau preswyl neu ddiwydiannol, yn ogystal ag effeithiau rhagweledig newid yn yr hinsawdd. Er bod rhai rhywogaethau *Sphagnum* yn cael eu casglu wrth gynaeafu mwsoglau, credir bod hyn yn bwysau bach.

Ymhlith y prif fesurau cadwraeth y mae atal y broses o drawsnewid cynefinoedd naturiol, adfer arferion pori a llosgi priodol, a lleihau llygredd o amaethyddiaeth a diwydiant. Mae mesurau rheoli draenio ac adfer cynefinoedd sydd wedi'u newid yn hydrolegol hefyd yn elfennau pwysig. Mae rhai camau gweithredu wedi'u hymgorffori yn neddfwriaeth y DU a Chymru, ac mae prosiectau megis menter Cyforgorsydd Cymru LIFE yn darparu buddion lleol. Nod cynlluniau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw lleihau llygredd nitrogen o'r sector amaethyddiaeth, sy'n parhau i fod yn rhywbeth y mae taer ei angen.

Er gwaethaf gweithgarwch cynaeafu masnachol cyfyngedig, sy'n canolbwyntio ar rywogaethau cyffredin, mae pwysau sylweddol yn parhau i effeithio ar fwsoglau *Sphagnum* a'u cynefinoedd. Cadarnhawyd eisoes bod llygredd aer yn achosi difrod, ond dim ond hyder cymedrol sydd mewn effeithiolrwydd y mesurau i'w reoli. Dylai mesurau rheoli ar gyfer dirywiad mawndiroedd a rhostiroedd atal colled cytrefi'n uniongyrchol, felly llygredd aer yw'r prif fygythiad o hyd. Mae rhagolygon ar gyfer dyfodol y grŵp yng Nghymru yn wael ar hyn o bryd, ac mae ansicrwydd ynghylch gweithredu'r rheolaethau angenrheidiol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o figwyn ar lefel Cymru yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD V

Llun gan: Sam Bosanquet (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Map dosbarthiad ar gyfer S1409

Map gwasgariad ar gyfer S1409

S1409 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer celloedd grid map 10x10 cilometr

Maint y boblogaeth: 224

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1409 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S6216 Mwsogl pluog gwyrdd main (*Hamatocaulis vernicosus*)

Ceir y mwsogl pluog gwyrdd main (*Hamatocaulis vernicosus*) mewn tarddellau, llaciau a mignenni â dŵr o pH niwtral. Ceir y mwyaf o'r cytrefi yng Nghymru mewn ucheldiroedd agored rhwng 200 metr a 400 metr o uchder, er bod cofnodion yn bodoli sy'n nodi presenoldeb hyd at 620 metr yn y De. Mae sbesimenau Prydeinig yn perthyn i un llinach Ewropeaidd sy'n wahanol yn enetig. Mae'r rhywogaeth yn eang ei gwasgariad yng ngogledd Ewrasia a Gogledd America, gan wneud y poblogaethau yng Nghymru yn gymharol ddibwys yn nhermau Ewropeaidd a byd-eang. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y mwsogl pluog gwyrdd main, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1393/.

Yr amcangyfrif gorau o'r boblogaeth yng Nghymru yw bod 147 o sgwariau 1x1 cilometr wedi'u meddiannu, yn seiliedig ar gofnodion o 2001 i 2024. Cofnodwyd isafswm poblogaeth absoliwt o 34 sgwâr 1x1 cilometr yn ystod 2019–2024, ond ystyrir bod hyn yn dangynrychiolaeth sylweddol. Dim ond 16 o'r 53 sgwâr 10x10 cilometr a gofnodwyd sydd wedi cael eu hailymweld yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol. Ystyrir bod y duedd tymor byr gyffredinol yn sefydlog, gyda monitro cyfyngedig yn dangos newidiadau bach yn yr unedau grid 1 cilometr a gofnodwyd.

Y prif fygythiad i'r rhywogaeth yw dirywiad ansawdd ei chynefinoedd, yn bennaf oherwydd tanbori a'r penderfyniad i adael i dir fynd yn segur. Mae llygredd dŵr ac aer gan amaethyddiaeth yn cyfrannu at y dirywiad, gan hwyluso twf rhywogaethau brodorol swmpus. Mae seilwaith ynni dŵr a ffermydd gwynt yn bygwth rhai llaciau, ac mae gweithgareddau milwrol yn peri risg mewn un ardal yn y Canolbarth. Mae draenio a choedwigo yn fygythiadau tebygol, ond nid yn aml oherwydd dosbarthiad lleol y rhywogaeth.

Cefnogir ymdrechion cadwraeth gan reolaeth ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), rhai sy'n rhan o'r rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol. Mae polisïau yng Nghymru ac ar draws Prydain Fawr a'r Undeb Ewropeaidd yn atal trosi cynefinoedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth, ac yn mynd i'r afael â llygredd amaethyddol ac anamaethyddol. Mae cydweithrediad milwrol ar waith i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau i gytref hollbwysig. Serch hynny, mae gadael i gynefinoedd fynd yn segur yn parhau i fod yn bryder ar lawer o safleoedd gwarchodedig, ac mae angen mesurau pellach i reoli cynefinoedd ar frys ar rai ohonynt.

Ystyrir bod poblogaethau o fwsoglau pluog gwyrdd main yn sefydlog ac wedi'u gwarchod i raddau helaeth lle cynhelir pori a lle mae presenoldeb SoDdGAau. Fodd bynnag, mae colli porfeydd wedi achosi dirywiad i gynefinoedd yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Mynydd Preseli ac mae'n debygol o effeithio ar gytrefi nad ydynt wedi'u harolygu y tu allan i ardaloedd gwarchodedig. Oherwydd bod amaethyddiaeth fodern fel arfer yn osgoi pori ar wlyptiroedd, mae cymorth amaeth-ecolegol barhaus ar gyfer pori yn hanfodol ar gyfer goroesiad hirdymor y rhywogaeth yng Nghymru.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r mwsogl pluog gwyrdd main yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd sefydlog.

ATODIAD II

Llun gan: Sam Bosanquet (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Map dosbarthiad ar gyfer S6216

Map gwasgariad ar gyfer S6216

S6216 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 147

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 46

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S6216 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

5.6 Rhywogaethau di-asgwrn-cefn eraill

Llun gan: Peter Jones

S1044 Mursen las Penfro

S1065 Glöyn byw brith y gors

S1083 Chwilen gorniog

S1092 Cimwch afon crafanc wen

S1034 Gelen feddyginiaethol

S1044 Mursen las Penfro (*Coenagrion mercuriale*)

Yn y DU, mae mursen las Penfro (*Coenagrion mercuriale*) wedi'i chyfyngu i safleoedd yn y Fforest Newydd, dyffrynnoedd Itchen a Test yn Hampshire, Purbeck yn Dorset, Dartmoor a Dwyrain Dyfnaint, Rhos Parsonage yn Swydd Rydychen, a llond llaw o safleoedd yng Nghymru. Mae'n gysylltiedig â thri math o gynefin gwahanol: nentydd a chorffrydiau rhostiroedd, nentydd calchaidd, a ffeniau calchaidd. Mae'r cyrsiau dŵr lle mae'r rhywogaeth yn bridio yn fas a heb gysgod. Mae digon o ocsigen a llif cymedrol ganddynt ac maent yn cael eu llenwi gan darddellau neu ddŵr daear, sy'n cadw tymheredd cyson. Mae oedolion yn ehedwyr gwan ac yn wasgarwyr gwael, ac mae benywod yn dodwy wyau ar blanhigion dyfrol â choesynnau meddal megis eurinllys y gors (*Hypericum elodes*), dyfrllys y gors (*Potamogeton polygonifolius*) a'r ddyfrforonen swp-flodeuog (*Helosciadium nodiflorum*). I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am fursen las Penfro, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1044/.

Yng Nghymru, mae mursen las Penfro bellach wedi'i chyfyngu'n bennaf i Gomin Cefn Bryn, Twyn Rhosili a Chomin Clun ar Benrhyn Gŵyr, Gweunydd Blaencleddau a Mynydd Preseli yn Sir Benfro, a Chors Erddreiniog ar Ynys Môn. Ers 2008, mae wedi cael ei chofnodi mewn 23 o fonadau mewn wyth hectad, sy'n cyfateb i saith poblogaeth ar draws pedair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae'r rhywogaeth wedi'i cholli o Gors Sluxton ar Benrhyn Gŵyr, mae'n bosibl ei bod wedi diflannu'n llwyr yn Waun Fawr, Cas-mael, yn Sir Benfro, ac mae mewn perygl uniongyrchol o ddiflannu yng Nghors Erddreiniog oherwydd y ffaith nad oes cynefinoedd bridio addas iddi. Mae poblogaethau'n lleihau ar Gefn Bryn a Thwyn Rhosili wrth i gorffrydiau ddod yn anaddas ar gyfer bridio.

Ymhlith y prif bwysau y mae tanbori a chefnu ar amaethyddiaeth, sy'n arwain at olyniaeth naturiol sy'n newid nentydd a chorffrydiau bas ac agored. Ymhlith y bygythiadau ychwanegol y mae newidiadau mewn hydroleg oherwydd arferion amaethyddol a newid hinsawdd, megis tynnu dŵr a newid mewn cyfundrefnau dyddodiad. Mae'r pwysau hyn yn cyfrannu at ddirywiad cynefinoedd hirdymor a cholli amgylcheddau bridio addas.

Mae ymdrechion adfer wedi cynnwys cloddio corffrydiau sydd wedi gordyfu ac adfer pori. Mae camau rheoli wedi cael eu cymryd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cymdeithas Gweision y Neidr Prydain, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd y gwaith ar Gefn Bryn a Thwyn Rhosili yn cynnwys clirio ffosydd ac ailbroffilio, er, mewn rhai achosion, roedd y cloddiadau'n rhy ddwfn i fod yn effeithiol. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, nid yw'r dirywiad wedi'i wrthdroi, ac mae angen rhagor o waith wedi'i dargedu i adfer cynefinoedd mewn corffrydiau a thryddiferiadau a feddiannwyd gynt. Dilynir mesurau rheolai mwy ystyriol ar Benrhyn Gŵyr fel rhan o raglen Natur am Byth!.

Mae'r rhywogaeth wedi crebachu i ychydig o safleoedd ynysig ac mae'r poblogaethau'n parhau i fod yn fach ac yn agored iawn i niwed oherwydd gallu gwasgaru gwael. Mae Cors Erddreiniog mewn perygl arbennig, gyda niferoedd isel o oedolion a chynefin bridio annigonol. Heb fesurau rheoli cynefin rheolaidd ac ystyriol ar draws pob safle, bydd dirywiad araf a therfynol yn parhau. Ymhlith y blaenoriaethau cyfredol y mae mabwysiadu arferion rheoli sy'n gwneud y mwyaf o amodau bridio addas ac yn atal difodiant lleol pellach.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o fursen las Penfro yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II

Llun gan: Peter Jones

Map dosbarthiad ar gyfer S1044

Map gwasgariad ar gyfer S1044

S1044 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 23

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 23

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1044 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–drwg (U2)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1065 Glöyn byw brith y gors (*Euphydryas aurinia*)

Yng Nghymru, mae brith y gors (*Euphydryas aurinia*) fel arfer yn gysylltiedig â glaswelltiroedd gwlyb (rhos) lle mae glaswellt y gweunydd yn drechol, er ei fod hefyd yn byw mewn llaciau twyni, ffeniau a glaswelltiroedd calchfaen. Mae ei larfâu yn bwydo mewn grwpiau ar damaid y cythraul (*Succisa pratensis*) o fewn gweoedd cynrhonaidd, gan dreulio'r gaeaf yn agos at y ddaear mewn twmpathau dwys. Mae'r rhywogaeth yn parhau fel metaboblogaethau – grwpiau o boblogaethau ar wahân sydd wedi'u cysylltu gan wasgariad oedolion. Er mwyn sicrhau goroesiad hirdymor, mae angen rhwng 76 a 104 hectar o gynefin addas o fewn tirwedd ddiffiniedig. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am löyn byw brith y gors, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1065/.

Yng Nghymru, mae brith y gors yn nodwedd mewn tair ar ddeg o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a 38 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ond mae wedi parhau i ddirywio. Rhwng 2013 a 2017, fe gofnodwyd 132 o boblogaethau ar draws sawl is-sir. Yn 2017, fe ganfu arolwg blynyddol o weoedd cynrhonaidd mewn 21 safle allweddol saith safle lle roedd y boblogaeth yn cynyddu, saith safle lle roedd y boblogaeth yn gostwng, a phum safle sefydlog, gyda dim cyfrifiadau ym Morfa Harlech a Rhos Llawr Cwrt. Mae data hirdymor o Gynllun Monitro Glöynnod Byw'r DU yn dangos gostyngiad o 61% ym mhoblogaeth y glöyn byw ers 1990, a thuedd deg mlynedd o -46%. Yn ddiweddar, collwyd brith y gors yng ngogledd Ceredigion, a chafodd ei gofnodi ddiwethaf ar ei safle olaf ar Ynys Môn, sef Cors Erddreiniog, yn 2020. Ymhlith y prif fygythiadau i fritheg y gors yng Nghymru y mae arferion pori a draenio amaethyddol amhriodol, gan arwain at ddirywiad cynefinoedd a thirwedd sy'n gynyddol dameidiog a datgysylltiedig. Mae diffyg mesurau rheoli cynefinoedd yn arwain at olyniaeth llystyfiant ac ymlediad prysgwydd. Mae datblygiadau trefol ac ehangiad seilwaith yn y De yn darnio'r dirwedd ymhellach, gan ynysu poblogaethau. Mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn cyflwyno bygythiadau cynyddol trwy batrymau dyddodiad a thymheredd newidiol.

Ymhlith y mesurau cyfredol y'u dilynir y mae prosiectau ar raddfa'r dirwedd sy'n mynd i'r afael â phroblemau pori a draenio gwael, gan gynnwys ymyriadau sydd wedi'u targedu yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae cytundebau rheoli ar waith mewn llawer o safleoedd, ac mae rhai ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwarchod wedi'u dynodi'n SoDdGAau yn ddiweddar. Mae gwarchodaeth gyfreithiol o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad ac adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cefnogi ystyriaethau cynllunio. Mae ymdrechion megis mapio cynefinoedd, ailgyflwyniadau, ac ymgysylltu â thirfeddianwyr hefyd yn mynd rhagddynt.

Er gwaethaf y camau cadwraeth hyn, mae'r rhagolygon ar gyfer brith y gors yng Nghymru yn wael. Mae'r rhywogaeth yn parhau i ddirywio ar draws ACAau a SoDdGAau, gyda'r mwyaf o'r safleoedd yn rhy fach a darniog i gynnal metaboblogaethau hyfyw. Mae'r poblogaethau allweddol yn wynebu bygythiadau o orbori, colli cynefin a datblygiadau. Mae llwyddiant yn y dyfodol yn dibynnu ar flaenoriaethu ymdrechion adfer cynefin a chysylltedd, yn hytrach na dibynnu ar ailgyflwyniadau yn unig. Heb welliannau cynhwysfawr ar lefel y dirwedd, mae'r mwyaf o'r metaboblogaethau mewn perygl o ddiflannu.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o frith y gors yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd sefydlog.

ATODIAD II

Llun gan: Adrian Fowles

Map dosbarthiad ar gyfer S1065

Map gwasgariad ar gyfer S1065

S1065 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 377

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 59

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1065 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–drwg (U2)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1083 Chwilen gorniog (*Lucanus cervus*)

Yn y DU, ceir y chwilen gorniog (*Lucanus cervus*) yn bennaf yn ne-ddwyrain Lloegr, lle mae'n gysylltiedig â choetiroedd derw, parciau, gerddi a gwrychoedd. Mae'r larfâu'n bwydo ar bren pydredig tanddaearol o hen goed, boncyffion, neu brennau marw sydd wedi'u claddu dan y ddaear. Mae'r cyfnod cynrhonaidd yn para rhwng tair a chwe blynedd cyn chwileru, ac mae'r oedolion fel arfer yn weithredol o fis Mai i fis Awst. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y chwilen gorniog, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1083/.

Yn ne-ddwyrain Cymru, mae'r rhywogaeth ar ymyl ei gwasgariad yn y DU, a bu cofnodion ysbeidiol yn y mannau hyn dros y ganrif ddiwethaf. Ymhlith yr achosion diweddar a wiriwyd o weld y rhywogaeth y mae Coedwig Slade (1963), yr Eglwys Wen yng Nghaerdydd (1990au–2010), a Phen-allt yn Nyffryn Gwy (2012–2013). Ers 2019, mae cofnodion wedi'u gwneud o 15 o fonadau (sgwariau 1 x 1 cilometr) mewn 13 hectad (sgwariau 10 x 10 cilometr), yn bennaf yng Ngwent a Sir Forgannwg, gyda sawl un ger Caerdydd a Threfynwy, ac allanolyn yn Nhalyllychau, Sir Gaerfyrddin. Cafwyd cofnod diweddar, nad yw wedi'i wirio, o Benrhyn Gŵyr.

Nid oes unrhyw dystiolaeth gyfredol o bwysau na bygythiadau mawr i'r rhywogaeth. Mae'n disgwyl i nifer y coed parc a gardd aeddfed barhau i fod yn sefydlog yn y dyfodol agos, er bod clefydau coed megis clefyd coed ynn yn parhau i fod yn fygythiad. Mae cofnodion diweddar o ardaloedd coediog yn awgrymu bod gwreiddiau pydredig tanddaearol yn debygol o fod yn bresennol, er na wyddys beth yw ansawdd y cynefin ar draws y safleoedd ar ôl 2019.

Mae Cyngor Caerdydd wedi cydlynu arolygon mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl. Mae 'bwcedi claddu' sy'n efelychu is-haenau bridio wedi'u gosod mewn pum safle, er nad ydynt wedi bod yn eu lle'n ddigon hir i werthuso pa mor effeithiol ydynt.

Mae'r chwilen gorniog ar ymyl eithaf ei gwasgariad yng Nghymru yn y DU, lle mae poblogaethau wedi bod yn fach neu'n absennol yn gyson. Mae'n debyg bod digon o gynefinoedd ar gael oherwydd presenoldeb gwreiddiau coed sy'n pydru o dan y ddaear yn ne-ddwyrain Cymru. Gall parhad y rhywogaeth yn y dyfodol ddibynnu ar ffactorau hinsawdd, gyda hafau cynhesach o bosibl yn galluogi twf yn y boblogaeth, yn enwedig os yw ei gwasgariad yn parhau i ehangu yn ne Lloegr.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r chwilen gorniog ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anhysbys. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) yn nodi statws ffafriol. Ni chaiff tuedd gyffredinol ei hadrodd pan fo'r statws cyffredinol yn anhysbys. Roedd yr asesiad tuedd blaenorol ar lefel y DU yn sefydlog.

ATODIAD II

Llun gan: Steven Falk

Map dosbarthiad ar gyfer S1083

Map gwasgariad ar gyfer S1083

S1083 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 15

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 0

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Anhysbys

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1083 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws y boblogaeth: Anhysbys (XX)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anhysbys (XX)

Tuedd gyffredinol: Amherthnasol

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1092 Cimwch afon crafanc wen (*Austropotamobius pallipes*)

Mae'r cimwch afon crafanc wen (*Austropotamobius pallipes*) yn gysylltiedig â chynefinoedd dŵr croyw bas-gyfoethog, gan gynnwys nentydd, afonydd, llynnoedd a chamlesi. Mae ganddo ddosbarthiad dwyreiniol yng Nghymru, gan fod yn eang ei wasgariad yn hanesyddol ar draws afonydd sy'n draenio i'r dwyrain megis afonydd Hafren, Gwy ac Wysg. Mae poblogaethau bach yn bodoli mewn sawl afon fach yn ne a de-ddwyrain Cymru, yn ogystal ag yng Nghamlas Sir Fynwy a Brycheiniog. Cyflwynwyd cimychiaid i afonydd yn Sir Benfro yn y 1980au ac yn fwy diweddar i afon Taf Fawr. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y cimwch afon crafanc wen, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1092/.

Yn ddiweddar, mae poblogaethau cryf wedi bod yn gysylltiedig â sawl is-afon yn system afon Gwy. Mae poblogaethau wedi diflannu o rai is-afonydd dros y 25–35 mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd cofnodion o 29 hectad (sgwariau 10 x 10 cilometr) a 47 sgwâr 1 cilometr, er bod hyn yn cael ei ystyried yn danamcangyfrif oherwydd diffyg ymdrechion cofnodi systematig.

Y prif bwysau arni yw'r cimwch afon arwyddol, nad yw'n frodorol (*Pacifastacus leniusculus*), sy'n trechddisodli'r rhywogaeth frodorol yn ymosodol, yn cario pla cimwch, ac yn niweidio ecosystemau dŵr croyw. Ymhlith y bygythiadau eraill y mae siltio trwm o ganlyniad i ddŵr ffo oddi ar briddoedd a sathru gan dda byw, llygredd o amaethyddiaeth a choedwigaeth, ac achosion lleol o ddifodiant yn y gorffennol o ganlyniad i ollyngiadau o ddip defaid. Mae'r cimwch afon arwyddol yn parhau i ymledu yn nalgylch canol afon Gwy ac mae wedi'i gofnodi mewn rhannau eraill o Gymru, megis dalgylch afon Hafren.

Mae ffensys gwahardd da byw wedi'u gosod ar sawl is-afon o ganol afon Gwy, gan fod o fudd i boblogaethau o gimychiaid trwy leihau siltio. Ariannodd prosiect ar afon Irfon a ariannwyd gan LIFE welliannau i'r cynefin, ac fel rhan o'r prosiect fe ryddhawyd 5,000 o gimychiaid a fagwyd mewn caethiwed i nifer o is-afonydd, ac yn sgil hyn cafwyd tystiolaeth o epil gwyllt. Yn 2024, yn dilyn yr achosion o bla cimwch, fe roddwyd ymdrechion addysg a monitro bioddiogelwch ar waith. Yn 2026, fe waharddwyd y defnydd o byrethroidau synthetig mewn dip defaid, gan arwain at lai o achosion o ladd cimychiaid a gwell poblogaethau o anifeiliaid di-asgwrn-cefn ar hyd afon Irfon.

Mae ymlediad dirwystr y cimwch afon arwyddol yng nghanol afon Gwy yn awgrymu rhagolygon llwm i boblogaethau brodorol yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Gwy. Mae'r cimwch afon crafanc wen yn parhau i fyw mewn afonydd eraill yng Nghymru, ond mae'n agored i niwed gan y cimwch afon arwyddol, fel y gwelir yn nalgylch afon Hafren. Mae mesurau rheoli wedi'u targedu yn gwella amodau mewn rhai dalgylchoedd, ac mae safleoedd 'arch' wedi'u nodi fel safleoedd ar gyfer cyflwyno cimychiaid yn y dyfodol gan ddefnyddio stoc rhoddwyr lleol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r cimwch afon crafanc wen yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, V

Llun gan: Thomas Doherty-Bone

Map dosbarthiad ar gyfer S1092

Map gwasgariad ar gyfer S1092

S1092 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 47

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 8

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1092 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–drwg (U2)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1034 Gelen feddyginiaethol (*Hirudo medicinalis*)

Mae'r elen feddyginiaethol (*Hirudo medicinalis*) yn rhywogaeth ddyfrol sy'n bwydo ar waed a geir fel arfer mewn pyllau dŵr bach, ffosydd a ffeniau sydd wedi'u gorlifo. Mae'n bwydo ar frogaod, llyffantod, mamaliaid – yn enwedig gwartheg a cheffylau – a physgod. Yn y DU, fe'i hystyrir yn rhywogaeth brin, gyda dim ond 20 i 30 o boblogaethau ynysig, er bod poblogaeth fawr yn bodoli yng Nghors Romney, Caint.

Yng Nghymru, mae'r elen wedi'i chofnodi mewn tua 20 o gyrff dŵr ar ddeg safle ers 1990, ac mae gan bob un ohonynt statws gwarchodaeth statudol. Ceir crynodiad nodedig o'r rhywogaeth mewn ffeniau a phyllau dŵr bas-gyfoethog ar Ynys Môn. Gellir dod o hyd i'r rhywogaeth ym Mhwll Brechfa, Cors Bodeilio, Cors Goch, Pwll Cynffig, Llyn Marloes, Coedwig a Thwyni Niwbwrch, Pysgodlyn Mawr, Rhos-y-gad a Llynnoedd Talyllychau, ac fe'i darganfuwyd yn ddiweddar yng Nghronfa Ddŵr Pandora yng Nghoedwig Gwydir, ymhlith safleoedd eraill. Er bod rhai poblogaethau'n cael eu monitro'n rheolaidd, nid oes unrhyw arolygon systematig diweddar wedi'u cynnal ac, o ganlyniad, nid oes unrhyw gofnodion diweddar o Lyn Marloes, Pysgodlyn Mawr a Llynnoedd Talyllychau.

Dros y 27 mlynedd diwethaf, mae wedi meddiannu 11 monad (sgwariau 1 x 1 cilometr) mewn naw hectad (sgwariau 10 x 10 cilometr) yng Nghymru, gyda saith monad mewn chwe hectad wedi'u cofnodi ers 2018. Mae amrywiad amlwg ym meintiau poblogaethau mewn safleoedd yng Nghymru, yn amrywio o lai na deg unigolyn ym Mhwll Cynffig, Pysgodlyn Mawr, Llynnoedd Talyllychau a Rhos-y-gad, i boblogaethau canolig eu maint (10 i 100) yng Nghoedwig a Thwyni Niwbwrch a Chors Goch, a channoedd yng Nghors Bodeilio, o leiaf yn 2016.

Mae newid hinsawdd yn peri bygythiad uniongyrchol i'r rhywogaeth, ac mae cyfnodau diweddar o sychder yn yr haf wedi arwain at golled ffeniau a phyllau dŵr wedi'u gorlifo a feddiennir. O ganlyniad, mae nifer y gelenod a gofnodwyd yng Nghors Bodeilio wedi gostwng yn sydyn ers 2021 heb unrhyw adferiad amlwg yn ystod blynyddoedd gwlypach. Mae'n disgwyl i gyfnodau o sychder yn yr haf gynyddu o ran amlder ac effeithio'n negyddol ar boblogaethau gelenod trwy sychu eu prif gynefinoedd. Ymhlith y pwysau ychwanegol y mae llygredd dŵr a'r defnydd o blaladdwyr, ac mae'n bosibl bod mesurau rheoli stoc pysgod wedi arwain at ddifodiant poblogaeth yr elen ym Mysgodlyn Mawr. Mae'r pwysau hyn yn barhaus ac yn debygol o barhau i effeithio ar safleoedd gwarchodedig ac ardaloedd cyfagos.

Ymhlith y camau cadwraeth diweddar y mae dyfnhau pyllau dŵr yng Nghoedwig Niwbwrch i atal colled cynefinoedd a cholled poblogaethau yn ystod cyfnodau hir o sychder. Hefyd, bydd darparu rhagor o byllau dŵr ar safleoedd ffen ar gyfer rhawn yr ebol wedi bod o fudd i boblogaethau o elenod. Mae cynnal lefelau trwythiad uchel mewn corsydd a feddiennir ar Ynys Môn yn hanfodol i ddiogelu'r elen feddyginiaethol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r elen feddyginiaethol yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

ATODIAD V

Llun gan: Elis G. Roberts

Map dosbarthiad ar gyfer S1034

Map gwasgariad ar gyfer S1034

S1034 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 11

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1034 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

5.7 Rhywogaethau eraill o famaliaid

Llun gan: Ian – stock.adobe.com

S1341 Pathew

S1355 Dyfrgi

S1357 Bele

S1358 Ffwlbart

S1341 Pathew (*Muscardinus avellanarius*)

Mae'r pathew (*Muscardinus avellanarius*) wedi'i gysylltu agosaf â choetiroedd lled-naturiol hynafol, yn enwedig coedlannau o gyll, ond fe'i ceir hefyd mewn cynefinoedd olyniaethol cynnar, gan gynnwys prysgwydd a gwrychoedd. Mae pathewod yn bresennol mewn rhai coetiroedd conwydd, er nad yw eu hecoleg yn y cynefin hwn yn cael ei deall yn dda iawn. Mae angen cynefin â rhywogaethau a chyfansoddiad adeileddol amrywiol arnynt i gynnal eu deiet tymhorol. Maent yn bwydo ar flodau, blagur, aeron, cnau ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn, ac mae deri, cyll, drain gwynion, mieri a gwyddfid yn hollbwysig. Mae argaeledd ffynonellau bwyd egni uchel megis cnau cyll yn ystod yr hydref yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod pathewod yn magu digon o bwysau i aeafgysgu dros y gaeaf. Yn gyffredinol, gellir dod o hyd i'r pathew ym mhoblogaethau o ddwysedd isel o'u cymharu â chnofilod bychain eraill, yn bennaf oherwydd eu hanghenion deietegol arbennig.

Yn y DU, ceir y pathew yng Nghymru a Lloegr, ond maent yn absennol o'r Alban. Yng Nghymru maent yn bresennol ym mhob sir ar wahân i Ynys Môn ac maent yn fwyaf niferus yn y De-ddwyrain ac yn brinnach yng Ngwynedd a Cheredigion. Yn 1991, sefydlwyd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Monitro Pathewod gyda'r nod o fonitro newidiadau ym mhoblogaethau pathewod gan ddefnyddio data o gynlluniau blychau nythu pathewod mewn coetiroedd ledled Cymru a Lloegr (Y pathew – Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl).Mae'r canlyniadau'n dangos dirywiad parhaus ym mhoblogaethau o bathewod ledled Cymru a Lloegr. Rhwng 1994 a 2020, amcangyfrifir bod poblogaethau o bathewod yng Nghymru wedi gostwng 89%.

Effeithir ar boblogaethau o bathewod gan newid hinsawdd a cholli a darnio cynefin, ac oherwydd llai o ymdrechion rheoli coetir. Mae colled dulliau traddodiadol o reoli coetiroedd, gan gynnwys coedlannu, wedi arwain at goetiroedd â llai o amrywiaeth adeileddol ac amrywiaeth rhywogaethau, ond mae poblogaethau hefyd wedi cael eu heffeithio gan lai o reolaeth o goetiroedd yn gyffredinol. Mae ansawdd gwrychoedd hefyd wedi dirywio oherwydd newidiadau mewn arferion amaethyddol. Gall gweithgareddau datblygu effeithio ar bathewod a'u cynefinoedd. Mae gaeafau cynhesach ac amodau mwy amrywiol o ganlyniad i newid hinsawdd yn effeithio ar allu'r pathew i oroesi ac atgenhedlu.

Dangoswyd bod poblogaethau'n ffynnu'n well mewn ardaloedd â choetiroedd mwy a chysylltiedig a lle mae arferion rheoli cynefin gweithredol ar waith. Mae gofynion camau cadwraeth yn cynnwys gwelliannau i arferion rheoli cynefin i ddarparu mwy o amrywiaeth adeileddol ac amrywiaeth mewn rhywogaethau. Mae cyngor ar gael ar gyfer rheoli coetiroedd addas a gellir ei gefnogi trwy gyllid grant. Mae mesurau lliniaru yn cael eu gweithredu i wrthbwyso colled cynefinoedd o ganlyniad i ddatblygiadau seilwaith. Mae newid hinsawdd yn parhau i fod yn fygythiad sylweddol, gan atgyfnerthu'r angen am gynefinoedd o ansawdd uchel i gryfhau gwydnwch.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r pathew yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod y duedd gyffredinol o ran cynefinoedd yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws anhysbys.

ATODIAD IV

Llun gan: JRG – stock.adobe.com

Map dosbarthiad ar gyfer S1341

Map gwasgariad ar gyfer S1341

S1341 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 815

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1341 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1355 Dyfrgi (*Lutra lutra*)

Mae'r dyfrgi (*Lutra lutra*) yn ysglyfaethwr blaenllaw ac yn ddangosydd biolegol pwysig o iechyd ein hafonydd a'n gwlyptiroedd. Mae'r dyfrgi yn bresennol mewn systemau dŵr croyw llonydd a rhai sy'n llifo, o'r arfordir i'r ucheldiroedd, ac maent yn gallu teithio'n hir dros dir. Er na chânt eu gweld yn aml oherwydd eu natur nosol, mae modd adnabod a ydynt yn bresennol ai peidio mewn ardal o'u tail (baw dyfrgi) a'u holion traed nodedig. Mae gwasgariadau cartref yn amrywio o pedwar cilometr i 50 cilometr, yn dibynnu ar argaeledd anifeiliaid ysglyfaeth a chynefin. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y dyfrgi, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1355/.

Mae poblogaethau'r dyfrgi yn y DU yn parhau i wella ar ôl gostyngiad yn y boblogaeth rhwng 1960 ac 1980 a achoswyd gan blaladdwyr a chemegau diwydiannol. Yng Nghymru, cafwyd adferiad llwyr bron ym mumed Arolwg Dyfrgwn Cymru (2009–10), gyda 90% o'r safleoedd a arolygwyd yn dangos arwyddion o bresenoldeb y dyfrgi. Adroddwyd am ostyngiad i 70% yn y chweched arolwg (2015–18), ond mae newidiadau i'r fethodoleg, gan ddibynnu mwy ar arolygwyr llai profiadol, yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd y canfyddiadau hyn. Yn y seithfed arolwg (2024–25), fe gofnododd arolygwyr arbenigol bod y dyfrgi yn bresennol mewn 93% o'r safleoedd, sy'n awgrymu bod poblogaeth y dyfrgi yng Nghymru yn parhau i fod yn sefydlog.

Effeithir ar y dyfrgi gan weithgareddau sy'n effeithio ar ei ymddygiadau gorffwys, geni, fforio a chymudo. Mae colled cynefinoedd fforio ac argaeledd anifeiliaid ysglyfaeth yn rhai o ganlyniadau datblygiadau amhriodol, cynlluniau amddiffyn arfordirol, a newidiadau i gyrff dŵr mewndirol. Mae llygredd o ddŵr ffo amaethyddol, plaladdwyr traddodiadol, cynhyrchion fferyllol, a chemegau parhaus, megis sylweddau poly- a pherfflworoalcylau a gwenwyn llygod, yn parhau i roi pwysau ar allu'r dyfrgi i oroesi. Mae seilwaith megis ffyrdd yn cyfrannu at farwolaethau, er nad yw wedi cyrraedd y lefel lle effeithir ar y boblogaeth eto.

Mae gwelliannau i ansawdd dŵr drwy ymdrechion monitro a lleihau llygredd, a gwaith adfer afonydd, wedi cael effaith gadarnhaol ar boblogaethau o ddyfrgwn. Mae cynlluniau ar gyfer seilwaith ffyrdd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer adeileddau croesi diogel er mwyn lliniaru colli a darnio cynefinoedd. Mae gwarchodaeth gyfreithiol wedi cefnogi'r broses o amddiffyn cynefinoedd a safleoedd bridio.

Ar hyn o bryd, ystyrir bod rhagolygon y dyfrgi yng Nghymru ar gyfer y dyfodol yn sefydlog. Fodd bynnag, mae ffactorau megis newid hinsawdd yn cyflwyno risg bosibl yn y dyfodol, ac mae hyn yn debygol o newid cynefinoedd torlannol a gwlyptiroedd, gan effeithio ar argaeledd anifeiliaid ysglyfaeth ac ansawdd cynefinoedd dyfrgwn. Mae colli cysylltedd cynefinoedd oherwydd adeileddau o waith dyn yn fygythiad a bydd yn rhwystro dyfrgwn rhag gwasgaru a'u gallu i sefydlu tiriogaeth. Mae problemau megis llygredd gwasgaredig, ewtroffeiddio a chemegau parhaus yn dal i fodoli a gallent gael effaith negyddol ar boblogaeth y dyfrgi yng Nghymru.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r dyfrgi yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Ian – stock.adobe.com

Map dosbarthiad ar gyfer S1355

Map gwasgariad ar gyfer S1355

S1355 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 1,000

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 300

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1355 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1357 Bele (*Martes martes*)

Mae'r bele (*Martes martes*) yn gigysydd cyffredinol sy'n gysylltiedig yn bennaf â chynefinoedd coediog. Mae ei ddeiet yn eang ac yn amrywiol yn ôl y tymor, gan gynnwys mamaliaid bach megis llygod y dŵr, adar, pryfed, aeron a chelanedd. Er eu bod mwyaf niferus mewn coetiroedd, maent hefyd yn defnyddio cynefinoedd mwy agored megis rhostiroedd ac yn fforio mewn rhodfeydd coetir a glaswelltiroedd geirwon. Gall eu gwasgariad cartref amrywio o 1 cilometr sgwâr i 30 cilometr sgwâr yn dibynnu ar faint o goetir sydd yn y dirwedd.

Yn hanesyddol, roedd y bele yn gyffredin ledled Prydain Fawr, ond fe ddioddefodd ddirywiad sylweddol oherwydd colled cynefinoedd ac erledigaeth, gyda phoblogaethau gweddilliol yn parhau yng ngogledd Cymru. O ganlyniad i'r dirywiad hirdymor hwn, rhwng 2015 a 2017, cafodd beleod eu trawsleoli o'r Alban i ganolbarth Cymru gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent (VWT) i atgyfnerthu'r boblogaeth sy'n weddill. Yn ogystal, rhyddhaodd prosiect Bele Gwynedd nifer fach o unigolion a fagwyd mewn caethiwed rhwng 2018 a 2020. Amcangyfrifir bod y boblogaeth bresennol yng Nghymru rhwng 100 a 200 o unigolion. Mae maint y boblogaeth yn debygol o barhau i gynyddu oherwydd ymlediad y bele o ardaloedd lle cawsant eu hailgyflwyno a'u sefydliad mewn safleoedd newydd.

Ymhlith y prif bwysau y mae rheoli coetiroedd, a all effeithio ar argaeledd safleoedd fforio a ffeuau, yn enwedig cael gwared ar hen goed a choed marw, a marwolaethau o ganlyniad i ddamweiniau traffig ar y ffordd wrth i'w gwasgariad ehangu. Awgrymwyd bod amrywiaeth enynnol isel a chystadleuaeth â llwynogod wedi cyfyngu ar adferiad yn y gorffennol, er bod trawsleoliadau diweddar wedi cynyddu amrywiaeth enynnol.

Ymhlith y camau cadwraeth y mae addasiadau i arferion coedwigaeth er mwyn cefnogi anghenion fforio ac anghenion ffeuau'r rhywogaeth, megis cadw coed addas a lleihau aflonyddwch wrth gynaeafu. Nod ymdrechion addysgol yw lleihau lladdiadau anghyfreithlon a marwolaethau damweiniol wrth ddifa plâu. Mae blychau ffeuau wedi cael eu defnyddio mewn coetiroedd i fynd i'r afael â'r broblem o brinder ffeuau naturiol, er bod angen eu gweithredu'n eang.

Mae prosiect atgyfnerthu Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent wedi gwella statws y bele yng Nghymru yn sylweddol, gyda phoblogaethau sefydledig o Goedwig Tywi i Goed y Brenin, ymhlith achosion eraill o weld y rhywogaeth y tu hwnt i'r ardaloedd hynny. Er y disgwylir i wasgariad y rhywogaeth ehangu wrth i'r boblogaeth gael ei hatgyfnerthu, nid oes modd cymryd hyn yn ganiataol yn y camau cynnar hyn o'r prosiect atgyfnerthu. Mae monitro yn hanfodol i asesu parhad y broses o sefydlu ac ehangu'r boblogaeth ac mae prosiect Martens on the Move wedi sefydlu canolfannau monitro yng Nghymru.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o'r bele yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) yn nodi statws ffafriol, ond roedd hyn i raddau helaeth yn adlewyrchiad o'u statws yn yr Alban ar y pryd. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

ATODIAD V

Llun gan: Dean Heward

Map dosbarthiad ar gyfer S1357

Map gwasgariad ar gyfer S1357

S1357 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 100

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn cynyddu

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn cynyddu

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1357 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1358 Ffwlbart (*Mustela putorius*)

Mae'r ffwlbart (*Mustela putorius*) yn gigysydd maint canolig sy'n gysylltiedig yn bennaf â thirweddau ffermio, er ei fod yn meddiannu amrywiaeth eang o gynefinoedd. Mae ganddo ddeiet cyffredinol, ond gall cwningod ffurfio rhan fawr ohono. Ymhlith y cynefinoedd a ffefrir ganddo y mae ffiniau coetiroedd, ffiniau caeau ac adeiladau fferm, tra bod caeau agored ac ardaloedd maestrefol yw'r cynefinoedd y'u ffefrir lleiaf. Yn wahanol i fannau eraill yn Ewrop, nid yw'r ffwlbart ym Mhrydain Fawr yn ffafrio ardaloedd torlannol – mwy na thebyg oherwydd bydd yn rhaid iddynt gystadlu â'r minc a'r ffaith bod yr ysglyfaeth a ffefrir ganddo, sef y cwningen, yn doreithiog ledled ei diriogaeth.

Fel sy'n wir ar gyfer llawer o gigysyddion eraill, fe ostyngodd poblogaethau'r ffwlbart yn sylweddol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac, erbyn 1915, roedd y ffwlbart yn absennol i raddau helaeth ar draws lawer o Brydain Fawr. Yr eithriad i hyn oedd Cymru, gyda chanolbarth Cymru yn parhau i fod yn gadarnle. Bu poblogaethau'n adfer yn raddol yn ystod yr ugeinfed ganrif, gan ymledu o ganolbarth Cymru i ailgytrefi llawer o'u hen wasgariad. Erbyn 2006, roedd y ffwlbart yn bresennol ym mhob sir yng Nghymru, ac fe gadarnhaodd arolwg yn 2016 fod y gwasgariad hwn yn cael ei gynnal. Amcangyfrifir bod poblogaeth Cymru yn 16,800 o unigolion, gyda chyfwng hyder o 95% bod maint y boblogaeth rhwng 13,700 a 20,000. Mae arolwg cenedlaethol newydd o'r ffwlbart ar y gweill ar hyn o bryd (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent | Arolwg Cenedlaethol o'r Ffwlbart (2024–2025)) ond nid yw'r canlyniadau ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mae'n debyg mai'r bygythiad mwyaf i boblogaethau o ffwlbartiaid yw effeithiau gwenwyno eilaidd gan wenwyn llygod. Yn 2018, fe ddangosodd astudiaeth gynnydd o 1.7 gwaith yn nifer yr achosion o laddiadau eilaidd gan wenwyn llygod dros gyfnod o 25 mlynedd. Mae'r ffwlbart yn osgoi cynefinoedd agored yn weithredol, ac mae cael gwared ar wrychoedd a ffiniau coetiroedd yn lleihau nifer y cynefinoedd addas sydd ar gael iddo. Mae erledigaeth anghyfreithlon ac achosion o ddal y rhywogaeth mewn trap ar ddamwain, yn enwedig mewn trapiau Fenn a thrapiau chawell, yn parhau i fod yn fygythiadau. Mae croesfridio â ffureti gwyllt yn parhau i fod yn broblem, er bod ffwlbartiaid go iawn yn fwyaf cyffredin yng Nghymru o'i chymharu â gweddill y DU. Mae marwolaethau o ganlyniad i draffig ar y ffordd yn parhau i fod yn broblem, er nad yw'n ymddangos eu bod yn effeithio'n sylweddol ar boblogaethau.

Mae'r ffwlbart wedi bod yn gwneud cynnydd cadarnhaol a naturiol tuag at adferiad llawn yng Nghymru. O ganlyniad, ystyrir nad oes angen camau cadwraeth penodol ar hyn o bryd.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r ffwlbart ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

ATODIAD V

Llun gan: Mike Hammett

Map dosbarthiad ar gyfer S1358

Map gwasgariad ar gyfer S1358

S1358 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 16,800

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1358 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

5.8 Rhywogaethau o blanhigion fasgwlaidd

Llun gan: Julian Woodman, Cyfoeth Naturiol Cymru

S1413 Cnwp-fwsoglau

S1441 Tafolen y traeth

S1654 Crwynllys cynnar

S1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol

S1849 Celynnen Fair

S1903 Tegeirian y fign galchog

S6985 Rhedynen Cilarne

S1413 Cnwp-fwsoglau (*Lycopodium* sp.)

Y pum rhywogaeth *Lycopodiaceae* a ystyrir yn yr asesiad hwn ar gyfer Cymru yw'r cnwp-fwsogl Alpaidd (*Diphasiastrum alpinum*), y cnwp-fwsogl corn carw (*Lycopodium clavatum*), y cnwp-fwsogl un côn (*Lycopodium lagopus*), y cnwp-fwsogl mawr (*Huperzia selago*), a chnwp-fwsogl y gors (*Lycopodiella inundata*). Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae arolygon cynefinoedd ar gyfer cnwp-fwsogl y gors yn enwedig wedi dangos dirywiad yn ansawdd a maint cynefinoedd â phoblogaethau a chynefinoedd gwag cyfagos. Mae'r dirywiad hwn wedi'i gysylltu â gostyngiad mewn arferion rheoli pori, ac mewn o leiaf un achos, fe gafodd cynefin ei ddifrodi'n weithredol trwy weithgareddau draenio a gwaith arall.

Yng Nghymru, mae'r data dosbarthiad ar gyfer y rhywogaethau hyn yn deillio o gofnodion o fewn cronfa ddata dosbarthiad Cymdeithas Fotaneg Prydain ac Iwerddon (BSBI). Ceir tystiolaeth o ostyngiad yn y boblogaeth dros y tymor byr, ac fe'i priodolir i raddau helaeth i ostyngiad yn nifer y safleoedd a'r poblogaethau o gnwp-fwsogl y gors. Mae'r cnwp-fwsogl Alpaidd yn dangos rhai arwyddion o ddirywiad o ran ei ddosbarthiad, er nad yw achosion na llwybr y duedd hon yn y dyfodol yn hysbys. Mae rhagolygon o boblogaeth y rhywogaethau sy'n weddill yn parhau i fod yn aneglur.

Ymhlith y prif bwysau ar y rhywogaethau hyn yng Nghymru y mae newidiadau i'r ffordd y caiff tir ei ddefnyddio, megis troi tir yn dir amaethyddol, a newidiadau rhwng gwahanol fathau o amaethyddiaeth. Mae rhoi'r gorau i arferion pori a dwysâd arferion pori, ynghyd â draenio amaethyddol, yn fygythiadau yr adroddir amdanynt. Yn ogystal, mae coedwigo o ddefnyddiau eraill o'r tir wedi'i nodi fel pwysau parhaus. Ystyrir bod y bygythiadau hyn yn ganolig o ran eu difrifoldeb ac mae'n disgwyl y byddant yn parhau i fod yn fygythiadau yn y dyfodol.

Mae'r mesurau cadwraeth a nodwyd ar hyn o bryd yn canolbwyntio'n llwyr ar gnwp-fwsogl y gors. Ymhlith y camau gweithredu arfaethedig y mae adfer systemau pori priodol, addasu neu atal draenio, a gwella amodau hydrolegol ym mhob safle perthnasol, gan gynnwys y rheini lle mae'r rhywogaeth o bosibl wedi diflannu erbyn hyn. Mae'r mesurau hyn hefyd yn ceisio osgoi llosgi a hyrwyddo pori helaeth. Mae argymhellion rheoli yn galw am arferion amaethyddol wedi'u teilwra, gan gynnwys lladd gwair ac adfer cynefinoedd hydrolegol a newidiwyd yn flaenorol.

Mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn amrywio rhwng y rhywogaethau. Mae hyder da yn yr asesiad ar gyfer cnwp-fwsogl y gors, ac mae tystiolaeth o ddirywiad parhaus yn y safle a'r boblogaeth, yn enwedig yn y Gogledd o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Eryri a gerllaw iddo. Heb ymyrraeth mesurau cadwraeth, mae'n debygol y bydd y dirywiadau hyn yn parhau. I'r gwrthwyneb, ar gyfer y pedair rhywogaeth *Lycopodiaceae* arall, mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn ansicr oherwydd diffyg data. At ei gilydd, nid oes unrhyw dystiolaeth yn awgrymu bod y rhywogaethau hyn yn cael eu casglu at ddibenion masnachol, er nad oes modd diystyru casglu heb ei ddogfennu nac anffurfiol yn llwyr.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r cnwp-fwsoglau ar lefel Cymru yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd anhysbys.

ATODIAD V

Llun gan: Julian Woodman, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1413

Map gwasgariad ar gyfer S1413

S1413 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 10x10 cilometr

Maint y boblogaeth: 112

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Ansicr

S1413 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws y boblogaeth: Anhysbys (XX)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1441 Tafolen y traeth (*Rumex rupestris*)

Mae tafolen y traeth (*Rumex rupestris*) yng Nghymru yn meddiannu tri phrif gynefin: ardaloedd clogwyni a gwaelod clogwyni, fel arfer gyda rhuthrau dŵr croyw, gro arfordirol ger clogwyni, a thywod noeth mewn systemau twyni, yn enwedig mewn llaciau twyni. Ar hyn o bryd, mae wedi'i chyfyngu i ddau leoliad yng Nghymru, sef Sir Benfro ac Ynys Môn. Gellir dod o hyd i'r rhywogaeth mewn cynefinoedd bach a chynefinoedd darniog iawn, gan gynnwys un safle clogwyn sefydlog yn Sir Benfro a chreigiau a thywod â rhuthrau dŵr o fewn system twyni yn Niwbwrch. Arferai'r rhywogaeth feddiannu safleoedd twyni a sylfaen clogwyni ychwanegol, ac mae rhai ohonynt wedi'u colli oherwydd aflonyddwch naturiol. Mae'r patrwm deinamig o gytrefu a difodiant ar draws safleoedd yn awgrymu strwythur metaboblogaeth o ganlyniad i wasgariad hadau drwy gyfrwng y môr. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am dafolen y traeth, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1441/.

Gostyngodd cyfanswm poblogaeth tafolen y traeth yng Nghymru o 286 o unigolion yn 2016–2017 i 158 yn 2024. Yn Niwbwrch, fe ostyngodd y niferoedd o 177 yn 2016 i 36 yn 2024. Yn Sir Benfro, fe gefnogodd Watery Bay 122 o unigolion yn 2024. Collwyd is-boblogaethau wrth waelod clogwyni Marloes yn ystod stormydd 2013/14. Collodd safle Dwn-rhefn ym Sir Forgannwg ei unigolion olaf rhwng 2019 a 2021. Gwnaed ymdrech i ailgyflwyno'r rhywogaeth ymhellach ar hyd yr arfordir yn 2024, gyda 64 o blanhigion plwg wedi'u plannu.

Ymhlith y prif bwysau y mae gweithgareddau coedwigaeth sy'n effeithio ar gynefinoedd yn Niwbwrch a mewnbwn maethynnau amaethyddol, a allai effeithio ar safleoedd lle ceir rhuthrau dŵr. Mae cwympiadau clogwyni a difrod stormydd wedi achosi colled cynefinoedd yn ddiweddar, ac mae'n disgwyl y bydd y pwysau hyn yn parhau oherwydd newid hinsawdd. Ymhlith y bygythiadau lefel isel y mae croesfridio â rhywogaethau eraill o dafolen a phoblogaethau bychain. Rhagwelir y bydd y pwysau hyn yn parhau yn y dyfodol, gyda rhywfaint o fesurau rheoli wedi'u cynllunio i wella cysylltedd cynefinoedd a lleihau gorchudd conwydd yn Niwbwrch.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae addasiadau i reoli coedwigoedd yn Niwbwrch, megis tynnu coed a chlirio llystyfiant ar lan nentydd, er mwyn cynnal cynefinoedd. Mae mesurau rheoli cynefin trwy adfywiogi twyni tywod wedi'u gweithredu mewn sawl safle, gan greu amodau addas, er bod cytrefu yn parhau i fod yn gyfyngedig. Dechreuwyd ymdrechion i ailgyflwyno ym Mae Dwn-rhefn ar ôl i'r rhywogaeth ddiflannu o'r ardal. Mae gwelliannau cynefinoedd a chefnogaeth i'r boblogaeth bellach wedi'u cynllunio fel rhan o brosiect Natur am Byth.

Mae'r rhywogaeth yn parhau i fod yn agored i ddigwyddiadau stocastig, ac mae safleoedd clogwyni mewn perygl o stormydd ac erydiad. Er bod ailgytrefu yn bosibl, nid yw wedi digwydd yn ddiweddar. Mae poblogaeth Niwbwrch yn ddibynnol ar fesurau rheoli cynefin gweithredol, ac mae ymyriadau arfaethedig yn anelu at wella hyfywedd. Os bydd ailgyflwyniadau ym Mae Dwn-rhefn yn llwyddo a bod gwaith cynefin yn Niwbwrch yn mynd rhagddo, efallai y bydd gwasgariad a gwydnwch y rhywogaeth yn gwella, er bod bygythiadau o newid hinsawdd yn parhau.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o dafolen y traeth yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd anhysbys.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Julian Woodman

Map dosbarthiad ar gyfer S1441

Map gwasgariad ar gyfer S1441

S1441 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 158

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 158

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn gostwng

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1441 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–drwg (U2)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1654 Crwynllys cynnar (*Gentianella amarella* ssp. *anglica*)

Mae’r crwynllys cynnar (*Gentianella amarella* ssp. *anglica*) yn endemig i Brydain, ac wedi'i gyfyngu bron yn gyfan gwbl i dwyndir calchaidd de Lloegr. Yng Nghymru, mae wedi'i gyfyngu i un lleoliad yn Nhwyni Ystagbwll yn Sir Benfro, lle gellir dod o hyd i laciau sych o fewn system twyni tywod uwchben calchfaen carbonifferaidd. Mae poblogaeth Cymru yn cynrychioli allanolyn amlwg o'i chymharu â phrif boblogaethau'r DU yn Dorset a Wiltshire. Mae statws tacsonomegol yr isrywogaeth hon wedi cael ei drafod, gydag astudiaethau diweddar yn ei gosod o fewn y grŵp *amarella*. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y crwynllys cynnar, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o’r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1654/.

Mae’r crwynllys cynnar wedi'i gofnodi o un sgwâr 10 cilometr yn unig yng Nghymru, yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ystagbwll, gyda'r boblogaeth yn parhau i fodoli, fel y cadarnhawyd yn 2024. Yn ystod yr arolwg cynhwysfawr diwethaf yn 2015, fe gofnodwyd 40 o unigolion yn Ystagbwll. Mae amcangyfrifon yn gymhleth oherwydd amrywiadau toreithrwydd rhyng-flynyddol eang ac anawsterau wrth wahaniaethu'r tacson hwn oddi wrth yr isrywogaeth *amarella*. Nid oes unrhyw waith monitro manwl wedi’i gynnal ers 2015, er bod ymweliad byr yn 2024 wedi cadarnhau ei bresenoldeb, gyda hyder adnabod o 80%.

Mae'r cynefin yn Ystagbwll dan fygythiad dan-bori, dyddodiad nitrogen atmosfferig, ac olyniaeth cynefin naturiol, sy'n annog ymlediad rhywogaethau garw. Mae'r problemau hyn yn cael eu gwaethygu gan ostyngiad ym mhoblogaethau cwningod oherwydd clefydau, sy'n lleihau'r pwysau pori sy'n hanfodol ar gyfer cynnal cynefin addas. Mae dyddodiad gormod o nitrogen yn mynd i tu hwnt i lwythi critigol ar gyfer cynefinoedd cymharol, gan gyflymu olyniaeth a hyrwyddo rhywogaethau nitroffilig, yn ôl pob tebyg. Mae poblogaethau crwynllys hefyd yn profi amrywiadau blynyddol a achosir gan gyflwr y tywydd, a bydd cyfnodau o sychder ac amrywioldeb yr hinsawdd yn y dyfodol yn peri bygythiadau ychwanegol.

Ymhlith y prif fesurau y mae mesurau rheoli dwyster ac amseriad pori yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ystagbwll i gynnal amodau presennol y cynefin, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fesurau rheoli rhedyn a llystyfiant garw ym mhantiau twyni. Mae mesurau lliniaru clefydau posibl ar gyfer cwningod lleol, megis brechu, wedi’u cynllunio mewn safleoedd eraill a gellir eu hymestyn i Ystagbwll. Nod rheoliadau cenedlaethol a lleol yw lleihau nitrogen atmosfferig a llygryddion eraill. Fodd bynnag, mae gormod o nitrogen, prosesau olyniaeth ac effeithiau hinsawdd yn parhau i fod yn heriau nad ydynt wedi’u datrys eto, er gwaethaf ymdrechion parhaus i reoli cynefinoedd.

Mae'n annhebygol y bydd gwasgariad a dosbarthiad y rhywogaeth yng Nghymru yn newid yn y tymor byr i dymor canolig. Fodd bynnag, newid cynefinoedd yw'r prif fygythiad i hyfywedd y boblogaeth yn Ystagbwll o hyd, a dim ond yn rhannol y mae'r mesurau cadwraeth presennol yn mynd i'r afael â hyn. Mae olyniaeth cynefinoedd, wedi'i dwysáu gan nitrogen atmosfferig, yn parhau i beryglu cyflwr a maint y cynefin. Er y gallai rheolaeth barhaus liniaru rhai effeithiau, mae'n annhebygol y bydd yn gwrthweithio'r pwysau hyn yn llawn, gan awgrymu gostyngiad tebygol yn y boblogaeth er gwaethaf yr ymyriadau presennol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o’r crwynllys cynnar yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anhysbys. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd anhysbys.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Karen Wilkinson, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1654

Map gwasgariad ar gyfer S1654

S1654 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr ardaloedd lleol

Maint y boblogaeth: 1

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 1

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Ansicr

S1654 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anhysbys (XX)

Tuedd gyffredinol: Amherthnasol

I ddod o hyd i’r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol (*Luronium natans*)

Mae llyriad-y-dŵr arnofiol (*Luronium natans*) yn blanhigyn dyfrol sy'n frodorol i ogledd-orllewin Ewrop. Mae fel arfer yn tyfu gyda dail tanddwr tebyg i strapiau sy'n ffurfio o rosglymau stolonog, gan gynhyrchu dail arnofiol o bryd i'w gilydd. Mewn dŵr bas, gall hefyd ddatblygu blodau gwyn neu binc byrhoedlog ar ddiwedd yr haf. Yng Nghymru, mae'n ffafrio llynnoedd ag alcalinedd isel i alcalinedd cymedrol, yn aml gydag ymddangosiad mawnog, ac mae'n llai cyffredin mewn pyllau dŵr rhostiroedd, camlesi, neu afonydd sy'n llifo'n araf. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y llyriad-y-dŵr arnofiol, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1831/.

Mae llyriad-y-dŵr arnofiol yn eithaf cyffredin yng Nghymru, gyda mannau nodedig yn Eryri, Ceredigion a Sir Benfro. Fe'i cofnodwyd mewn 71 sgwâr un cilometr yn ystod 2014–2024, gyda 52 arall wedi'u rhyngosod neu'n cael eu hystyried yn debygol o fodoli, sef cyfanswm o 123 sgwâr. Mae hyn yn cynrychioli 85% o'r nifer cyfeirio ffafriol o 145 sgwâr. Er nad oes unrhyw golledion wedi'u cadarnhau ers y cylch adrodd diwethaf, mae ansicrwydd wedi cynyddu oherwydd cyfyngiadau data, ac mae tuedd y boblogaeth yn parhau i fod ar drywydd ansicr.

Mae'r rhywogaeth yn wynebu pwysau cymedrol, yn bennaf o gorfaethu, newidiadau hydrolegol, a rhywogaethau goresgynnol. Mewn camlesi, mae symudiad cychod yn troi silt, gan gynyddu afloywder a niweidio llystyfiant dyfrol. Mae rhywogaethau goresgynnol megis *Elodea nuttallii* a *Crassula helmsii* yn bygwth poblogaethau trwy drechddisodli planhigion brodorol, gydag effeithiau nodedig yn Llyn Tegid a Chamlas Trefaldwyn. Gall cynigion i gynyddu nifer y cychod ar Gamlas Trefaldwyn a thanbori mewn safleoedd megis Pwll Dowrog hefyd waethygu'r pwysau.

Ymhlith ymdrechion cadwraeth y mae mesurau rheoli llygredd mewn safleoedd hollbwysig megis Llyn Tegid a Chamlas Trefaldwyn, rheoli trafnidiaeth, a rheoli rhywogaethau goresgynnol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio â Glandŵr Cymru i fynd i'r afael ag effeithiau gweithredol ar Gamlas Trefaldwyn. Ymhlith y mesurau rheoli rhywogaethau y mae canfod cynnar, ymateb cyflym, a mesurau rheoli lle mae rhywogaethau wedi hen sefydlu. Mae dau bwll dŵr newydd wedi'u creu ar Gomin Dowrog, er nad yw cytrefu wedi digwydd eto, ac efallai y bydd angen ailgyflwyno'r rhywogaeth.

Mae Cymru o bwysigrwydd byd-eang am lyriad-y-dŵr arnofiol, yn enwedig mewn llynnoedd ucheldirol lle mae'r poblogaethau'n gymharol ddiogel. Mae poblogaethau mewn camlesi, afonydd a phyllau dŵr iseldirol yn wynebu bygythiadau mwy, yn enwedig gan olyniaeth a rhywogaethau goresgynnol. Gallai heriau o ran cynnal a chadw a chynigion ar gyfer cyflwyno rhagor o gychod camlas effeithio'n negyddol ar safleoedd hollbwysig megis Camlas Trefaldwyn. Mae gwarchodaeth a rheolaeth barhaus yn hanfodol oherwydd, hebddynt, mae'n debygol y bydd dirywiad pellach yn y boblogaeth, ansawdd cynefin, a gwasgariad.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o'r llyriad-y-dŵr arnofiol ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Tristan Hatton-Ellis, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer S1831

Map gwasgariad ar gyfer S1831

S1831 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 1x1 cilometr

Maint y boblogaeth: 123

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 101

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Ansicr

Tuedd tymor byr cynefin: Yn gostwng

S1831 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1849 Celynnen Fair (*Ruscus aculeatus*)

Mae celynnen Mair (*Ruscus aculeatus*) yn llwyn bytholwyrdd, deuoecaidd. Mae'n gymharol gyffredin yng Nghymru, ond dim ond mewn rhai safleoedd ar Benrhyn Gŵyr y caiff ei hystyried yn frodorol. Mae'r poblogaethau brodorol wedi'u cyfyngu i goetiroedd arfordirol serth, nad ydynt wedi'u rheoli, fel arfer ar galchfaen, lle mae'r amgylchedd yn parhau i fod yn agored yn naturiol oherwydd tocio gan y gwynt ac amodau sychder. O fewn y safleoedd brodorol hyn, gwyddys fod y rhywogaeth yn ffrwytho ac yn doreithiog yn lleol.

Yng Nghymru, mae dosbarthiad brodorol celynnen Fair wedi'i gyfyngu i ddau sgwâr 10 cilometr sgwâr ar Benrhyn Gŵyr. Mae cyfanswm arwynebedd y poblogaethau brodorol hyn tua 0.5 cilometr sgwâr, wedi'i gyfyngu i goetiroedd arfordirol yn Nicholaston ac Oxwich. Y tu allan i'r lleoliadau hyn, mae'r rhywogaeth wedi'i chynefino'n eang iawn, er nad yw'n cael ei hystyried yn frodorol. Nid oes unrhyw dystiolaeth o ddirywiad ym mhoblogaethau de Gŵyr.

Nid oes unrhyw bwysau mawr ar hyn o bryd wedi'u nodi ar gyfer poblogaethau brodorol celynnen Fair yn y De. Mae'n ymddangos bod y rhywogaeth yn adfywio'n naturiol ac mae'n doreithiog yn lleol. Ni cheir unrhyw gasgliadau masnachol. Er ei bod yn gyffredin fel rhywogaeth sydd wedi dianc o erddi, gan gynnwys mewn rhannau o Benrhyn Gŵyr, nid yw hyn yn ymddangos fel petai'n effeithio ar boblogaethau brodorol. Bygythiad lefel isel posibl yw erydiad cynyddol clogwyni oherwydd newid hinsawdd, yn enwedig gan fod llawer o boblogaethau brodorol ar glogwyni coediog.

Mae safleoedd brodorol celynnen Fair wedi cael eu hysbysu fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), lle mae'r ffiniau wedi'u diffinio'n llawn trwy arolygon cynefinoedd. O fewn y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hyn, ystyrir bod y rhywogaeth yn eang ei gwasgariad ac yn doreithiog yn lleol. Yn seiliedig ar ei bresenoldeb a'i gyflwr, barnwyd bod y cynefin mewn cyflwr 'da'. Mae'r amddiffyniadau ac asesiadau cynefinoedd hyn yn awgrymu goruchwyliaeth gadwraeth weithredol mewn safleoedd hollbwysig.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer celynnen Fair yng Nghymru yn ymddangos yn gadarnhaol. Mae'r rhywogaeth bron wedi'i chyfyngu'n gyfan gwbl i safleoedd gwarchodedig yn ne Cymru, lle ystyrir bod ei phoblogaethau a'i chynefin yn ddiogel. Yn absenoldeb bygythiadau sylweddol, mae'n disgwyl y bydd y rhywogaeth a'i chynefin yn parhau i fod yn sefydlog yn y tymor canolig. Mae hyder yn yr asesiad hwn yn seiliedig ar farn arbenigwyr a thueddiadau cyfredol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o gelynnen Fair yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD V

Llun gan: Barry Stewart

Map dosbarthiad ar gyfer S1849

Map gwasgariad ar gyfer S1849

S1849 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer y celloedd grid map 10x10 cilometr

Maint y boblogaeth: 2

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Amherthnasol

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S1849 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1903 Tegeirian y fign galchog (*Liparis loeselii*)

Yng Nghymru, mae tegeirian y fign galchog (*Liparis loeselii*) yn digwydd mewn llaciau twyni sy'n agored i lifogydd yn y gaeaf, yn aml am hyd at bum mis y flwyddyn. Mae lefel trwythiad uchel yn yr haf hefyd yn bwysig. Mae'n tyfu mewn cymunedau llaciau twyni ifanc lle mae rhywfaint o bridd agored neu dywod yn weddill, yn enwedig mewn llaciau olynol neu laciau â llawer o degeirianau. Yr amrywogaeth sy'n bresennol yng Nghymru yw'r amrywogaeth *ovata*. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am degeirian y fign galchog, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1903/.

Ar hyn o bryd, mae tegeirian y fign galchog yn hysbys o Warchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, Twyni Pentywyn a Thwyni Whiteford. Roedd yn hysbys yn ffurfiol o sawl system twyni tywod eraill yn y gorffennol. Yn 2013, dim ond yng Nghynffig y gellid dod o hyd iddo, lle tyfodd y boblogaeth i 4,255 o blanhigion yn 2019 cyn gostwng i 1,536 yn 2022 ac wedyn syrthio'n ddramatig i 111 yn 2024. Yn Whiteford, cofnodwyd 623 o unigolion yn 2024 ar ôl ailgyflwyno'r rhywogaeth yn 2015. Gwelodd Pentywyn saith o unigolion yn dychwelyd yn 2022 ar ôl absenoldeb o ugain mlynedd; ni chafwyd hyd i un ohonynt yn 2023 na 2024. Cyfanswm y planhigion unigol yng Nghymru yn 2024 oedd 734, gyda chyfartaledd o 1,257 rhwng 2022 a 2024.

Ymhlith y prif bwysau y mae olyniaeth naturiol oherwydd tanbori a diffyg deinameg mewn systemau twyni, wedi'i waethygu gan lygredd aer. Mae amrywiadau eithafol mewn llifogydd a sychder yn effeithio fwyfwy ar farwolaethau a llwyddiant blodeuo. Awgrymwyd bod tynnu dŵr daear yn ffactor yn lefelau dŵr is yng Nghynffig. Mae'r prysg goresgynnol *Hippophae* yn peri problemau ym Mhen-bre. Mae disgwyl i'r holl bwysau presennol barhau, a gall llygredd amaethyddol fod yn fygythiad cynyddol.

Ymhlith yr ymdrechion cadwraeth y mae mesurau rheoli systemau twyni tywod i gynyddu symudedd a chreu cynefinoedd olyniaethol cynnar, yn enwedig yng Nghynffig. Mae mesurau rheoli rhywogaethau goresgynnol hefyd wedi'u rhoi ar waith. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio llygredd aer a llygryddion amaethyddol ac yn atal coedwigo mewn twyni tywod. Mae cynlluniau i atgyfnerthu neu ailgyflwyno poblogaethau dan ystyriaeth, yn unol â chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar drawsleoliadau cadwraeth.

Ar ôl dirywiad difrifol o dros 20,000 o unigolion yn y 1990au i lai na 250 o 2003 i 2011, mae tegeirian y fign galchog wedi dangos adferiad ers 2012. Gwelodd Cynffig dwf sylweddol oherwydd rheoli cynefin, ond dioddefodd gwymp yn 2024, yn ôl pob tebyg oherwydd llifogydd hirfaith. Mae poblogaeth Whiteford wedi ehangu'n gyson ers ei hailgyflwyno, gyda chymorth amodau addas sy'n llawn mwsoglau a mesurau rheoli parhaus. Mae poblogaeth Pentywyn yn parhau i fod yn isel iawn. Bydd adferiad ehangach yn gofyn am reoli cynefinoedd yn weithredol a chynlluniau ailgyflwyno sy'n cyd-fynd â chanllawiau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o degeirian y fign galchog yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn gwella, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Clive Hurford

Map dosbarthiad ar gyfer S1903

Map gwasgariad ar gyfer S1903

S1903 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: (734–4,257)

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: (632–4,257)

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn cynyddu

Tuedd tymor byr cynefin: Yn cynyddu

S1903 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Anffafriol–drwg (U2)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn gwella

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S6985 Rhedynen Cilarne (*Vandenboschia speciosa*)

Mae sporoffyt rhedynen Cilarne (*Vandenboschia speciosa*) yn bresennol mewn lleoliadau cysgodol a llaith yn gyson, fel arfer ar greigiau asidig ond weithiau'n llawn basau, ac yn anaml ar lannau hwmig neu fel epiffyt. Fe'i ceir rhwng 0 metr a 420 metr o uchder. Mae'r gametoffyt yn fwy eang ei wasgariad ac i'w gael mewn lleoliadau tywyllach a sychach, ac mae'n debyg nad yw wedi'i gofnodi'n ddigonol. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am redynen Cilarne, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1421/.

Mae'r sporoffyt yn hysbys o chwe lleoliad yng Nghymru ac mae'n cynnal 17 o gytrefi ar wahân. Mae cyfanswm o ychydig dros 2,200 o ffrondau byw wedi'u cofnodi ar draws yr holl gytrefi yn ystod 2021–2025, heb unrhyw newid o ran maint y gytref ers 2016–2017. Mae'r gametoffyt wedi'i gofnodi mewn 58 sgwâr 10 cilometr ac mae'n fwy eang ei wasgariad, er ei fod yn debygol o fod heb ei gofnodi'n ddigonol o hyd. Ystyrir bod y duedd boblogaeth tymor byr yn sefydlog, heb unrhyw golledion nac enillion diweddar mewn safleoedd sboroffytau hysbys.

Ymhlith y pwysau presennol a phwysau'r dyfodol y mae llygredd aer amaethyddol, datblygiadau ynni dŵr, a llygredd dŵr o ffynonellau cymysg. Gall gweithgareddau coedwigaeth newid cysgod a hydroleg, gan effeithio ar gynefinoedd gametoffytau, tra bod rhywogaethau brodorol sy'n peri problemau bellach yn cael eu hystyried yn bwysau isel. Mae newid hinsawdd, yn enwedig newidiadau mewn dyddodiad, yn peri bygythiad canolig. Ar un safle, mae tipio anghyfreithlon a rhywogaethau estron goresgynnol yn broblemau parhaus, gyda bygythiadau o ollyngiadau slyri a charthffosiaeth yn bosibl. Nid yw casglu yn cael ei ystyried yn fygythiad mawr mwyach.

Mae pob un o'r chwe phoblogaeth o sboroffytau hysbys o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), ac mae o leiaf 25% o gytrefi gametoffytau yn cael gwarchodaeth debyg. Ymhlith y mesurau rheoli coedwigaeth y mae cael gwared ar gonwydd anfrodorol i wella cynefinoedd. Rheolir llygredd aer gan reolaethau rheoleiddiol, er bod allyrwyr bach yn parhau heb eu rheoleiddio. Mae effeithiau ynni dŵr yn cael eu lliniaru trwy reoleiddio a diogelu safleoedd. Mae mesurau rheoli rhywogaethau goresgynnol wedi'u rhoi ar waith ar un safle, ac mae'n bosibl bod angen cymryd camau pellach.

Mae'r rhagolygon cyffredinol yn gymharol gadarnhaol oherwydd bygythiadau cyfyngedig a mesurau cadwraeth effeithiol. Mae poblogaethau o sboroffytau a gametoffytau wedi'u gwarchod o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Er y gallai dosbarthiad y gametoffyt ehangu oherwydd gwaith arolygu pellach, ni ddisgwylir unrhyw newidiadau sylweddol i'w wasgariad. Mae maint poblogaeth fach y sboroffyt yn golygu ei fod yn parhau i fod yn agored i ddigwyddiadau stocastig megis rhew neu ddigwyddiadau llygredd. Mae'n disgwyl y bydd tueddiadau o ran cynefin a phoblogaeth yn aros yn sefydlog.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o redynen Cilarne yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Julian Woodman

Map dosbarthiad ar gyfer S6985

Map gwasgariad ar gyfer S6985

S6985 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 17

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 6

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Sefydlog

S6985 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

5.9 Marine mammal species

Rydym wedi darparu crynodebau o’r sefyllfa yng Nghymru ar gyfer y canlynol:
S1349 Dolffin trwyn potel (*Tursiops truncatus*) – Cyffredin
S1351 Llamhidydd (*Phocoena phocoena*) – Cyffredin
S1364 Morlo llwyd (*Halichoerus grypus*) – Cyffredin

Mae'r rhywogaethau hyn yn gyffredin yn nyfroedd Cymru ac yn nodweddion mewn chwe Ardal Cadwraeth Arbennig yng Nghymru. Mae unedau rheoli rhanbarthol wedi'u diffinio ar gyfer y dolffin trwyn potel a’r llamhidydd, ac mae crynodebau ar lefel Cymru wedi'u darparu yn unol â hynny.

Mae casgliadau drafft ar gyfer adrodd ar y Rheoliadau Cynefinoedd (2019–2024) ar raddfa uned reoli ar gyfer y dolffin trwyn potel a’r llamhidydd wedi'u cynnwys yn yr atodiadau technegol. Casgliadau dangosol yn unig yw'r casgliadau hyn, a'u bwriad oedd helpu asiantaethau i ychwanegu unrhyw wahaniaethau bach y maent yn teimlo sy'n briodol ar gyfer adrodd ar lefel gwlad. Ni fydd yr asesiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr ag adroddiadau swyddogol y DU. Mae'r canllawiau wedi'u cymhwyso yn yr un modd ag ar gyfer asesiadau ar lefel y DU. Ar gyfer y dolffin trwyn potel a’r llamhidydd, darperir yr asesiadau cyfatebol ar lefel y DU hefyd yn yr atodiadau technegol i gyfeirio atynt.

Ar gyfer rhywogaethau eraill o forfilod a geir yn gyffredin yn nyfroedd y DU – gan gynnwys y morfil pigfain, y dolffin pigwyn, y dolffin ystlyswen, dolffin Risso, a'r dolffin cyffredin – yr uned reoli berthnasol yw Uned Reoli'r Môr Celtaidd a Môr y Gogledd Mwyaf. Mae tystiolaeth amrywiol sy’n awgrymu bod strwythur poblogaeth cyfyngedig neu ddim strwythur poblogaeth arwyddocaol yn y rhywogaethau hyn yn nyfroedd y DU. Felly, ni wnaed unrhyw asesiad na chrynodeb ar lefel Cymru ar gyfer y rhywogaethau hyn neu rywogaethau mamaliaid morol a chrwbanod morol cyffredin neu brin eraill a geir fel arfer yng Nghymru. Mae eu poblogaethau a'u statws cadwraethol yn cael eu hasesu'n well ar raddfeydd gofodol ehangach, ac ystyrir bod yr asesiadau ar lefel y DU sydd ar gael yn yr atodiadau technegol yn briodol ar gyfer y rhywogaethau hyn.

Mae rhywogaethau yr ystyrir bod asesiadau ar lefel y DU yn yn briodol ar eu cyfer yn cynnwys y canlynol:
S1365 Morlo cyffredin (*Phoca vitulina*) – Prin
S1350 Dolffin cyffredin (*Delphinus delphis*) – Cyffredin
S2027 Orca (*Orcinus orca*) – Prin
S2029 Morfil pengrwn (*Globicephala melas*) – Prin
S2030 Dolffin Risso (*Grampus griseus*) – Cyffredin
S2618 Morfil pigfain (*Balaenoptera acutorostrata*) – Cyffredin
S2621 Morfil asgellog llwyd (*Balaenoptera physalus*) – Prin
S1345 Morfil cefngrwm (*Megaptera novaeangliae*) – Prin
S1223 Crwban môr cefn-lledr (*Dermochelys coriacea*) – Prin

Gellir dod o hyd i ddisgrifiadau o rywogaethau o forfilod sy'n berthnasol i Gymru yn Evans ac Waggitt 2023 hefyd. Am y morlo cyffredin, cyfeiriwch at adroddiadau'r Pwyllgor Arbennig ar Forloi (SCOS). Ar gyfer y crwban môr cefn-lledr, cyfeiriwch at yr adroddiad blynyddol ar achosion o dirio a gweld y rhywogaeth gan Marine Environmental Monitoring.

Nid ystyrir rhywogaethau eraill sy'n cael eu hystyried yn grwydrol yn nyfroedd Cymru – sy'n golygu eu bod yn bresennol yn anaml neu'n anrhagweladwy – ymhellach, ond mae disgrifiadau o’r rhywogaethau ar gael ar lefel y DU yn yr atodiadau technegol. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:
S2031 Dolffin ystlyswyn (*Lagenorhynchus acutus*)
S2032 Dolffin pigwyn (*Lagenorhynchus albirostris*)
S2034 Dolffin rhesog (*Stenella coeruleoalba*)
S2028 Coegleiddiad (*Pseudorca crassidens*)
S2035 Morfil gylfinog Cuvier (*Ziphius cavirostris*)

S2038 Morfil gylfinog Sowerby (*Mesoplodon bidens*)
S2619 Morfil asgellog sei (*Balaenoptera borealis*)
S2622 Morfil sberm lleiaf (*Kogia breviceps*)
S2624 Morfil sberm (*Physeter macrocephalus*)
S5033 Morfil trwyn potel (*Hyperoodon ampullatus*)
S1224 Crwban môr pendew (*Caretta caretta*)
S1225 Crwban môr gwalchbig (*Eretmochelys imbricata*)
S1226 Crwban môr pendew Kemp (*Lepidochelys kempii*)
S1227 Crwban môr gwyrdd (*Chelonia mydas*)

Mae rhywogaethau S2035 (morfil gylfinog Cuvier) ac S2038 (morfil gylfinog Sowerby) wedi'u cynnwys yn yr un atodiad technegol sy'n mynd i'r afael â morfilod gylfinog yn ehangach. Mae'r atodiad hwn yn cynnwys asesiadau ar gyfer y rhywogaethau morfilod gylfinog canlynol:
S2625, S2035, S5034, S2038, S2037 ac S5033, yn cynrychioli'r teulu Ziphiidae.

Mae’r rhywogaethau yr ystyrir eu bod yn absennol o ddyfroedd Cymru, ac nad oes asesiad na chrynodeb pellach wedi'u darparu ar eu cyfer, fel a ganlyn:

S1348 Morfil y Basgiaid (*Eubalaena glacialis*)
S2037 Morfil gylfinog True (*Mesoplodon mirus*)
S2625 Morfil gylfinog Blainville (*Mesoplodon densirostris*)
S2626 Morfil uncorn (*Monodon monoceros*)
S2637 Morlo cycyllog (*Cystophora cristata*)
S2638 Morlo barfog (*Erignathus barbatus*)
S2639 Morlo cyfrwyog (*Pagophilus groenlandicus*)
S5020 Morfil asgellog glas (*Balaenoptera musculus*)
S5023 Dolffin Fraser (*Lagenodelphis hosei*)
S5029 Morfil gwyn (*Delphinapterus leucas*)
S5034 Morfil gylfinog Gervais (*Mesoplodon europaeus*)
S6298 Morfil pen pwmpen (*Peponocephala electra*)
S6305 Morlo cylchog (*Pusa hispida*)

S1349 Dolffin trwyn potel (*Tursiops truncatus*) yng Nghymru

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y dolffin trwyn potel (*Tursiops truncatus*), gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth a'r atlas o forfilod ac adar y môr yng Nghymru.

Mae rhywogaeth y dolffin trwyn potel yng Nghymru yn cynnwys dau ecoteip: arfordirol ac alltraeth. Mae'r boblogaeth arfordirol yn rhywogaeth led-breswyl ym Mae Ceredigion, ond mae'n ymestyn i rannau ehangach Môr Iwerddon, yn enwedig yn ystod y gaeaf, ac mae'n ffurfio mwyafrif Uned Reoli Môr Iwerddon, gydag o leiaf 324 o unigolion (cyfwng hyder 95%: 148–710). Mae hyn yn deillio o amcangyfrif cipio, marcio ac ailgipio yn y gyfres amser monitro ar gyfer rhannau ehangach Bae Ceredigion. Ceir y boblogaeth alltraeth yn y Môr Celtaidd a thu hwnt, ac mae'n rhan o Uned Reoli'r Sianel Alltraeth a De-orllewin Lloegr, sydd ag amcangyfrif o 15,210 o ddolffiniaid (cyfwng hyder 95%: 7,861–29,433) yn rhan y DU o'r uned reoli honno, yn byw'n bennaf y tu allan i ddyfroedd tiriogaethol Cymru. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i seilio ar arolygon o'r awyr ar raddfa eang (SCANS_IV, ObSERVE_2). Dechreuodd y gwaith monitro yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Ceredigion yn 2001, ac ehangodd i'r bae ehangach yn 2005. Mae'r boblogaeth wedi parhau i fod yn sefydlog dros yr hirdymor (20+ mlynedd). Defnyddiwyd amcangyfrif 2005 o 205 o unigolion (cyfwng hyder 95%: 98–429) yn y bae ehangach fel y boblogaeth gyfeirio ffafriol, gan mai dyma pryd y dechreuodd y gwaith monitro.

Mae dolffiniaid trwyn potel yn wynebu llu o bwysau gwahanol, yn enwedig mewn rhanbarthau arfordirol lle maent yn dod i fwy o gysylltiad â gweithgareddau dynol. Ymhlith y pwysau hyn y mae aflonyddwch oherwydd twristiaeth a chychod, llygredd (e.e. biffenylau polyclorinedig), a sŵn tanddwr o weithgareddau diwydiannol a gweithgareddau milwrol morol a morgludiant. Ymhlith y risgiau eraill y mae gwrthdrawiadau â seilwaith morol a llongau. Mae effeithiau'n fwy tebygol o effeithio ar boblogaethau arfordirol oherwydd eu bod yn byw yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r DU yn gweithredu nifer o fesurau cadwraeth, gan gynnwys amddiffyniadau cyfreithiol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, a chytundebau rhyngwladol. Mae'r dolffin trwyn potel yn nodwedd ddynodedig mewn dwy ACA yng Nghymru: Bae Ceredigion a Phen Llŷn a'r Sarnau. Mae rhaglenni gwyliadwriaeth y DU yn mynd i'r afael â sgil-ddalfeydd morfilod a morfilod wedi tirio. Mae cofrestr sŵn morol genedlaethol yn olrhain sŵn diwydiannol cymhellol, a defnyddir canllawiau lliniaru'n helaeth i leihau niwed o sŵn o arolygon geoffisegol, gosod seilbyst a ffrwydron. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cwch pysgota gofnodi dalfeydd a symudiadau, ac mae'n datblygu cynlluniau rheoli pysgodfeydd a fydd yn ystyried rhyngweithiadau â dolffiniaid trwyn potel. Bydd Strategaeth Cadwraeth Morfilod y DU sydd ar ddod yn amlinellu camau cydlynol i ategu'r ymdrechion hyn.

Mae poblogaeth a gwasgariad dolffiniaid trwyn potel yng Nghymru wedi parhau i fod yn sefydlog ers 2005. Fodd bynnag, mae'n disgwyl i bwysau parhaus a'r rheini sy'n dod i'r amlwg barhau, yn enwedig i'r boblogaeth arfordirol, gan gynnwys aflonyddwch, llygredd cemegol, a disbyddu anifeiliaid ysglyfaeth o ganlyniad i achosion naturiol ac anthropogenig. Mae'r cyfuniad o warchodaeth gyfreithiol, gwaith monitro parhaus, a mesurau lliniaru wedi'u targedu yn cynnig fframwaith strwythuredig i fynd i'r afael â'r pwysau hyn yn y dyfodol.

Mae asesiad Uned Reoli Môr Iwerddon o'r dolffin trwyn potel yn dod i'r casgliad bod y statws cadwraethol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi bod ei statws yn anhysbys. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yn y DU, yr Uned Reoli a Chymru yn sefydlog.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Tîm monitro morol Cyfoeth Naturiol Cymru

Dosbarthiad a dwysedd dolffiniaid trwyn potel yng Nghymru a'r môr cyfagos. Ffynhonnell: Atlas o forfilod ac adar y môr yng Nghymru

S1349 (Uned Reoli Môr Iwerddon) Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 324 (148–710)

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: 319 (158–727)

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1349 (Uned Reoli Môr Iwerddon) Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1351 Llamhidydd (*Phocoena phocoena*) yng Nghymru

Ceir y llamhidydd (*Phocoena phocoena*) ledled sgafell gyfandirol y DU. Mae'n gyffredin yn nyfroedd Cymru, sy'n rhan o Uned Reoli'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y llamhidydd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth a'r atlas o forfilod ac adar y môr yng Nghymru.

Nid yw nifer y llamidyddion yng Nghymru yn hysbys, ond yr amcangyfrif gorau ar gyfer y boblogaeth o fewn rhan y DU o Uned Reoli'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon yw 17,146 o unigolion (cyfwng hyder 95%: 12,362–23,783), yn seiliedig ar arolygon o'r awyr ar raddfa eang a gynhaliwyd yn 2022 (SCANS IV, ObSERVE 2). Er bod nifer y llamidyddion yn rhan y DU o'r uned reoli wedi parhau i fod yn sefydlog ers 2016, bu dirywiad nodedig ar raddfa'r uned reoli gyfan ers 2005. Y boblogaeth gyfeirio ffafriol ar gyfer rhan y DU o'r uned reoli yw 42,622 (cyfwng hyder 95%: 24,081–75,437) ac roedd y ffigur hwn yn seiliedig ar amcangyfrifon o 2005 a 2007.

Mae'r llamhidydd yn wynebu llu o bwysau yn yr uned reoli, sy'n cynnwys sgil-ddalfeydd pysgota, llygredd cemegol (e.e. biffenylau polyclorinedig), a rhyngweithiadau â rhywogaethau morol eraill megis ysglyfaethu gan forloi llwyd ac ymosodiadau gan ddolffiniaid trwyn potel. Sgil-ddalfeydd yw prif achos marwolaeth a achosir gan ddyn yn y rhanbarth o hyd, er y credir eu bod yn digwydd i raddau bach iawn yn nyfroedd Cymru. Ymhlith y bygythiadau ychwanegol y mae disbyddu anifeiliaid ysglyfaeth oherwydd achosion naturiol ac achosion anthropogenig, a sŵn tanddwr o weithgareddau diwydiannol a gweithgareddau milwrol morol a morgludiant.

Mae'r DU yn gweithredu nifer o fesurau cadwraeth, gan gynnwys amddiffyniadau cyfreithiol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, a chytundebau rhyngwladol. Yn nyfroedd Cymru, mae tair Ardal Cadwraeth Arbennig wedi'u dynodi ar gyfer y rhywogaeth (allan o saith yn y DU), sy'n adlewyrchu eu dwyseddau uchel yn yr uned reoli. Mae rhaglenni gwyliadwriaeth y DU yn mynd i'r afael â sgil-ddalfeydd morfilod a morfilod wedi tirio. Mae cofrestr sŵn morol genedlaethol yn olrhain sŵn diwydiannol cymhellol, a defnyddir canllawiau lliniaru'n helaeth i leihau niwed o sŵn o arolygon geoffisegol, gosod seilbyst a ffrwydron. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cwch pysgota gofnodi dalfeydd a symudiadau ac mae'n datblygu cynlluniau rheoli pysgodfeydd a fydd yn ystyried rhyngweithiadau sgil-ddalfeydd ac aflonyddwch ar lamidyddion. Bydd Strategaeth Cadwraeth Morfilod y DU sydd ar ddod yn amlinellu camau cydlynol i ategu'r ymdrechion hyn.

Mae'r dirywiad parhaus yn nifer y llamidyddion o fewn Uned Reoli'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon yn destun pryder a disgwylir i bwysau parhaus a phwysau sy'n dod i'r amlwg barhau. Fodd bynnag, mae'r cyfuniad o warchodaeth gyfreithiol, rheoli pysgodfeydd a mesurau lliniaru wedi'u targedu yn cynnig fframwaith strwythuredig i fynd i'r afael â'r pwysau hyn yn y dyfodol.

Mae asesiad Uned Reoli'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon o'r llamhidydd yn dod i'r casgliad bod y statws cadwraethol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi bod ei statws yn anhysbys. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth o ran statws cadwraethol yn yr uned reoli, ac ar draws Cymru gyfan, yn sefydlog.

ATODIAD II, IV

Llun gan: Ken Barnett, Ymddiriedolaeth Môr Cymru

Dosbarthiad a dwysedd llamidyddion yng Nghymru a'r môr cyfagos.
Ffynhonnell: Atlas o forfilod ac adar y môr yng Nghymru

S1351 (rhan y DU o Uned Reoli'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon) Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: 17,146 (12,362–23,783)

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: Ddim yn hysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Sefydlog

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1351 (rhan y DU o Uned Reoli'r Môr Celtaidd a Môr Iwerddon) Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1364 Morlo llwyd (*Halichoerus grypus*) yng Nghymru

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y morlo llwyd (*Halichoerus grypus*), gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r rhywogaeth ac adroddiadau'r Pwyllgor Arbennig ar Forloi.

Yn 2022, amcangyfrifwyd bod poblogaeth y morlo llwyd yn y DU yn 162,000 o unigolion (cyfwng hyder bras o 95%: 146,700–178,500) – tua 34% o boblogaeth y byd. Mae nifer y morloi llwyd yn y DU wedi cynyddu'n barhaus ers y 1990au ac mae eu gwasgariad wedi parhau i fod yn sefydlog. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 2,250 o genawon wedi'u geni yn 2020, sy'n awgrymu cyfanswm poblogaeth o 5,220 o forloi o leiaf. Mae cyfrifiadau arolygon o'r awyr o forloi ar y glannau ym mis Awst 2023 yn cefnogi amcangyfrif poblogaeth tebyg. Mewn safleoedd sy'n cael eu monitro yng Nghymru, mae cynhyrchiant cenawon wedi cynyddu ers i'r gwaith monitro ddechrau, yn ogystal â'u hymlediad ar draws y cynefin sydd ar gael.

Mae dosbarthiad a thoreithrwydd y morloi llwyd yng Nghymru yn amrywio'n dymhorol a rhwng y tir a'r môr: mae cyfrifiadau ar y ddaear a gynhaliwyd yn yr hydref ers 1992 yn datgelu bod y cynhyrchiad uchaf o genawon yn Sir Benfro (map uchaf); mae arolygon o'r awyr a gynhaliwyd yn yr haf (2023) yn dangos bod mwy o forloi yn glanio yn y Gogledd-orllewin (map canol); mae dosbarthiad wedi'i fodelu ar y môr (map gwaelod), yn seiliedig ar gyfrifiadau haf a data telemetreg (2005–2019), yn awgrymu bod y nifer uchaf ar y môr yn y Gogledd.

Er bod morloi llwyd yn wynebu sawl pwysau yn y rhanbarth (y Môr Celtaidd a Môr Iwerddon), mae'n ymddangos bod y boblogaeth yn ffynnu. Mae nifer y sgil-ddalfeydd yn sylweddol mewn pysgodfeydd rhwyd yn y Môr Celtaidd, er nad yw'n fwy na throthwyon poblogaeth OSPAR. Ymhlith y pwysau ychwanegol ar y rhywogaeth y mae dadleoli cynefin, aflonyddwch ac anaf oherwydd sŵn o weithgareddau diwydiannol a gweithgareddau milwrol morol a morgludiant, mwy o stormydd sy'n effeithio ar nifer y cenawon sy'n goroesi, a newidiadau posibl yn argaeledd anifeiliaid ysglyfaeth oherwydd achosion naturiol ac anthropogenig. Mae ysglyfaethu mewnrywogaethol gan wrywod sy'n oedolion wedi achosi i gywion farw mewn rhai cytrefi yn y DU, gan gynnwys yng Nghymru.

Mae morloi llwyd wedi'u gwarchod o dan amrywiol fframweithiau cyfreithiol, gan gynnwys Deddf Cadwraeth Morloi 1970, a waharddodd yn ddiweddar ladd, anafu a chymryd morloi yn fwriadol neu'n ddi-hid. Mae gan dair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) forloi llwyd fel nodwedd gymhwyso yng Nghymru: ACA Sir Benfro Forol, ACA Bae Ceredigion, ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae rhaglenni gwyliadwriaeth y DU yn mynd i'r afael â sgil-ddalfeydd a morloi wedi tirio. Mae cofrestr sŵn morol genedlaethol yn olrhain sŵn diwydiannol cymhellol, a defnyddir canllawiau lliniaru'n helaeth i leihau niwed o sŵn o arolygon geoffisegol, gosod seilbyst a ffrwydron. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cwch pysgota gofnodi dalfeydd a symudiadau ac mae'n datblygu cynlluniau rheoli pysgodfeydd a fydd yn ystyried rhyngweithiadau â morloi llwyd.

Er bod llawer o bwysau ar y rhywogaeth o hyd, mae poblogaeth y morlo llwyd yn cynyddu, ac mae ei wasgariad yn sefydlog. Mae newidiadau deddfwriaethol wedi lleihau rheolaeth angheuol, ac nid yw'n disgwyl y bydd bygythiadau yn y dyfodol yn gwaethygu. Gall deiet amrywiol y rhywogaeth ei gwneud yn fwy gwydn i newid yn nosbarthiad anifeiliaid ysglyfaeth. Mae ymdrechion cadwraeth, gwaith monitro a lliniaru rhanbarthol yn ategu iechyd y boblogaeth o dan yr amodau presennol.

Aseswyd bod statws cadwraethol cyffredinol y morlo llwyd yn y DU yn ffafriol, ac mae hynny hefyd yn wir ledled Cymru. Roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi bod ei statws yn ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y rhywogaeth yn y DU a Chymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

ATODIAD II, V

Llun gan:Staff Parth Cadwraeth Morol Skomer

Dosbarthiad a thoreithrwydd y morloi llwyd yng Nghymru:Cynhyrchiad cenawon (brig), morloi ar y glannau (canol), dosbarthiad wedi'i fodelu ar y môr (gwaelod).

S1364 Poblogaeth y rhywogaeth a thueddiadau tymor byr (DU a Chymru)

Uned maint poblogaeth: nifer yr unigolion

Maint y boblogaeth: DU – 162,000 (Cymru – 5,220)

Maint y boblogaeth yn y rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol: DU – 67,168 (Cymru – anhysbys)

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr y boblogaeth: Yn cynyddu

Tuedd tymor byr cynefin: Anhysbys

S1364 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau (DU a Chymru)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws y boblogaeth: Ffafriol (FV)

Statws cynefin: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

6. Adroddiadau ar gynefinoedd

Mae pob map dosbarthiad a gwasgariad sydd wedi'u cynnwys yn y crynodebau o gynefin un dudalen yn seiliedig ar gofnodion gridiau sgwâr 10 cilometr a ystyrir yn gynrychioliadol o'r cyfnod adrodd cyfredol. Cynhyrchwyd y mapiau hyn gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gweler yr adrannau cyflwyniadol ar fethodoleg a ffynonellau ac adnoddau data i gael rhagor o fanylion.

Mae ffiniau'r arfordir a ddangosir ar y mapiau wedi'u deillio o fapiau daearegol rhanbarthol yr Awdurdod Olew a Nwy (OGA) a Lloyd's Register SNS, sy'n ffynhonnell agored ac wedi'u trwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3. © 2017 Awdurdod Olew a Nwy.

6.1 Cynefinoedd arfordirol a chynefinoedd twyni

Llun gan: Heather Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru

H1210 Llystyfiant unflwydd ar linellau drifft

H1220 Llystyfiant lluosflwydd glannau caregog

H1230 Clogwyni'r môr â llystyfiant arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig ('Clogwyni'r môr â llystyfiant')

H1310 *Salicornia* a rhywogaethau unflwydd eraill ar laid a thywod

H1330 Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*)

H1420 Prysgwydd halengar Môr y Canoldir ac ardaloedd cynnes Cefnfor Iwerydd (*Sarcocornetea fruticos*i) ('Prysgwydd morfa heli Môr y Canoldir')

H2110 Egin-dwyni symudol

H2120 Twyni symudol ar hyd y traethlin gydag *Ammophila arenaria* ('Twyni gwyn'), ('Twyni symudol gyda moresg')

H2130 Twyni sefydlog gyda llystyfiant llysieuol ('Twyni llwyd'), ('Twyni sefydlog')

H2150 Twyni sefydlog datgalchedig Iwerydd (*Calluno-Ulicetea*) ('Rhostir twyni datgalchedig')

H2170 Twyni gyda *Salix repens* ssp. *argentea* (*Salicion arenariae*) ('Twyni gyda chorhelyg')

H2190 Llaciau twyni gwlyb

H1210 Llystyfiant unflwydd ar linellau drifft

Mae llystyfiant unflwydd ar linellau drifft yn cynnwys cymunedau planhigion dros dro a thymhorol sy'n tyfu ar is-haenau dynamig ac amrywiol sy'n cynnwys deunydd drifft, gro, neu ro a thywod cymysg sydd wedi'i gyfoethogi â deunydd organig nitrogenaidd ar yr un lefel â'r penllanw neu'n uwch. Mae natur ddynamig yr is-haen yn golygu y gall llystyfiant fod yn bresennol mewn un flwyddyn ond nid y flwyddyn ganlynol. Mae'r cynefin yn cynnal rhywogaethau sy'n goddef halen a sychder megis yr hegydd arfor (*Cakile maritima*), y tywodlys arfor (*Honkenya peploides*), yr helys pigog (*Salsola kali*), a llygwyn *Atriplex* spp. ac yn cyfateb i fathau SD2 (*Honkenya peploides* – cymuned draethlinol *Cakile maritima*) ac SD3 (*Matricaria maritima* – cymuned draethlinol *Galium aparine*) y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC). Mae llystyfiant tebyg a geir yn gyfan gwbl ar draethau tywodlyd wedi'i ddosbarthu ar wahân fel egin-dwyni symudol (H2110). I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lystyfiant unflwydd ar linellau drifft, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1210/.

Ar hyn o bryd, gellid dod o hyd i'r cynefin hwn mewn 47 sgwâr grid 10 cilometr ledled Cymru, o'i gymharu â 23 sgwâr grid yn 2013. Priodolir y cynnydd i welliant yn y cwmpas arolwg yn hytrach nag ehangiad gwirioneddol o'r gwasgariad. Nid oes unrhyw dystiolaeth o newid gwirioneddol i wasgariad y cynefin ers yr adroddiad diwethaf yn 2018. Gwelwyd cynnydd cyffredinol a gofnodwyd o 26.1 hectar, sy'n cyfateb i 66.4%, sydd unwaith eto'n cael ei briodoli i welliant yn y cwmpas arolwg yn hytrach nag ehangiad gwirioneddol o'r ardal.

Ymhlith y prif bwysau ar y cynefin hwn y mae glanhau a sathru traethau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, addasiadau i'r draethlin a mynedfeydd i gerbydau, sydd i gyd yn cyfrannu at ddifrod neu golled cynefinoedd. Ymhlith y bygythiadau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd y mae mwy o amlygiad i donnau, ymchwyddiadau stormydd, codiad yn lefel y môr, a newidiadau yn lleoliad ac ansawdd cynefin. Gall newidiadau mewn tymheredd a dyddodiad newid cyfansoddiad rhywogaethau ymhellach a ffafrio rhywogaethau goresgynnol. Mae'r holl bwysau hyn yn mynd rhagddynt ac mae'n disgwyl iddynt barhau i'r dyfodol.

Gellid gwella cyflwr y cynefin pe bai clustogfeydd yn cael eu creu gyda rheolaeth gadwraeth briodol i ganiatáu i gynefinoedd llinellau drifft symud yn ddynamig i mewn i'r tir lle nad oes unrhyw rwystrau presennol. Lle mae rhwystrau presennol megis amddiffynfeydd môr, mae mesurau adlinio wedi'u targedu i alluogi mwy o gysylltedd rhwng cynefinoedd llinellau drifft yn ddymunol. Mae ymdrechion i leihau aflonyddwch dynol, gan gynnwys sathru a mynediad i gerbydau, yn cael eu cefnogi trwy ymarferion ymgysylltu â'r cyhoedd.

Er gwaethaf gwarchodaeth gyfreithiol mewn sawl safle, mae'n debygol y bydd arwynebedd a strwythur y cynefin hwn yn dirywio oherwydd amhariad gwaddod o adeileddau arfordirol a digwyddiadau stormydd dwysach. Mae'n disgwyl y bydd mynediad heb ei wirio i gerddwyr a cherbydau, ynghyd â gwaith glanhau traethau parhaus y tu allan i safleoedd gwarchodedig, yn dirywio cyflwr y cynefin ymhellach. Gall codiad yn lefel y môr a nifer uwch o stormydd arwain at golled sylweddol o lystyfiant dros amser, gan effeithio'n negyddol ar faint y cynefin a'i swyddogaeth ecolegol. Er bod arolygon diweddar yn darparu data gofodol cynhwysfawr, mae'r cyflwr yn y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr heb ymyrraeth a monitro cadwraeth cyson.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lystyfiant unflwydd ar linellau drifft yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: JBA Consulting dan gontract i Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1210

Map gwasgariad ar gyfer H1210

H1210 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.393

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H1210 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1220 Llystyfiant lluosflwydd glannau caregog

Mae llystyfiant lluosflwydd glannau caregog (graean bras â llystyfiant) ymhlith y cynefinoedd arfordirol prinnaf yng Nghymru ac mae'n cynnal mathau amrywiol o lystyfiant ar garegos a gro a ddyddodwyd yn amrywio o ran maint o 2 mm i 200 mm. Mae'r rhain yn cynnwys cymunedau arloesol gyda rhywogaethau megis yr ysgedd arfor (*Crambe maritima*), y tywodlys arfor (*Honckenya peploides*) a'r fetysen arfor (*Beta vulgaris* subsp. *maritima*), ac arloeswyr eilaidd megis yr amranwen arfor (*Tripleurospermum maritimum*) a'r dafolen grech (*Rumex crispus*). Ymhlith y cymunedau aeddfed y mae glaswelltiroedd lle mae'r maeswellt rhedegog (*Agrostis stolonifera*) a'r peiswellt coch (*Festuca rubra*) yn drech, glaswelltiroedd morfa heli, rhostiroedd, a chymunedau prysgwydd. Mae'r math o gynefin Atodiad I yn cynnwys llystyfiant lluosflwydd yn bennaf ar draethau graean bras uchaf, sydd fel arfer yn cyfateb i gymuned SD1 (*Rumex crispus – Glaucium flavum*) y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC). I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am raean bras â llystyfiant, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1220/.

Ceir y cynefin mewn 22 sgwâr grid 10 cilometr ledled Cymru. Mae hyn yn wahanol i adroddiad 2013, pan gafodd ei gofnodi mewn 14 sgwâr grid, ond mae'r gwahaniaeth yn deillio o arolygon diweddar gwell yn hytrach na newid dosbarthiadol gwirioneddol. Nid oes unrhyw dystiolaeth o newid gwirioneddol i wasgariad y cynefin ers adroddiad 2018. Adroddwyd bod y cynefin yn gorchuddio 52.96 hectar rhwng 2013 a 2018, a bellach adroddir ei fod yn gorchuddio 13.61 hectar (2019–2024), gyda gostyngiad cyffredinol o 39.35 hectar wedi adrodd ar ôl ailddadansoddi data arolygon sy'n bodoli eisoes yn ogystal â data cywirach o arolygon diweddar. Mae gostyngiadau lleol o ran arwynebedd o ganlyniad i newidiadau mewn morffoleg arfordiroedd, olyniaeth llystyfiant, a newidiadau o ran rheolaeth.

Ymhlith y prif bwysau ar y cynefin hwn y mae datblygu ardaloedd traeth a'u cynnal a chadw, gweithgareddau hamdden, ac addasiadau arfordirol, sydd oll yn effeithio ar ehangiad y cynefin a'i gyfanrwydd adeileddol. Mae newidiadau a achosir gan yr hinsawdd fel mwy o amlygiad i donnau a stormydd yn gwaethygu bygythiadau ymhellach. Mae pwysau lefel ganolig yn deillio o ffyrdd a seilwaith sy'n tarfu ar brosesau geomorffolegol, cyfundrefnau llifogydd wedi'u haddasu, ac effeithiau o newidiadau tymheredd a dyddodiad a chodiad yn lefel y môr. Mae'r pwysau'n barhaus ac mae'n disgwyl iddynt barhau i effeithio ar arwynebedd ac ansawdd y cynefin.

Ymhlith y mesurau cyfredol y mae ymdrechion i leihau pwysau hamdden a thwristiaeth a rheoli newidiadau arfordirol a hydrolegol er budd strwythur a swyddogaeth y cynefin. Anogir camau addasu i newid hinsawdd, megis creu clustogfeydd a hyrwyddo symudiad cynefin tua'r tir. Ymhlith y strategaethau ychwanegol y mae adfer cynefinoedd sydd wedi newid yn hydrolegol a rheoli olyniaeth ecolegol.

Er y gallai gwarchodaeth statudol ar sawl safle helpu i atal colli cynefin yn llwyr, mae'n debygol y bydd yr arwynebedd a'r strwythur yn dirywio. Mae'n disgwyl i adeileddau glan y môr sy'n cyfyngu ar gludiant gwaddod, aflonyddwch o weithgareddau hamdden, a'r cynnydd a ragwelir yn lefel y môr effeithio'n negyddol ar yr arwynebedd a'r swyddogaeth ecolegol. Gall glanhau traethau y tu allan i ardaloedd gwarchodedig leihau cyfanrwydd cynefinoedd ymhellach. At ei gilydd, mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer arwynebedd a strwythur y cynefin yn parhau i fod yn anhysbys, gyda thueddiadau'n cael eu hystyried yn negyddol oherwydd pwysau parhaus sy'n annhebygol o gael eu lliniaru'n llawn gan fesurau cadwraeth sy'n bodoli eisoes.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lystyfiant lluosflwydd glannau caregog yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Julie Creer, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1220

Map gwasgariad ar gyfer H1220

H1220 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.1361

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H1220 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–drwg (U2)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1230 Clogwyni'r môr â llystyfiant

Mae clogwyni'r môr â llystyfiant yn gyffredin ar hyd arfordir Cymru, yn enwedig yn Sir Benfro, Penrhyn Llŷn, Ynys Môn, de Penrhyn Gŵyr, y Gogarth, Bro Morgannwg a Cheredigion. Mae llystyfiant clogwyni môr dan ddylanwad amodau arforol megis ewyn hallt a datguddiad. Mae llystyfiant clogwyni môr yn cytrefu silffoedd wynebau clogwyni fertigol i bron yn fertigol a chopaon y clogwyni cyfagos, lle gellir ei ganfod hyd at 500 metr i mewn i'r tir mewn lleoliadau agored. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am glogwyni'r môr â llystyfiant, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1230/.

Mae clogwyni caled a meddal yn bresennol yng Nghymru, er bod clogwyni meddal yn llawer llai helaeth eu gwasgariad. Mae'r clogwyni hyn yn cynnal amrywiol fathau o lystyfiant, gan gynnwys cymunedau agennau a silffoedd, glaswelltiroedd arforol, rhostiroedd arforol, a llystyfiant adar y môr a chlogwyni meddal. Mae cymunedau craidd y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol sy'n ffurfio cynefinoedd clogwyni môr yn cynnwys cymunedau arforol MC1 ac MC4–12, a mathau o lystyfiant rhostir H7 ac H8d. Gall llystyfiant clogwyni meddal fod yn symudol iawn, gan gynhyrchu clytweithiau o lystyfiant arloesol a diffaith ynghyd â glaswelltiroedd, prysgwydd a thryddiferiadau ac ardaloedd bach o lystyfiant tir gwlyb. Mae cynefinoedd agored clogwyni meddal yn bwysig i rywogaethau o anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos newid gwirioneddol yng ngwasgariad clogwyni'r môr â llystyfiant yng Nghymru ers 2013, ac nid ystyrir ychwaith fod un yn debygol o fod wedi digwydd. Ystyrir bod maint cyffredinol cynefin clogwyni'r môr â llystyfiant yng Nghymru wedi dirywio yn yr hirdymor a'r tymor byr. Ni chofnodwyd unrhyw golled o ran maint yn y pedair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) sy'n cefnogi'r nodwedd hon a fonitrwyd rhwng 2013 a 2018. Fodd bynnag, mae 27% o gyfanswm arwynebedd y nodwedd y tu allan i safleoedd gwarchodedig, lle na wnaed llawer o waith monitro. Mae nifer y cymunedau agennau a silffoedd a llystyfiant adar y môr wedi'u tan-gofnodi oherwydd cyfyngiadau tir a mynediad.

Mae clogwyni'r môr â llystyfiant yn wynebu llawer o bwysau, gan gynnwys rhoi'r gorau i bori ar ben clogwyni, sy'n arwain at ymlediad prysgwydd, a dwysáu amaethyddol, sy'n cyfrannu at ddarnio a diraddio cynefinoedd. Ymhlith y pwysau eraill y mae dyddodiad nitrogen atmosfferig, rhywogaethau estron goresgynnol, ac effeithiau a achosir gan newid hinsawdd megis lefelau uwch o erydu a chodiad yn lefel y môr. Mae erydu yn digwydd yn naturiol, ond mae'n arwain at golled lle mae'r broses o 'ddirwyn' y cynefin yn ôl yn cael ei rhwystro gan dir ffermio dwys neu ddatblygiadau. Mae cynefin clogwyni'r môr â llystyfiant yn parhau i fod yn agored i ddarnio cynefin, cyflwr gwael, a dirywiad araf o ran maint ei diriogaeth oherwydd pwysau parhaus.

Mae tua 73% o glogwyni'r môr â llystyfiant o fewn safleoedd dynodedig, gan gynnig rhywfaint o warchodaeth rhag newid yn y ffordd y caiff tir ei ddefnyddio. Mae prosiectau adfer wedi arwain at ymyriadau cadarnhaol megis rheoli pori, rheoli rhywogaethau goresgynnol a chlirio prysgwydd. Mae cytundebau rheoli o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chynlluniau amaeth-amgylcheddol hefyd wedi cyfrannu at wella cyflwr. Mae'n debygol y bydd dyddodiad nitrogen atmosfferig yn parhau i effeithio ar ansawdd y cynefin mewn rhan sylweddol o arwynebedd y nodwedd am y degawd nesaf. Yn y dyfodol, bydd effeithiau newid hinsawdd yn dod yn fwy amlwg, gan achosi i bwysau eraill waethygu.

Mae'r asesiad hwn ar lefel Cymru o glogwyni'r môr â llystyfiant arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Heather Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1230

Map gwasgariad ar gyfer H1230

H1230 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 31.13

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn gostwng

H1230 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1310 *Salicornia* a rhywogaethau unflwydd eraill ar laid a thywod

Mae *Salicornia* a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod yn ffurfio cynefin arloesol dynamig sy'n cynnwys rhywogaethau unflwydd yn bennaf, ac yn gyffredinol mae ganddo lystyfiant prin. Mae maint a dosbarthiad y cynefin hwn yn dibynnu ar brosesau arfordirol. Mae cymunedau craidd y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol ar gyfer y math hwn o gynefin yn cynnwys SM8 (cymuned morfa heli *Salicornia* spp. unflwydd) a chymuned lai cyffredin SM9 (cymuned morfa heli *Suaeda maritima*). I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gynefin *Salicornia*, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1310/.

Yng Nghymru, ceir y cynefin hwn yn bennaf mewn aberoedd a baeau sydd wedi'u cysgodi ac mae'n gymharol gyffredin ar hyd yr arfordir, ac eithrio aber afon Hafren. Fel arfer, mae'n ffurfio cellïoedd gwasgaredig ar hyd ymyl isaf morfeydd heli neu ochrau cilfachau, neu o fewn pantiau. Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n dangos newid gwirioneddol yn nosbarthiad neu wasgariad 10 cilometr sgwâr y cynefin yng Nghymru ers 2018. Mae'r duedd o ran y newid i faint y cynefin wedi'i rhestru fel un anhysbys oherwydd anawsterau wrth fesur colledion ac enillion net y cynefin dynamig hwn. Nodir bod y maint presennol yn 167 hectar.

Ymhlith y prif bwysau y mae codiad yn lefel y môr sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, newidiadau i'r graddau y mae'r cynefin yn agored i donnau, a llygredd y môr sy'n deillio o nifer o ffynonellau. Mewn rhai ardaloedd, mae llygredd maethynnau gwasgaredig yn achosi twf macroalgâu manteisgar, a all dagu'r cymunedau arloesol. Mae gwaith modelu wedi rhagweld colled o hyd at 25% o ran maint cyffredinol erbyn 2025 oherwydd gwasgfa arfordirol (lle mae cynefinoedd wedi'u gwasgu rhwng lefelau'r môr sy'n codi ac amddiffynfeydd morol) os na chaiff y sefyllfa ei datrys, ac mae'r cynefin wedi'i asesu fel un sy'n agored iawn i gynnydd mewn tymheredd aer yn y dyfodol. Ymhlith y bygythiadau ychwanegol y mae addasu'r arfordir ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd, a allai arwain at golli rhagor o gynefinoedd o ganlyniad i wasgfa arfordirol, datblygu seilwaith, a chynaeafu planhigion *Salicornia* yn anghyfreithlon.

Mae'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd yn darparu cynefin morfa heli i wneud yn iawn am golledion oherwydd gwasgfa arfordirol sy'n gysylltiedig â phrosiectau amddiffyn rhag y môr. Hyd yn hyn, mae morfeydd heli wedi'u creu ar ddau safle trwy adlinio a reolir: yng Nghwm Ivy ar Benrhyn Gŵyr ac ym Morfa Friog ar aber afon Mawddach. Mae nifer o brosiectau tebyg i greu morfeydd heli yn cael eu datblygu er mwyn darparu cynefin cydbwyso. Mae'r gallu i addasu i newid hinsawdd ar yr arfordir yn cael sylw drwy Gynlluniau Rheoli Traethlin. Eu nod yw lleihau'r risgiau i bobl a'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol dros y ganrif nesaf, gan nodi dull cynaliadwy o reoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Ymhlith y camau cadwraeth eraill y mae ymdrechion i leihau llygredd y môr drwy fentrau rheoleiddio a gorfodi.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer cynefin *Salicornia* yn dibynnu ar liniaru pwysau sy'n bodoli eisoes, yn enwedig y pwysau hynny sy'n deillio o newid hinsawdd a chodiad yn lefel y môr. Mae hyder canolig yn y rhagamcanion oherwydd ansicrwydd ynghylch cyflenwad gwaddod a mewnlenwi aberoedd. Mae'r warchodaeth statudol helaeth i'r cynefin (sy'n cwmpasu 97% ohono) yn cefnogi ei wydnwch, ond mae rhoi Cynlluniau Rheoli Traethlin ar waith a chreu cynefinoedd yn amserol yn parhau i fod yn hanfodol. Gallai methiant i roi'r mesurau hyn ar waith arwain at golli rhagor o gynefinoedd.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o *Salicornia* a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, sy'n gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Heather Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1310

Map gwasgariad ar gyfer H1310

H1310 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 1.67

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H1310 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1330 Dolydd heli Iwerydd

Mae dolydd heli Iwerydd yn cynnwys y gors uwchben y parth arloesol hyd at y corsydd uchaf, ac mae prosesau arfordirol yn dylanwadu'n gryf arnynt. Y cymunedau o blanhigion craidd o'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r math hwn o gynefin yw SM10–SM20, SM22–24, SM26 (cymunedau morfa heli) ac S21 (gwern *Scirpus maritimus*). Fodd bynnag, mae dilyniant nodweddiadol llawn parthau morfa heli, o gymunedau planhigion arloesol i ardaloedd rhyngbarthol cors uchaf, yn brin yng Nghymru oherwydd bod presenoldeb amddiffynfeydd rhag y môr yn aml yn cadw llystyfiant rhyngbarthol ar ochr tir y gors rhag gorlif y llanw. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ddolydd heli Iwerydd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1330/.

Mae dolydd heli Iwerydd yn gyffredin ledled Cymru, yn bennaf o fewn aberoedd a baeau sydd wedi'u cysgodi. Ceir yr ardaloedd mwyaf yng Nghilfach Tywyn a chymhlyg cyfagos y Tair Afon. Nid oes unrhyw golledion nac enillion y cofnodwyd amdanynt o ran maint y cynefin sydd wedi newid ei wasgariad ers y 1980au. Ar hyn o bryd, nodir mai 7,478 hectar yw maint dolydd heli Iwerydd yng Nghymru.

Mae llawer o forfeydd heli yn cael eu defnyddio fel tiroedd pori, sydd fel arfer yn fuddiol, ond mae corsydd yn wynebu pwysau o ganlyniad i'r penderfyniad i roi'r gorau i bori a gorbori, sy'n achosi llai o amrywiaeth o ran rhywogaethau. Mae llygredd y môr o nifer o ffynonellau yn bryder parhaus, yn yr un modd â dyddodiad nitrogen atmosfferig. Bydd codiad yn lefel y môr yn arwain at wasgfa arfordirol (lle mae cynefinoedd yn cael eu gwasgu rhwng lefelau môr sy'n codi ac amddiffynfeydd rhag y môr), ac mae pwysau eraill sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, megis newidiadau yn ynni tonnau ac amlder stormydd, yn peri bygythiadau mawr. Mae modelu wedi rhagweld colled o hyd at 25% o ran maint y cynefin cyffredinol erbyn 2055 oherwydd gwasgfa arfordirol os nad eir i'r afael â'r sefyllfa. Gallai addasiadau ffisegol pellach i'r arfordir arwain at golledion parhaus o'r cynefin.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae adfer lefelau pori priodol, lleihau llygredd, a phrosiectau addasu i'r hinsawdd. Mae'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd yn darparu cynefin morfa heli i wneud yn iawn am golledion oherwydd gwasgfa arfordirol sy'n gysylltiedig â phrosiectau amddiffyn rhag y môr. Hyd yn hyn, mae morfeydd heli wedi'u creu ar ddau safle trwy adlinio a reolir: yng Nghwm Ivy ar Benrhyn Gŵyr ac ym Morfa Friog ar aber afon Mawddach – ac mae nifer o brosiectau tebyg i greu morfeydd heli fel cynefin cydbwyso wrthi'n cael eu datblygu. Mae'r gallu i addasu i newid hinsawdd ar yr arfordir yn cael sylw drwy Gynlluniau Rheoli Traethlin. Eu nod yw lleihau'r risgiau i bobl a'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol dros y ganrif nesaf, gan nodi dull cynaliadwy o reoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn gymysg. Er bod y cynefin yn elwa ar warchodaeth statudol, mae codiad yn lefel y môr yn parhau i fod yn fygythiad sylfaenol. Gallai gwasgfa arfordirol arwain at leihad yn ei wasgariad a maint. Mae strwythur a swyddogaeth y cynefin yn gwella mewn rhai ardaloedd, ond mae pwysau sylweddol yn parhau. Bydd gweithredu Cynlluniau Rheoli Traethlin a sefydlu cynefinoedd cydbwyso mewn modd amserol yn hanfodol ar gyfer gwydnwch yn y dyfodol a chynaliadwyedd dros yr hirdymor.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ddolydd heli Iwerydd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Heather Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1330

Map gwasgariad ar gyfer H1330

H1330 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 74.82

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn gostwng

H1330 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1420 Prysgwydd morfa heli Môr y Canoldir

Mae prysgwydd morfa heli Môr y Canoldir yn gynefin prin lle mae *Sarcocornia perennis* yn drech, sef rhywogaeth sy'n agos i'w therfyn mwyaf gogleddol yng Nghymru. Mae mwyafrif helaeth y nodwedd cynefin yn y DU ar arfordir De-ddwyrain Lloegr. Yng Nghymru, dim ond o fewn aberoedd afon Artro ac afon Mawddach ac ar arfordir Bae Ceredigion y mae'n bresennol. Mae'r math hwn o gynefin yn gorwedd o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau ac ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn, ond nid yw'n nodwedd ddynodedig o'r naill ACA na'r llall. Mae'n rhan o nodwedd morfa heli Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Aber Mawddach a SoDdGA Morfa Dyffryn. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am brysgwydd morfa heli Môr y Canoldir, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1420/.

Mae'r llystyfiant wedi'i gyfansoddi o fath SM7 *Arthrocnemum perenne* y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol ac mae'n gorchuddio llai na saith hectar i gyd ar draws y ddau aber. Nid oes unrhyw enghreifftiau eraill o SM7 wedi'u cofnodi yng Nghymru, ac nid oes unrhyw gofnodion o *Sarcocornia perennis* yn unman arall yn y wlad. Nid yw'r cynefin penodol hwn wedi cael ei fonitro ers arolwg yn 2003 o ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae hyder yn y dosbarthiad a'r arwynebedd yn isel oherwydd diffyg gwaith monitro ac oedran data'r arolwg.

Ymhlith y bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae codiad yn lefel y môr, dod yn agored i donnau, ac eithafion tymheredd, pob un â lefelau amrywiol o effaith ragweladwy. Mae adeileddau amddiffyn arfordirol yn cyfrannu at wasgfa arfordirol (lle mae cynefinoedd wedi'u gwasgu rhwng lefelau'r môr sy'n codi ac amddiffynfeydd rhag y môr) a newidiadau o ran trawsgludo gwaddodion, a all beryglu gallu'r cynefin i addasu i godiad yn lefel y môr. Ymhlith y pwysau parhaus a phwysau yn y dyfodol y mae carthu ar gyfer cychod hamdden a sbwriel arforol. Mae cynaeafu nad yw wedi'i reoleiddio o *Salicornia* spp. yn peri risg i *Sarcocornia perennis* oherwydd eu bod yn tyfu yn yr un mannau.

Ymhlith y camau cadwraeth a gymerir y mae adfer cynefinoedd, lleihau llygredd a mesurau ar gyfer addasu i'r hinsawdd. Mae'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd yn creu cynefin morfa heli i wneud yn iawn am gynefin a gollwyd oherwydd gwasgfa arfordirol. Hyd yn hyn, mae morfeydd heli wedi'u creu ar ddau safle trwy adlinio a reolir: yng Nghwm Ivy ar Benrhyn Gŵyr ac ym Morfa Friog ar hyd aber afon Mawddach. Mae planhigion *Sarcocornia perennis* wedi ymsefydlu o fewn safle Morfa Friog, lle mae potensial iddynt ymledu ymhellach.

Gallai codiad yn lefel y môr a'r wasgfa arfordirol sy'n gysylltiedig â hyn leihau maint cyffredinol cynefin morfa heli yn sylweddol. Er ei fod wedi'i warchod, mae maint bach y cynefin ar draws y ddau leoliad yn golygu bod prysgwydd morfa heli Môr y Canoldir yn arbennig o agored i niwed. Bydd cynaliadwyedd dros yr hirdymor yn dibynnu ar gymhwyso mesurau amddiffynnol yn ehangach a chymryd camau dilynol effeithiol ar strategaethau rheoli arfaethedig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o brysgwydd morfa heli Môr y Canoldir yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Heather Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1420

Map gwasgariad ar gyfer H1420

H1420 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.07

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H1420 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H2110 Egin-dwyni symudol

Egin-dwyni symudol yw’r camau cyntaf o ffurfiant twyni. Mae'r twyni tywod hyn yn ffurfio lle mae malurion ar y traeth (broc a gwymon) yn dal tywod uwchben lefel y penllanw. Y planhigion mwyaf cyffredin yw rhywogaethau traethlin megis yr hegydd arfor (*Cakile maritima*) a'r ddau laswellt arloesol sy'n goddef halen ac yn rhwymo tywod: clymwellt (*Leymus arenarius*) a marchwellt y twyni (*Elytrigia juncea*). Mae llystyfiant yn cyfateb i gymuned SD4 (cymuned blaendwyni *Elymus farctus* ssp. *boreali-atlanticus*) ac SD5 (cymuned twyni symudol *Leymus arenarius*) y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Mae'r cynefin yn ddynamig iawn ac yn ddibynnu ar brosesau ffisegol parhaus ar y rhyngwyneb rhwng y twyni a'r traeth. Egin-dwyni symudol yw rhagflaenwyr y prif lystyfiant sy'n adeiladu twyni, lle mae moresg (*Ammophila arenaria*) yn drech. Mae'r cynefin yn fyrhoedlog ac yn agored i bennau llanw eithafol a stormydd tymhorol, ac efallai ei fod wedi'i gynrychioli'n well mewn rhai blynyddoedd nag eraill. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am egin-dwyni symudol, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o’r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H2110/.

Ceir egin-dwyni symudol mewn 35 sgwâr grid 10 cilometr ledled Cymru. Mae hyn yn wahanol i'r 36 sgwâr grid a gofnodwyd yn 2013, er bod y newid oherwydd arolygon wedi'u diweddaru yn hytrach na newid gwirioneddol yn y dosbarthiad. Ystyrir bod gwasgariad y cynefin yn sefydlog, heb unrhyw golledion nac enillion wedi'u cofnodi ar y lefel 10 cilometr sgwâr. Yr arwynebedd amcangyfrifedig oedd 106.2 hectar rhwng 2013 a 2018, gan ddangos gostyngiad a gofnodwyd o 59.03 hectar yn 2022 o'i gymharu â data blaenorol. Mae'n debyg bod y gostyngiad oherwydd ailddadansoddi data arolygon presennol yn ogystal â data cywirach o arolygon diweddar. Mae’r gostyngiadau lleol o ran maint yr arwynebedd o ganlyniad i sefydlogi cynyddol twyni tywod a tharfu ar brosesau arfordirol.

Ymhlith y pwysau effaith uchel y mae gwaith glanhau traethau, sy'n cael gwared ar lystyfiant rhagflaenol, a gweithgareddau hamdden sy'n achosi sathru a difrod. Mae adeileddau traethlin yn cyfyngu ar gludiant gwaddod, gan fygwth cynaliadwyedd y cynefin. Ymhlith y bygythiadau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd y mae amlygiad i donnau, stormydd, newid cynefinoedd, a chodiad yn lefel y môr. Mae dyddodiad nitrogen atmosfferig yn peri bygythiad sylweddol. Ymhlith y pwysau effaith ganolig y mae llygredd aer, seilwaith, a gweithgareddau milwrol sy'n amharu ar adeiladwaith y cynefin ac ymdrechion rheoli.

Mae ymdrechion cadwraeth yn canolbwyntio ar adfer cynefin, rheoli pwysau hamdden, a chynnal prosesau arfordirol naturiol. Ymhlith y mesurau addasu i newid hinsawdd y mae creu clustogfeydd a gweithredu polisi traethlin. Nod polisïau ansawdd aer ac amaethyddiaeth gynaliadwy yw mynd i'r afael ag effeithiau nitrogen, tra bod gweithdrefnau penodol yn rheoli risgiau ordnans heb eu ffrwydro ar safleoedd a ddefnyddir gan y fyddin.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer egin-dwyni symudol yn ansicr ac yn debygol o fod yn negyddol os yw'r pwysau presennol yn parhau heb eu lliniaru. Gall gwaith sefydlogi arfordirol parhaus, codiad yn lefel y môr, a gwaith glanhau traethau leihau arwynebedd y cynefin a’i gyfanrwydd. Mae’n disgwyl i sawl pwysau ddwysáu gyda newid hinsawdd, gan ddirywio strwythur a swyddogaeth ymhellach. Mae’n disgwyl i lawer o'r cynefin aros mewn cyflwr anffafriol oherwydd dyddodiad nitrogen atmosfferig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o egin-dwyni symudol yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Julie Creer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H2110

Map gwasgariad ar gyfer H2110

H2110 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.4717

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H2110 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i’r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H2120 Twyni symudol gyda moresg

Mae twyni symudol gyda moresg (*Ammophila arenaria*) yn cael eu trechu gan y glaswellt hwn sy'n rhwymo tywod ac fel arfer maent yn tyfu yn yr un mannau mewn ardaloedd lle mae tywod yn parhau i symud. Mae'r math hwn o lystyfiant yn cyfateb i gymunedau SD5 (cymuned twyni symudol *Leymus arenarius*) ac SD6 (cymuned twyni symudol *Ammophila arenaria*) y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Mae'n rhan o ardal ryngbarthol ddynamig o amgylcheddau morol i amgylcheddau daearol a gall ddatblygu ar dwyni sy'n cronni a thwyni sy'n erydu, ond mae'n diflannu'n gyflym os daw'r tywod yn sefydlog. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am dwyni symudol gyda moresg, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H2120/.

Yng Nghymru, ceir y cynefin mewn 42 sgwâr grid 10 cilometr, sef newid o'r 41 sgwâr grid a gofnodwyd yn 2013. Priodolir y gwahaniaeth ymddangosiadol hwn i ddulliau arolygu gwell yn hytrach na newid gwirioneddol yn y dosbarthiad. Cofnodwyd mai 361.81 hectar oedd arwynebedd y cynefin ar gyfer 2013–2018. Mae cynnydd cyffredinol wedi'i gofnodi mewn arwynebedd o 5.96 hectar (1.6%), ond mae'r duedd tuag at sefydlogi twyni tywod wedi arwain at golledion lleol.

Ymhlith y pwysau lefel uchel y mae seilwaith a gweithgareddau twristiaeth, addasiadau i'r arfordir, a rhywogaethau goresgynnol. Mae gweithgareddau megis glanhau traethau a defnyddio cerbydau yn niweidio twyni tywod ac yn rhwystro datblygiad cynefinoedd naturiol. Mae adeileddau arfordirol yn cyfyngu ar symudiad gwaddod, tra bod rhywogaethau goresgynnol megis rhafnwydden y môr (*Hippophae rhamnoides*) yn bygwth bioamrywiaeth. Mae pwysau newid hinsawdd megis codiad yn lefel y môr, stormydd a dyddodiad nitrogen hefyd yn effeithio'n negyddol ar y cynefin.

Mae camau cadwraeth wedi'u cymryd ar sawl safle i gynnal natur agored y cynefin hwn, sydd wedi sefydlogi ac yn aml yn cael ei oresgyn gan brysgwydd a rhywogaethau brodorol a rhywogaethau estron goresgynnol. Mae mesurau cadwraeth megis bylchu blaendwyni, ailbroffilio, crafu, a'r gwaith o gael gwared ar rywogaethau goresgynnol megis rhafnwydden y môr wedi cael eu cynnal gan brosiectau a ariennir yn allanol megis Twyni Tywod LIFE a Dynamic Dunescapes. Mae'r prosiectau hefyd wedi mynd i'r afael â phryderon diogelwch megis risg ordnans heb ffrwydro ac wedi datblygu fframweithiau rheoli i gefnogi rheolaeth barhaus. Gallai deddfwriaeth newydd megis Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 gynorthwyo ymhellach i warchod y cynefin.

Heb gadwraeth barhaus, mae'n debygol y bydd arwynebedd y cynefin yn dirywio oherwydd sefydlogi, pwysau ymwelwyr, codiad yn lefel y môr, a gwaith glanhau traethau. Mae cyfanrwydd adeileddol a swyddogaethol y cynefin yn y dyfodol hefyd mewn perygl os bydd pwysau uchel eu heffaith yn dwysáu. Er bod 74% o'r cynefin o fewn safleoedd gwarchodedig, mae sawl un yn parhau mewn cyflwr anffafriol. Mae parhad prosiectau cadwraeth cyfredol a gwell rheolaeth o bwysau yn cynnig rhywfaint o botensial ar gyfer sefydlogi cyflwr y cynefin. Mae'n disgwyl i lawer o'r cynefin aros mewn cyflwr anffafriol oherwydd dyddodiad nitrogen atmosfferig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o dwyni symudol gyda moresg yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n dirywio.

Llun gan: Peter Rhind, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H2120

Map gwasgariad ar gyfer H2120

H2120 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 3.6777

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H2120 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H2130 Twyni sefydlog

Yng Nghymru, gellir dod o hyd i dwyni sefydlog (neu 'dwyni llwyd') i mewn i'r tir o'r twyni symudol lle mae moresg yn drech. Mae'r cynefinoedd hyn yn datblygu mewn ardaloedd twyni mwy sefydlog lle mae cyfran uwch o dywod organig. Mae llystyfiant twyni sefydlog yn gymhleth ac yn cyfateb i sawl cymuned Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Maent fel arfer yn ardaloedd lle mae'r peiswellt coch (*Festuca rubra*) yn drech ac maent yn nodedig am fod yn frith o rywogaethau calchaidd, sy'n aml yn dod yn brif fath o lystyfiant. Fodd bynnag, yn dibynnu ar y math o gymuned, gall gweiriau eraill fod yn fwy cyffredin mewn rhai lleoliadau. Yng Nghymru, mae'r twyni sefydlog yn llawn calsiwm (oherwydd bod y tywod yn cynnwys llawer o gregyn morol) ac yn cynnal amrywiaeth helaeth o blanhigion porfa. Mewn rhai cymunedau, mae cennau hefyd yn elfennau arwyddocaol o'r llystyfiant. Er eu bod yn sefydlog yn gyffredinol, gall erydiad lleol arwain at glytiau noeth o dywod neu chwythbantiau, a gall gwyntoedd ddod â mewnlifiad o dywod ffres sy'n llawn calsiwm, gan faethu'r llystyfiant. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am dwyni sefydlog, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H2130/.

Yng Nghymru, gellir dod o hyd i'r cynefin mewn 44 sgwâr grid 10 cilometr. Mae hwn yn ostyngiad bach o'i gymharu â'r 46 sgwâr a gofnodwyd yn 2013 – gwahaniaeth a briodolir i arolwg mwy manwl cywir yn hytrach na cholled wirioneddol o gynefin. Mae arolygon llystyfiant diweddar wedi mapio arwynebedd amcangyfrifedig ar gyfer y llystyfiant o 2,935.94 hectar, gyda chynnydd cyffredinol yn yr arwynebedd a gofnodwyd o 284.24 hectar (9.7%). Ystyrir bod y duedd dymor byr yn sefydlog, heb unrhyw golledion nac enillion cyflawn mewn sgwariau grid y gwyddys amdanynt yn ystod y 12 mlynedd diwethaf.

Ymhlith y prif bwysau parhaus ar y cynefin hwn y mae tanbori, llygredd a gynhyrchir gan ffermio da byw, rhywogaethau goresgynnol, a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Mae ymlediad prysgwydd, wedi'i waethygu gan ddiffyg pori, yn gyffredin ac mae rhywogaethau estron goresgynnol megis rhafnwydden y môr (*Hippophae rhamnoides*) yn arbennig yn peri problemau. Mae llygredd nitrogen yn yr awyr yn eang ei wasgariad, gyda 100% o'r cynefin dros y llwyth nitrogen critigol. Mae pwysau ychwanegol yn deillio o seilwaith hamdden, newid hinsawdd, newidiadau o ran coedwigaeth, ac addasiadau arfordirol sy'n llesteirio symudedd twyni tywod.

Mae mesurau cadwraeth cyfredol wedi'u rhoi ar waith drwy amddiffyniadau statudol a phrosiectau wedi'u targedu. Mae tua 79% o'r cynefin yn gorwedd o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) gwarchodedig a 68% o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae gwaith i adfer cynefin wedi'i weithredu gan brosiectau a ariennir yn allanol (e.e. Twyni Tywod LIFE a Dynamic Dunescapes) ac mae mesurau cadwraeth wedi cynnwys tynnu prysgwydd brodorol a rhafnwydden y môr, lladd gwair, ac adfer pori. Mae'r prosiectau hefyd wedi mynd i'r afael â phryderon diogelwch megis risg ordnans heb ffrwydro ac wedi datblygu fframweithiau rheoli i gefnogi rheolaeth barhaus.

Er bod mesurau cadwraeth wedi lliniaru rhywfaint o ddirywiad cynefin, mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn gymysg. Mae'n disgwyl i'r gwasgariad barhau i fod yn sefydlog, ond mae gorsefydlogi, gorfaethu, ac ymlediad prysgwydd yn parhau i ddirywio strwythur a swyddogaeth. Mae'r cynefin mewn cyflwr anffafriol i raddau helaeth, gyda 71% o'r ardaloedd a aseswyd wedi'u nodi felly. Er bod safleoedd gwarchodedig yn dangos rhywfaint o gynnydd rheoli, nid oes digon o ddata nac ymyriadau yn y 21% o gynefin y tu allan i'r ardaloedd hyn. Heb reolaeth barhaus ac estynedig, mae'n debygol y bydd pwysau'n parhau ac yn dwysáu o dan newid parhaus yn yr hinsawdd a llygredd atmosfferig, gan gyfyngu ar y potensial ar gyfer adferiad.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o dwyni sefydlog yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n dirywio.

Llun gan: Julie Creer, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H2130

Map gwasgariad ar gyfer H2130

H2130 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 29.3594

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H2130 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H2150 Rhostir twyni datgalchedig

Y cynefin mwyaf nodweddiadol yn y twyni sefydlog datgalchedig lwerydd yng Nghymru yw rhostir twyni, lle ceir grug (*Calluna vulgaris*) a grug y mêl (*Erica cinerea*), sef rhywogaethau ericoid, o blith hesgen y tywod (*Carex arenaria*). Fel arfer, gellir dod o hyd i rostir twyni mewn rhannau hŷn o dwyni lle mae calsiwm carbonad wedi'i drwytholchi, gan greu amodau asidig sy'n addas ar gyfer llystyfiant rhostir. Fe'i nodweddir gan fat trwchus o fryoffytau, gyda rhywogaethau megis *Hylocomium splendens*, *Hypnum cupressiforme* a *Pleurozium schreberi*, a gall cennau *Cladonia* fod yn drech hefyd lle ceir lefelau isel o faethynnau ac amodau sych. Mae'r cynefin yn cyfateb i fathau H11a ac H11c y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, er y gall rhostiroedd eraill nad ydynt wedi'u dosbarthu ar dywod hefyd fod o fewn y cynefin. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am rostir twyni datgalchedig, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H2150/.

Yng Nghymru, gellir dod o hyd i'r cynefin ar hyn o bryd mewn 14 sgwâr grid 10 cilometr. Mae arolygon llystyfiant diweddar wedi mapio arwynebedd amcangyfrifedig o 20.11 hectar ar gyfer y llystyfiant. Cyfanswm yr arwynebedd a gofnodwyd yn ystod 2013–2018 oedd 33.64 hectar, sy'n adlewyrchu gostyngiad o 40% neu golled o 13.53 hectar o gymharu'r asesiad hwn ag asesiadau blaenorol. Nid oes unrhyw dystiolaeth o golli neu greu'r cynefin hwn yn llwyr o fewn unrhyw sgwâr grid 10 cilometr ers y cyfnod adrodd diwethaf. Priodolir y gostyngiad a gofnodwyd i arwynebedd y cynefin i olyniaeth llystyfiant a newidiadau yn y ffordd y caiff safleoedd penodol eu rheoli.

Ystyrir bod gan bwysau parhaus mawr, sy'n cynnwys tanbori, ymlediad prysgwydd a dyddodiad nitrogen atmosfferig, effaith fawr. Ymhlith y pwysau eraill y mae gweithgareddau hamdden, rhywogaethau goresgynnol megis rhafnwydden y môr (*Hippophae rhamnoides*), a llygredd amaethyddol.

Ymhlith yr ymdrechion adfer yr ymgymerwyd â hwy o dan brosiectau megis Twyni Tywod LIFE a Dynamic Dunescapes oedd lladd gwair, cael gwared ar rywogaethau goresgynnol, a chael gwared ar brysgwydd a rhywogaethau conwydd anfrodorol. Er y gellir dod o hyd iddo mewn sawl Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), nid yw rhostir twyni datgalchedig yn nodwedd ACA hysbysedig yng Nghymru ac nid yw'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan ddefnyddio dulliau safonol.

Er gwaethaf y warchodaeth bresennol i rywfaint o'i wasgariad, mae'r cynefin yn wynebu pwysau sylweddol y mae'n disgwyl y byddant yn dwysáu oherwydd newid hinsawdd, gan effeithio ar strwythur a swyddogaeth. Mae asesiadau o gyflwr yn dangos bod yr holl safleoedd a werthuswyd fel rhan o brosiect Dynamic Dunescapes mewn cyflwr anffafriol. Ystyrir bod y duedd yn arwynebedd y cynefin yn anhysbys oherwydd diffyg data o sawl system twyni a chyfyngiadau'r arolygon sy'n bodoli eisoes. Mae'n disgwyl i lawer o'r cynefin aros mewn cyflwr anffafriol oherwydd dyddodiad nitrogen atmosfferig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o rostir twyni datgalchedig yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n dirywio.

Llun gan: Julie Creer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H2150

Map gwasgariad ar gyfer H2150

H2150 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.2011

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H2150 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H2170 Twyni gyda chorhelyg

Mae'r math hwn o gynefin yn cynnwys twyni neu rannau o dwyni lle mae'r gorhelygen (*Salix repens* ssp. *argentea*) yn drech, gan ffurfio twf prysglog amlwg ac isel. Fel arfer, mae'r gorhelygen yn tyfu mewn llaciau twyni ac o'u cwmpas, er y gall ymledu i barthau sychach ar rai safleoedd. Mae'r llystyfiant yn cyfateb i ddwy is-gymuned sychach o gymuned llaciau twyni SD16 *Salix repens – Holcus lanatus* y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol: is-gymuned SD16a *Ononis repens* ac is-gymuned SD16b *Rubus caesius*. Yn aml, gellir dod o hyd i'r gorhelygen ymhlith llystyfiant llaciau twyni gwlyb (H2190) ac mae'r ffiniau rhwng twyni gyda chorhelyg a llaciau twyni gwlyb yn aml yn wasgaredig ac yn anodd eu diffinio ar lawr gwlad. Yr enghreifftiau a ddewiswyd i gynrychioli twyni gyda chorhelyg yng Nghymru yw clystyrau o lystyfiant lle mae'r gorhelygen yn drech, gan ffurfio tyfiant amlwg, isel a phrysglog. Mae'r math hwn o lystyfiant yn tueddu i dyfu mewn sefyllfaoedd sychach mewn llaciau twyni aeddfed, ac o'u cwmpas, lle nad oes llawer o symudiad tywod wedi bod, neu ddim o gwbl, a lle mae pori'n ysgafn. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am dwyni gyda chorhelyg, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H2170/.

Gellir dod o hyd i'r cynefin mewn 18 sgwâr grid 10 cilometr yng Nghymru, o'i gymharu â'r 19 a adroddwyd yn 2013. Priodolir y gwahaniaeth hwn i ddata arolwg wedi'i ddiweddaru yn hytrach na newid gwirioneddol i'r dosbarthiad. Mae arolygon llystyfiant diweddar wedi mapio arwynebedd amcangyfrifedig o 166.27 hectar ar gyfer y llystyfiant. Ers 2001, nid oes unrhyw achosion o golli'r cynefin hwn yn llwyr neu ei greu o'r newydd o fewn sgwâr 10 cilometr. At ei gilydd, mae'r gwasgariad wedi aros yn sefydlog ers dechrau'r 1990au.

Mae'r cynefin yn wynebu pwysau mawr oherwydd tanbori, rhywogaethau estron goresgynnol megis rhafnwydden y môr (*Hippophae rhamnoides*), ac ymlediad prysgwydd brodorol sy'n peri problemau. Mae gweithgareddau hamdden, llygredd amaethyddol a dyddodiad nitrogen atmosfferig hefyd yn peri bygythiadau sylweddol. Mae newidiadau yn yr hinsawdd (cyfundrefnau tymheredd a dyddodiad) yn peri bygythiad sylweddol i gyfundrefnau hydrolegol a allai newid cyfansoddiad llystyfiant llaciau twyni. Mae bygythiadau ychwanegol o raddfa ganolig yn cynnwys rhoi'r gorau i reoli'r tir gan ddefnyddio dulliau traddodiadol, troi'r tir yn goedwigaeth, gweithgareddau milwrol, a datblygiadau seilwaith.

Mae prosiectau a ariennir yn allanol (Twyni Tywod LIFE a Dynamic Dunescapes) wedi ymgymryd â chamau cadwraeth i wella'r ffordd y caiff pori ei reoli, cael gwared ar rywogaethau goresgynnol, a thynnu tyweirch llaciau twyni i adfer hydroleg a strwythur llystyfiant. Mae'r prosiectau hefyd wedi mynd i'r afael â phryderon diogelwch megis risg ordnans heb ffrwydro ac wedi datblygu fframweithiau rheoli i gefnogi rheolaeth barhaus.

Disgwylir i wasgariad y cynefin aros yn sefydlog yn y tymor byr i dymor canolig. Gall yr arwynebedd barhau i fod yn sefydlog neu ehangu oherwydd bod llaciau sy'n aeddfedu yn gwrthbwyso colledion o weithgareddau cadwraeth. Er gwaethaf mesurau amddiffynnol, fe ddaethpwyd i'r casgliad bod pob un o'r 14 safle a aseswyd mewn cyflwr anffafriol. Os bydd y prif bwysau, megis llygredd nitrogen a newid hinsawdd, yn parhau, mae'n debygol y bydd dirywiad adeileddol yn parhau.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o dwyni gyda chorhelyg yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n dirywio.

Llun gan: Julie Creer, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H2170

Map gwasgariad ar gyfer H2170

H2170 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 1.6627

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H2170 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H2190 Llaciau twyni gwlyb

Mae llaciau twyni gwlyb yn bantiau gwlyb isel y gellir dod o hyd iddynt fel arfer rhwng cribau twyni ac maent yn nodwedd gyffredin o systemau twyni traeth cefn a thwyni tafod mwy. Mae llaciau twyni yn cael eu ffurfio pan fydd amodau gwyntog yn hwyluso sgwrio tywod, yn aml y tu ôl i gribau twyni sy'n symud ymlaen neu mewn chwythbantiau, i lawr i'r lefel trwythiad. Pan gyrhaeddir y lefel trwythiad, mae'r tywod yn dirlawn ac nid yw'n symud, gan arwain at lac â gwaelod gwastad. Yn gyffredinol, mae llaciau twyni yn profi llifogydd yn y gaeaf ac amodau llaith yn yr haf, gan gynnal cynefinoedd gwlyptir bioamrywiol. Mae lleithder y cynefin yn pennu'r fath o gymuned o lystyfiant, a all amrywio o lystyfiant arloesol cynnar ac ifanc i lystyfiant llaciau sefydledig ac aeddfed. O ganlyniad, mae llystyfiant llaciau twyni gwlyb yn gymhleth ac yn cwmpasu sawl cymuned y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Mae llaciau twyni gwlyb yn hynod gyfoethog o ran y rhywogaethau sy'n byw ynddynt ac yn gynefinoedd arbenigol. Yn aml, maent yn cynnwys y gorhelygen (*Salix repens*), ond mae'r math hwn o gynefin yn eithrio llystyfiant lle mae'r gorhelygen yn drech (is-gymunedau a a b SD16). Mae'r is-gymunedau sychach hyn yn dod o dan y cynefin twyni gyda chorhelyg (H2170). Fodd bynnag, mae'r ffin rhwng H2170 ac H2190 braidd yn aneglur. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am laciau twyni gwlyb, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H2190/.

Yng Nghymru, mae camau olyniaethol arloesol a chynnar llaciau twyni yn bwysig ar gyfer cynnal poblogaethau rhywogaethau Atodiad II S1395 Petal-lys (*Petalophyllum ralfsii*) ac S1903 Tegeirian y fign galchog (*Liparis loeselii*) dros yr hirdymor.

Ar hyn o bryd, gellir dod o hyd i'r cynefin mewn 27 sgwâr grid 10 cilometr ledled Cymru. Mae'r cynnydd hwn yn y dosbarthiad o 25 i 27 sgwâr grid o ganlyniad i ddata arolwg gwell yn hytrach na newid gwirioneddol yn y gwasgariad. Mae arolygon diweddar o lystyfiant wedi mapio arwynebedd amcangyfrifedig o 374.83 hectar ar gyfer y llystyfiant. Bu cynnydd cyffredinol o 51.88 hectar (13.8%) o ran yr arwynebedd ers yr asesiad diwethaf.

Ymhlith y prif bwysau parhaus sydd ag effaith uchel y mae tanbori, llygredd dŵr wyneb, rhywogaethau estron goresgynnol, rhywogaethau brodorol sy'n peri problemau, a dyddodiad nitrogen atmosfferig. Mae gweithgareddau hamdden megis mynediad oddi ar y llwybr, gwersylla a chynnau tanau yn cyfrannu'n sylweddol at ddirywiad y cynefin. Disgwylir i newidiadau mewn tymheredd a glawiad a ysgogir gan newid hinsawdd newid cyfansoddiad rhywogaethau a strwythur y cynefin.

Mae prosiectau a ariennir yn allanol (Twyni Tywod LIFE a Dynamic Dunescapes) wedi ymgymryd â chamau cadwraeth i wella'r ffordd y caiff pori ei reoli, cael gwared ar rywogaethau goresgynnol, a thynnu tyweirch llaciau twyni i adfer hydroleg a strwythur llystyfiant. Mae'r prosiectau hefyd wedi mynd i'r afael â phryderon diogelwch megis risg ordnans heb ffrwydro ac wedi datblygu fframweithiau rheoli i gefnogi rheolaeth barhaus.

Er nad yw'n debygol y bydd y dosbarthiad yn newid yn sylweddol, mae'n disgwyl y bydd arwynebedd y cynefin yn lleihau oherwydd sefydlogi a newidiadau hydrolegol. Mae pob safle a aseswyd mewn cyflwr anffafriol ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd pwysau megis dyddodiad nitrogen a newid hinsawdd yn dwysáu. Mae adferiad yn y dyfodol yn dibynnu ar reolaeth effeithiol i gynnal prosesau geomorffolegol dynamig a chynefinoedd olyniaethol cynnar.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o laciau twyni gwlyb yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n dirywio.

Llun gan: Isabelle Carter, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H2190

Map gwasgariad ar gyfer H2190

H2190 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 3.7483

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H2190 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

6.2 Cynefinoedd dŵr croyw

Llun gan: Tristan Hatton-Ellis, Cyfoeth Naturiol Cymru

H3130 Merddyfroedd oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant *Littorelletea uniflorae* a/neu *Isoëto-Nanojuncetea* ('Llynnoedd a phyllau dŵr clir â lefelau isel o faethynnau gyda chorlystyfiant Alpaidd')

H3140 Dyfroedd oligo-mesotroffig caled gyda llystyfiant benthig o *Chara* spp. ('Llynnoedd a phyllau clir, llawn calch gyda rhawn yr ebol')

H3150 Llynnoedd ewtroffig naturiol gyda llystyfiant tebyg i *Magnopotamion* neu *Hydrocharition* ('Llynnoedd a phyllau maeth-gyfoethog yn naturiol gyda dyfrllys â dail mawr')

H3160 Llynnoedd a phyllau dystroffig naturiol ('Llynnoedd a phyllau asidaidd wedi'u staenio gan fawn')

H3180 Tirlynnoedd

H3260 Cyrsiau dŵr o lefelau gwastad i fynyddig gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* ('Afonydd â chrafanc y dŵr a brigwlydd')

H3130 Llynnoedd dŵr clir â lefelau isel o faethynnau gyda chorlystyfiant Alpaidd

Mae'r cynefin hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o lynnoedd a phyllau ag alcalinedd isel i gymedrol a, phan fyddant mewn cyflwr da, lefelau cyfatebol isel o faethynnau. Mae hyn yn cynnwys llynnoedd mynyddoedd, llynnoedd ffosydd rhewlifol dwfn, a llynnoedd bas ar ymylon ucheldirol. Mae'r cynefin yn cynnal planhigion rhosglwm sy'n gwrthsefyll tonnau megis y gwair merllyn (*Isoetes lacustris*), y feistonnell ferllyn (*Littorella uniflora*) a bidoglys y dŵr (*Lobelia dortmanna*), gyda rhywogaethau eraill megis myrdd-ddail blodau bob yn ail (*Myriophyllum alterniflorum*) a'r chwysigenddail bach (*Utricularia minor*) mewn lleoliadau sydd wedi'u cysgodi ychydig yn fwy. Mae rhywogaethau salmonidau yn drech yn y gymuned bysgod, gan gynnwys torgoch yr Arctig (*Salvelinus alpinus*) weithiau neu'r gwyniad (*Coregonus lavaretus*), ac mae'r cynefin yn hanfodol ar gyfer llyriad-y-dŵr arnofiol (*Luronium natans*).

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y cynefin hwn, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H3130/.

Mae'r cynefin yn eang ei wasgariad ar ucheldiroedd gogledd a chanolbarth Cymru ac o'u cwmpas, a chyda gwasgariad mwy lleol mewn mannau eraill. Mae dau is-fath: is-fath ag alcalinedd isel sy'n brin ei rywogaethau, ac is-fath mwy amrywiol ond prinnach ag alcalinedd cymedrol. Mae cyfanswm yr arwynebedd tua 19.83 cilometr sgwâr, gyda 14.47 cilometr sgwâr o lynnoedd ag alcalinedd isel a 5.36 cilometr sgwâr o lynnoedd ag alcalinedd cymedrol. Ni fu unrhyw newid sylweddol diweddar na hirdymor o ran y gwasgariad na'r arwynebedd yng Nghymru. Fodd bynnag, dim ond 16.9% o'r cynefin oedd mewn cyflwr da, sef gostyngiad ers yr asesiad blaenorol. Mae hyn wedi cael ei ysgogi gan ymlediad rhywogaethau goresgynnol.

Ymhlith y prif bwysau y mae gorfaethu o amaethyddiaeth a charthffosiaeth, rhywogaethau o blanhigion goresgynnol megis *Elodea* spp. a *Crassula helmsii*, ac asideiddio yn y gorffennol o lygredd aer. Mae newidiadau hanesyddol a pharhaus megis gosod argaeau, tynnu dŵr, a defnyddio cronfeydd dŵr wedi addasu llawer o lynnoedd yn ffisegol. Mae'n disgwyl i newid hinsawdd waethygu'r pwysau presennol ac ysgogi newidiadau ar lefel yr ecosystem.

Mae rheolaethau llygredd aer a dirywiad diwydiannol wedi lleihau llygredd aer, gan arwain at welliannau mewn ansawdd dŵr mewn llynnoedd ag alcalinedd isel. Mae arferion rheoli coedwigaeth ac amaethyddiaeth hefyd yn helpu i leihau asideiddio a llygredd maethynnau. Mae ymdrechion i reoli rhywogaethau goresgynnol yn mynd rhaddynt, ond hyd yn hyn mae rheolaeth wedi bod yn gyfyngedig o ran pa mor effeithiol ydyw. Mae dynodi ardaloedd gwarchodedig newydd a mesurau addasu i'r hinsawdd sy'n safle-benodol hefyd yn cael eu gweithredu.

Mae'n disgwyl y bydd y cynefin yn barhau i fod yn eang ei wasgariad yng Nghymru, heb unrhyw ddirywiad rhagweladwy o ran ei wasgariad na'i arwynebedd. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon ar gyfer strwythur a swyddogaeth yn y dyfodol yn wael oherwydd rhywogaethau goresgynnol a phwysau amaethyddol, yn enwedig y pwysau hynny sy'n effeithio ar yr is-fath ag alcalinedd cymedrol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lynnoedd dŵr clir â lefelau isel o faethynnau gyda chorlystyfiant Alpaidd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Lin Baldock, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H3130

Map gwasgariad ar gyfer H3130

H3130 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 19.83

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn gostwng

H3130 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H3140 Llynnoedd a phyllau clir, llawn calch gyda rhawn yr ebol

Mae'r cynefin hwn yn cynnwys llynnoedd a phyllau dŵr sy'n llawn calch â lefelau isel i gymedrol o faethynnau a dŵr clir iawn. Mae'r rhain yn aml yn cael eu cyflenwi gan ddŵr daear. Yn bennaf, mae llystyfiant tanddwr yn cynnwys dolydd â chrynodiadau dwys o rawn yr ebol (*Chara*), math o alga cymhleth sy'n darparu cynefin i bysgod ifanc ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn ac sy'n cyfyngu ar ryddhad maethynnau o waddodion. Yn aml, mae llystyfiant wedi'i orchuddio â marlau calchaidd a waddodir yn ystod ffotosynthesis yn y dyfroedd alcalïaidd hyn.

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lynnoedd a phyllau dŵr clir, llawn calch gyda rhawn yr ebol, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H3140/.

Mae gan y cynefin hwn ddosbarthiad gwasgaredig yng Nghymru sy'n gysylltiedig â daeareg calchfaen. Dim ond 17 sgwâr 10 cilometr sydd â chofnodion o'r cynefin, gyda'r mwyaf yn cwmpasu ardaloedd o 1 hectar neu lai. Nid oes unrhyw newid hysbys wedi bod yn y gwasgariad na'r arwynebedd yn ystod y cyfnod cyfredol. Fodd bynnag, mae problemau difrifol gyda strwythur a swyddogaeth y cynefin, sy'n adlewyrchu pwysau oherwydd maethynnau a rhywogaethau goresgynnol. Dim ond 4% o'r cynefin yng Nghymru sy'n cael ei ystyried yn gynefin mewn cyflwr ffafriol ar hyn o bryd. Mae gwaith monitro yn cwmpasu dros 90% o'r arwynebedd cyfeirio ffafriol, gan ganolbwyntio ar gyfansoddiad rhywogaethau ac ansawdd dŵr.

Ymhlith y prif bwysau y mae llygredd maethynnau, rhywogaethau goresgynnol, a rheoli pysgodfeydd. Mae llygredd yn broblem gyfredol a hanesyddol, ac mae un safle mawr wedi'i effeithio gan ffosfforws o'r gorffennol mewn gwaddodion. Mae planhigion dyfrol goresgynnol ac anifeiliaid a gyflwynwyd megis y carp (*Cyprinus carpio*) a gŵydd Canada (*Branta canadensis*) hefyd yn cyfrannu at straen ecolegol. Ymhlith y bygythiadau yn y dyfodol y mae newidiadau a achosir gan yr hinsawdd fel codiad yn lefel y môr ac ymlediad rhywogaethau goresgynnol.

Mae mesurau cadwraeth effeithiol yn gyfyngedig. Ymhlith y mesurau presennol y mae rheoli maethynnau drwy reoliadau amaethyddol, cael gwared ar rywogaethau goresgynnol, ac adfer hydrolegol.

Mae dyfodol y cynefin yn ansicr oherwydd ei ddosbarthiad cyfyngedig a'i amlygiad i lawer o bwysau. Mae llawer o safleoedd yn wynebu dirywiad swyddogaethol yn hytrach na cholled lwyr, gan symud tuag at fod yn fathau eraill o lynnoedd. Er gwaethaf rhywfaint o welliant yn y ffordd y caiff dalgylchoedd a physgodfeydd eu rheoli, mae'r prif bwysau yn parhau i fod yn broblem ac mae'r rhagolygon cyffredinol yn wael.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lynnoedd a phyllau clir, llawn calch gyda rhawn yr ebol yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Ben Goldsmith, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H3140

Map gwasgariad ar gyfer H3140

H3140 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.855

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn gostwng

H3140 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H3150 Llynnoedd a phyllau maeth-gyfoethog yn naturiol gyda dyfrllys â dail mawr

Mae'r cynefin hwn yn cynnwys llynnoedd a phyllau maeth-gyfoethog, gan arwain at lefelau uchel o gynhyrchiant a bioamrywiaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yn bennaf yn iseldir Cymru, ar ddaeareg feddal, niwtral i alcalïaidd, ac yn aml maent yn cynnal rhywogaethau amrywiol ag is-gynefinoedd eraill megis gwelyau lili'r dŵr a siglenni cyrs ymylol. Mae dyfrllys â dail tanddwr tryloyw mawr megis y dyfrllys disglair (*Potamogeton lucens*) a'r dyfrllys trydwll (*P. perfoliatus*) yn nodweddiadol o'r cynefin.

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lynnoedd naturiol sy'n faeth-gyfoethog a lle mae dyfrllys â dail mawr yn drech, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H3150/.

Mae'r cynefin hwn wedi'i wasgaru'n eang ar draws iseldir Cymru, yn enwedig ar Ynys Môn. Dim ond llynnoedd neu byllau dŵr ynysig, sydd yn aml wedi diraddio, sydd mewn llawer o'r sgwariau. Nid oes unrhyw dystiolaeth o grebachiad o ran y gwasgariad na'r arwynebedd, ac nid oes unrhyw lynnoedd ewtroffig sylweddol wedi'u colli. Fodd bynnag, nid oes yr un o'r cynefinoedd a arolygwyd mewn cyflwr da, ac mae gwaith monitro'n dangos dirywiad eang oherwydd gorfaethu (ewtroffeiddio), gorchudd isel o rywogaethau nodweddiadol, ac effeithiau rhywogaethau goresgynnol.

Ymhlith y prif bwysau y mae llygredd maethynnau amaethyddol a maethynnau o ffynonellau cymysg, newid hinsawdd, a rhywogaethau goresgynnol. Mae dŵr ffo amaethyddol a gweithgarwch tynnu dŵr yn cyfrannu'n sylweddol at ddirywiad o ran ansawdd y dŵr. Mae newid hinsawdd yn gwaethygu'r effeithiau a achosir gan faethynnau trwy dywydd eithafol a thymhorau tyfu hirach. Mae planhigion dyfrol goresgynnol yn diraddio ansawdd cynefinoedd ymhellach.

Mae'r prif fesurau yn anelu at leihau maethynnau o amaethyddiaeth a ffynonellau cymysg, a rheoli rhywogaethau goresgynnol. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn helpu i leihau pwysau o faethynnau amaethyddol. Efallai y bydd angen technegau adfer, gan gynnwys carthu neu hyd yn oed driniaeth gemegol lle mae gwaddol maethynnau yn ddifrifol. Anogir dulliau ar raddfa dalgylch a phrosiectau cydweithredol gan berchnogion tir. Ymhlith y strategaethau addasu y mae adfer dalgylchoedd afonydd a llynnoedd i leihau cyflenwad maethynnau a gwella'r gallu i wrthsefyll effeithiau hinsawdd. Mae angen ymchwil ar frys i wella'r ffordd y caiff rhywogaethau goresgynnol eu rheoli.

Disgwylir i'r gwasgariad a'r arwynebedd barhau i fod yn sefydlog yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y strwythur a'r swyddogaeth yn dirywio heb ymyrraeth sylweddol. Bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd yn rhyngweithio â lefelau uchel o faethynnau, gan waethygu amodau ecolegol o bosibl. Mae Ynys Môn, ardal graidd y cynefin, mewn perygl arbennig o ganlyniad i ddwysáu amaethyddol. Er bod y statws ecolegol presennol yn well nag yr hyn a awgrymir gan lefelau y maethynnau, dim ond trwy leihau'r mewnbwn o faethynnau a thrwy reoli rhywogaethau goresgynnol yn well y mae adferiad yn bosibl. Mae angen rhaglen strategol i adfer llynnoedd er mwyn gwella cyflwr a gwydnwch cynefinoedd.

Roedd yr asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lynnoedd a phyllau maeth-gyfoethog yn naturiol gyda dyfrllys â dail mawr wedi nod bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–gwael. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–gwael. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Tristan Hatton-Ellis, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H3150

Map gwasgariad ar gyfer H3150

H3150 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 8.64

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H3150 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H3160 Llynnoedd a phyllau asidaidd wedi'u staenio gan fawn

Mae'r math hwn o gynefin yn cynnwys cyrff dŵr a nodweddir gan ddŵr asidaidd ond byfferog â lliw brown a achosir gan asidau hwmig o'r mawn cyfagos. Gellir dod o hyd iddynt mewn dalgylchoedd lle mae mawndiroedd yn drech ac yn aml maent yn gysylltiedig â gorgorsydd, gyda llawer o'r safleoedd mewn mannau anghysbell. Oherwydd clirder gwael y dŵr ac is-haenau ansefydlog, mae'r llynnoedd hyn fel arfer yn cynnal bioamrywiaeth isel o blanhigion, er y gall rhywogaethau megis migwyn, lilïau'r dŵr (*Nymphaea alba* a *Nuphar* spp.), y frwynen oddfog (*Juncus bulbosus*) a chwysigenddail (*Utricularia*) fod yn bresennol. Mae rhai llynnoedd yn ddi-bysgod, tra bod eraill yn cynnal brithyllod a/neu lysywod, a gall systemau di-bysgod gynnal cymunedau planctonig ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn unigryw.

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lynnoedd a phyllau asidaidd wedi'u staenio gan fawn, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H3160/.

Mae llynnoedd dystroffig yn brin yng Nghymru ac mae ganddynt ddosbarthiad gwasgaredig sy'n adlewyrchu dosbarthiad mawndiroedd. Fe'u ceir yn bennaf mewn ardaloedd ucheldir megis Migneint ac Elenydd, a cheir enghreifftiau ynysig megis Llyn Llech Owain yn Sir Gaerfyrddin. Mae dau ar bymtheg o enghreifftiau hysbys yn bodoli, a'r mwyaf yw Llyn Fyrddon Fawr, sy'n 12 hectar. Nid oes unrhyw newid hysbys wedi bod yn arwynebedd na dosbarthiad y cynefin hwn ers 2019. Mae data ar strwythur a swyddogaeth yn wael, ond mae'n awgrymu bod tua hanner arwynebedd y cynefin mewn cyflwr da.

Ymhlith y prif bwysau y mae draenio mawndiroedd cyfagos ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth, ac asideiddio a achosir gan lygredd aer. Mae draenio coedwigoedd hefyd yn cynyddu trawsgludo gwaddodion a llygryddion, tra gall dyddodiad nitrogen beri risgiau ewtroffeiddio ychwanegol. Mae effeithiau etifeddol dyddodiad asid yn parhau, er bod adferiad wedi dechrau oherwydd gostyngiadau mewn allyriadau. Mae'n disgwyl i fygythiadau yn y dyfodol adlewyrchu'r pwysau presennol, gydag adnoddau cyfyngedig a risgiau gweinyddol yn effeithio ar orfodi.

Mae rhai camau gweithredu ar raddfa fach wedi'u rhoi ar waith, ond mae angen rhaglenni cynhwysfawr sy'n cynnwys blocio ffosydd ac ailddylunio coedwigoedd. Mae camau i reoli asideiddio, sydd wedi bod ar waith ers tua dau ddegawd, wedi cyfrannu at yr adferiad graddol o'r cynefin. Ymhlith y prif fesurau y mae adfer gorgorsydd mewn dalgylchoedd llynnoedd i sefydlogi lefelau dŵr a lleihau erydiad mawn. Mae ymdrechion cadwraeth o dan gytundebau llygredd aer hirdymor a dirywiad diwydiannol hefyd wedi gwella ansawdd y dŵr.

Ystyrir bod gwasgariad ac arwynebedd llynnoedd dystroffig yn y dyfodol yn sefydlog, er y gallai enghreifftiau iseldirol fod mewn perygl o olyniaeth, draenio neu orfaethu. Mae heriau technegol a gweithredol yn parhau i effeithio ar y gwaith o adfer strwythur a swyddogaeth, ac mae newid hinsawdd yn peri bygythiad ychwanegol. Serch hynny, mae'r mwyaf o'r safleoedd mewn cyflwr rhesymol, ac mae adferiad yn realistig, gyda mesurau cynefin yn canolbwyntio ar adfer dalgylchoedd. Gellid cyflawni statws cadwraethol gwell mewn safleoedd hollbwysig drwy brosiectau adfer mawndiroedd wedi'u targedu.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lynnoedd a phyllau asidaidd wedi'u staenio gan fawn yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn gwella, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Ben Goldsmith ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H3160

Map gwasgariad ar gyfer H3160

H3160 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.65

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn cynyddu

H3160 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn gwella

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H3180 Tirlynnoedd

Cyrff dŵr dros dro yw tirlynnoedd sy'n ffurfio mewn tirweddau calchfaen carstig oherwydd mewnlif dŵr daear trwy nodweddion megis llyncdyllau. Pan fydd lefelau dŵr daear yn uchel, mae'r pant yn gorlifo, gan greu pwll neu lyn bach, sy'n sychu'n raddol yn ystod cyfnodau sych. Mae amseroedd ail-lenwi yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar faint y tirlyn a nodweddion y dyfrhaen sylfaenol. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal ystod amrywiol o anifeiliaid di-asgwrn-cefn, amffibiaid a phlanhigion gwlyptiroedd, ond nid ydynt yn cynnal poblogaethau o bysgod.

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am dirlynnoedd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H3180/.

Mae gan Gymru un tirlyn, Pant-y-llyn yn Sir Gaerfyrddin, sef yr unig enghraifft y gwyddys amdano ym Mhrydain. Nid oes unrhyw newid wedi bod yng ngwasgariad nac arwynebedd y cynefin dros gyfnodau byr a chyfnodau hirdymor. Mae'r arwynebedd presennol yn hafal i'r arwynebedd cyfeirio ffafriol, ac nid oes unrhyw newidiadau wedi bod yn y patrwm dosbarthiad ers y cyfnod adrodd blaenorol. Credir bod y strwythur a'r swyddogaeth yn ffafriol, ond nid oes unrhyw ddata monitro diweddar.

Ystyrir bod yr holl bwysau a bygythiadau a nodwyd yn bwysig iawn oherwydd prinder eithafol y cynefin. Ymhlith y pwysau cyfredol y mae ymlediad prysgwydd goresgynnol, sy'n cael ei reoli trwy waith clirio cyfnodol, a brigiadau maethynnau achlysurol sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â lefelau dŵr isel. Ymhlith y bygythiadau posibl yn y dyfodol y mae ailagor neu ddwysáu chwareli calchfaen cyfagos a digwyddiadau llygredd megis gollyngiadau olew neu slyri o'r ffordd gyffiniol. Mae rhywogaethau goresgynnol, gan gynnwys *Crassula helmsii*, sy'n peri risg uchel, hefyd yn fygythiad.

Mae camau cadwraeth yn targedu mesurau rheoli prysgwydd, mesurau i atal risgiau, a bioddiogelwch. Caiff ymlediad prysgwydd ei reoli'n weithredol, tra bod mesurau ar waith i atal llygredd o ddŵr ffo o'r ffordd ac i liniaru'r risg o gyflwyno rhywogaethau goresgynnol. Mae'r cynefin yn elwa ar warchodaeth gyfreithiol gref, gan gael ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), a Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG).

Mae statws y tirlyn ym Mhant-y-llyn yn y dyfodol yn dibynnu'n llwyr ar barhau i weithredu mesurau reoli'r safle mewn modd effeithiol. Er bod y cynefin wedi'i warchod yn gyfreithiol, mae angen gwaith monitro wedi'i ddiweddaru i asesu'r cyflwr a'r risgiau'n well. Mae gwelliannau posibl drwy fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cynnwys cynllunio wrth gefn, addasiadau i sut mae'r ffordd yn cael ei draenio, a gwelliannau bioddiogelwch. Er gwaethaf y diffyg bygythiadau penodol i'w wasgariad neu ei arwynebedd, mae'r cynefin yn parhau i fod yn agored i niwed oherwydd ei fod yn bodoli'n unig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o dirlynnoedd ar lefel Cymru yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Gareth Farr

Map dosbarthiad ar gyfer H3180

Map gwasgariad ar gyfer H3180

H3180 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.0066

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H3180 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H3260 Afonydd gyda chrafanc y dŵr a brigwlydd

Mae'r cynefin hwn yn cynnwys afonydd â graddiant cymedrol a nentydd mwy gyda dŵr clir a dilyniant rifflau a phyllau bob yn ail dros dywod sefydlog, gro a choblau sy'n cynnal cymuned amrywiol o blanhigion. Mae'r afonydd hyn yn cynnwys gwelyau planhigion dyfrol tanddwr helaeth, yn enwedig crafanc y dŵr (*Ranunculus* isgenws *Batrachium*) a brigwlydd (*Callitriche* spp.). Mae'r cynefin yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau, gan gynnwys y brithyll, yr eog, y llysywen bendoll, y wangen/herlyn, y dyfrgi (*Lutra lutra*), y cimwch afon crafanc wen (*Austropotamobius pallipes*), y fisglen berlog (*Margaritifera margaritifera*), a phryf y cerrig prin *Isogenus nubecula*.

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am afonydd gyda chrafanc y dŵr a brigwlydd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H3260/.

Mae'r math hwn o afon yn eang ei wasgariad yng Nghymru. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod yn y dosbarthiad na'r gwasgariad dros y degawd diwethaf. Mae gwaith modelu diweddar yn amcangyfrif bod 14.9 cilometr sgwâr o'r cynefin hwn yng Nghymru, er bod angen gwiriadau ansawdd pellach. Mae asesiadau diweddar yn brin, ond nid ystyrir bod unrhyw ran o'r cynefin mewn cyflwr da. Bu sawl adroddiad o ostyngiad yng ngorchudd *Ranunculus* yn afon Gwy ac afon Wysg, ond mae diffyg data cymharol i asesu hyn.

Mae afonydd gyda chrafanc y dŵr a brigwlydd yn destun llawer o bwysau, gan gynnwys addasiadau ffisegol i gyrff dŵr, gweithgarwch tynnu dŵr, ac addasiadau i lif. Mae llygredd o amaethyddiaeth, coedwigaeth a ffynonellau trefol yn cyfrannu at ewtroffeiddio a gwaddodi, gan ddirywio cymunedau planhigion. Mae rhywogaethau goresgynnol megis clymog Japan (*Fallopia japonica*), jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*), y cimwch afon arwyddol (*Pacifastacus leniusculus*), a chranc manegog Tsieina (*Eriocheir sinensis*) yn peri mwyfwy o broblemau. Mae newid hinsawdd yn arwain at gyfundrefnau llif newidiol, eithafion tymheredd, a llifogydd, sydd oll yn effeithio'n negyddol ar strwythur y cynefin a biota.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae ymdrechion adfer afonydd, mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo, rheoli rhywogaethau goresgynnol, a phrosiectau lleihau llygredd dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau partner. Mae'r mentrau hyn wedi gwella neu adfer 854 cilometr o amgylchedd afonydd rhwng 2020 a 2024, gan gynnwys gwella gorchudd coed ar gyfer rheoleiddio thermol, gwahardd da byw i leihau siltio, ac adfer morffolegol i wella gwydnwch.

Mae'n disgwyl i wasgariad ac arwynebedd y cynefin hwn barhau i fod yn sefydlog, ond mae ansawdd y cynefin dan fygythiad. Mae pwysau, gan gynnwys llygredd, dirywiad cynefin, rhywogaethau goresgynnol, a newid hinsawdd, yn parhau i effeithio ar y cynefin yn gyflymach na gallu camau adfer i'w lliniaru. Er bod y posibilrwydd o adfer yn bosibilrwydd gwirioneddol, mae'r camau gweithredu presennol yn araf wrth esgor ar unrhyw fuddion. Heb well rheolaeth, mae'n debygol y bydd ansawdd yn dirywio a rhywogaethau nodweddiadol yn cael eu colli, gan beryglu cyflwr hirdymor y cynefin.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o afonydd gyda chrafanc y dŵr a brigwlydd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Jon Turner, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H3260

Map gwasgariad ar gyfer H3260

H3260 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 20

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H3260 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

6.3 Cynefinoedd glaswelltir

Llun gan: Stuart Smith, Cyfoeth Naturiol Cymru

H6150 Glaswelltiroedd alpaidd a boreal silicaidd (‘Glaswelltiroedd asidig mynyddig’)

H6170 Glaswelltiroedd calchaidd alpaidd ac is-alpaidd

H6210 Glaswelltiroedd a gweddau tir prysg sych lled-naturiol: ar is-haenau calchaidd (*Festuco-Brometalia*) (‘Glaswelltiroedd a thiroedd prysg sych lled-naturiol ar sialc neu galchfaen’)

H6230 Glaswelltir *Nardus* cyfoethog ei rywogaethau, ar is-haenau silicaidd mewn ardaloedd mynyddig (ac ardaloedd wrth droed mynyddoedd yn Ewrop gyfandirol) (‘Glaswelltir *Nardus* cyfoethog ei rywogaethau’)

H6410 Dolydd gwellt y gweunydd ar briddoedd calchaidd, mawnog neu gleiog llawn silt (*Molinion caeruleae*) (‘Dolydd gwellt y gweunydd’)

H6430 Cymunedau llystyfiant tal hydroffilig ar hyd yr ymylon ar wastadeddau ac ar lefelau mynyddig i lefelau alpaidd (‘Cymunedau llystyfiant tal’)

H6510 Gweirgloddiau’r iseldir (*Alopecurus pratensis*, *Sanguisorba officinalis*) (‘Gweirgloddiau’r iseldir’)

H6130 Glaswelltiroedd metelaidd

Mae glaswelltiroedd metelaidd yn gynefin hynod brin yng Nghymru, wedi'i gyfyngu i briddoedd a chreigiau sy'n llawn metelau trwm. Mae'r cynefin yn fyr, yn agored, ac yn aml yn brin o lystyfiant, gan gynnal planhigion fasgwlaidd, bryoffytau a chennau a all oddef lefelau uchel o fetelau trwm (metaloffitau) fel arfer. Yng Nghymru, mae'n gysylltiedig â chloddio hanesyddol ar gyfer metelau trwm, gan gynnwys ar gyfer plwm, sinc a chopr, a gellir dod o hyd iddo bellach yn bennaf ar bentyrrau sborion ac mewn sorod. Gellir dod o hyd i'r cynefin hefyd ar y lefel leol iawn ar ro afonydd dan ddylanwad dŵr llawn metelau. Mae wedi'i gyfyngu'n ddaearyddol i raddau helaeth, ar yr iseldir yn gyffredinol, ond gyda rhai digwyddiadau ucheldir ar y lefel leol, a gellir ei bori ynteu peidio. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am laswelltiroedd metelaidd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H6130/.

Mae'r cynefin wedi'i nodi mewn amrywiol leoliadau ledled Cymru gan ddefnyddio data o 17 ffynhonnell, gan gynnwys arolygon wedi'u targedu a chofnodion achylysurol. Mae'n cynnwys cymuned OV37 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, yn ogystal â llystyfiant nad yw dan gwmpas dosbarthiadau llystyfiant ffurfiol. Nid yw rhestr System Gwybodaeth Ddaearyddol a gynhyrchwyd o'r data hyn wedi'i diweddaru ar ôl 2018, er i'r gwasgariad gael ei ddiwygio i gynnwys un cofnod sgwâr 10 cilometr newydd. Ystyrir bod cyfanswm yr arwynebedd o 74.53 hectar yn danamcangyfrif oherwydd cyfyngiadau megis cofnodion ar sail pwyntiau a safleoedd mwyngloddiau bach nad ydynt wedi'u mapio. Mae data monitro yn dangos gostyngiadau ar raddfa fach mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a safleoedd anstatudol, ond mae'n anodd mesur newidiadau cyffredinol.

Ymhlith y pwysau uchel eu statws y mae tanbori, rhywogaethau estron goresgynnol (yn enwedig conwydd), rhywogaethau brodorol sy'n peri problemau megis yr eithin (*Ulex* sp.), llygredd aer o ddyddodiad nitrogen, ac olyniaeth naturiol i lystyfiant mwy caeedig. Ymhlith y pwysau lefel ganolig y mae rhoi'r gorau i reoli tir trwy ddulliau traddodiadol, gorbori, gweithgareddau mwyngloddio ac echdynnu, a defnydd hamdden.

Mae mwyafrif arwynebedd y cynefin (73%) o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), gyda 29% hefyd wedi'i ddynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Fodd bynnag, dim ond 49% o unedau SoDdGA sydd â chamau rheoli gweithredol neu gamau rheoli sydd wedi'u cwblhau. Roedd cwmpas cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir yn y gorffennol wedi'i gyfyngu i 9% o arwynebedd y cynefin. Ymhlith y prif fesurau sydd ar waith y mae rheoli rhywogaethau goresgynnol a rhywogaethau brodorol sy'n peri problemau, atal trosi cynefin, a lleihau'r defnydd o wrtaith – pob un wedi'i sgorio'n uchel. Ymhlith y mesurau eraill â sgôr ganolig y mae addasu dulliau pori, lliniaru llygredd, ac atal coedwigo. Mae mesurau ansawdd aer yn bodoli, ond nid ydynt wedi atal lefelau amonia rhag codi ar y lefel leol.

Ni ddisgwylir i wasgariad y cynefin ehangu oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol, ac mae'r safleoedd bach presennol yn parhau i fod dan fygythiad. Mae'n debygol y bydd yr arwynebedd yn parhau i ddirywio oherwydd pwysau megis olyniaeth a chadwraeth annigonol. Mae cyflwr y cynefin yn wael ar y safleoedd statudol a aseswyd, ac mae data cyfyngedig iawn ar gael ar gyfer safleoedd anstatudol. Mae llygredd nitrogen uchel yn effeithio ar arwynebedd cyfan y cynefin, ac er bod rhai camau cadwraeth ar waith, mae'r rhagolygon cyffredinol ar gyfer strwythur a swyddogaeth yn parhau i fod yn negyddol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o laswelltiroedd metelaidd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Stuart Smith, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H6130

Map gwasgariad ar gyfer H6130

H6130 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.7453

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H6130 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H6150 Glaswelltiroedd asidig mynyddig

Yn y DU, glaswelltiroedd asidig mynyddig yw'r math o lystyfiant mwyaf helaeth yn y parth mynyddig uchel, gan ffurfio darnau mawr parhaus ar lwyfandiroedd copaon a chribau uwch. Yng Nghymru, gellir dod o hyd i'r ardaloedd mwyaf datblygedig a'r ardaloedd mwyaf o ran eu maint yn Ardal Cadwraeth Arbennig / Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ACA/SoDdGA) Eryri, yn enwedig ar fynyddoedd y Carneddau a'r Glyderau. Mae'r cynefin yn Eryri yn profi pori trwm, ac mae'n brin ei rywogaethau ac wedi'i ddiraddio o'i gymharu â mathau tebyg o lystyfiant mewn mannau eraill yn Ynysoedd Prydain. Mae'n cynnwys cymunedau U10, U7 ac U8 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, a chymuned E1 Cyfnod 1 Birks a Ratcliffe. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am laswelltiroedd asidig mynyddig, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H6150/.

Mapiwyd y cynefin gan ddefnyddio data arolygon ucheldir y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol a gasglwyd cyn 2007, a chadarnhawyd ei bresenoldeb parhaus gan fonitro ACA yn 2010, 2017 a 2021. Mae ar ei ehangder mwyaf yn y Carneddau, gydag enghreifftiau ychwanegol yn y Glyderau ac yn ardal Pumlumon. Yr arwynebedd cyfanswm amcangyfrifedig yw 83.64 hectar. Mae gwaith monitro yn dangos bod maint y cynefin wedi parhau i fod yn sefydlog ers y 1950au, gydag asesiadau diweddar yn awgrymu nad oes unrhyw newid wedi bod o ran maint hyd at 2021.

Y prif bwysau ar y cynefin yw pori dwys gan dda byw a gweithgareddau hamdden, yn enwedig gyrru cerbydau oddi ar y ffyrdd. Ystyrir bod pori yn cael effaith fawr ac yn effeithio ar 71% o unedau SoDdGA o fewn y cynefin hwn. Mae pwysau hamdden yn gymedrol ac yn effeithio ar 8% o unedau. Mae llygredd aer o ddyddodiad nitrogen yn effeithio ar arwynebedd cyfan y cynefin, gan fynd y tu hwnt i'r llwyth critigol ar draws 100% o bolygonau cynefin sydd wedi'u mapio.

Dim ond 26% o'r camau gweithredu ar gyfer y cynefin sydd wedi'u cwblhau neu sydd ar y gweill, ac mae'r rhan fwyaf o'r cynefin (99.5%) o fewn safleoedd statudol. Mae camau cadwraeth yn canolbwyntio ar addasu arferion pori, gydag 17 o unedau rheoli yn anelu at leihau pori. Mae mesurau i fynd i'r afael â difrod gan weithgareddau hamdden a llosgi ar waith, ond mae eu cwmpas yn gyfyngedig. Roedd tua 30% o'r arwynebedd yn destun opsiynau Glastir perthnasol yn 2018, er na chofnodwyd unrhyw opsiynau Glastir rhwng 2020 a 2023. Mae polisïau ar lygredd aer ar waith, er nad ydynt yn benodol i'r cynefin.

Mae'n disgwyl i wasgariad ac arwynebedd y cynefin barhau i fod yn sefydlog yn y tymor byr, yn bennaf oherwydd ei leoliad o fewn safleoedd gwarchodedig statudol (SoDdGA/ACA). Fodd bynnag, rhagwelir y bydd ei gyflwr yn parhau i fod yn wael, yn bennaf oherwydd gorbori parhaus a lefelau uchel o nitrogen atmosfferig. Er bod arwyddion o adferiad wedi'u nodi, mae lefelau pori yn parhau i fod yn rhy uchel yn gyffredinol, ac mae 100% o'r arwynebedd yn uwch na'r trothwyon llwyth critigol ar gyfer nitrogen. Heb fesurau pellach i leihau dyddodiad nitrogen, mae'n disgwyl i lawer o'r cynefin barhau i fod mewn cyflwr anffafriol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o laswelltiroedd asidig mynyddig yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Barbara Jones

Map dosbarthiad ar gyfer H6150

Map gwasgariad ar gyfer H6150

H6150 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.84

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H6150 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H6170 Glaswelltiroedd calchaidd alpaidd ac is-alpaidd

Mae glaswelltiroedd calchaidd alpaidd ac is-alpaidd yn brin iawn yng Nghymru, wedi'u cyfyngu i silffoedd mynyddig ac wynebau creigiau o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Eryri. Mae'n laswelltir cyfoethog ei rywogaethau a nodweddir gan rywogaethau calchgar (sy'n byw mewn calch) ac mae'n cynnwys amrywiol blanhigion arctig-alpaidd, y mae gan rai ohonynt ddosbarthiad cyfyngedig iawn yng Nghymru a/neu Brydain. Mae'r cynefin yn cynnwys mathau CG12 a CG14 o'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H6170/.

Dim ond yng ngogledd Eryri y gellir dod o hyd i'r cynefin ac mae wedi'i gyfyngu i chwe lleoliad bach o fewn ACA Eryri, gan ffurfio arwynebedd cofnodedig o ddim ond 1.7 hectar. Cafodd pob darn o gynefin hysbys eu cynnwys mewn tri phrif arolwg, ac mae'n debyg bod y dosbarthiad cyffredinol yn parhau i fod yn gywir yn seiliedig ar waith monitro ACA yn 2011 a 2016. Ni chanfuwyd unrhyw newidiadau o ran gwasgariad na maint yn ystod cyfnodau monitro diweddar, er nad ymgymerwyd ag unrhyw waith monitro newydd yn ystod y cylch presennol. Mae'r gwaith monitro wedi cynnwys y prif gellïoedd, ond nid yr holl gynefin oherwydd ei natur dameidiog.

Ymhlith y prif bwysau ar laswelltiroedd calchaidd alpaidd ac is-alpaidd y mae gorbori, yn enwedig gan eifr lledwyllt, sy'n effeithio ar dair o'r chwe uned gynefin. Mae llygredd nitrogen yn yr awyr yn fygythiad lefel uchel, ac mae pob ardal o gynefin yn mynd dros drothwyon llwyth nitrogen critigol. Mae newid hinsawdd yn cyflwyno pwysau lefel ganolig trwy newidiadau tymheredd, newidiadau dyddodiad, a dirywiad cynefin posibl. Ymhlith y pwysau bach y mae sathru gan bobl a phresenoldeb helyglys Seland Newydd *Epilobium brunnescens*, sy'n blanhigyn anfrodorol, er yr ystyrir bod y rhain yn cael effaith isel ar hyn o bryd.

Mae pob cam cadwraeth hysbys ar gyfer y cynefin wedi'i nodi, ar waith, neu wedi'i gwblhau, oherwydd bod 100% o'r cynefin o fewn ardaloedd gwarchodedig statudol. Mae dau brif fath o gamau gweithredu, gyda'r nod o leihau difrod gan bori a gweithgareddau hamdden, ar waith yn y mwyaf o'r unedau rheoli. Er bod y cynefin wedi'i gynnwys yn flaenorol yng nghynllun Glastir Uwch ar gyfer rheoli pori'n well, daeth y cwmpas i ben rhwng 2020 a 2023. Cefnogir mesurau llygredd aer gan strategaethau a deddfwriaeth genedlaethol, ond mae dyddodiad nitrogen yn parhau i fod yn broblem.

Mae'n disgwyl i'r cynefin barhau i fod yn sefydlog o ran gwasgariad ac arwynebedd dros y tymor byr, ac mae dulliau rheoli'r safle yn cael effaith negyddol gyfyngedig. Fodd bynnag, nid yw bygythiadau hirdymor o ddyddodiad nitrogen a newid hinsawdd yn cael eu lliniaru gan y mesurau presennol. Heb fesurau pellach i leihau dyddodiad nitrogen, mae'n disgwyl i lawer o'r cynefin fod mewn cyflwr anffafriol yn 2035 oherwydd gorlwytho maethynnau. Ystyrir bod monitro yn y dyfodol yn hanfodol oherwydd sensitifrwydd a natur dameidiog y cynefin.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o laswelltiroedd calchaidd alpaidd ac is-alpaidd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n dirywio.

Llun gan: Kate Surrey

Map dosbarthiad ar gyfer H6170

Map gwasgariad ar gyfer H6170

H6170 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.017

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H6170 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H6210 Glaswelltiroedd a thiroedd prysg sych lled-naturiol ar sialc neu galchfaen

Mae glaswelltiroedd a thiroedd prysg sych lled-naturiol ar sialc neu galchfaen yn laswelltiroedd sych iseldirol nodweddiadol sy'n gyfoethog eu rhywogaethau ar briddoedd llawn calsiwm dros greigwelyau calchfaen. Fe'u nodweddir gan rywogaethau planhigion uwch ac is calchgar (sy'n byw mewn calch), ac maent yn amrywio o lastiroedd byr ac agored i enghreifftiau cymharol dal. Yng Nghymru, mae cymunedau CG1 i CG7 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol wedi'u cynnwys, ynghyd â rhai enghreifftiau o CG10 a chynefin llystyfiant calchaidd ar hyd ymylon. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am laswelltiroedd a thiroedd prysg sych lled-naturiol ar sialc neu galchfaen, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H6210/.

Mae gan y cynefin ddosbarthiad lleol yng Nghymru, wedi'i gyfyngu i'r gogledd a'r de, yn enwedig ardaloedd arfordirol, lle ceir brigiadau o greigwelyau calchfaen. Mae cyfanswm o 907.09 hectar o'r cynefin wedi'i gofnodi. Fel arfer, caiff ei reoli fel porfa i ddefaid ac weithiau da byw eraill; weithiau nid yw enghreifftiau o lystyfiant prysgwydd ymylol yn cael eu pori. Mae'r rhan fwyaf o'r data sydd ar gael yn deillio o arolygon a gynhaliwyd rhwng 1987 a 2004, gyda diweddariadau cyfyngedig yn unig o 2008 ymlaen. Dangosodd monitro 14 o safleoedd nad ydynt yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ers 2007 golled fach o ran maint mewn tri safle, a gostyngiad mwy sylweddol mewn un safle. Yn 2012, cofnodwyd colled cynefinoedd mewn pump allan o 26 safle, gyda mwy o golled ar safleoedd anstatudol.

Mae tanbori, y penderfyniad i roi'r gorau i ddulliau rheoli glaswelltir a thaenu gwrtaith yn fygythiadau mawr sy'n parhau i fod yn broblem. Mae llygredd aer o ddyddodiad nitrogen yn effeithio ar dros 80% o arwynebedd y cynefin, ac fe'i asesir fel rhywbeth niweidiol iawn. Mae ehangiad prysgwydd brodorol ac anfrodorol oherwydd tanreolaeth yn un o'r prif bethau sy'n esgor ar gyflwr cynefin gwael ar safleoedd statudol.

Dim ond 36% o unedau safle statudol sydd â chamau rheoli wedi'u cwblhau neu sydd ar y gweill. Ymhlith y mesurau â blaenoriaeth y mae mesurau rheoli prysgwydd a rhywogaethau goresgynnol, ac addasu arferion pori. Roedd llai na 10% o'r cynefin o dan opsiynau glaswelltir amaeth-amgylcheddol cyn 2023.

Mae'n debygol y bydd gwasgariad y cynefin yn lleihau ychydig yn y 12 mlynedd nesaf, oherwydd bod rhai rhannau o'r gwasgariad yn cynnwys ardaloedd bach iawn o gynefin heb ei amddiffyn yn unig. Mae'n disgwyl i faint yr arwynebedd barhau i grebachu oherwydd pwysau uchel parhaus a'r sylw cyfyngedig gan gamau cadwraeth. Mae lefelau uchel o lygredd nitrogen a diffyg data diweddar yn awgrymu cyflwr adeileddol gwael ar gyfer llawer o'r cynefin.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o laswelltiroedd a thiroedd prysg sych lled-naturiol ar sialc neu galchfaen yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Stuart Smith, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H6210

Map gwasgariad ar gyfer H6210

H6210 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 9.0709

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn gostwng

H6210 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–drwg (U2)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H6230 Glaswelltir *Nardus* cyfoethog ei rywogaethau

Mae glaswelltir *Nardus* cyfoethog ei rywogaethau yn laswelltir byr, cyfoethog ei rywogaethau a geir ar briddoedd basig sych i ychydig yn llaith nad ydynt yn galchaidd iawn. Nodweddir enghreifftiau mewn ardaloedd ucheldir yn bennaf gan fath CG10 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, ac weithiau U5d, tra bod ardaloedd iseldir yn cynnwys CG10 neu U4c. Yn gyffredinol, mae'n gyffredin, ond ar lefel leol iawn, yn ucheldiroedd Cymru, yn enwedig yng ngogledd Eryri, ac mae'n brin iawn yn yr iseldiroedd. Fel arfer, cynhelir y cynefin trwy ddulliau rheoli porfa, pori defaid yn helaeth yn yr ucheldiroedd ac amrywiol fathau o dda byw yn yr iseldiroedd yn aml. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am laswelltir *Nardus* cyfoethog ei rywogaethau, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H6230/.

Mae gan y cynefin arwynebedd cofnodedig o 137.2 hectar, a dosbarthiad yn seiliedig yn bennaf ar arolygon o 1979 i 2004, wedi'i ategu gan gofnodion monitro a chofnodion achlysurol diweddarach. Fe'i lleolir yn bennaf mewn ardaloedd ucheldir, ac mae cymharol ychydig o enghreifftiau iseldir. Mae'r mwyaf o'r lleoliadau ar safleoedd gwarchodedig, ac nid oes llawer o laswelltiroedd wedi'u colli yn yr ucheldiroedd. Nid oes tystiolaeth o newid i'w wasgariad ers yr adroddiad blaenorol, er bod un safle newydd wedi'i gofnodi mewn sgwâr 10 cilometr gwahanol. Yn 2016, fe gadarnhaodd gwaith monitro Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) bod y cynefin yn bresennol yng ngogledd-orllewin Cymru, ond gorchuddiodd dim ond 31% o gyfanswm ei arwynebedd. Nododd rhai arolygon diweddar ddirywiadau bach mewn safleoedd iseldir, ond roedd meintiau'r samplau yn rhy fach i ddod i gasgliadau pendant.

Ymhlith y prif bwysau y mae gorbori a thanbori gan dda byw. Mae llygredd nitrogen yn yr awyr yn effeithio ar y ardal i gyd lle mae'r cynefin yn hysbys, ac mae gan bob safle lefelau llygredd sy'n uwch na'r llwyth critigol. Ymhlith y bygythiadau eraill y mae coedwigo, yn enwedig i gellïoedd yr ucheldir nad ydynt wedi'u mapio eisoes, trosi tir at ddibenion amaethyddiaeth, taenu gwrtaith, a gweithgareddau hamdden. Ymhlith y pwysau ychwanegol, o sgôr ganolig, y mae effeithiau newid hinsawdd megis eithafion tymheredd a newid mewn dyddodiad, a phresenoldeb rhywogaethau brodorol sy'n peri problemau. Er bod pwysau wedi'u dogfennu'n dda ar gyfer safleoedd statudol, maent yn anos i'w gwerthuso ar gyfer ardaloedd ucheldir anstatudol neu rai nad ydynt wedi'u mapio.

Ymhlith y camau cadwraeth y mae dynodi 68% o'r cynefin yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a 31% yn ACAau. Mae cytundebau rheoli SoDdGA penodol yn cwmpasu 16% o'r cynefin, ac mae camau gweithredu'n cynnwys rheoli pori a lleihau aflonyddwch. Gostyngodd arwynebedd y cynefin o dan gynlluniau Glastir Uwch o 50% i 3% yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ymhlith y mesurau eraill y mae fframweithiau rheoleiddio er mwyn rheoli llygredd aer, a strategaethau atal coedwigo fel rhan o bolisïau cenedlaethol ar gyfer creu coetiroedd. Fodd bynnag, nid oes gan rannau helaeth o'r cynefin fesurau rheoli wedi'u targedu o hyd, ac nid oes ailasesiad diweddar o fesurau wedi'i gynnal.

Mae rhagolygon y dyfodol yn negyddol o ran gwasgariad, arwynebedd a strwythur/swyddogaeth. Mae'n disgwyl i bwysau megis dyddodiad nitrogen atmosfferig, gorbori a phlannu coed barhau neu ddwysáu, yn enwedig ar gyfer safleoedd nad ydynt wedi'u mapio a nad ydynt wedi'u gwarchod. Mae monitro ACAau yn dangos bod cyflwr y cynefin yn dirywio mewn rhai ardaloedd, ond mae'r rhan fwyaf o'r cynefin yn parhau heb ei hasesu. Mae diffyg cynlluniau Glastir a chwmpas cyfyngedig mesurau cadwraeth sydd wedi'u targedu yn tanseilio gwydnwch ymhellach. O ganlyniad, gall colli arwynebedd a chyflwr yn barhaus leihau dosbarthiad, a thrwy hynny effeithio'n negyddol ar wasgariad y cynefin dros amser.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o laswelltir *Nardus* cyfoethog ei rywogaethau yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Stuart Smith, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H6230

Map gwasgariad ar gyfer H6230

H6230 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 1.372

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H6230 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H6410 Dolydd gwellt y gweunydd

Mae dolydd gwellt y gweunydd yn laswelltiroedd o uchder byr i ganolig lle mae glaswellt y bwla (*Molinia caerulea*) yn drech ac mae presenoldeb sylweddol o hesg a llysiau. Maent yn cwmpasu cymunedau M24 ac M26 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, ac mae rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys ysgallen y ddôl (*Cirsium dissectum*), yr hesgen felynllwyd (*Carex hostiana*), hesgen y chwain (*Carex pulicaris*), a'r crydwellt (*Briza media*). Maent fel arfer yn digwydd o fewn clytweithiau o laswelltir gwlyb ynghyd â mathau eraill o laswelltiroedd a rhostir gwlyb, yn ogystal ag ar ymylon systemau mignen bas-gyfoethog. Fel arfer, mae'r cynefin yn cael ei bori gan wartheg neu geffylau cadarn. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ddolydd gwellt y gweunydd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H6410/.

Mae'r cynefin yn eang ei wasgariad, ond dim ond yn lleol y mae'n gyffredin yng Nghymru, yn bennaf yn y gorllewin a'r de-orllewin, gyda chyfanswm arwynebedd cofnodedig o 515.6 hectar. Mae ymdrechion monitro ac ailymweliadau yn awgrymu'n gryf fod dirywiad diweddar o ran gwasgariad a maint. Collwyd cynefin M24 mewn 37% o'r safleoedd yr ymwelwyd â hwy rhwng 2001 a 2012, ac mewn 46% o'r safleoedd rhwng 1989 a 2012, gyda choled arwynebedd gyfan o 40.8 hectar. Mae'r gyfradd golli flynyddol gyfartalog yn ansicr, ond amcangyfrifir ei bod yn is nag 1% y flwyddyn.

Ymhlith y prif bwysau y mae tanbori, olyniaeth naturiol yn arwain at ymlediad prysgwydd, a llygredd dŵr amaethyddol, oll wedi'u sgorio fel rhai difrifol iawn. Mae llygredd nitrogen yn yr awyr hefyd yn broblem sylweddol, gydag 82% o'r cynefin yn uwch na'r lefelau llwyth critigol. Ymhlith y bygythiadau o ddifrifoldeb canolig y mae pori dwys, draenio at ddibenion amaethyddiaeth, llosgi, a choedwigo. Mae safleoedd anstatudol yn wynebu risgiau ychwanegol megis cael eu trosi'n ardaloedd hamdden neu dai.

Mae tua 66% o ddolydd gwellt y gweunydd yn ôl arwynebedd o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ond dim ond 52% o unedau SoDdGA sydd â mesurau rheoli ar waith yn barod neu fesurau rheoli arfaethedig. Y camau mwyaf cyffredin yw addasu cyfundrefnau pori a rheoli rhywogaethau brodorol sy'n peri problemau – ill dau â sgôr uchel. Mae cynlluniau gweithredu thematig ar waith mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), sy'n cwmpasu 35% o'r cynefin. Fodd bynnag, dim ond 9% o'r cynefin a oedd yn destun cynlluniau amaeth-amgylcheddol perthnasol yn ddiweddar megis Glastir. Mae rhai safleoedd wedi cael eu hysbysu'n ddiweddar fel SoDdGAau neu maent yn aros am gael eu hysbysu fel SoDdGAau.

Mae'n disgwyl dirywiad araf o ran gwasgariad ac arwynebedd, yn enwedig ar safleoedd anstatudol sy'n parhau i fod yn agored i niwed oherwydd rheolaeth annigonol a gweithgareddau draenio a choedwigo. Er y gallai effaith rhai pwysau, megis dwysáu amaethyddol, fod wedi lleihau, mae llawer o rai eraill yn parhau i fod yn broblem. Mae cyflwr y mwyaf o'r cynefin yn parhau i fod yn wael neu'n anhysbys, ac nid oes camau adferol digonol ar waith ar draws llawer o'r adnodd. Rhagwelir y bydd dyddodiad nitrogen yn parhau i gadw cyfran sylweddol o'r cynefin mewn cyflwr anffafriol erbyn 2035 heb unrhyw fesurau ychwanegol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ddolydd gwellt y gweunydd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Stuart Smith, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H6410

Map gwasgariad ar gyfer H6410

H6410 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 5.156

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H6410 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–drwg (U2)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H6430 Cymunedau llystyfiant tal

Gellir dod o hyd i'r math hwn o gynefin yn bennaf ar silffoedd clogwyni ucheldirol nad ydynt wedi'u pori, weithiau'n ymestyn i dir agored, ac mae wedi'i gyfyngu i is-haenau bas-gyfoethog mewn amodau sydd wedi'u cysgodi i raddau. Mae'n cynrychioli un o'r ychydig gynefinoedd sydd bron yn naturiol sy'n weddill yng Nghymru ac yn lloches i rywogaethau o blanhigion mynyddig prin sy'n sensitif i bori. Mae'r amrywiaeth fflurol yn llai amrywiol nag yn yr Alban, ond mae'n cynnwys rhywogaethau megis y gronnell (*Trollius europaeus*), llysiau'r angel (*Angelica sylvestris*) a'r rhedynen gelyn (*Polystichum lonchitis*), ynghyd â phlanhigion arctig-alpaidd megis lliflys y mynydd (*Saussurea alpina*) a hesgen ddu'r mynydd (*Carex atrata*). Mae'r pabi Cymreig (*Meconopsis cambrica*) hefyd yn bresennol, sef enghraifft o rywogaeth ddeheuol sy'n absennol ymhellach i'r gogledd ym Mhrydain. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gymunedau llystyfiant tal, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H6430/.

Mapiwyd y dosbarthiad o gymunedau llystyfiant tal yng Nghymru gan ddefnyddio setiau data amrywiol, gan gynnwys arolygon ucheldir y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (ardaloedd o gymuned U17) a chofnodion Cam 1 o gynefin llystyfiant tal yr ystyriwyd eu bod yn cyd-fynd â'r disgrifiad, gyda rhestr System Gwybodaeth Ddaearyddol ddiwygiedig wedi'i chwblhau yn 2012. Yr amcangyfrif o faint yr ardal yw 65 hectar, wedi'i ddeillio o 42 hectar o bolygonau wedi'u mapio a 23 hectar pellach ar sail cofnodion pwynt ychwanegol. Nid yw'r dosbarthiad wedi newid ers adroddiad 2013. Mae data arolygon yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn 2007, ac nid ymgymerwyd ag unrhyw waith monitro cynhwysfawr ers 2012, ar wahân i asesiad bach yn 2017 yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bannau Brycheiniog.

Ymhlith y prif bwysau ar y cynefin y mae pori dwys, yn enwedig ar silffoedd hygyrch, a dyddodiad nitrogen o lygredd aer – ystyrir bod ill dau yn cael effaith fawr. Ymhlith y pwysau cymedrol y mae gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored megis dringo, ymlediad rhywogaethau estron goresgynnol megis helyglys Seland Newydd (*Epilobium brunnescens*), ac ehangiad rhedyn brodorol. Mae newid hinsawdd yn cyflwyno bygythiad lefel ganolig ychwanegol, yn enwedig i rywogaethau ucheldir ar ymyl eu gwasgariad deheuol neu'n agos ato.

Ymhlith y camau cadwraeth y mae cynnal lefelau pori priodol, rheoli effeithiau hamdden, a rheoli rhywogaethau brodorol a rhywogaethau estron goresgynnol. Mae gan oddeutu 35% o unedau rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) gamau gweithredu ar waith neu sydd eisoes wedi'u cwblhau, gyda mesurau wedi'u cynllunio ar gyfer y gweddill. Nid oes gan gyfran sylweddol o'r cynefin y tu allan i safleoedd dynodedig unrhyw fesurau cadwraeth wedi'u nodi. Mewn rhai ardaloedd, megis Cwm Idwal, mae mesurau i wahardd pori wedi arwain at arwyddion o adferiad llystyfiant.

Mae cyflwr y cynefin yn y dyfodol mewn perygl os na chaiff pwysau pori eu rheoli. Ymhlith y bygythiadau hirdymor y mae dyddodiad nitrogen parhaus a newid hinsawdd, a all ddirywio amrywiaeth y cynefin ymhellach. Mae adferiad yn parhau mewn rhai ardaloedd, ond mae'r cynnydd yn araf ac yn anwastad. Mae'r rhagolygon cyffredinol ar gyfer y dyfodol yn ansicr, gyda hyder canolig ar sail cymysgedd o farn arbenigol a thystiolaeth gyfyngedig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o gymunedau llystyfiant tal yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Heather Garrett

Map dosbarthiad ar gyfer H6430

Map gwasgariad ar gyfer H6430

H6430 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.65

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H6430 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth gefnogol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H6510 Gweirgloddiau’r iseldir

Mae gweirgloddiau’r iseldir yn laswelltiroedd niwtral blodeuog sy'n cynnal rhywogaethau o blanhigion sy'n hoffi sychder a lleithder, a geir fel arfer ar orlifdiroedd lle rheolir y broses o ladd gwair yn yr haf a lle ceir lefelau isel i gymedrol o faethynnau yn y pridd. Mae’r cynefin yn cynnwys enghreifftiau o gymuned MG4 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, a nodweddir gan rywogaethau megis y bwrned mawr (*Sanguisorba officinalis*), cynffonwellt y maes (*Alopecurus pratensis*) a'r erwain (*Filipendula ulmaria*). Yn aml, mae safleoedd yn profi llifogydd yn y gaeaf, ond yn gyffredinol mae ganddynt briddoedd sy'n draenio'n rhydd. Mae'r cynefin mewn ychydig o fannau penodol iawn yng Nghymru ac wedi'i gyfyngu'n bennaf i ychydig o safleoedd yn y dwyrain. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o’r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H6510/.

Mae gweirgloddiau’r iseldir wedi'u cadarnhau mewn dim ond wyth safle yng Nghymru, gyda maint tiriogaeth wedi’i gofnodi o 10.7 hectar. Ailymwelwyd â chwech allan o wyth safle yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol, yn dilyn arolygon cynharach rhwng 1989 a 1999 ac eto o 2009 i 2012.

Ymhlith y prif bwysau y mae ymdrechion lladd gwair annigonol, newidiadau dyddodiad a achosir gan newid hinsawdd, dyddodiad nitrogen atmosfferig, a draenio amhriodol, sydd oll wedi'u rhestru fel bygythiadau mawr. Ymhlith y bygythiadau canolig y mae trosi tir at ddibenion amaethyddol, gorbori neu danbori, taenu gwrtaith, newidiadau hydrolegol, a llifogydd yn ystod y tymor tyfu. Ymhlith y problemau lleol y mae ymlediad rhywogaethau brodorol penodol sy'n gysylltiedig â lladd gwair neu ddraenio annigonol.

Mae pob enghraifft wedi'i chadarnhau o weirgloddiau’r iseldir yng Nghymru wedi'u gwarchod yn statudol fel rhan o’r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae cytundebau rheoli wedi cefnogi’r broses o reoli cadwraeth yn briodol ar lawer o safleoedd, er bod diffyg data ynghylch y cwmpas cyfredol. Ymhlith y mesurau cadwraeth uchel eu sgôr y mae atal trosi’r tir at ddibenion amaethyddol, rheoli'r defnydd o wrtaith, addasu’r ffordd y caiff gweirgloddiau eu torri a’u pori, ac adfer safleoedd yr effeithiwyd arnynt yn hydrolegol. Ymhlith y camau gweithredu canolig eu sgôr y mae cynnal arferion amaethyddol helaeth, rheoli llygredd, a rheoli rhywogaethau brodorol.

Mae’n disgwyl i wasgariad y cynefin barhau i fod yn sefydlog o ystyried y lefel uchel o warchodaeth statudol, er y gallai colledion lleol leihau dosbarthiad oherwydd darnio cynefin. Mae amrywiadau yn arwynebedd y cynefin yn debygol oherwydd dynameg gorlifdiroedd, ac mae gwaith monitro diweddar cyfyngedig wedi’i gynnal. Mae strwythur a swyddogaethau mewn perygl o ddyddodiad nitrogen a newid hinsawdd, oherwydd nad yw’r pwysau wedi’u lliniaru digon gan fesurau cadwraeth presennol. Mae’n disgwyl i lawer o'r cynefin barhau mewn cyflwr anffafriol erbyn 2035 os na roddir unrhyw fesurau pellach ar waith i liniaru dyddodiad nitrogen atmosfferig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o weirgloddiau’r iseldir yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy’n dirywio.

Llun gan: Stuart Smith, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H6510

Map gwasgariad ar gyfer H6510

H6510 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.107

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H6510 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–drwg (U2)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i’r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

6.4 Cynefinoedd rhostir

Llun gan: Bathilda Milton-Haynes, Cyfoeth Naturiol Cymru

H4010 Rhosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd gydag *Erica tetralix* (‘Rhosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd’)

H4030 Rhosydd sych Ewropeaidd (‘Rhosydd sych’)

H4060 Rhosydd alpaidd a boreal

H5130 Ffurfiannau *Juniperus communis* ar rostiroedd neu laswelltiroedd calchaidd (‘Rhosydd meryw’)

H4010 Rhosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd

Fel arfer, mae rhosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd yng Nghymru yn ardaloedd lle mae cymysgeddau o rywogaethau grug megis *Calluna vulgaris* ac *Erica tetralix* yn drech, ynghyd â gweiriau, gan gynnwys *Molinia caerulea* a *Trichophorum cespitosum*. Gall mwsoglau migwyn, yn enwedig *Sphagnum compactum* a *Sphagnum capillifolium*, fod yn bresennol hefyd. Cymuned rhostir gwlyb M15 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol yw'r gymuned fwyaf cyffredin ar draws ardaloedd iseldir ac ucheldir is-fynyddig, tra bod y gymuned M16 i'w chael yn bennaf yn iseldiroedd de-orllewin Cymru. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am rosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H4010/.

Mae dosbarthiad rhosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd yng Nghymru wedi'i seilio ar sawl ffynhonnell ddata sylfaenol a gasglwyd rhwng 1979 a 2023. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon cenedlaethol megis Arolwg Cynefinoedd Cyfnod 1 ac Arolwg Rhostiroedd yr Iseldir. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi digwydd yn y dosbarthiad 10 cilometr sgwâr ers y cyfnod adrodd diwethaf. Gwelir colledion ac enillion mewn safleoedd penodol, ond mae eu cydbwysedd yn aneglur oherwydd data annigonol. Mae data lloerenni yn dangos cynnydd o 3% mewn rhosydd corwrychoedd ers 2010, er nad yw'r ffigur hwn yn gwahaniaethu rhwng rhosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd a mathau eraill o rosydd. Mae data arolygon samplu o Eryri yn dangos colled o 6% rhwng y 1980au a 2009–2011.

Ymhlith y prif bwysau ar y cynefin y mae pori amhriodol, gyda gorbori a rheolaeth annigonol o bori yn arwain at oresgyniad gan brysgwydd a rhedyn, a llygredd aer – yn enwedig dyddodiad nitrogen. Mae gweithgareddau hamdden, tanau, draenio a lladd gwair hefyd yn cael eu cofnodi fel pwysau. Yn yr un modd, mae'r bygythiadau mwyaf yn newidiadau mewn arferion amaethyddol a dyddodiad nitrogen. Mae defnydd hamdden, rhywogaethau estron megis rhododendron, a bod yn agored i bathogenau *Phytophthora* hefyd yn peri risgiau. Mae'n disgwyl i newid hinsawdd waethygu'r pwysau trwy newid i ddyddodiad a'r straen a achosir gan sychder.

Mae camau cadwraeth wedi cael eu rhoi ar waith ar safleoedd dethol ers 2019, gan gynnwys cytundebau rheoli, ymyriadau uniongyrchol, a chydsyniadau. Mae'r rhain yn targedu pori, rheolaeth rhywogaethau goresgynnol, rheoli draenio, ac effeithiau hamdden. Mae offer polisi ehangach yn cynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sydd ar ddod o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, a mesurau ynghylch ansawdd aer o dan Ddeddf newydd Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024. Fodd bynnag, mae monitro o dan y rhaglen Glastir wedi dangos ychydig iawn o effaith, os o gwbl, ar gyflwr cynefinoedd, ac nid oes unrhyw brosiectau rhostir penodol ar raddfa fawr ar waith.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer rhosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd yn gymysg. Er y gall gostyngiadau mewn pori arwain at fwy o gynefin mewn ardaloedd ucheldir, mae strwythur a swyddogaeth y cynefin yn parhau i fod dan fygythiad. Dim ond 26% o'r cynefin sydd o fewn safleoedd gwarchodedig, ac mae heriau amaethyddol a rheoli tir yn parhau i fod yn broblem. Mae'n disgwyl i ddyddodiad nitrogen barhau i fygwth cyflwr y cynefin. Mae newid hinsawdd, yn enwedig mwy o sychder a newid mewn glawiad, yn peri risg gynyddol. Heb fesurau wedi'u targedu ychwanegol, mae'n disgwyl i lawer o'r cynefin barhau i fod mewn cyflwr anffafriol oherwydd dyddodiad nitrogen atmosfferig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o rosydd gwlyb gogledd yr Iwerydd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n dirywio.

Llun gan: James Latham, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H4010

Map gwasgariad ar gyfer H4010

H4010 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 144.14

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H4010 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H4030 Rhosydd sych

Mae rhosydd sych Ewropeaidd yn cynnwys llystyfiant corwrychoedd lle mae rhywogaethau ericoid yn drech. Mewn ardaloedd ucheldirol, mae rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys *Calluna vulgaris*, *Vaccinium myrtillus* ac *Empetrum nigrum*, tra bod cymunedau tir isel yn cynnwys *Ulex gallii* ac *Erica cinerea*. Mae'r cynefin yn amrywio o lefel y môr i uchderau is-fynyddig, fel arfer ar briddoedd asidig i fwy neu lai niwtral sy'n draenio'n rhydd ac sydd â chynnwys isel o faethynnau. Mae gwahanol gymunedau'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol yn cynrychioli'r cynefin hwn ledled Cymru, gydag H12, H18 ac H21 yn yr ucheldiroedd ac H8, H4 ac H10 mewn parthau iseldir ac ymylol. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am rosydd sych, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H4030/.

Mae dosbarthiad a maint rhosydd sych yng Nghymru wedi'u seilio ar nifer o setiau data o arolygon, ac adolygwyd y rhestr Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol ddiweddaraf yn 2018. Nid oes system gyfredol ar gyfer monitro unrhyw newidiadau i gynefin, ac mae'r ffynonellau data sydd ar gael yn weddol ddyddiedig. Mae colledion ac enillion mewn cynefin wedi'u cofnodi mewn safleoedd unigol, ond nid yw'r rhain wedi'u dogfennu'n gyson. O ganlyniad, ystyrir bod y duedd tymor byr o ran arwynebedd yn anhysbys, ac nid yw'r data dosbarthiad wedi'u diweddaru ers 2013.

Mae pori amhriodol yn broblem eang, gyda thanbori a gorbori wedi'u cofnodi ar draws nifer o safleoedd. Ymhlith y pwysau sylweddol eraill y mae torri annigonol, goresgyniad prysgwydd a rhedyn, effeithiau mynediad hamdden, a thanau. Mae llygredd aer, yn enwedig dyddodiad nitrogen, yn effeithio ar bob ardal o gynefin ac yn cyfrannu at asideiddio'r pridd. Mae newid hinsawdd, rhywogaethau goresgynnol, a choedwigo posibl hefyd yn peri bygythiadau hirdymor i strwythur ac ansawdd y cynefin.

Mae camau cadwraeth wedi cael eu rhoi ar waith ar naw safle a 71 uned ers 2019, gan gynnwys cytundebau rheoli ac ymyriadau uniongyrchol. Mae'r mesurau hyn yn mynd i'r afael â phori, rheoli rhywogaethau goresgynnol, ac atal coedwigo. Mae deddfwriaeth genedlaethol yn esblygu, gyda Deddf yr Amgylchedd 2024 a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) yn cefnogi gwella ansawdd aer a dulliau rheoli tir cynaliadwy. Rheolaeth ar lefel y safle yw'r prif ddull gweithredu o hyd, ac mae rhai ymdrechion ail-greu a chynllunio ar gyfer strategaethau ariannu yn y dyfodol ar waith.

Rhagwelir y bydd maint y rhosydd sych yn aros yn sefydlog neu o bosibl yn ehangu mewn ardaloedd ucheldir oherwydd lefel is o bori. Fodd bynnag, dim ond 41% o'r cynefin sydd o fewn safleoedd gwarchodedig, ac mae gan lawer o ardaloedd y tu allan i'r rhain ddiffyg mesurau rheoli sydd wedi'u dogfennu. Mae'n disgwyl i bwysau megis tanau gwyllt, dyddodiad nitrogen, a sychder ddwysáu a rhyngweithio. Gall cynnal arferion traddodiadol megis lladd gwair helpu i liniaru effeithiau, ond mae dyddodiad nitrogen yn parhau i fod yn fygythiad eang i swyddogaeth y cynefin.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o rosydd sych yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Bathilda Milton-Haynes, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H4030

Map gwasgariad ar gyfer H4030

H4030 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 777.4

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H4030 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H4060 Rhosydd alpaidd a boreal

Mae rhosydd alpaidd a boreal yn gynefin ucheldir a geir ar fynyddoedd gogledd a chanolbarth Cymru. Yn aml, mae ei lystyfiant yn cynnwys llwyni ericoid corachaidd a gorweddol gyda mat trwchus o'r mwsogl *Racomitrium lanuginosum* oddi tanynt, ynghyd â macrogennau megis *Cetraria islandica* a rhywogaethau *Cladonia*. Mae rhywogaethau ericoid yn cynnwys *Calluna*, *Empetrum nigrum* ssp. *hermaphroditum*, a *Juniperus communis* ssp. *nana*, gyda *Carex bigelowii* yn arbennig o nodweddiadol yng Nghymru. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am rosydd alpaidd a boreal, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H4060/.

Deilliwyd dosbarthiad rhosydd alpaidd a boreal yng Nghymru o gymunedau H14, H15, H19, H20 ac H22 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol a oedd wedi'u mapio, yn ogystal â llystyfiant rhostir ychwanegol nad yw'n cael ei gynrychioli yn y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Mae'r dosbarthiad yn seiliedig ar gofnodion polygonau a phwyntiau o arolygon y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol o gynefinoedd yr ucheldir (1996–2004) a thri chofnod sgwariau 10 cilometr o Arenig Fach, Aran Fawddwy a Chadair Idris. Yn 2019, mapiodd arolwg bron pob ardal o gynefin, gan gynyddu'r maint o 0.42 cilometr sgwâr i 0.49 cilometr sgwâr oherwydd dulliau mapio gwell, yn hytrach nag ehangiad gwirioneddol. Ystyrir nad yw'n debygol y bu unrhyw newidiadau yn y dosbarthiad sgwariau 10 cilometr dros y 12 mlynedd diwethaf. Nid yw gwyliadwriaeth reolaidd yn mynd rhagddynt ar draws gwasgariad y cynefin yng Nghymru ar hyn o bryd.

Ymhlith y prif bwysau ar rosydd alpaidd a boreal y mae arferion pori amhriodol, gweithgareddau hamdden, a llygredd aer. Nodwyd pori amhriodol ar sawl uned, a nodwyd nad yw effaith pori ynghyd â dyddodiad nitrogen yn gynaliadwy. Mae gweithgareddau hamdden yn achosi sathru ar y lefel leol, yn enwedig lle nad yw llwybrau'n cael eu cynnal a'u cadw, fel ger Llyn y Cŵn yn y Glyderau. Mae llygredd aer, gan gynnwys dyddodiad nitrogen a sylffwr, yn effeithio ar ansawdd cynefin, ac mae dyddodiad nitrogen yn uwch na'r llwythi critigol ar draws pob safle. Ymhlith y bygythiadau yn y dyfodol y mae newid hinsawdd, a all arwain at golli rhywogaethau ac erydu cynefin oherwydd tymereddau cynyddol a phatrymau dyddodiad sydd wedi newid.

Ychydig o gamau cadwraeth sydd wedi'u cwblhau ers 2019. Mae llygredd aer yn cael ei reoleiddio gan ddeddfwriaeth genedlaethol a lleol, gan gynnwys Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010 a Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024. Nod y fframweithiau hyn yw gosod targedau penodol i lygryddion a allai gefnogi bioamrywiaeth. Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cyflwyno amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, a allai leihau allyriadau amaethyddol. Mae Strategaeth Hamdden Parc Cenedlaethol Eryri 2022–2027 yn cynnwys gwaith cynnal a chadw llwybrau ucheldir er mwyn lliniaru effeithiau erydiad.

Mae gwasgariad rhosydd alpaidd a boreal yn y dyfodol yn ansicr, ac mae potensial i ehangu mewn ardaloedd fel Pumlumon os caiff y lefelau presennol o bori eu leihau, ond mae colled yn parhau i fod yn bosibl mewn ardaloedd darniog megis Aran Fawddwy. Er bod lleihau pori wedi arwain at adferiad mewn rhai ardaloedd, gall dyddodiad nitrogen parhaus ac erydiad hamdden gyfyngu ar welliant pellach. Rhagwelir y bydd dyddodiad nitrogen yn uwch na'r llwythi critigol tan o leiaf 2030, gan gyfyngu ar adferiad adeileddol a swyddogaethol. Gall newid hinsawdd yrru'r broses o fudo i dir uwch ar gyfer y cynefin, gan leihau'r arwynebedd sydd ar gael oherwydd cyfyngiadau topograffig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o rosydd alpaidd a boreal yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Cyngor Cefn Gwlad Cymru (delwedd etifeddol)

Map dosbarthiad ar gyfer H4060

Map gwasgariad ar gyfer H4060

H4060 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.49

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn cynyddu

H4060 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H5130 Rhosydd meryw

Ceir rhosydd meryw ar frigiadau calchfaen yng ngogledd Cymru ac ar glogwyni arfordirol calchfaen ar arfordir Gŵyr. Mae'r ardaloedd hyn yn gysylltiedig â glaswelltir calchaidd llawn blodau, rhostiroedd, a choetiroedd calchfaen. Nid yw'r cynefin yn cael ei ddeall yn dda. Fe'i nodwyd yn seiliedig ar bresenoldeb meryw aml i doreithiog mewn cysylltiad â rhywogaethau prysgwydd eraill a rhai eraill nad ydynt yn gallu gwrthsefyll pori. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am rosydd meryw, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H5130/.

Mae'r cynefin hwn yn hysbys o dri sgwâr 10 cilometr: SH88 ac SH87 ar Benrhyn Creuddyn yng ngogledd Cymru, ac SS48 ar glogwyni Penrhyn Gŵyr. Yn 2012, ni chanfuwyd unrhyw newid sylweddol yn nifer y planhigion yn ystod ailymweliadau â phoblogaethau mwy o feryw ar Benrhyn Gŵyr o'i gymharu â chofnodion o 2006, sy'n awgrymu sefydlogrwydd tymor byr. Ystyrir bod y gwasgariad dros y tymor byr yn sefydlog yn seiliedig ar gyfyngiad i dri sgwâr 10 cilometr. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth uniongyrchol i asesu tueddiadau o ran gwasgariad y cynefin.

Ymhlith y pwysau parhaus ar y cynefin y mae gorbori a thanbori gan dda byw, llosgi ar gyfer amaethyddiaeth, a rhywogaethau goresgynnol megis cotoneaster. Ymhlith y pwysau eraill y mae ehangiad rhywogaethau brodorol, dyddodiad nitrogen atmosfferig, a mwy o weithgarwch hamdden. Mae newid hinsawdd yn debygol o effeithio ar gyfraddau egino ac amlder tanau, gyda rhai clystyrau yn agored i effeithiau ymyl oherwydd darnio. Mae pathogenau megis *Phytophthora austrocedrae* hefyd yn peri risg, gydag achosion wedi'u dogfennu yng Nghymru.

Nod mentrau ansawdd aer, megis Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, yw lleihau llygredd a chefnogi'r broses o reoli'r tir yn gynaliadwy. Mae fframwaith gwneud penderfyniadau yn bodoli ar gyfer rheoli achosion o *Phytophthora* ar rostiroedd, y gellid ei addasu ar gyfer y ferywen. Mae prosiect Adfer Glaswelltiroedd Calchfaen gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn targedu cotoneaster estron mewn ardaloedd a allai gynnwys cynefin rhosydd meryw.

Nid oes digon o dystiolaeth i ragweld dyfodol rhosydd meryw yng Nghymru yn sicr. Er y gall rhai cellïoedd barhau i oroesi oherwydd priddoedd bas ac agwedd y cynefin, mae angen rheolaeth weithredol ar eraill. Mae pob celli hysbys neu bob celli sydd wedi'i mapio o leiaf yn rhannol o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), er nad yw pob un yn nodwedd hysbysedig, ac mae rhai y tu allan i'r ardal warchodaeth ddynodedig. Heb fesurau pellach i leihau dyddodiad nitrogen, mae'n disgwyl i lawer o'r cynefin barhau i fod mewn cyflwr anffafriol. Mae angen strategaeth gadwraeth hirdymor i gyflawni statws cadwraethol ffafriol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o rosydd meryw yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Natural England / Peter Wakely 1980

Map dosbarthiad ar gyfer H5130

Map gwasgariad ar gyfer H5130

H5130 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.01

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H5130 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

6.5 Cynefinoedd morol

Llun gan: Nick Owen, plymiwr dan gontract Cyfoeth Naturiol Cymru

H1110 Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg (‘Banciau tywod islanwol’)

H1130 Aberoedd

H1140 Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel (‘Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol’)

H1150 Morlynnoedd arfordirol

H1160 Cilfachau a baeau bas mawr (‘Baeau’)

H1170 Riffiau

H1180 Strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy'n gollwng

H8330 Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr (‘Ogofâu môr’)

S1376–S1377 Gwelyau maerl

H1110 Banciau tywod islanwol

Mae banciau tywod islanwol yn nodweddion mewn pum Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru. Mae rhai banciau tywod yn nodweddion gwely'r môr penodol a nodweddir gan waddodion symudol a effeithir gan geryntau llanw cryf tra bod eraill yn estyniadau o gymunedau gwaddod meddal bas ger y lan o dan amodau mwy sefydlog. Mae amrywiaeth a thoreithrwydd rhywogaethau macrobenthig yn is ar fanciau tywod symudol penodol yn gyffredinol o'u cymharu â'r rheini o dan amodau mwy sefydlog yng Nghymru. Mae banciau tywod yn cynnwys tywod yn bennaf, gyda rhywfaint o waddodion bras islanwol a llaid yn yr ardaloedd mwy sefydlog. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am fanciau tywod islanwol, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1110/.

Mae cyfanswm arwynebedd y banciau tywod yng Nghymru tua 638 cilometr sgwâr, gyda thua 69% ohonynt y tu mewn i ACAau. Mae'r gwasgariad cyfrifedig yn cynnwys ardaloedd ar y glannau ac ar y môr ac fe'i hamcangyfrifwyd gan ddefnyddio set ddata dosbarthiad gwaddod wedi'i hategu ag ardaloedd o waddodion tywodlyd sy'n gysylltiedig â'r prif fanciau tywod. Nid oes digon o ymarferion mapio wedi'u cynnal i bennu tuedd o ran arwynebedd neu wasgariad, ond mae'n fwyaf tebygol bod y gwasgariad a'r arwynebedd wedi parhau i fod yn sefydlog. Gan ddefnyddio asesiadau cyflwr ACA cyhoeddedig wedi'u hategu â dadansoddiad ychwanegol a gynhaliwyd ar gyfer adroddiad Rheoliad 9A, aseswyd bod 56% o arwynebedd banciau tywod mewn cyflwr da tra oedd 12% o arwynebedd banciau tywod wedi'i asesu i fod yn gynefin nad oedd mewn cyflwr da, gyda statws y gweddill yn parhau i fod yn anhysbys.

Ymhlith y pwysau canolig a nodwyd y mae llygredd dŵr o ffynonellau cymysg, sbwriel môr, ac effeithiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd megis cynnydd mewn tymheredd a newid yn nosbarthiadau rhywogaethau. Mae statws rhanbarthol dwy stoc o bysgod masnachol (y lleden goch a'r gwyniad môr) a gofnodwyd yn flaenorol mewn banciau tywod yn destun pryder. Nodwyd newid cynefin a newidiadau mewn prosesau ecolegol mewn casgliadau o rywogaethau perthnasol o ganlyniad i newid hinsawdd fel pwysau canolig yn y dyfodol. Ar y cyfan, mae hyder yn yr asesiad o bwysau yn isel oherwydd y data a'r asesiadau cyfyngedig sydd ar gael.

Ymhlith y prif fesurau cadwraeth a nodwyd y mae rheolaeth addasol o gloddio am agregau, rheoleiddio ansawdd dŵr, rheoli pysgodfeydd, a chynllunio datblygiadau adnewyddadwy mewn ffordd briodol. Mae trwyddedu morol, wedi'i lywio gan Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ac asesiadau o'r effaith amgylcheddol, yn sicrhau bod effeithiau prosiectau datblygu a gweithgareddau allweddol ar raddfa fawr yn cael eu rheoli. Ystyrir bod hwn yn asesiad hyder isel oherwydd bod gallu rhai o'r mesurau hyn i fynd i'r afael yn llawn â'r pwysau a bygythiadau hysbys a phosibl yn ansicr ac mae'r amserlen hefyd yn ansicr.

Mae'n disgwyl i wasgariad y banciau tywod barhau i fod yn sefydlog yn ddaearyddol. Fodd bynnag, nid yw'r rhagolygon ar gyfer yr ardal a'r strwythur/swyddogaeth yn hysbys, oherwydd bod gan yr asesiadau cyfredol hyder isel ac maent yn cael eu llesteirio gan ddata cyfyngedig. Mae sawl peth ansicr ynghylch maint ac effaith pwysau, yn ogystal â pha mor effeithiol yw'r mesurau cadwraeth presennol, yn atal asesiad pendant o ragolygon y dyfodol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o fanciau tywod islanwol yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol ar gyfer cynefinoedd y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd anhysbys.

Llun gan: Banc Turbot, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1110

H1110 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 637.84

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H1110 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1130 Aberoedd

Mae aberoedd yng Nghymru yn amrywio o gilfachau bach sy'n llawn gwaddod i systemau macro-lanw mawr a chilfach dŵr dwfn y Ddau Gleddau. Mae'r cynefinoedd hyn yn amrywiol o ran llif llanw, dyfnder, a math a maint gwaddodion. Mae aberoedd yn dioddef o bwysau amrywiol o weithgareddau hanesyddol. Mae eu hamgylcheddau cysgodol yn cynnal gweithgareddau casglu pysgod cregyn a dyframaeth, a all wasanaethu fel asedau economaidd a dangosyddion o iechyd ffawna gwaddodion. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am aberoedd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1130/.

Mae aberoedd wedi'u dosbarthu ledled Cymru, ac mae dros 90% wedi'u cynnwys o fewn rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol y DU. Ystyrir bod dosbarthiad a gwasgariad cyffredinol y nodwedd yn sefydlog, oherwydd bod ffiniau wedi'u diffinio'n ffisiograffigol ac yn nid ydynt yn debygol o symud heb newidiadau geomorffolegol sylweddol. Cafwyd colledion cynefin bach, ond nid ydynt yn effeithio ar y gwasgariad cyffredinol.

Ymhlith y prif bwysau sy'n effeithio ar aberoedd y mae llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth yn eu dalgylchoedd, datblygu arfordirol, a gweithgareddau megis carthu ac ehangu porthladdoedd. Mae'r rhain yn cyfrannu at gorfaethu, siltio a halogiad, yn enwedig mewn ardaloedd fel y Ddau Gleddau. Mae gorbori a rhoi'r gorau i reoli morfeydd heli wedi arwain at strwythur llystyfiant gwael a bioamrywiaeth lai mewn rhai aberoedd. Mae statws rhanbarthol nifer o stociau masnachol o bysgod sy'n gysylltiedig ag aberoedd hefyd yn destun pryder. Mae rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys wystrysen Portiwgal (*Magallana gigas*) a'r ewin mochyn (*Crepidula fornicata*), yn ehangu, yn enwedig yn y Ddau Gleddau. Mae gwasgfa arfordirol, oherwydd cynnydd yn lefel y môr ac amddiffynfeydd sefydlog, yn parhau i leihau maint y cynefin rhynglanwol. Mae gweithgareddau hamdden, llongau, dyframaethu, a llygryddion etifeddol hefyd yn peri risgiau parhaus ac eang.

Ymhlith y mesurau cadwraeth cyfredol y mae rheoleiddio ansawdd dŵr, adfer cynefin, rheoli rhywogaethau goresgynnol, a rheoli pysgodfeydd. Mae'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd yn mynd i'r afael â cholled cynefin oherwydd gwasgfa arfordirol ac yn darparu cynefin cydbwyso am ddatblygiadau arfordirol mewn mannau eraill trwy hyrwyddo adlinio a reolir. Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cyfrannu at leihau llygredd gwasgaredig o ddalgylchoedd. Mae rheoliadau'n bodoli ar gyfer effeithiau datblygiadau morol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), a rheolir cynaeafu pysgod cregyn o fewn y safleoedd gwarchodedig hyn. Mae ymwybyddiaeth gyhoeddus a gorfodi wedi'i dargedu, fel is-ddeddfau ar gyfer palu am abwyd, yn rhan o strategaethau cadwraeth lleol. Fodd bynnag, dim ond cyfran fach o forfa heli sydd o dan reolaeth amaeth-amgylcheddol weithredol.

Mae gweithredu cynlluniau rheoli yn araf a phwysau parhaus yn golygu bod y rhagolygon ar gyfer dyfodol aberoedd yn wael. Mae colli cynefin yn parhau i fod yn broblem oherwydd datblygu ac erydu arfordirol, yn enwedig y tu allan i ACAau. Gall llygredd gwasgaredig wella gyda rheolaethau llymach, ond mae sbwriel môr a gweithgareddau nad ydynt wedi'u rheoleiddio yn parhau i fod yn broblem. Mae bygythiadau gan rywogaethau goresgynnol yn parhau i fod yn broblem oherwydd dyframaeth a symudiadau llongau. Bydd effeithiau posibl oherwydd datblygiad y sector dyframaeth yn y dyfodol yn cael eu lliniaru trwy gymhwyso polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae dolydd heli Iwerydd yn wynebu dirywiad oherwydd pori a llygredd, er gwaethaf gwarchodaeth o fewn ACAau. Mae gwasgfa arfordirol a yrrir gan newid hinsawdd yn fygythiad tra phwysig. Mae effeithiolrwydd unrhyw un o'r mesurau lliniaru presennol yn gyfyngedig, ac mae hyder yn y cyflwr cyffredinol yn y dyfodol yn isel.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o aberoedd ar lefel Cymru yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol ar gyfer cynefinoedd y rhywogaeth yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi tuedd anhysbys.

Llun gan: Paul Brazier, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1130

H1130 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 601.907

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H1130 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1140 Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol

Mae gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol yn eang eu gwasgariad ledled Cymru, gan ffurfio cyfran sylweddol o'r arwynebedd rhynglanwol, yn enwedig yn aberoedd macro-lanwol. Mae'r nodwedd hon yn cynnwys cynefinoedd tywodlyd arfordir agored, hyd at waddodion mwy mwdlyd cilfachau ac aberoedd. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am wastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1140/.

Mae'r gwasgariad sydd wedi'i fapio o wastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol yn seiliedig ar arolygon o 1996–2005, gyda diweddariad yn 2010 ym Mae Tremadog. Mae'r arolygon hyn yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr ynghylch dosbarthiad eang ledled Cymru, er y bydd rhai newidiadau lleol wedi digwydd ers iddynt gael eu mapio. Yr amcangyfrif gorau o arwynebedd yw 420 cilometr sgwâr, gyda cholledion cofnodedig lleiaf o 0.01%. Bu gostyngiadau lleol o ran maint, ond nid yw hyn yn effeithio ar ddosbarthiad Cymru gyfan.

Mae'r cynefin yn destun pwysau parhaus a rhai yn y dyfodol. Ymhlith y prif fygythiadau y mae datblygu arfordirol, llygredd y môr o ffynonellau preswyl, diwydiannol ac amaethyddol, a gweithgareddau megis palu am abwyd a dyframaethu a chasglu pysgod cregyn. Effeithir ar y nodwedd yn arbennig mewn lleoliadau aberol a chysgodol oherwydd datblygiadau arfordirol a phroblemau ynghylch ansawdd dŵr o fewnbynnau o faethynnau a llygryddion afonol. Mae ardaloedd aberol yn methu â bodloni'r safonau ansawdd dŵr cemegol neu fiolegol gofynnol yn gyson. Mae amddiffynfeydd a seilwaith arfordirol presennol mewn llawer o leoedd yn cyfyngu ar adlinio'r arfordir oherwydd cynnydd yn lefel y môr, gan arwain at golli cynefin oherwydd gwasgfa arfordirol. Mae bygythiadau ychwanegol yn deillio o seilwaith ynni yn y dyfodol, mynediad hamdden, rhywogaethau estron goresgynnol, ac effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys codiad yn lefel y môr a mwy o amlygiad i donnau.

Ymhlith y camau cadwraeth y mae'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd, sy'n mynd i'r afael â cholli cynefin rhynglanwol oherwydd gwasgfa arfordirol, ac yn darparu cynefin cydbwyso am ddatblygiadau arfordirol drwy hyrwyddo adlinio arfordirol a reolir. Mae rheoliadau'n mynd i'r afael ag effeithiau datblygiadau morol, llygredd dŵr, effeithiau pysgodfeydd a rhywogaethau goresgynnol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae mesurau hefyd yn targedu rheolaeth gweithgareddau hamdden ac addasu seilwaith i liniaru dirywiad cynefin. Mae'r broses o orfodi rheoleiddiol yn amgylchedd morol Cymru yn cael ei harwain gan ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, a pholisïau o fewn Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys mecanweithiau megis asesiadau amgylcheddol, trwyddedu morol a defnyddio is-ddeddfau i reoli gweithgareddau penodol.

Mae hyder yng nghyflwr y cynefin yn y dyfodol yn isel oherwydd ansicrwydd ynghylch ei strwythur a'i swyddogaeth yn y dyfodol. Mae pwysau parhaus mewn ardaloedd lleol, o ddatblygiadau arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn parhau i leihau maint cynefin. Ceir pwysau o ganlyniad i weithgareddau nad ydynt wedi'u rheoleiddio megis palu am abwyd, a phroblemau o ran gorfodi rheoliadau'n ymwneud â defnyddio cerbydau ar y lan. Gallai datblygiadau arfaethedig ar gyfer morlynnoedd llanw arwain at golli cynefin ar raddfa fawr, a fyddai'n anodd ei liniaru. Fodd bynnag, gall gweithredu polisïau morol yn effeithiol a rheoleiddio llygredd gwasgaredig yn well wella'r rhagolygon dros y ddau ddegawd nesaf.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o wastadeddau llaid a gwastadeddau tywod rhynglanwol yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod y duedd gyffredinol o ran cynefinoedd yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws anhysbys.

Llun gan: Ben Wray, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1140

H1140 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 420

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H1140 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1150 Morlynnoedd arfordirol

Mae morlynnoedd arfordirol yn gyrff dŵr bas sydd wedi'u gwahanu'n rhannol neu'n gyfan gwbl oddi wrth y môr gan rwystrau naturiol, ac maent yn gynefin i rywogaethau sydd wedi'u cyfyngu'n bennaf i gynefinoedd o'r fath o fewn y DU. Mae'r cynefinoedd hyn yn brin yn y DU ac yn cynnal cymunedau nodedig, gan gynnwys rhywogaethau prin o anifeiliaid di-asgwrn-cefn, sy'n pwysleisio pa mor bwysig yw eu cadwraeth. Mae dosbarthiad rhywogaethau arbenigol yn amrywio rhwng safleoedd oherwydd ynysu, ac mae pob morlyn yn cynnal cymuned fiolegol unigryw yn dibynnu ar ei nodweddion ffisegol. Mae amodau amgylcheddol mewn morlynnoedd yn ddynamig iawn, ac yn cynnwys amrywiadau o ran halwynedd a thymheredd, sy'n hanfodol ar gyfer cynnal poblogaethau arbenigol y morlynnoedd. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am forlynnoedd arfordirol, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1150/.

Mae pymtheg o forlynnoedd heli neu forlynnoedd posibl wedi'u nodi yng Nghymru, yn gorchuddio tua 0.84 cilometr sgwâr, sy'n cynrychioli tua 1.6% o holl forlynnoedd y DU. Bu colled ymddangosiadol fach o 0.19% o holl forlynnoedd Cymru rhwng 2013 a 2025, yn seiliedig ar arolygon cyfyngedig a delweddau o'r awyr. Er gwaethaf colledion bach o ran arwynebedd mewn rhai safleoedd, mae dosbarthiad daearyddol cyffredinol morlynnoedd yng Nghymru wedi parhau i fod yn sefydlog dros y 12 mlynedd diwethaf.

Mae lefelau uchel o faethynnau, yn bennaf o ddŵr ffo amaethyddol, yn ffactor allweddol sy'n arwain at amodau anffafriol mewn morlynnoedd sy'n cael eu monitro. Mae morlynnoedd yn agored i sbwriel môr, yn enwedig plastigau, sy'n bresennol yn y mwyaf o'r safleoedd sy'n cael eu monitro ac a all effeithio ar rywogaethau morlynnoedd trwy eu llyncu neu newid eu cynefin. Mae addasiadau hydrolegol, gan gynnwys methiannau llifddorau a chyfyngiadau ar lif dŵr y môr, wedi newid ansawdd dŵr ac amodau cynefin mewn rhai morlynnoedd. Mae'n disgwyl i bwysau newid hinsawdd megis codiad yn lefel y môr, mwy o stormydd, a newidiadau o ran halwynedd effeithio fwyfwy ar strwythur ac arwynebedd morlynnoedd.

Ymhlith y camau rheoli cadwraeth a gymerwyd y mae gosod ffensys i gyfyngu mynediad, atgyweirio seilwaith morlynnoedd megis gatiau llifddor, ac addasu arferion amaethyddol i gyfyngu ar ddŵr ffo. Mae gan rai morlynnoedd raglenni monitro ar waith, ac mae mesurau penodol i safleoedd wedi'u rhoi ar waith, ond mae diffyg cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer materion ehangach megis rheoli maethynnau a sbwriel.

Mae'n disgwyl i wasgariad cynefin morlynnoedd barhau i fod yn sefydlog, ond gall yr arwynebedd cyffredinol leihau oherwydd symudiad rhwystrau a achosir gan yr hinsawdd, gyda morlynnoedd Cemlyn a Pickleridge yn arbennig o agored i niwed. Asesir tueddiadau o ran strwythur a swyddogaeth yn y dyfodol i fod yn negyddol, wedi'u gyrru gan orfaethu parhaus, sbwriel, a diffyg ymdrechion lliniaru ar raddfa helaeth. Bydd cynaliadwyedd hirdymor yn dibynnu ar reoli effeithiau lleol yn well, megis dŵr ffo sy'n cynnwys maethynnau a chynnal a chadw rhwystrau, ochr yn ochr â strategaethau ehangach i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o forlynnoedd arfordirol yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: © Getmapping Plc a Bluesky International Limited [2021]

Map dosbarthiad ar gyfer H1150

H1150 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.834

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn gostwng

H1150 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1160 Baeau

Mae baeau yng Nghymru yn cwmpasu tua 1,520 cilometr sgwâr. Mae cynefinoedd baeau yng Nghymru yn nodweddion cymhleth sy'n cynnwys gwaddodion islanwol yn bennaf, gydag ardaloedd llai o riffiau islanwol a rhynglanwol a gwaddodion rhynglanwol. Mae 83% o arwynebedd baeau Cymru yn nodwedd ddynodedig o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am faeau, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1160/.

Yng Nghymru, adroddir bod maint a dosbarthiad baeau yn sefydlog. Er y gallai newidiadau lleol bach fod wedi digwydd yn y gwasgariad a'r arwynebedd rhynglanwol, mae'n annhebygol y bydd ffiniau cyffredinol baeau yn symud heb newidiadau geomorffolegol sylweddol. Gan ddefnyddio asesiadau o gyflwr ACA cyhoeddedig wedi'u hategu â dadansoddiad ychwanegol a gynhaliwyd ar gyfer adroddiad Rheoliad 9a, fe aseswyd strwythur a swyddogaeth pump o wyth bae Cymru i fod â statws nad yw'n dda (61%), ac aseswyd y gweddill i fod â statws da (39%).

Ymhlith y pwysau parhaus o effaith uchel ar y cynefin hwn y mae llygredd maethynnau gwasgaredig o amaethyddiaeth, gollyngiadau o darddleoedd penodol, a llygredd halogyddion o ffynonellau diwydiannol. Ymhlith y pwysau parhaus o effaith ganolig y mae gweithrediadau llongau (e.e. angori), datblygu seilwaith porthladdoedd a charthu, addasiadau i'r arfordir a wnaed gan ddyn, gweithredu seilwaith ynni, ac effaith debygol newid hinsawdd (tymheredd y môr uwch a newidiadau yn nosbarthiadau rhywogaethau). Mae statws rhanbarthol nifer o stociau masnachol o bysgod sy'n gysylltiedig â baeau hefyd yn bryder. Nodwyd pwysau o effaith ganolig ar gyfer y dyfodol i fod yn effeithiau tebygol pellach o ganlyniad i newid hinsawdd (gan gynnwys newid cynefinoedd, codiad yn lefel y môr, gostyngiadau tebygol o rai rhywogaethau, a newidiadau mewn prosesau ecolegol), effeithiau ehangu dyframaeth posibl, gosod ceblau, ac effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol.

Ymhlith y mesurau cadwraeth a nodwyd y mae rheolaethau rheoleiddiol ar ffynonellau llygredd, megis y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru). Gellir mynd i'r afael â maethynnau a phroblemau ansawdd dŵr eraill yn rhannol drwy raglenni penodol, gan gynnwys dulliau cydweithredol o reoli maethynnau yn seiliedig ar ddalgylchoedd ac ymyriadau lleol. Mae trwyddedu morol, wedi'i lywio gan Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, asesiadau o gydymffurfedd â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac asesiadau o'r effaith amgylcheddol, yn sicrhau bod effeithiau prosiectau datblygu a gweithgareddau allweddol ar raddfa fawr yn cael eu rheoli. Caiff pysgodfeydd eu rheoli a'u rheoleiddio drwy ddeddfwriaeth y DU a Chymru. Mae mesurau cenedlaethol hefyd ar waith i fonitro a cheisio lleihau ymlediad rhywogaethau goresgynnol, lleihau mewnbwn sbwriel môr, a lliniaru effeithiau newid hinsawdd. Ar y cyfan, mae hyder yn yr asesiad o bwysau yn isel oherwydd y data cyfyngedig sydd ar gael.

Ystyrir bod rhagolygon baeau ar gyfer y dyfodol yn sefydlog, gyda hyder isel. Er y disgwylir i ddosbarthiad a maint aros yr un fath, mae'r amser y mae ei angen i adfer strwythur a swyddogaeth yn ansicr. Mae'r prif fesurau cadwraeth sy'n ymwneud â'r math hwn o gynefin eisoes wedi'u cymryd, yn cael eu hymchwilio iddynt, neu'n cael eu cynllunio i ryw raddau. Fodd bynnag, mae yna fesurau o hyd y mae angen eu nodi a'u gweithredu. Mae hyn yn debygol o gymryd amser oherwydd natur barhaus y pwysau, cymhlethdod a maint y problemau, a natur ddynamig ecosystemau morol.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o faeau yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H1160

H1160 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 1520.07

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H1160 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1170 Riffiau

Yng Nghymru, mae riffiau yn gynefinoedd pwysig ac amrywiol sy'n cynnwys riffiau o ddeilliant biolegol (biogenig) a riffiau caregog neu greigiog. Maent yn ffurfio cyfran sylweddol o ardaloedd rhynglanwol, bas-islanwol ac alltraeth Cymru, gan gynnwys llawer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ar y glannau. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am riffiau, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1170/.

Cyfanswm arwynebedd riffiau arfordirol ac alltraeth yng Nghymru yw 3,411 cilometr sgwâr. Y mwyafrif helaeth ohono yw riff creigiog (99.4%), tra bod riff biogenig yn cynrychioli dim ond 0.6% o'r cyfanswm hwn. Riffiau mewndirol, y rhai o fewn 12 milltir forol o'r tir, sy'n cynrychioli'r ardal fwyaf o riffiau yng Nghymru, gyda 3,130 cilometr sgwâr o riffau creigiog a 22 cilometr sgwâr o riffiau biogenig. Ar y môr, mae riffau yn gorchuddio 259 cilometr sgwâr a, hyd y gwyddom ni, dim ond riffiau creigiog y maent yn eu cynnwys, er bod llai o wybodaeth am yr ardal hon. Mae riffiau biogenig y farchfisglen (*Modiolus modiolus*) wedi gostwng 61% ers 2005, a chredir bod 50% o'r golled hon wedi digwydd rhwng 2015 a 2024. Mae colledion bach o riffiau rhynglanwol hefyd wedi digwydd yn raddol oherwydd datblygu arfordirol a gwaith amddiffyn.

Ystyrir bod pysgota yn bwys uchel yn ôl methodoleg y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, oherwydd bod gorgyffwrdd gofodol o >25% rhwng gweithgarwch pysgota tybiedig a'r nodwedd. Mae dadansoddiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn dangos gorgyffwrdd gofodol o 72% â riffiau alltraeth a 67% â riffiau ar y glannau. Mae dadansoddiad pellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru o weithgarwch pysgota tybiedig cymedrol ac uchel yn dangos gorgyffwrdd gofodol o 39% â riffiau alltraeth a 7.4% â riffiau ar y glannau. Mae dadansoddiad pysgota am gregyn bylchog Llywodraeth Cymru yn dangos gorgyffwrdd gofodol o 2.3% o'r gweithgarwch tybiedig o bysgota am gregyn bylchog â riffiau ar y glannau, a gyfrifwyd o gelloedd â >500 o bingiau System Monitro Llongau (VMS) dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae pwysau effaith ganolig o lygredd maethynnau a halogion o amaethyddiaeth, dŵr ffo trefol, a ffynonellau morol. Mae newid hinsawdd yn ychwanegu pwysau canolig trwy foroedd sy'n cynhesu a newidiadau yn nosbarthiad rhywogaethau, sy'n bygwth riffiau biogenig sensitif yn arbennig. Ymhlith y pwysau canolig ychwanegol y mae datblygiadau ynni adnewyddadwy, addasu arfordirol, a rhywogaethau estron goresgynnol, tra bod sawl bygythiad effaith is hefyd wedi'u cofnodi.

Ymhlith y mesurau uchel eu statws y mae rheoli pysgota masnachol a llygredd y môr, rheoleiddio effeithiau adeiladu, a lleihau llygredd o ffynonellau cymysg. Mae'r broses o reoli pysgodfeydd yn cael ei harwain gan Ddeddf Pysgodfeydd 2020 ac yn cael ei gweithredu drwy Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ac asesiadau o'r effaith ar gynefinoedd. Darperir mesurau rheoli llygredd drwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a mentrau cenedlaethol sy'n targedu sbwriel môr a lleihau gwastraff. Mae mesurau lefel ganolig yn canolbwyntio ar liniaru newid hinsawdd, rheoli rhywogaethau goresgynnol, rheoleiddio dyframaethu, ac adfer cynefinoedd arfordirol trwy fentrau megis y Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd a Phartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru).

Ystyrir bod y rhagolygon ar gyfer cynefinoedd riffiau yn wael oherwydd pwysau parhaus gan bysgota, datblygu a newid hinsawdd. Gallai llygredd gwasgaredig leihau os gorfodir rheolaethau rheoleiddiol. Mae cynhesu hinsawdd yn peri bygythiad sylweddol i riffiau biogenig *Modiolus*, a allai arwain at golledion pellach. Er bod mesurau diogelwch yn bodoli ym maes cynllunio morol ac ACAau, mae cydymffurfedd a gorfodi gwirfoddol yn parhau i fod yn hanfodol i atal gostyngiad.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o riffiau yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod y duedd gyffredinol o ran cynefinoedd yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws anhysbys.

Llun gan: Matt Doggett

Map dosbarthiad ar gyfer H1170

H1170 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 3,411

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H1170 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H1180 Strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy'n gollwng

Mae strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy'n gollwng yng Nghymru yn cyfeirio'n bennaf at riffiau carbonad awtigenig sy'n deillio o fethan (MDAC). Mae'r ffurfiannau hyn yn digwydd trwy ddefnydd microbau o fethan gan archaea anaerobig a bacteria sy'n rhydwytho sylffad, sy'n gwaddodi mwynau carbonad megis aragonit a chalsit â lefel uchel o fagnesiwm. Mae'r is-haenau caled sy'n deillio o hyn yn ffurfio cynefinoedd cymhleth tri dimensiwn tebyg i riff sy'n cynnal sbyngau, cwrelau, bryosoaid, ac amrywiol rywogaethau o bysgod gwaelod-drigol a physgod symudol. Mae'r riffiau hyn yn bwysig yn ecolegol oherwydd eu sefydlogrwydd, y ffordd maent yn cynnal bioamrywiaeth, a'u rôl mewn atafaelu carbon trwy gloi carbon sy'n deillio o fethan o fewn gwely'r môr. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy'n gollwng, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H1180/.

Yng Nghymru, gellir dod o hyd i riffiau MDAC yn bennaf ar y môr yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Llechfeini Carbonad Croker, sy'n cynrychioli 99.85% o'r adnodd cenedlaethol, gydag arwynebedd amcangyfrifedig o 58 cilometr sgwâr. Dim ond 0.036 cilometr sgwâr sydd i'r gydran arfordirol o amgylch Riff Holden yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, sy'n cynrychioli 0.15% o gyfanswm yr arwynebedd. Mae'r nodweddion glannau hyn yn unigryw yn y DU am eu bod wedi'u lleoli mewn amgylcheddau goleuol bas. Nid oes unrhyw ddata tueddiadau go iawn ar gyfer y gwasgariad cyffredinol oherwydd heriau gyda chanfod, er bod ardaloedd ar y glannau ac ardaloedd ar y môr yn cael eu hystyried yn sefydlog.

Mae riffiau MDAC yn wynebu amrywiol bwysau a bygythiadau, yn bennaf o bysgota a newid hinsawdd. Mae riffiau ar y môr yn sensitif iawn i bysgota'r gwaelod, ac mae gweithgareddau megis treillio a physgota â chewyll yn peri risgiau o ddifrod ffisegol a sgrafellu. Ymhlith y bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae asideiddio cefnforoedd, tymereddau môr yn codi, a newidiadau yn nosbarthiad rhywogaethau. Mae riffiau ar y glannau yn agored i bysgota sefydlog, lle gall llusgo cewyll sgrafellu arwynebau. Mae'r riff bas, bregus hefyd yn agored i fwy o amlygiad i donnau oherwydd newid hinsawdd. Yn ogystal, mae llygredd o fercwri ac etherau deuffenyl polybrominedig (PBDEau) wedi'i ganfod yng nghorff dŵr gogledd Bae Ceredigion, a allai effeithio ar gymunedau microbaidd sy'n hanfodol ar gyfer ffurfio riffiau MDAC.

Mae nifer o fesurau cadwraeth wedi'u nodi, er bod lefelau gweithredu'n amrywio. Ar y môr, fe gynigiwyd mesurau i gyfyngu ar arferion pysgota niweidiol yn ACA Llechfeini Carbonad Croker o dan broses argymhelliad ar y cyd yr UE, ond maent yn parhau heb eu mabwysiadu ar ôl Brexit. Mae cyfyngiadau ar offer pysgota ar y glannau ac ymchwiliadau i lygredd cemegol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi'u cychwyn. Ymhlith y camau gweithredu ehangach i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd y mae prosiectau adfer cynefin a strategaethau lleihau carbon, megis cynllun Cymru Sero Net a Chynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae sensitifrwydd riffiau MDAC yn awgrymu y gallai adferiad o effeithiau newid yn yr hinsawdd gymryd degawdau.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy'n gollwng yng Nghymru yn parhau i fod yn ansicr oherwydd data monitro cyfyngedig a gwerthoedd cyfeirio ffafriol anhysbys. Er bod rhai mesurau amddiffynnol ar waith, nid yw eu heffeithiolrwydd wedi'i asesu'n llawn. Gallai pwysau tymor byr a chanolig o bysgota a newid hinsawdd effeithio ar sefydlogrwydd riffiau MDAC, gan olygu bod angen rheolaeth addasol. Serch hynny, gyda monitro parhaus a chadwraeth ragweithiol, mae'r rhagolygon yn argoeli'n obeithiol, yn amodol ar orfodi polisïau a rheoli llygredd cadarn.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy'n gollwng yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anhysbys. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anhysbys.

Llun gan: Nick Owen (plymiwr wedi'i gontractio gan Cyfoeth Naturiol Cymru)

Map dosbarthiad ar gyfer H1180

H1180 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 58.115

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H1180 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Ffafriol (FV)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anhysbys (XX)

Tuedd gyffredinol:Amherthnasol

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl

H8330 Ogofâu môr

Ceir ogofâu môr ar hyd sawl rhan o arfordir creigiog Cymru a gellir dod o hyd iddynt hefyd o fewn pum Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Maent hefyd yn digwydd ar safleoedd megis Ynys Gybi a Phen-caer. Mae natur anhygyrch llawer o ogofâu yn cyfyngu ar y data sydd ar gael, yn enwedig ar gyfer enghreifftiau dyfnach neu danforol. Mae'r mannau hygyrch yn cael eu defnyddio at ddibenion hamdden cyfyngedig, gan gynnwys dringo ac arforgampau, er y credir nad yw llawer o ogofâu wedi'u heffeithio i raddau helaeth gan weithgarwch dynol uniongyrchol. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ogofâu môr, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H8330/.

Ni fu erioed arolwg cynhwysfawr o ogofâu môr yng Nghymru, a dim ond nifer fach sydd wedi'u hastudio'n fanwl. Felly mae'r dosbarthiad yn seiliedig ar gofnodion lle bachwyd ar y cyfle, sydd anghyflawn o bosibl, a gasglwyd ers 1975. Ni chasglwyd unrhyw ddata newydd ers y cyfnod adrodd blaenorol, ac ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o golledion ogofâu yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol. Felly mae'r duedd tymor byr yn seiliedig ar farn arbenigwyr, gyda hyder isel. Mae tueddiadau hirdymor yn awgrymu gostyngiad hanesyddol, er y credir nad yw'r dosbarthiad presennol ar y raddfa 10 cilometr sgwâr wedi newid ers 1989.

Mae llygredd dŵr morol ac arfordirol o ffynonellau cymysg, gan gynnwys gweithgareddau amaethyddol a diwydiannol, yn bwysau parhaus mawr. Mae halogyddion penodol megis mercwri, etherau deuffenyl polybrominedig (PBDEau), a nitrogen anorganig tawdd (DIN) wedi achosi methiannau o ran dosbarthu cyrff dŵr. Mae sbwriel môr, yn enwedig mewn ogofâu â thraethau mewnol, yn peri risgiau i rywogaethau megis morloi llwyd. Mae newid hinsawdd yn cyflwyno llawer o bwysau, gan gynnwys eithafion tymheredd, dosbarthiad rhywogaethau wedi'i newid, a symudiadau o ran y we fwyd. Ymhlith y risgiau yn y dyfodol y mae colli ogofâu oherwydd gwaith amddiffyn arfordirol a seilwaith, yn ogystal ag effeithiau twristiaeth, llygredd aer, a rhywogaethau goresgynnol, er bod tystiolaeth ar sawl un o'r pwysau hyn yn parhau i fod yn ansicr.

Ymhlith y camau cadwraeth y mae fframweithiau rheoleiddio sy'n mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a morol drwy gyfarwyddebau megis y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Strategaeth Forol y DU. Caiff y rhain eu gweithredu drwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd a'u cefnogi gan fentrau megis Partneriaeth Moroedd Glân Cymru a Deddf Diogelu'r Amgylchedd. Mae mesurau rheoli hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer gweithgareddau hamdden i amddiffyn cymunedau biolegol bregus mewn ogofâu. Mae mesurau sy'n targedu effeithiau trafnidiaeth a datblygu, megis asesiadau amgylcheddol a Chynlluniau Rheoli Traethlin, ar waith, er nad yw rhai ohonynt wedi'u gweithredu o hyd. Mae strategaethau ehangach ar gyfer yr hinsawdd ac adfer cynefinoedd yn cefnogi gwydnwch morol.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer ogofâu môr yng Nghymru yn awgrymu gwelliant graddol, yn amodol ar roi'r mesurau presennol ar waith yn effeithiol. Os caiff rheolaethau rheoleiddiol eu cynnal a'u gwella, mae'n bosibl y bydd y lefel o lygredd gwasgaredig o ffynonellau amaethyddol a diwydiannol yn gostwng yn y dyfodol agos. Ni ddisgwylir i effeithiau amcanestynedig codiad yn lefel y môr ac amlygiad i donnau oherwydd newid hinsawdd effeithio'n sylweddol ar ogofâu môr na'u cymunedau biolegol yn y dyfodol agos. Gall glynu wrth strategaethau rheoli arfordirol hefyd leihau colled cynefinoedd o ganlyniad i ddatblygiadau seilwaith.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ogofâu môr yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Rohan Holt

Map dosbarthiad ar gyfer H8330

H8330 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.0726

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H8330 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

S1376–S1377 Gwelyau maerl

Mae gwelyau maerl yn nodwedd cynefin newydd. Yn flaenorol, ar gyfer adrodd Erthygl 17, fe adroddwyd ar faerl ar wahân fel dwy rywogaeth wahanol: S1376 *Lithothamnium coralloides* ac S1377 *Phymatolithon calcareum*. Mae'r gwely maerl yn y Ddau Gleddau yn cynnwys clytwaith o faerl byw a marw ar waddodion tywodlyd mân, a gellir dod o hyd i faerl ffosiledig mewn haenau dyfnach. Mae adnabod y gwahanol rywogaethau maerl yn anodd, ac mae ymgeisiau blaenorol i'w hadnabod yn y maes wedi bod yn anghywir. Mae ymchwil foleciwlaidd ddiweddar yn dangos mai *L. corallioides* yw'r mwyafrif o'r sbesimenau o'r Ddau Gleddau yn bennaf yn hytrach na *P. calcareum*. Mae maerl yn brin yn genedlaethol ac yn cynnal fflora a ffawna amrywiol, gan gynnwys algâu anghyffredin sy'n endemig i faerl. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am welyau maerl, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://mhc.jncc.gov.uk/biotopes/jnccmncr00001554.

Mae cynefin maerl yng Nghymru wedi'i gyfyngu'n bennaf i'r Ddau Gleddau, gyda chofnodion llai, ynysig ger Ynysoedd Tudwal oddi ar Benrhyn Llŷn. Yn 2023, cadarnhaodd arolygon fod gwely maerl yn Ynys Tudwal Fach, er bod ei faint yn parhau i fod yn anhysbys. Roedd yr arolwg systematig diweddaraf o faerl byw yn y Ddau Gleddau yn amcangyfrif mai 6,587 m² oedd yr arwynebedd lleiaf gan ddefnyddio fideo tanforol. Dros yr hirdymor, mae arwynebedd y maerl byw wedi gostwng 71%, o 22,537 m² yn 2005 i 6,587 m² yn 2023.

Ymhlith y pwysau mawr ar wely'r maerl y mae rhywogaethau goresgynnol megis *Crepidula fornicata*, gweithgarwch morgludiant, dŵr ffo amaethyddol, a llygredd o ffynonellau diwydiannol a ffynonellau ynni. Mae *C. fornicata* yn tarfu ar welyau maerl trwy gynyddu gwaddodiad a chau bylchau rhwng thali maerl. Ymhlith y pwysau ychwanegol y mae newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n effeithio ar dymheredd, dyddodiad, a chemeg y cefnfor.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae rheoli llygredd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a chytundebau gwirfoddol i gyfyngu ar angori mewn cynefinoedd maerl. Mae gweithrediadau carthu yn cael eu rheoleiddio gan asesiadau amgylcheddol a dogfennau strategaeth i liniaru unrhyw effeithiau ar welyau maerl. Mae llusgrwydo am gregyn bylchog wedi'i wahardd yn y Ddau Gleddau o dan y rheoliadau pysgota cyfredol.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer gwelyau maerl yng Nghymru yn wael oherwydd pwysau parhaus, achosion cymhleth o ddirywiad, a chyfraddau twf maerl araf. Heb adferiad, efallai na fydd gwelyau'r Ddau Gleddau ac Ynys Tudwal Fach yn gymwys fel cynefinoedd maerl mwyach.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o welyau maerl yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) yn nodi statws anhysbys. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, er nad oedd yn ofynnol adrodd ar y duedd yn y gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU oherwydd y statws anhysbys.

Llun gan: Cyfoeth Naturiol Cymru, 2019

Map dosbarthiad ar gyfer S1376–S1377

S1376–S1377 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.006592

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

S1376–S1377 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–drwg (U2)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

6.6 Cynefinoedd ucheldirol

Llun gan: Barbara Jones, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

H8110 Sgri silicaidd ar y lefelau mynyddig i eira (*Androsacetalia alpinae* a *Galeopsietalia ladani*) (‘Sgri silicaidd’)

H8120 Sgri calchaidd a chalch-sgistaidd ar y lefelau mynyddig i alpaidd (*Thlaspietea rotundifolii*) (‘Sgri calchaidd’)

H8210 Llethrau creigiog calchaidd â llystyfiant casmoffytaidd (‘Llethrau creigiog calchaidd’)

H8220 Llethrau creigiog silicaidd â llystyfiant casmoffytaidd (‘Llethrau creigiog silicaidd’)

H8240 Calchbalmentydd

H8310 Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd

H8110 Sgri silicaidd

Mae sgri silicaidd yn cael ei ffurfio lle mae darnau o greigiau silicaidd megis cwartsit, gwenithfaen a thywodfaen yn cronni islaw clogwyni ac ar gopaon mynyddoedd sydd wedi'u dryllio gan rew. Gall y sgrïau hyn ddigwydd ar unrhyw uchder, ond dim ond sgrïau'r ucheldir sydd wedi'u cynnwys yn niffiniad Atodiad I o'r cynefin. Yng Nghymru, mae'r cynefin hwn fel arfer yn cynnal rhywogaethau arloesol ac yn darparu microgynefinoedd ar gyfer rhywogaethau sy'n sensitif i rew, lleithder neu bori, megis y rhedynen bersli (*Cryptogramma crispa*), rhedynach teneuwe Wilson (*Hymenophyllum wilsonii*) a'r gorfiaren (*Rubus saxatilis*). Mae'r rhan fwyaf o'r cynefin yn gysylltiedig â chymuned U21 *C. crispa – Deschampsia flexuosa*, er bod ffurfiau eraill lle mae bryoffytau a chennau yn drech yn bresennol, ond heb eu disgrifio yn y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sgri silicaidd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H8110/.

Mae'r cynefin wedi'i fapio o ucheldiroedd yn y Gogledd, lle gellir dod o hyd i *C. crispa* ymhlith sgri silicaidd uwchben caeau amaethyddol. Deilliwyd y dosbarthiad o arolygon a gynhaliwyd rhwng 1979 a 2002 ac a ddefnyddiwyd i greu rhestr System Gwybodaeth Ddaearyddol yn 2012, sy'n cael ei hystyried yn anghyflawn. Amcangyfrifir bod 316.51 hectar o gynefin yn bodoli, gyda therfyn uchaf posibl o 3,000 hectar. Nid oes tystiolaeth feintiol i asesu newidiadau i wasgariad nac arwynebedd dros y tymor byr na thros yr hirdymor.

Ymhlith y prif bwysau ar y cynefin y mae gorbori gan dda byw, yn enwedig geifr a defaid, gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored sy'n achosi erydiad lleol, a llygredd aer, yn enwedig dyddodiad nitrogen. Ymhlith y bygythiadau i'r cynefin y mae pori parhaus y tu allan i ardaloedd rheoledig, pwysau hamdden parhaus, effeithiau llygredd aer yn parhau er gwaethaf lefelau is o ddyddodiad, ymlediad rhedyn posibl, a newid hinsawdd sy'n effeithio ar rywogaethau ucheldir. Mae'n disgwyl i'r holl ffactorau hyn barhau neu ddwysáu, gyda rhywogaethau ucheldir ar ymyl deheuol eu dosbarthiad yn debygol o fod dan y bygythiad mwyaf.

Ymhlith y prif gamau y mae cynnal arferion pori priodol trwy gytundebau, sydd ar hyn o bryd yn cwmpasu rhan o'r cynefin sydd wedi'i fapio. Mae ymdrechion i reoli llwybrau troed a rheoli erydiad ar waith trwy waith gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau'r Parc Cenedlaethol. Eir i'r afael ag allyriadau a gludir yn yr awyr drwy amryw o reoliadau, er bod angen camau pellach i leihau nitrogen i lefelau diogel. Mae dulliau strategol yn targedu rhedyn a geifr lledwyllt.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru arbenigwr ar gyfer y cynefin hwn, sy'n atal unrhyw ragfynegiad ynghylch newidiadau yn ei arwynebedd neu ei strwythur a'i swyddogaeth dros y 12 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, ystyrir nad yw'n debygol y bydd y gwasgariad cyffredinol yn newid.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o sgri silicaidd yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anhysbys. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi bod ei statws yn anhysbys. Nid oes angen adrodd ar duedd gyffredinol y cynefin pan fo'r statws cyffredinol yn anhysbys.

Llun gan: Cyngor Cefn Gwlad Cymru (delwedd etifeddol)

Map dosbarthiad ar gyfer H8110

Map gwasgariad ar gyfer H8110

H8110 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 3.17

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H8110 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anhysbys (XX)

Tuedd gyffredinol: Amherthnasol

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H8120 Sgri calchaidd

Ceir sgri calchaidd ar gopaon a llethrau sydd wedi'u dryllio gan rew islaw clogwyni, lle mae darnau o galchfaen, sgistau calchaidd, a chreigiau igneaidd sylfaenol yn cronni. Ymhlith y llystyfiant y mae rhywogaethau calchgar (sy'n byw mewn calch) a basiffilig (sy'n hoffi amodau alcalïaidd), gyda chyfansoddiad y rhywogaethau wedi'i ddylanwadu gan uchder. Ymhlith y rhywogaethau ar uchder uchel y mae'r tormaen porffor (*Saxifraga oppositifolia*), y rhedynen gelyn (*Polystichum lonchitis*) a gweunwellt y mynydd (*Poa alpina*), tra ar uchder is mae rhedynen y calchfaen (*Gymnocarpium robertianum*), y goesgoch (*Geranium robertianum*) a gwylaeth y fagwyr (*Mycelis muralis*) yn fwy cyffredin. Ceir nifer fawr o fwsoglau calchgar yn y cynefin. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sgri calchaidd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H8120/.

Mae sgri calchaidd yn gynefin prin yng Nghymru, a geir yn bennaf yn ucheldiroedd Bannau Brycheiniog a Chlwyd. Mae arwynebedd amcangyfrifedig y cynefin yn amrywio o isafswm o 34.3 hectar i uchafswm posibl o 60 hectar, gyda 27.2 hectar wedi'i fapio yn Eglwyseg a Llangatwg, a 7.1 hectar ychwanegol wedi'i gasglu o wyth cofnod pwynt. Mae gwaith monitro yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd yn dangos bod y cynefin mewn cyflwr anffafriol a bod hyn yn cynrychioli dros hanner y cynefin hysbys yng Nghymru.

Ymhlith y prif bwysau y mae gorbori, llygredd aer o ffynonellau cymysg, a dyddodiad nitrogen atmosfferig, a all gyfrannu at rywogaethau sy'n dynodi aflonyddwch a gorfaethu. Ymhlith y pwysau cymedrol y mae ymlediad rhedyn a phrysgwydd, hamdden awyr agored sy'n arwain at erydiad, a chotoneaster goresgynnol.

Mae ymdrechion cadwraeth wedi cynnwys rheoli pori trwy gytundebau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sy'n cwmpasu 97% o bolygonau wedi'u mapio a 25% o bwyntiau, er bod diffyg targedu sy'n benodol i sgri. Mae mesurau rheoli rhywogaethau goresgynnol megis cotoneaster a phrysgwydd a rhedyn brodorol yn mynd rhagddynt. Mae mesurau rheoli llwybrau yn cael eu gweithredu i leihau erydiad, yn enwedig ar Lwybr Clawdd Offa ar hyd Tarren Eglwyseg. Mae allyriadau nitrogen yn cael eu rheoleiddio'n genedlaethol ac yn lleol, ond mae angen camau pellach i leihau dyddodiad a deall ei effaith.

Byddai rheoli pori a gweithgareddau hamdden yn well o gymorth i adfer y cynefin, yn enwedig yn Eglwyseg. Mae ymdrechion monitro a rheoli cotoneaster estron yn hanfodol i'w atal rhag dod yn broblem fawr. Mae effeithiau hirdymor dyddodiad nitrogen a newid hinsawdd yn parhau i gael eu deall yn wael ar gyfer y cynefin hwn.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o sgri calchaidd yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Julie Creer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H8120

Map gwasgariad ar gyfer H8120

H8120 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.47

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H8120 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth gefnogol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H8210 Llethrau creigiog calchaidd

Mae'r cynefin hwn yn cynnwys cymunedau planhigion sy'n meddiannu craciau a holltau mewn clogwyni a wynebau creigiau calchog. Nodweddir llystyfiant gan fryoffytau megis *Tortella tortuosa*, *Anoectangium aestivum* a *Ctenidium molluscum*. Ymhlith y planhigion fasgwlaidd sy'n gysylltiedig â'r cynefin hwn y mae'r ffiolredynen frau (*Cystopteris fragilis*), y duegredynen werdd (*Asplenium viride*) a'r gweunwellt llwydlas (*Poa glauca*). Gellir dod o hyd i'r cynefin ar greigiau bas-gyfoethog ar draws ucheldiroedd ac iseldiroedd yn y Gogledd a'r De. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lethrau creigiog calchaidd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H8210/.

Mae dosbarthiad presennol y cynefin yng Nghymru wedi'i ddeall yn gymharol wael ac nid oes digon o waith monitro rheolaidd yn cael ei wneud. Ystyrir bod y gwasgariad yn debygol o fod wedi parhau yn sefydlog ers 2007. Dim ond mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a fonitrwyd rhwng 2007 a 2012 y mae'r cynefin wedi'i gadarnhau yn y maes: Eryri, Bannau Brycheiniog a Chadair Idris. Nid oes ffigur dibynadwy ar gael ar gyfer maint y cynefin oherwydd nad yw wedi'i fapio.

Ymhlith y prif bwysau y mae gorbori gan dda byw, gydag effaith pori uchel wedi'i chofnodi mewn rhai ACAau. Ymhlith y pwysau eraill y mae chwaraeon awyr agored megis dringo creigiau a dringo iâ, a goresgyniad gan redyn, prysgwydd, a rhywogaethau estron megis cotoneaster. Mae llygredd aer a dyddodiad nitrogen atmosfferig yn bwysau sylweddol ac yn cael effeithiau aneglur ar fflora sensitif. Mae newid hinsawdd ac olyniaeth naturiol yn fygythiadau ychwanegol sydd wedi'u nodi.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae arferion rheoli pori mewn ardaloedd dethol, er gwaethaf absenoldeb cytundebau penodol i gynefinoedd. Rheolir rhywogaethau goresgynnol brodorol ac estron, gan gynnwys rhedyn a chotoneaster, yn ogystal â geifr lledwyllt yn Eryri. Eir i'r afael â gweithgareddau hamdden drwy gyhoeddusrwydd a chyfyngiadau gwirfoddol ar ddringo mewn rhai lleoliadau. Mae effeithiau nitrogen atmosfferig yn cael eu monitro, ond nid oes unrhyw gamau lliniaru penodol yn hysbys.

Nid yw'n debygol y bydd y gwasgariad cyffredinol yn newid o fewn y 12 mlynedd nesaf. Oherwydd nad oes arbenigwr ar y cynefin yn Cyfoeth Naturiol Cymru, ni ellir rhagfynegi tueddiadau o ran arwynebedd a strwythur/swyddogaeth dros y 12 mlynedd nesaf.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lethrau creigiog calchaidd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Barbara Jones, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H8210

Map gwasgariad ar gyfer H8210

H8210 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 2.7

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H8210 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H8220 Llethrau creigiog silicaidd

Mae llethrau creigiog silicaidd â llystyfiant casmoffytaidd (cymunedau o blanhigion sy'n cytrefu craciau a holltau mewn wynebau creigiau) wedi'u cyfyngu i glogwyni mewndirol a llethrau creigiog serth yn ardaloedd ucheldir ac iseldir Cymru fel ei gilydd. Mae'r cynefin yn cynnwys llystyfiant y gellir ei ddosbarthu o dan gymunedau'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol megis U18 *Cryptogramma crispa – Athyrium distentifolium* ac U21 *Cryptogramma crispa – Deschampsia flexuosa*. Ymhlith y bryoffytau a phlanhigion fasgwlaidd cyffredin y mae *Amphidium mougeotii*, rhywogaethau *Racomitrium*, *Deschampsia flexuosa*, a *Huperzia selago*. Gellir dod o hyd i'r cynefin ochr yn ochr â chynefinoedd llethrau calchaidd-greigiog lle ceir creigiau asidig a chalchog gyda'i gilydd. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am lethrau creigiog silicaidd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H8220/.

Rhagfynegwyd dosbarthiad y cynefin hwn yng Nghymru gan ddefnyddio cofnodion 10 cilometr sgwâr o rywogaethau megis *Asplenium septentrionale*, *A. trichomanes* subsp. *trichomanes*, a *Cerastium arcticum*. Deilliwyd y cofnodion hyn o atlas fflora Prydain ac Iwerddon, ac fe'u defnyddiwyd i gynhyrchu rhestr System Gwybodaeth Ddaearyddol. Mae'r set ddata yn rhannol, ac mae enghreifftiau o'r iseldir wedi'u tan-gofnodi. Ni wnaed unrhyw newidiadau mewn cofnodion 10 cilometr sgwâr ers adroddiad 2013, ac nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru system fonitro i ganfod newidiadau i'r gwasgariad.

Ymhlith y prif bwysau parhaus y mae pori dwys, gweithgareddau hamdden awyr agored megis dringo clogwyni, a llygredd aer o ddyddodiad nitrogen. Mae rhywogaethau brodorol problemus megis rhedyn a phrysgwydd, a rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys *Epilobium brunnescens* ac eginblanhigion conwydd, hefyd yn peri bygythiadau. Mae olyniaeth naturiol a geifr lledwyllt yn cyfrannu at bwysau ychwanegol mewn ardaloedd megis Eryri. Mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu, yn enwedig ar lwybrau fel y rhai ar yr Wyddfa, ac mae'n disgwyl i'r tueddiadau hyn barhau neu gynyddu.

Mae ymdrechion cadwraeth yn canolbwyntio ar reoli lefelau pori, gan gynnwys gostyngiadau wedi'u targedu mewn safleoedd megis Cwm Idwal. Ceir mesurau i reoli rhywogaethau brodorol sy'n peri problemau megis rhedyn a rheoli planhigion estron goresgynnol a geifr lledwyllt. Eir i'r afael ag effeithiau gweithgareddau hamdden drwy gyhoeddusrwydd a chytundebau gwirfoddol i gyfyngu ar ddifrod o weithgareddau megis dringo iâ. Mae gwaith monitro ac ymdrechion i leihau dyddodiad nitrogen hefyd ar waith.

Nid oes digon o arbenigedd arbenigol yn Cyfoeth Naturiol Cymru i ragfynegi tueddiadau'r dyfodol o ran gwasgariad, arwynebedd, neu gyflwr cynefin. Fodd bynnag, mae gwaith monitro mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn dangos, drwy reoli pori a phwysau hamdden, bod adferiad yn bosibl. Mae ansicrwydd yn parhau ynghylch effeithiau hirdymor dyddodiad nitrogen a newid hinsawdd ar y cynefin hwn.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o lethrau creigiog silicaidd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Barbara Jones, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H8220

Map gwasgariad ar gyfer H8220

H8220 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 12

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H8220 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anhysbys (XX)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H8240 Calchbalmentydd

Ceir calchbalmentydd ar galchfaen carbonifferaidd sy'n brigo ac maent yn nodedig am eu pwysigrwydd daearegol a biolegol. Mae'r llystyfiant yn cynnwys cymysgedd amrywiol o blanhigion fasgwlaidd, bryoffytau a chennau, gyda'r cyfansoddiad yn amrywio yn seiliedig ar leoliad, uchder, gorchudd coed, a phwysau pori. Yn aml, mae rhywogaethau coetir ac ymyl coed yn byw ymhlith greiciau sydd wedi'u cysgodi (agennau neu graciau dwfn), tra bod y clintiau'n (blociau o galchfaen agored) yn cynnal rhywogaethau cynefin creigiog neu'n foel. Gall prysgwydd ddatblygu yn absenoldeb pori, ac mae prysgwydd sy'n frith o epiffytau yn arbennig o nodedig mewn ardaloedd cefnforol. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H8240/.

Yr arwynebedd a gofnodwyd ar gyfer y cynefin yw 77.73 hectar. Fe'i cadarnhawyd mewn chwe sgwâr 10 cilometr ym Mannau Brycheiniog yn 2007, ac mewn chwe sgwâr 10 cilometr yn y Gogledd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol. Yn 2023, gwnaeth ailymweliadau â safleoedd a fapiwyd yn flaenorol yn 1975 ailddarganfod y cynefin mewn 22 allan o 23 ohonynt. Mae'r ymweliadau hyn yn cadarnhau presenoldeb y cynefin mewn 52% o sgwariau 10 cilometr Cymru rhwng 2007 a 2012. Er gwaethaf rhai colledion hirdymor, nid oes unrhyw arwydd o newid diweddar yn y gwasgariad na'r arwynebedd.

Ymhlith y pwysau mwyaf sylweddol y mae gorbori, llygredd aer o ddyddodiad nitrogen, ac olyniaeth naturiol. Sylwyd bod gorbori yn achosi mwy o orchudd glaswellt a gorfaethu, tra bod 96% o arwynebedd y cynefin yn profi lefelau nitrogen atmosfferig sy'n uwch na'r llwyth critigol dros dro. Mae olyniaeth naturiol, megis ymlediad prysgwydd a choed, wedi'i gysylltu â dirywiad yng nghyfoeth y rhywogaethau sy'n bresennol. Ymhlith y pwysau cymedrol y mae gwrteithio ac echdynnu mwynau, ac mae colledion hanesyddol o ganlyniad i weithgarwch chwarela wedi'u nodi.

Ymhlith y prif fesurau cadwraeth y mae addasu pori i atal gorbori a newid olyniaeth, rheoli'r defnydd o wrtaith, a rheoli ymlediad prysgwydd a choed. Defnyddir pori'n helaeth i gynnal amodau agored, gyda rhywfaint o glirio coed ar safleoedd coetiroedd. Er bod deddfwriaeth Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), dynodiad Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (RIGS), a'r Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn cynnig gwahanol lefelau o warchodaeth, nid oes unrhyw orchmynion calchbalmentydd ar waith yng Nghymru, gan olygu bod ardaloedd y tu allan i safleoedd gwarchodedig statudol yn wynebu'r posibilrwydd o greigiau'n cael eu symud.

Ystyrir bod gwasgariad ac arwynebedd cynefin calchbalmentydd yng Nghymru yn sefydlog ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cyflwr cyffredinol y cynefin yn ymddangos yn wael, yn enwedig yn yr ardaloedd deheuol yr effeithir arnynt gan orbori a gorfaethu. Mae lefelau dyddodiad nitrogen yn parhau i fod yn uchel mewn safleoedd ucheldir, ac mae ardaloedd nad ydynt wedi'u rheoli yn wynebu'r posibilrwydd o golli palmentydd agored oherwydd ymlediad prysgwydd. Nid yw'n debygol y bydd y materion hyn yn cael eu datrys yn y dyfodol agos.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o galchbalmentydd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–annigonol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Stuart Smith, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H8240

Map gwasgariad ar gyfer H8240

H8240 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.7773

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H8240 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws cyffredinol: Anffafriol–annigonol (U1)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H8310 Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd

Mae ogofâu o fath cynefin H8310 yn cael eu ffurfio trwy brosesau daearegol naturiol hirdymor, ac nid oes modd cynyddu hyd cyffredinol yr ogofâu trwy ddulliau artiffisial. Mae'r ogofâu hyn yn nodweddiadol o ranbarthau calchfaen yn y Gogledd a'r De. Ymhlith y rhywogaethau a gofnodwyd yn ogofeydd Cymru y mae'r cramenogion *Proasellus cavaticus*, *Crangonyx subterraneus*, *Niphargus aquilex*, *Niphargus fontanus* a *Microniphargus leruthi*, a'r corryn *Porrhomma rosenhaueri*. Mae gwaith archwilio yn mynd rhagddo i ddatgelu cynteddau ogofâu newydd, er nad yw cyfradd y darganfyddiadau wedi'i dogfennu. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H8310/.

Ceir y cynefin hwn o fewn 17 sgwâr 10 cilometr ledled Cymru. Mae dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) – Safleoedd Ystlumod Afon Wysg ac Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru – yn cynnwys cynefinoedd ogofâu sy'n gysylltiedig â'r nodwedd hon, er eu bod wedi'u dynodi'n bennaf ar gyfer ystlumod. Ystyrir bod gwasgariad y cynefin hwn yn sefydlog dros y tymor byr a'r tymor hir. Er bod cynteddau newydd yn cael eu darganfod o bryd i'w gilydd, nid ydynt wedi newid maint cyffredinol y cynefin yn sylweddol.

Ymhlith y prif bwysau y mae ogofa hamdden a thwristiaeth, a all effeithio ar ecosystemau ogofâu trwy gynyddu'r lefelau o CO_2, cyflwyno goleuadau artiffisial, a newid microhinsoddau ogofâu. Gall gweithgareddau chwarela a mwyngloddio newid llwythi gwaddod, hydroleg, ac ansawdd dŵr o fewn ogofâu. Mae llygredd amaethyddol a halogiad dŵr daear yn peri bygythiadau uniongyrchol i ffawna ogofâu ac amodau hydrolegol. Ymhlith y bygythiadau eraill y mae allyriadau gwaredu gwastraff a newidiadau i lefelau dyddodiad a dŵr a achosir gan newid hinsawdd.

Ymhlith y mesurau perthnasol y mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd â'r nod o leihau llygredd amaethyddol, a strategaethau rheoli hamdden o fewn ACAau a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau). Fodd bynnag, mae'r dynodiadau hyn yn targedu rhywogaethau a nodweddion daearegol yn bennaf, nid cynefin yr ogof yn benodol. Mae camau gweithredu o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr hefyd yn cyfrannu at yr ymdrechion i fynd i'r afael â llygredd dyfrol a thynnu dŵr. Er gwaethaf rhywfaint o warchodaeth, mae mesurau cadwraeth uniongyrchol ar gyfer ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd yn parhau i fod yn gyfyngedig oherwydd dealltwriaeth wael o'r cynefin.

Mae prosesau daearegol naturiol yn parhau i lunio'r cynefin hwn, ond mae ffactorau biolegol megis ansawdd dŵr a phwysau hamdden yn cyflwyno risgiau parhaus. Mae effeithiau ar rywogaethau, gan gynnwys ystlumod a ffawna ogofâu dyfrol, yn gysylltiedig â newidiadau mewn maethynnau, llygryddion, a mewnbwn gwaddod. Er y gall archwilio sy'n gysylltiedig â hamdden wella gwybodaeth am y cynefin a'i warchodaeth, mae hyder mewn asesiadau yn y dyfodol yn parhau i fod yn isel oherwydd data prin. At ei gilydd, mae'r rhagolygon wedi'u cyfyngu gan fregusrwydd biolegol a thystiolaeth gyfyngedig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn ffafriol. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU gyfan (2019) hefyd yn nodi statws ffafriol. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H8310

Map gwasgariad ar gyfer H8310

H8310 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): Amherthnasol

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Sefydlog

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H8310 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Ffafriol (FV)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Ffafriol (FV)

Statws cyffredinol: Ffafriol (FV)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

6.7 Cynefinoedd gwlyptiroedd

Llun gan: Peter Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

H7110 Cyforgorsydd gweithredol

H7120 Cyforgorsydd diraddiedig sy'n dal i allu adfywio'n naturiol (‘Cyforgorsydd diraddiedig’)

H7130 Gorgorsydd

H7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig

H7150 Pantiau ar is-haenau mawn o’r Rhynchosporion (‘Pantiau ar is-haenau mawn’)

H7210 Ffeniau calchaidd gyda *Cladium mariscus* a rhywogaethau o’r Caricion davallianae (‘Ffeniau calchaidd’)

H7220 Tarddellau caregu gyda ffurfiannau twffa (*Cratoneurion*) (‘Tarddellau caregu gyda thwffa’)

H7230 Ffeniau alcalïaidd

H7240 Ffurfiannau arloesol alpaidd y *Caricion bicoloris-atrofuscae* (‘Ffurfiannau arloesol alpaidd’)

H7110 Cyforgorsydd gweithredol

Mae cyforgorsydd gweithredol yn ffurfio lle mae mawn yn cronni digon i ynysu wyneb y gors oddi wrth ffynonellau dŵr daearol, gan eu gwneud yn ddibynnol yn llwyr ar lawiad. Mae llawer o gorsydd yn tarddu o gyfnodau cyn y cyfnodau gwern a ffen, gyda datblygiad mawn yn nodi'r cyfnod a fwydir gan law o esblygiad cors (ombrogenaidd). Gellir dod o hyd iddynt yn gyffredin mewn tirweddau gwastad â systemau draenio gwael, yn enwedig y tirweddau hynny â chleiau a chlog-gleiau anhydraidd sy'n hybu amodau dyfrlawn. Mae cyforgorsydd gweithredol yn cynnal mwsoglau oligotroffig, *Eriophorum vaginatum*, ac ericoidau. Mae'r rhain, a rhywogaethau eraill, yn ffurfio cymunedau'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol megis M17–M18, ac maent yn nodweddiadol am fod yn ddi-goed, ac eithrio mewn ardaloedd ymylol. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gyforgorsydd gweithredol, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H7110/.

Mae cyforgorsydd gweithredol wedi'u cofnodi o tua 45 o safleoedd ledled Cymru. Yr amcangyfrif gorau cyfredol o faint cyforgorsydd gweithredol yng Nghymru yw 1,588.6 hectar. Nid oes tystiolaeth o unrhyw grebachiad diweddar yn y gwasgariad, ond gwyddys fod safleoedd wedi'u colli dros y 1,000 o flynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd torri mawn ac adfer amaethyddol. Mae'n debyg bod coedwigo wedi achosi colledion mwy diweddar.

Ymhlith y prif bwysau y mae effeithiau hydrolegol draenio, gorbori a thanbori, ac ymlediad prysgwydd, sy'n aml yn gysylltiedig â than-reolaeth a dyddodiad maethynnau. Mae llygredd aer, yn enwedig dyddodiad nitrogen, yn effeithio ar bob rhan hysbys o'r cynefin hwn yng Nghymru. Mae effeithiau etifeddol o drosi amaethyddol ac echdynnu mawn yn parhau i ddirywio ansawdd y cynefin a hydroleg.

Rhoddodd prosiect Cyforgorsydd Cymru LIFE gamau gweithredu hydrolegol ar waith yn bennaf, a oedd o fudd i oddeutu 730.5 hectar o gyforgorsydd gweithredol ar draws chwe safle Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Ar hyn o bryd, dim ond rhannau bach o'r cynefin sy'n cael eu cwmpasu gan gytundebau rheoli tir a chynlluniau amaeth-amgylcheddol cyfyngedig. Mae camau gweithredu i fynd i'r afael ag effeithiau coedwigaeth, llygredd nitrogen, a llygredd dŵr gwasgaredig wedi'u nodi, ond maent yn parhau i fod heb eu gweithredu i raddau helaeth. Mae llawer o effeithiau hydrolegol ar raddfa fawr yn parhau heb eu datrys.

Er gwaethaf ymdrechion adfer mewn ACAau / Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, mae cyforgorsydd gweithredol yn parhau i fod yn agored iawn i niwed oherwydd dirywiad hydrolegol parhaus, lleiniau bach y tu allan i ACAau, a dyddodiad nitrogen. Ar hyn o bryd, dim ond 38.5% o'i arwynebedd gwreiddiol amcangyfrifedig yng Nghymru y mae'r cynefin yn ei orchuddio, ac mae colledion ar raddfa fach yn parhau i fod heb eu holrhain. Oni bai fod mesurau pellach yn cael eu rhoi ar waith i leihau mewnbynnau nitrogen, mae'n bosibl y bydd llawer o'r cynefin yn parhau i fod mewn cyflwr anffafriol erbyn 2035.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o gyforgorsydd gweithredol yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ledled y DU (2019) hefyd yn nodi bod eu statws yn anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Pete Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H7110

Map gwasgariad ar gyfer H7110

H7110 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 15.89

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn cynyddu

H7110 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–drwg (U2)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H7120 Cyforgorsydd diraddiedig

Mae cyforgorsydd diraddiedig yn cwmpasu amrywiaeth eang o gynefinoedd a mathau o dir sydd wedi disodli cyforgorsydd gweithredol oherwydd amrywiol bwysau defnydd tir, gan gynnwys draenio, adfer amaethyddol, plannu coed, a thorri mawn. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys llystyfiant corsydd a rhostir ar fawn, glaswelltiroedd wedi'u gwella a'u lled-wella, a choetiroedd collddail a chonifferaidd. I fod yn gymwys fel H7120, rhaid bod modd adfer y safleoedd i gyflwr lle bo modd ffurfio mawn o fewn 30 mlynedd, gan ganiatáu ar gyfer cynnwys eang oherwydd datblygiadau adfer. Mae cyforgorsydd diraddiedig yn allyrwyr cryf o garbon a nwyon tŷ gwydr eraill, ac mae eu presenoldeb yn gwaethygu gwydnwch ecolegol y cyforgorsydd gweithredol cyfagos. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gyforgorsydd diraddiedig, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H7120/.

Yn bennaf, ceir cyforgorsydd diraddiedig o amgylch ymylon cyforgorsydd yr iseldir, ac mae'r cynefin hwn yn ffurfio bron pob rhan o safleoedd megis Morfa Ystradowen ac Waun Ddu. Amcangyfrifir bod cyfanswm arwynebedd y cynefin yng Nghymru yn 897 hectar, yn seiliedig ar setiau data o lawer o arolygon, gan gynnwys Arolwg o Fawndiroedd yr Iseldir yng Nghymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Arolwg Cynefinoedd Cymru cynharach. Nid oes tystiolaeth feintiol o newidiadau yn yr arwynebedd, ond mae barn arbenigwyr yn awgrymu dirywiad tebygol oherwydd dirywiad mawndiroedd heb eu diogelu.

Ymhlith y prif bwysau ar gyforgorsydd diraddiedig y mae draenio, rheolaeth amaethyddol ddwys barhaus, pori helaeth neu ddwys, llygredd aer, ac ymlediad prysgwydd oherwydd tan-reolaeth. Mae goresgyniad prysgwydd a goresgyniad *Molinia* hefyd yn broblemau cyffredin, sy'n gysylltiedig â draenio yn y gorffennol, dyddodiad maethynnau atmosfferig, a phori annigonol. Ymhlith y pwysau ychwanegol y mae effeithiau gweithgarwch echdynnu mawn hanesyddol, coedwigo, a dyddodiad nitrogen sy'n uwch na'r llwythi critigol ar draws y cynefin.

Ymhlith y camau cadwraeth parhaus y mae adfer hydrolegol, arferion pori cynaliadwy, rheoli llygredd, ac addasu rheolaeth coedwigoedd. Fodd bynnag, mae gweithrediad yn parhau i fod yn gyfyngedig, gyda dim ond 20.3 hectar o dan gytundebau rheoli tir Cyfoeth Naturiol Cymru, a gwnaed ychydig iawn o waith adfer y tu allan i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).

Gallai newid strategol i adfer ecosystemau ar raddfa fawr gynyddu adferiad cyforgorsydd gweithredol (H7110*) yn sylweddol o fewn 50 mlynedd. Mae rhagolygon y dyfodol yn cael eu herio gan ddyddodiad nitrogen parhaus a rheolaeth ddwys barhaus, a fydd yn golygu bod gwaith adfer yn y dyfodol yn anos.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o gyforgorsydd diraddedig yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Pete Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H7120

Map gwasgariad ar gyfer H7120

H7120 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 8.97

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H7120 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H7130 Gorgorsydd

Mae gorgorsydd yn eang eu gwasgariad yn ucheldiroedd Cymru uwchlaw 300 metr ar lwyfandiroedd, cribau a llethrau, yn ogystal ag ar uchderau is ar ffurf lleiniau cynefin llai. Cânt eu llunio gan lawiad, tymheredd, topograffeg, a defnydd tir yn y gorffennol, ac mae ardaloedd sylweddol wedi'u heffeithio gan goedwigo ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Mae'r cynefin yn cynnwys ardaloedd mawndir gwlyb mawr, di-dor gyda pharthau o lystyfiant naturiol sy'n gysylltiedig ag amrywiadau yn nyfnder mawn, hydroleg a datblygiad. Mae'n cynnwys mathau o lystyfiant cors is-fynyddig o ansawdd da, er bod ardaloedd lle mae grug, glaswellt a hesg yn drech yn gyffredin mewn safleoedd diraddedig. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am orgorsydd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H7130/.

Ceir gorgorsydd ar draws 115 hectar yng Nghymru, yn seiliedig ar ddata 2012. Mae o leiaf 68% o'r cofnodion am y cynefin o 1996 neu'n ddiweddarach. Nid oes system ar gyfer monitro enillion neu golledion mewn gorgorsydd, er bu rhai colledion lleol ac enillion heb eu mesur. Mae'r rhan fwyaf o waith adfer o fewn gwasgariad craidd y cynefin, ac mae barn arbenigwyr yn dangos tuedd sy'n gwaethygu.

Ymhlith y prif bwysau y mae gorbori a thanbori, draenio ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth, dyddodiad nitrogen atmosfferig, a datblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae ymlediad *Molinia caerulea* a *Calluna vulgaris* yn gysylltiedig â rheolaeth hanesyddol a rheolaeth gyfredol, yn enwedig pori, llosgi a draenio. Mae datblygiadau ffermydd gwynt, coedwigo, dyddodiad atmosfferig a goresgyniad conwydd yn parhau i fod yn fygythiadau. Ymhlith y pwysau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae newidiadau mewn tymheredd a dyddodiad, er ei bod yn anodd arwahanu effeithiau penodol. Mae erydu mawn a llosgi amhriodol hefyd yn parhau ar draws y cynefin.

Ymhlith yr ymdrechion adfer y mae gwaith cau ffosydd, mesurau ailwlychu eraill, a rheoli pori o dan gynlluniau megis Glastir Uwch. Mae treialon torri a phori wedi dangos canlyniadau cadarnhaol ar gyfer corsydd lle mae *Molinia* yn drech. Mae tynnu conwydd ac adfer mawndiroedd yn flaenoriaethau, ynghyd â mesurau i leihau dyddodiad nitrogen ac atal colled a difrod a achosir gan ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae cytundebau rheoli a dynodiadau Ardal Cadwraeth Arbennig / Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ACA/SoDdGA) yn cefnogi ymdrechion cadwraeth parhaus ac mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn canolbwyntio ar adfer corsydd wedi'u coedwigo a mesurau i fynd i'r afael â draenio ac erydu.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer gorgors yn gymysg. Mae'n disgwyl i rywfaint o enillion o ran arwynebedd mawndir o ganlyniad i gael gwared ar gonwydd ac ailwlychu, ond mae ardaloedd eraill o goedwigo (gan gynnwys ailstocio) yn parhau i fod ar fawn adferadwy ac yn wynebu risg o golled a difrod pellach o ganlyniad i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Er y gall gwaith adfer ddychwelyd mawndiroedd wedi'u haddasu i statws llawer gwell, neu hyd yn oed statws gweithredol, ceir dyddodiad nitrogen atmosfferig sy'n uwch na'r llwythi critigol ar draws pob safle, gan beri bygythiad parhaus sylweddol. Mae mesurau adfer effeithiol yn gofyn am ddiogelu cyrff mawn cyfan ac ymyriadau ar lefel yr ecosystem. Er gwaethaf presenoldeb ardaloedd gwarchodedig ac ymdrechion adfer, rhagwelir y bydd llawer o'r cynefin yn parhau mewn cyflwr anffafriol erbyn 2035 oherwydd dyddodiad nitrogen.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o orgorsydd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Peter Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H7130

Map gwasgariad ar gyfer H7130

H7130 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 532

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H7130 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–drwg (U2)

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig

Mae mignenni pontio a chorsydd crynedig yng Nghymru yn cwmpasu amrywiaeth o fignenni gwael tebyg i ffeniau a chorsydd yr effeithir arnynt gan amodau minerotroffig gwan. Ceir y cynefinoedd hyn mewn cyd-destunau topogenaidd a soligenaidd a gellir dod o hyd iddynt mewn cysylltiad â chynefinoedd corsydd, er mai'r cynefin yw prif nodwedd mawndiroedd mewn llawer o safleoedd. Yn aml, gellir dod o hyd iddynt ar arwynebau mawn a oedd gynt wedi'u torri, gan gynrychioli camau yn y broses o adfywio mawndiroedd yn dilyn gweithgarwch echdynnu mawn hanesyddol. Mae'r cynefin hwn yn adnodd cadwraeth gwerthfawr iawn, ond wedi'i ddosbarthu'n anghyson, yn rhwydwaith Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Cymru. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am fignenni pontio a chorsydd crynedig, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H7140/.

Mae map dosbarthiad 2013 yn parhau i gael ei ddefnyddio, gan adlewyrchu 103 o gofnodion hectad, ac mae wedi'i seilio ar ddadansoddiad System Gwybodaeth Ddaearyddol o 12,259 o gofnodion polygon, y mwyaf ohonynt o Arolwg o Fawndiroedd yr Iseldir yng Nghymru Cyfoeth Naturiol Cymru. Amcangyfrifir bod y cyfanswm maint yn 336.11 hectar, er mai dyma'r ffigur lleiaf oherwydd bylchau data a safleoedd heb eu hasesu. Nid ymgorfforwyd unrhyw ddata arolwg newydd ar gyfer cyfnod adrodd 2025, ac ystyrir bod tueddiadau o ran gwasgariad yn anhysbys oherwydd diffyg mesurau gwyliadwriaeth cynhwysfawr. Mae gwaith monitro cyflwr wedi bod yn gyfyngedig ers 2012, ac mae asesiadau'n aml yn dibynnu ar ddata hŷn neu oddrychol.

Ymhlith y prif bwysau y mae tanbori a rhoi'r gorau i ddulliau rheoli tir traddodiadol, gan arwain at ymlediad prysgwydd. Mae llygredd aer, yn enwedig dyddodiad nitrogen, yn effeithio ar bron pob ardal o gynefin, ac mae draenio at ddibenion amaethyddiaeth yn parhau i fod yn broblem fawr barhaus. Mae llygredd dŵr o darddleoedd gwasgaredig a phenodol hefyd yn cyfrannu at ddirywiad cynefin. Mae rhywogaethau estron goresgynnol a phatrymau dyddodiad wedi'u newid oherwydd newid hinsawdd yn bryderon ychwanegol. Mae'n disgwyl i'r pwysau hyn barhau oherwydd adnoddau annigonol, maint y cynefin y tu allan i'r gyfres o safleoedd gwarchodedig, a gwarchodaeth amaeth-amgylcheddol gyfyngedig.

Mae mesurau a gynlluniwyd ac a weithredwyd yn mynd i'r afael â phori, llygredd, rhywogaethau goresgynnol, ac adfer hydrolegol, er bod y mwyaf o'r camau gweithredu yn parhau i fod heb eu cwblhau. Mae prosiect LIFE yr UE bellach yn targedu pedair ACA graidd ar gyfer adfer cynefin trwy wella systemau hydroleg, mesurau rheoli maethynnau, a phori cynaliadwy. Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cwmpasu ardal gyfyngedig o gynefin, ac mae lle i ragor o gytundebau rheoli. Mae gwaith monitro a hysbysu am safleoedd o ansawdd uchel y tu hwnt i warchodaeth statudol yn hanfodol i wella maint a chyflwr y cynefin.

Er na ragwelir newid sylweddol yn y gwasgariad, mae dirywiad bach yn arwynebedd y cynefin yn debygol oherwydd goresgyniad prysgwydd ac olyniaeth a ysgogir gan faethynnau. Mae'n disgwyl i'r cyflwr strwythurol a swyddogaethol barhau i fod yn wael neu'n anhysbys ar draws llawer o'r adnodd, a waethygir gan fethiant i roi digon o fesurau amaeth-amgylcheddol ar waith a dyddodiad nitrogen uchel parhaus. Gall gwydnwch y cynefin glustogi rhai effeithiau, ond heb weithredu camau rheoli wedi'u targedu'n ehangach, mae'n annhebygol y bydd amodau'n gwella'n sylweddol. Mae ymyriadau parhaus ar draws safleoedd statudol ac anstatudol yn hanfodol ar gyfer cynnal gwerth cadwraethol y cynefin hwn.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o fignenni pontio a chorsydd crynedig yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Pete Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H7140

Map gwasgariad ar gyfer H7140

H7140 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 3.38

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn gostwng

H7140 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H7150 Pantiau ar is-haenau mawn

Nodweddir y cynefin hwn gan lystyfiant oligotroffig agored, sy'n tyfu'n isel, gan gynnwys rhywogaethau o gorsydd neu ffeniau gwael megis migwyn, *Rhynchospora* spp., *Drosera* sp., a phlanhigion prinnach megis *Lycopodiella inundata* a *Pinguicula lusitanica*. Fel arfer, mae'n ymddangos mewn llecynnau bach o fewn cymhlygion mwy, gan gynnwys rhosydd gwlyb, gorgorsydd a chyforgorsydd iseldirol, a ffeniau gwael. Mae ei adnabod yn dibynnu ar bresenoldeb rhywogaethau dangosol penodol (e.e. *Rhynchospora alba*, *Lycopodiella inundata* a *Pinguicula lusitanica*) o fewn cymunedau penodol y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Ceir y cynefin hwn ar fawn asidig, mewn cyd-destunau ucheldir ac iseldir. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am bantiau ar is-haenau mawn, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H7150/.

Mae 21 cofnod hectar ar gyfer y cynefin hwn yn seiliedig ar asesiad 2013, er bod hyn yn debygol o dangynrychioli ei ddosbarthiad gwirioneddol yng Nghymru. Mae'r rhestr System Gwybodaeth Ddaearyddol a fapiwyd yn cynnwys 399 o gofnodion polygon, yn bennaf o arolygon ers 2004, gyda 96.5% o raglenni Arolwg o Fawndiroedd yr Iseldir yng Nghymru ac Arolwg Preseli Cyfoeth Naturiol Cymru. Yr arwynebedd amcangyfrifedig yw 0.175 cilometr sgwâr, ond ystyrir bod hyn yn isafswm oherwydd nad oes data o safleoedd hysbys wedi'u cynnwys. Ystyrir bod newidiadau yn y gwasgariad yn ystod y cyfnod adrodd yn annhebygol.

Ymhlith y prif bwysau parhaus y mae draenio ar gyfer amaethyddiaeth a lefelau dŵr wedi'u newid, pori annigonol ac amhriodol, a dyddodiad nitrogen atmosfferig. Ymhlith y pwysau eraill y mae goresgyniad gan rywogaethau estron a rhywogaethau brodorol sy'n peri problemau, aflonyddwch sy'n gysylltiedig â mynediad, a llygredd aer. Mae codiad yn lefel y môr a newid mewn systemau dyddodiad oherwydd newid hinsawdd hefyd wedi'u rhestru fel bygythiadau yn y dyfodol, gyda disgwyl i lygredd aer barhau a phwysau cynyddol gan ymwelwyr mewn safleoedd ucheldirol.

Ymhlith y camau cadwraeth y mae camau hyrwyddo pori priodol, rheoli neu wrthdroi systemau draenio, ac adfer hydroleg, yn enwedig drwy brosiect Adfywio Cyforgorsydd Cymru LIFE. Mae ymdrechion hefyd yn targedu lleihau llygredd aer, monitro effeithiau dyddodiad nitrogen, a rheoli rhywogaethau goresgynnol megis y rhododendron. Mae rhan o'r cynefin wedi'i dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, ond mae llawer o'r camau gweithredu a nodwyd yn parhau i fod heb eu cwblhau. Mae mesurau hefyd yn mynd i'r afael â rheoli llygredd ac erydiad lleol trwy weithgareddau rheoli ac adfer. Mae llawer o le i ehangu arwynebedd y cynefin hwn ar draws corsydd iseldir a chorsydd ucheldir trwy ymyriadau hydrolegol eang a gefnogir gan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau mawr i'r gwasgariad, er y gallai cofnodion newydd ehangu'r dosbarthiad hysbys ychydig. Mae tueddiadau o ran yr arwynebedd yn ansicr. Mae crebachiad yn bosibl lle nad oes digon o ymdrechion adfer, ond gall y cynefin ehangu ar safleoedd corsydd wedi'u hadfer. Mae rhagolygon strwythur a swyddogaeth yn parhau i fod yn wael oherwydd data cyflwr cyfyngedig, cynhwysiant cymedrol mewn cynlluniau rheoli, ac effeithiau sylweddol gan ddyddodiadau nitrogen. Heb ymyrraeth bellach, mae'n debygol y bydd o leiaf 25% o'r cynefin yn parhau mewn cyflwr gwael erbyn 2035 oherwydd dyddodiad nitrogen atmosfferig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o bantiau ar is-haenau mawn yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Peter Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H7150

Map gwasgariad ar gyfer H7150

H7150 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.175

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H7150 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H7210 Ffeniau calchaidd

Ymhlith llystyfiant ffeniau calchaidd cynefin blaenoriaeth Atodiad I H7210 y mae'r gorsfrwynen lem *Cladium mariscus*. Deuir ar draws llystyfiant o'r fath yn bennaf mewn sefyllfaoedd topogenaidd neu reo-topogenaidd dan ddylanwad dŵr daear sy'n fas-gyfoethog yn gyffredinol. Mae'r cynefin yn ymgorffori cymunedau math M9 ac M13 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol gydag uwch-dyfiant *Cladium* a mathau o ffeniau cyrs S24 ac S25, yn ogystal â chellïoedd trwchus o *Cladium* fel y siglen hesg S2 a *Cladio-Molinietum*, nad yw'n perthyn i'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Mae'r *Cladio-Molinietum* yn cynnwys *Cladium* gyda rhywogaethau megis *Molinia caerulea*, *Myrica gale* a *Juncus subnodulosus*, ynghyd â rhywogaethau calchgar megis *Carex hostiana* a *Schoenus nigricans*. Mae mesurau rheoli drwy bori yn hyrwyddo llystyfiant *Cladium* mwy agored a chyfoethog ei rywogaethau. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ffeniau calchaidd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H7210/.

Mae'r cynefin wedi'i ganoli yng Nghymru ar Ynys Môn a Phenrhyn Llŷn, gydag enghreifftiau ychwanegol ond heb fod yn nodweddiadol yn ffeniau Cors Crymlyn a Phant y Sais yn y De. Amcangyfrifwyd cyfanswm o 76.1 hectar o ffen calchaidd o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), gan gynnwys 33.6 hectar yng Nghors Crymlyn, a 5.1 hectar a 37.4 hectar yn ACA Corsydd Llŷn ac ACA Corsydd Môn yn y drefn honno. Mae'n debyg bod safle Cors Llyferin yn SH32 wedi'i golli, ac mae'r cofnod SS78 yn annilys. Adroddir am ddirywiad ôl-LIFE ers 2013 yn ardaloedd Ynys Môn a Llŷn oherwydd dulliau rheoli annigonol.

Mae'r cynefin hwn wedi'i effeithio gan gefnu ar arferion traddodiadol fel pori, torri gwair a llosgi. Mae llawer o safleoedd yn parhau i gael eu heffeithio'n andwyol gan ddraenio, yn bennaf ar gyfer amaethyddiaeth. Mae amaethyddiaeth ddwys o fewn dalgylchoedd y safle yn cyfrannu at orfaethu a cholli cynefin. Mae llygredd nitrogen yn yr awyr yn broblem gyfredol sylweddol ac mae rhywogaethau goresgynnol megis jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*) yn bryder sy'n dod i'r amlwg. Mae effeithiau posibl o chwarela a sychder a achosir gan yr hinsawdd hefyd yn peri bygythiadau.

Ymgymerwyd â dulliau adfer trwy dorri, pori a llosgi yn ystod prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn. Fodd bynnag, mae diffyg cyfnod ffurfiol ar ôl LIFE wedi cyfyngu ar barhad. Mae ymdrechion i leihau llygredd maethynnau gwasgaredig trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol a gwlyptiroedd wedi'u hadeiladu wedi cael effaith gyfyngedig. Gweithredwyd ymyriadau hydrolegol, ond mae angen mwy o weithredu. Yn ogystal â mynd i'r afael â draenio a thanreolaeth, mae mesurau sy'n mynd i'r afael â llygredd aer, gwydnwch yn erbyn yr hinsawdd, a chael gwared ar rywogaethau goresgynnol yn gynnar wedi'u nodi fel y blaenoriaethau ar hyn o bryd.

Rhagwelir y bydd arwynebedd y cynefin yn lleihau oherwydd esgeulustod rheoli parhaus a gorfaethu. Serch hynny, lle mae'r gwaith adfer wedi'i gwblhau, mae'n ymddangos bod pori priodol yn gallu cynnal y cyflwr. Mae cynaliadwyedd yn y dyfodol yn dibynnu ar sicrhau rheolaethau hydrolegol a maethynnau hirdymor ac ymgysylltu â pherchnogion safleoedd anstatudol sy'n cefnogi'r cynefin hwn.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ffeniau calchaidd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Peter Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H7210

Map gwasgariad ar gyfer H7210

H7210 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.628

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn gostwng

H7210 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–drwg (U2)

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H7220 Tarddellau caregu gyda thwffa

Tarddellau caregu gyda thwffa yw tarddellau dŵr caled bychain sy'n gysylltiedig â thwffa ac sydd fel arfer yn lleoedd lle mae bryoffytau megis *Palustriella commutata* yn drech. Yng Nghymru, ceir y cynefinoedd hyn ar draws glaswelltiroedd ucheldir ac iseldir, ffeniau, coetiroedd, a chlogwyni arfordirol, gyda chysylltiad cryf, ond nid unigryw, â ffurfiannau daearegol sy'n llawn carbonadau. Mae'r cynefin yn cynnal amrywiaeth o fryoffytau, y mae rhai ohonynt wedi dirywio yn iseldir Prydain, a gallant hefyd gynnal anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am darddellau caregu gyda thwffa, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H7220/.

Mae'r cynefin wedi'i gofnodi mewn 38 sgwâr 10 cilometr yn seiliedig ar ddata 1996–2012 o nifer o arolygon y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, er bod angen arolwg sydd wedi'i ffocysu mwy. Yn 2012, mae'r arwynebedd a gofnodwyd yn cynnwys 5.61 hectar o arolygon ucheldir, 0.044 hectar o arolygon iseldir, a 0.0055 hectar o gofnodion pwynt. Nid oes unrhyw gofnodion cyn 1990 wedi'u cynnwys, nac unrhyw gofnodion ar ôl 2012. Nid oes tystiolaeth feintiol ar gyfer tueddiadau tymor byr na hirdymor o ran gwasgariad nac arwynebedd, ond mae arbenigwyr o'r farn eu bod yn gostwng.

Ymhlith y prif bwysau y mae pori dwys ac annigonol, rhoi'r gorau i reoli'r tir trwy ddulliau traddodiadol, olyniaeth naturiol, llygredd amaethyddol, draenio, tynnu dŵr, a dyddodiad nitrogen. Crybwyllir gorbori a thanbori fel problemau cyfredol, yn enwedig ar gyfer ardaloedd ucheldir. Mae gorfaethu amaethyddol wedi'i gadarnhau mewn o leiaf un safle. Mae llygredd aer o ddyddodiad nitrogen yn effeithio ar 100% o arwynebedd y cynefin ac mae'n disgwyl y bydd yn parhau. Gall newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o ran dyddodiad a phwysau hydrolegol effeithio ar rai safleoedd hefyd.

Mae sawl mesur cadwraeth ar waith, gan gynnwys addasu ac adfer pori, rheoli olyniaeth naturiol, a mynd i'r afael â llygredd o amaethyddiaeth. Mae'r mesurau'n cwmpasu mesurau i reoli safleoedd yn uniongyrchol ac ymdrechion rheoleiddio ehangach. Mae angen mesurau rheoli pori wedi'u targedu oherwydd maint cyfyngedig y cynefin yn aml mewn unedau rheoli mawr. Yn 2018, dim ond rhannau bach o'r cynefin oedd wedi'u cynnwys o dan gynlluniau Glastir. Mae mesurau monitro a lleihau llygredd naill ai'n gyfyngedig neu nid ydynt yn cael eu gweithredu'n eang y tu allan i safleoedd gwarchodedig.

Mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn gymysg. Mae natur fach a lleol y cynefin yn gwneud rheolaeth ar lefel y safle yn ymarferol, ond mae hefyd yn ei wneud yn fwy agored i golledion. Mae'n bosibl y bydd llawer o arwynebedd y cynefin mewn cyflwr anffafriol erbyn 2035 oherwydd dyddodiad nitrogen oni bai fod mesurau pellach yn cael eu rhoi ar waith. Mae'n bosibl y bydd cellïoedd iseldir yn enwedig yn crebachu o ran maint, ac mae'r ffaith nad oes data arolwg digonol yn amharu ar asesiadau hyderus o'i arwynebedd. Fodd bynnag, mae ymarferoldeb arolygon cyflawn a thargedu mesurau rheoli yn gwella'r rhagolygon os cymerir camau gweithredu.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o darddellau caregu gyda thwffa yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n dirywio.

Llun gan: Pete Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H7220

Map gwasgariad ar gyfer H7220

H7220 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.0566

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H7220 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H7230 Ffeniau alcalïaidd

Mae ffeniau alcalïaidd yn cynnwys llystyfiant mignenni cyfoethog ei rywogaethau a ddylanwadir gan ddŵr daear a/neu ddŵr ffo calchaidd. Gellir dod o hyd i lawer o enghreifftiau mewn cyd-destunau soligenaidd, gydag eraill mewn basnau topogenaidd neu bennau dyffrynnoedd lle mae symudiad dŵr ochrol yn parhau i ddiferu trwy haenau mawn neu drostynt. Mae tair cymuned graidd y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol yn diffinio'r cynefin hwn yng Nghymru: M9, M10, ac M13. Ymhlith llystyfiant ffeniau alcalïaidd y mae hesg byr, deugibogion sy'n tyfu'n isel, ac ystod amrywiol o fwsoglau brown. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ffeniau alcalïaidd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H7230/.

Roedd y cynefin yn ymestyn dros 138.7 hectar yng Nghymru pan gafodd ei asesu ddiwethaf yn 2018. Mae cyfanswm o 120 hectad wedi'u cofnodi, er nad yw'r cwmpas yn gynhwysfawr; mae'n debyg bod llawer o'r cofnodion hyn yn ymwneud â chymuned M10, gydag M9 ac yn enwedig M13 ar lefel llawer mwy lleol. Mae tuedd tymor byr yn dangos trywydd sy'n gostwng, gan adlewyrchu colli safleoedd yn Llŷn ac o leiaf ddau safle yn Ynys Môn ers 2007. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r gyfradd gostyngiad fod yn fwy nag 1% erbyn hyn.

Ymhlith y prif bwysau y mae rhoi'r gorau i ddulliau rheoli traddodiadol, tanbori neu bori helaeth, a llygredd amaethyddol. Ymhlith y pwysau sylweddol eraill y mae draenio, agweddau eraill ar hydroleg wedi'i haddasu, gweithgarwch tynnu dŵr, a dyddodiad nitrogen atmosfferig. Mae tanbori yn arwain at rai rhywogaethau yn mynd yn rhy drech. Mae trosi amaethyddol a rhywogaethau goresgynnol hefyd yn effeithio ar y cynefin. Ymhlith y pryderon ychwanegol y mae echdynnu adnoddau, patrymau dyddodiad wedi'u newid oherwydd newid hinsawdd, a datblygiadau ynni posibl.

Ymhlith y camau rheoli y mae adfer pori, lladd gwair a llosgi ar safleoedd lle mae'r rhain wedi dod i ben, gan gynnwys ar safleoedd a oedd wedi'u cynnwys ym mhrosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn gynt. Mae adfer hydrolegol a rheoli gweithgarwch tynnu dŵr yn parhau i fod yn flaenoriaethau hollbwysig. Ymhlith yr ymdrechion i atal a lliniaru llygredd y mae rhyng-gipio maethynnau drwy wlyptiroedd a grëwyd. Fodd bynnag, mae dull mwy strategol a gweithredol o gynllunio gweithredu ar faethynnau yn flaenoriaeth ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) craidd. Mae angen mesurau brys i dargedu'r broses o addasu i newid hinsawdd ynghyd â chamau gweithredu cynnar yn erbyn rhywogaethau goresgynnol.

Ymhlith y tueddiadau gwasgariad ar gyfer y dyfodol y mae colled ddisgwyliedig arwynebedd oherwydd diffyg rheoli a dwysáu amaethyddol. Mae strwythur a swyddogaeth yn wynebu risgiau o gyflwr gwael cynefin, diffyg manteisio ar fentrau amaeth-amgylcheddol, ac effeithiau nitrogen atmosfferig.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ffeniau alcalïaidd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn dirywio, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: Peter Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H7230

Map gwasgariad ar gyfer H7230

H7230 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 1.387

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Yn gostwng

Tuedd tymor byr gwasgariad: Yn gostwng

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Yn gostwng

H7230 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–drwg (U2)

Statws gwasgariad: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Yn dirywio

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H7240 Ffurfiannau arloesol alpaidd

Ceir ffurfiannau arloesol alpaidd ar yr ucheldiroedd yng Nghymru, gan ffurfio math o gors lifo.Mae'r cymunedau hyn yn cytrefu is-haenau agored sy'n cael mewnlifiad parhaus o ddŵr oer, bas-gyfoethog. Maent yn cynnwys hesg bach, brwyn, llysiau, bryoffytau, a llawer o rywogaethau arctig-alpaidd. Yng Nghymru, mae'r holl enghreifftiau a gofnodwyd yn perthyn i gymuned M11a *Carex demissa – Saxifraga aizoides* y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, a nodweddir yn arbennig gan *Blindia acuta*, gyda *Juncus triglumis* yn rhywogaeth ddiagnostig, er nad yw'n bresennol ymhob man. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ffurfiannau arloesol alpaidd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H7240/.

Mae pob cofnod sydd wedi'i ddigideiddio ar gyfer y cynefin hwn yng Nghymru yn deillio o arolygon a gynhaliwyd rhwng 1996 a 2005, a chadarnhawyd ei fod yn bresennol yn y ddau hectad hysbys mor ddiweddar â 2012 a 2016. Ni chafwyd unrhyw ddata arolwg pellach ers cyfnod adrodd 2013–2018. Amcangyfrifir, ar sail barn arbenigwyr, mai 3 hectar yw arwynebedd y cynefin hwn, er mai dim ond 0.99 hectar sydd wedi'i fapio, yn ôl pob tebyg oherwydd maint bach y darn o dir a chyfyngiadau mapio o ystyried natur anhygyrch rhai lleoliadau. Mae asesiad tuedd sefydlog blaenorol wedi'i ddiwygio i anhysbys oherwydd diffyg data diweddar.

Ymhlith y prif bwysau ar y cynefin hwn y mae pori dwys gan dda byw, llygredd aer o ddyddodiad nitrogen, ac amhariad gweithgareddau hamdden sydd ynghlwm wrth dwristiaeth. Mae ymlediad y planhigyn estron *Epilobium brunnescens* hefyd yn peri bygythiad parhaus. Mae'n bosibl bod pwysau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, gan gynnwys newidiadau mewn tymheredd a dyddodiad, eisoes yn effeithio ar y cynefin ac mae'n disgwyl iddynt barhau i'r dyfodol. Mae dwysedd a math y pori yn destun pryder, er bod pori annigonol hefyd wedi'i nodi fel problem mewn rhai unedau.

Mae rheolaeth yn canolbwyntio ar ddileu neu leihau pori defaid, a ystyrir yn ddylanwad niweidiol. Mae mesurau hefyd yn anelu at reoleiddio a lleihau llygredd aer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys gweithgareddau diwydiannol a gweithgareddau hamdden. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, nid oes unrhyw amddiffyniadau penodol ar waith ar hyn o bryd i atal sathru ac erydu oherwydd llwybrau troed cyfagos.

Nid yw'n debygol y bydd gwasgariad daearyddol y cynefin yn newid yn sylweddol o fewn y ddau gyfnod adrodd nesaf, er bod hyn yn ansicr. Yn yr hirdymor, mae'n disgwyl i newid hinsawdd a gormod o ddyddodiad nitrogen effeithio'n negyddol ar strwythur a swyddogaeth y cynefin. Heb fesurau lliniaru newydd, rhagwelir y bydd llawer o'r cynefin mewn cyflwr anffafriol erbyn 2035 oherwydd mewnbwn parhaus o faethynnau.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o ffurfiannau arloesol alpaidd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Peter Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H7240

Map gwasgariad ar gyfer H7240

H7240 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.03

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Anhysbys

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H7240 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Anhysbys (XX)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

6.8 Cynefinoedd coetiroedd

Llun gan: David Reed, Cyfoeth Naturiol Cymru

H9120 Coedwigoedd ffawydd asidoffilig yr Iwerydd gydag *Ilex* ac weithiau *Taxus* hefyd yn yr haen llwyni (*Quercion robori-petraeae* neu *Ilici-Fagenion*) ('Coedwigoedd ffawydd asidoffilig yr Iwerydd')

H9130 Coedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum*

H9180 Coedwigoedd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a dyfnentydd ('Coedwigoedd *Tilio-Acerion*')

H91A0 Hen goedwigoedd derw mes di-goes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain ('Hen goedwigoedd derw mes di-goes')

H91D0 Coetir corsiog

H91E0 Coedwigoedd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (*Alno-Padion*, *Alnion incanae*, *Salicion albae*) ('Coedwigoedd llifwaddodol gyda gwern ac ynn')

H91J0 Coedwigoedd *Taxus baccata* Ynysoedd Prydain ('Coetir lle mae yw yn drech')

H9120 Coedwigoedd ffawydd asidoffilig yr Iwerydd

Ceir coedwigoedd ffawydd asidoffilig yr Iwerydd ar briddoedd asidig i niwtral o dan amodau hinsoddol cymharol oer â lefelau uchel o lawiad, a dyma'r cynefin coetir ffawydd sy'n cyfateb i H91A0 'Hen goedwigoedd derw mes di-goes'. Dim ond yng nghornel de-ddwyrain Cymru y derbynnir bod y ffawydden (*Fagus sylvatica*) yn frodorol, sef ei therfyn eithaf nid yn unig yn y DU ond yn Ewrop hefyd, gan roi blas egsotig a chyfandirol i'r rhan hon o Gymru. Mae coed ffawydd yn taflu cysgod trwchus iawn ac yn cynhyrchu deiliach trwchus parhaus sy'n dylanwadu'n gryf ar yr ecoleg: gall haenau fflora a llwyni'r ddaear fod ag amrywiaeth gymharol isel ac wedi'u datblygu llai na mathau eraill o goetiroedd, ond maent yn cynnwys ystod o rywogaethau prin ac unigryw. Fe'u cynrychiolir gan fathau W15 o'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol ynghyd â rhan o W14. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am goedwigoedd ffawydd asidoffilig yr Iwerydd, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H9120/.

Yn ecolegol, mae coed ffawydd Prydain yn ffurfio continwwm â rhai ar y cyfandir ac mae'r enghreifftiau o Gymru yn bwysig oherwydd eu bod yn diffinio terfyn gogledd-orllewinol y rhywogaeth hon ac yn darparu amrywiolion cefnforol o'r math hwn. Mae coedwigoedd ffawydd asidoffilig yr Iwerydd wedi'u cyfyngu i dde-ddwyrain eithaf Cymru, lle ystyrir bod ffawydd yn frodorol ac maent yn tyfu ar briddoedd asidig. Mae'n cynnwys cyn siroedd gweinyddol Gwent a haneri dwyreiniol Canol Morgannwg a De Morgannwg. Ceir cellïoedd sy'n debyg yn flodeuegol mewn mannau eraill yng Nghymru lle mae coed ffawydd wedi'u plannu, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad presennol. Amcangyfrifir bod cyfanswm arwynebedd y cynefin hwn tua 2,100 hectar, gyda gwasgariad awgrymedig o 1,500–2,500 hectar. Mae ffigurau dosbarthiad ac arwynebedd y cynefin yn seiliedig ar ddata a gasglwyd hyd at 2012, ac nid ydynt wedi cael eu hailasesu ers hynny.

Ymhlith y pwysau mawr y mae llygredd aer, newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, rhywogaethau goresgynnol, problemau rheoli coedwigoedd, ac effeithiau gweithgareddau hamdden. Ymhlith y bygythiadau yn y dyfodol y mae gorbori neu danbori, pori ceirw, pathogenau, a newidiadau posibl i'r cynefin oherwydd newid hinsawdd.

Mae ymdrechion cadwraeth yn canolbwyntio ar gynnal ac adfer strwythur a swyddogaethau'r cynefin, ar safleoedd penodol ac ar raddfa'r dirwedd. Ymhlith y camau gweithredu y mae rheoli llygredd, rhywogaethau goresgynnol a rhywogaethau sy'n peri problemau, arferion coedwigaeth, hamdden, a systemau pori. Mae yna hefyd fesurau i baratoi ar gyfer newid hinsawdd, ac addasu iddo, ac i reoli clefydau planhigion ac anifeiliaid.

Mae newid hinsawdd yn debygol o ehangu amlen hinsoddol y cynefin tua'r gogledd a'r gorllewin, gan ganiatáu i'r gwasgariad a'r arwynebedd ehangu ar briddoedd addas. Mae'n disgwyl i dueddiadau o ran yr arwynebedd yn y dyfodol fod yn gadarnhaol oherwydd ehangu coetiroedd ac adfer coetiroedd hynafol, sef rhywbeth a gefnogir gan bolisïau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd llawer o'r cynefin yn parhau i fod mewn cyflwr anffafriol erbyn 2035 oherwydd dyddodiad nitrogen oni bai fod camau pellach yn cael eu cymryd.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o goedwigoedd ffawydd asidoffilig yr Iwerydd yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: James Latham, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H9120

Map gwasgariad ar gyfer H9120

H9120 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 21

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H9120 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H9130 Coedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum*

Gellir dod o hyd i goedwigoedd ffawydd *Asperulo-fagetum* ar briddoedd bas-gyfoethog, ac fe'u cynrychiolir gan fathau W12 a rhan o W14 o'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Dim ond yng nghornel de-ddwyrain Cymru y derbynnir bod y ffawydden (*Fagus sylvatica*) yn frodorol, lle mae'n cyrraedd ymyl ei chynefin yn y DU ac Ewrop. Mae coed ffawydd yn taflu cysgod trwchus ac yn cynhyrchu deiliach parhaus, a all arwain at amrywiaeth gymharol isel yn fflora'r ddaear a haenau llwyni. Serch hynny, mae'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau prin ac unigryw. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am goedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum*, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H9130/.

Yn ecolegol, mae ffawydd Cymru yn ffurfio continwwm â'r rhai ar gyfandir Ewrop ac maent yn bwysig oherwydd eu bod yn diffinio terfyn gogledd-orllewinol y rhywogaeth hon ac yn darparu amrywiolion cefnforol o'r math. Mae coedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum* wedi'u cyfyngu o ran eu gwasgariad i dde-ddwyrain eithaf Cymru, ac maent yn cynnwys cyn siroedd gweinyddol Gwent a haneri dwyreiniol Canol a De Morgannwg. Amcangyfrifir mai 1,300 hectar yw arwynebedd y cynefin yng Nghymru, a 1,000 hectar i 1,500 hectar yw'r gwasgariad awgrymedig. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael i farnu tueddiadau tymor byr o ran cyfanswm arwynebedd y cynefin. Mae'r dosbarthiad a adroddwyd mewn asesiadau blaenorol yn parhau heb ei newid.

Ymhlith y prif bwysau lefel uchel ar y cynefin hwn y mae pori ceirw, echdynnu creigiau a llygredd aer. Mae pori ceirw, yn enwedig gan y danas, yn effeithio ar adfywio a chyfansoddiad, yn enwedig ar safleoedd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae chwarela yn bygwth y cynefin trwy golled uniongyrchol ac effeithiau cysylltiedig megis llwch a newidiadau hydrolegol. Mae dyddodiad nitrogen yn yr awyr yn fwy na'r llwythi critigol ar draws y cynefin, er nad yw effeithiau penodol hyn wedi'u mesur. Ymhlith y pwysau canolig y mae newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, rhywogaethau goresgynnol, newidiadau i'r ffordd y caiff coedwigoedd eu rheoli, a gweithgareddau hamdden.

Ymhlith y mesurau cadwraeth y mae lliniaru effeithiau chwareli drwy gynllunio, rheoli poblogaethau o geirw, a mynd i'r afael â llygredd aer drwy reoliadau cenedlaethol. Nod camau gweithredu eraill yw gwella gwydnwch a chysylltedd cynefinoedd i gefnogi'r broses o addasu i newid hinsawdd. Mae'r broses o reoli rhywogaethau goresgynnol yn gofyn am wyliadwriaeth a chynllunio parhaus. Mae mesurau rheoli coedwigoedd yn amrywio i gynnal amrywiaeth strwythurol, gan gynnwys ymyriadau a dulliau heb ymyriadau. Caiff effeithiau gweithgareddau hamdden eu lliniaru drwy reoli ymwelwyr a thrwy godi ymwybyddiaeth.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer y gwasgariad a'r arwynebedd yn gadarnhaol iawn, gyda newid hinsawdd o bosibl yn golygu y byddai'r cynefin yn gallu ehangu tua'r gogledd a'r gorllewin. Gall hyn gael ei hwyluso gan gefnogaeth polisïau ac argaeledd safleoedd addas, er bod priddoedd bas-gyfoethog yn llai cyffredin y tu hwnt i'r gwasgariad presennol. Gall arwynebedd y cynefin gynyddu trwy ehangiad o ran gorchudd y coetir a mesurau adfer safleoedd coetir hynafol. Mae hefyd yn bosibl y gall dirywiad yr onnen gefnogi ehangiad y cynefin. Fodd bynnag, nid yw tueddiadau strwythur a swyddogaeth yn sicr oherwydd dylanwadau cyferbyniol, ac mae'n disgwyl i lawer o'r cynefin barhau i fod mewn cyflwr anffafriol oherwydd dyddodiad nitrogen.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o goedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum* yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: James Latham, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H9130

Map gwasgariad ar gyfer H9130

H9130 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 13

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H9130 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H9180 Coedwigoedd *Tilio-Acerion*

Fel arfer, gellir dod o hyd i goedwigoedd *Tilio-Acerion* ar is-haenau calchaidd megis sgri bras, clogwyni, llethrau creigiog serth, a dyfnentydd, ond hefyd ar hyd nentydd o fewn mathau eraill o goetiroedd mewn dyfnentydd a dyffrynnoedd serth. Yng Nghymru, yr onnen (*Fraxinus excelsior*) yw'r rhywogaeth goeden fwyaf cyffredin fel arfer, er bod y fasarnen (*Acer pseudoplatanus*) yn gyffredin hefyd. Mae'r coetiroedd hyn yn amrywiol o ran eu strwythurau oherwydd eu llethrau ansefydlog ac maent yn cynnal amrywiaeth gyfoethog o blanhigion blodeuol, rhedyn, a phlanhigion is. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am goedwigoedd *Tilio-Acerion*, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H9180/.

Mae amcangyfrif gofalus yn awgrymu bod cyfanswm arwynebedd *Tilio-Acerion* yng Nghymru tua 3,000 hectar, gyda gwasgariad rhwng 2,800 hectar a 3,500 hectar. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad System Gwybodaeth Ddaearyddol sy'n ystyried data llethrau, is-haenau a llystyfiant o 1985 i 2012. Mae hyn tua 25% o gyfanswm adnodd y DU, y gellir dod o hyd iddo ledled Cymru, gan ffurfio tua 20% o'r holl goetiroedd brodorol yng Nghymru. Ceir y crynodiadau mwyaf yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Fynwy, canolbarth Sir Gaerfyrddin, a de-ddwyrain a gorllewin Sir Forgannwg. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael i bennu tueddiadau tymor byr yng nghyfanswm arwynebedd y cynefin.

Ymhlith y prif bwysau y mae clefyd (*Chalara*) coed ynn, sy'n bresennol ym mhob sgwâr 10 cilometr lle gellir dod o hyd i'r cynefin, gan beri bygythiad difrifol oherwydd bod ynn yn elfen hanfodol o'r cynefin. Ymhlith y pwysau ychwanegol y mae rhywogaethau estron goresgynnol, megis coed llawrgeirios (*Prunus laurocerasus*), ffawydd (*Fagus sylvatica*) a jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*), a phori gan geirw, sy'n effeithio ar gyfansoddiad ac adfywio cynefin. Ymhlith y pwysau sylweddol eraill y mae dyddodiad nitrogen, darnio cynefin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, rhoi'r gorau i ddulliau rheoli traddodiadol, arferion coedwigaeth amhriodol, gweithgareddau hamdden, a chwarela. Ymhlith y bygythiadau yn y dyfodol y mae'r posibilrwydd o gyflwyno tyllwr emrallt yr onnen (*Agrilus planipennis*), poblogaethau ceirw sy'n cynyddu, darnio cynefin oherwydd cysylltedd isel, ac effaith bosibl datblygiadau seilwaith.

Ymhlith yr ymdrechion cadwraeth y mae strategaethau i reoli clefyd (*Chalara*) coed ynn, poblogaethau ceirw a rhywogaethau goresgynnol, ac i addasu arferion rheoli coedwigoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal ac adfer dulliau rheoli traddodiadol, rhoi'r gorau i arferion niweidiol, ac addasu'r arferion presennol er budd y cynefin. Mae strategaethau addasu i newid hinsawdd yn canolbwyntio ar adeiladu cysylltedd ecolegol trwy rwydweithiau ar raddfa fawr. Mae ymdrechion hefyd yn anelu at leihau effeithiau llygredd aer a gweithgareddau hamdden.

Nid yw dyfodol *Tilio-Acerion* yng Nghymru yn sicr oherwydd effaith eang clefyd (*Chalara*) coed ynn. Er y gall rhai coed ynn fod yn ymwrthol, a bod fflora'r ddaear yn parhau, mae'n debygol y bydd cyfanrwydd strwythurol a chyfansoddiad rhywogaethau'r cynefin yn cael eu heffeithio'n ddifrifol. Mae pwysau ychwanegol, gan gynnwys poblogaethau cynyddol o geirw a llygredd aer parhaus, yn lleihau'r rhagolygon ar ei gyfer ymhellach. Er y gall gorchudd coetir cyffredinol gynyddu, mae cyfleoedd i ehangu *Tilio-Acerion* wedi'u cyfyngu gan gyfyngiadau daearegol a thopograffig a'r gwaharddiad ar blannu ynn. Gall gwaith adfer safleoedd coetiroedd hynafol gynnig potensial cyfyngedig ar gyfer enillion o ran arwynebedd a chysylltedd gwell rhwng y cynefin. Heb fesurau pellach i leihau dyddodiad nitrogen, mae'n disgwyl i lawer o'r cynefin fod mewn cyflwr anffafriol yn 2035 oherwydd gorlwytho maethynnau.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o goedwigoedd *Tilio-Acerion* yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn sefydlog, yn gyson â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU.

Llun gan: James Latham, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H9180

Map gwasgariad ar gyfer H9180

H9180 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 30

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Sefydlog

H9180 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Sefydlog

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H91A0 Hen goedwigoedd derw mes di-goes

Gellir dod o hyd i hen goedwigoedd derw mes di-goes mewn ardaloedd cymharol oer â glawiad uchel ar briddoedd asidig, gyda choed canopi o dderw mes di-goes yn bennaf (*Quercus petraea*) a bedw (*Betula* spp.), ac is-dyfiant nodweddiadol o griafol (*Sorbus aucuparia*), celyn (*Ilex aquifolium*) a chyll (*Corylus avellana*). Mae'r cynefin yn cyfateb i ystod o gymunedau'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, gan gynnwys W10e, W11, W16b ac W17. Mae amrywiaeth planhigion blodeuol yn gymharol isel, ond mae'r cynefin yn nodedig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ei gyfoeth o fwsoglau, llysiau'r afu a rhedyn. Amcangyfrifir bod gan Gymru tua 48,000 hectar, tua 40% o gyfanswm adnodd y DU / y byd. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad haenedig gan ddefnyddio data coetiroedd a pharthau amgylcheddol. Yn fyd-eang, mae cynefinoedd sy'n cyfateb i goed derw'r ucheldir bron yn gyfan gwbl wedi'u cyfyngu i Ynysoedd Prydain ac Iwerddon, gan olygu bod gan Gymru rôl fwy bwysig o ran ei gadwraeth. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hen goedwigoedd derw mes di-goes, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H91A0/.

Mae hen goedwigoedd derw mes di-goes yn eang eu gwasgariad ledled Cymru. Ceir y toreithrwydd ac amrywiaeth fwyaf tua'r gorllewin. Ceir y mwyaf ohonynt mewn parth sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Eryri, gan ymestyn i'r de trwy ffiniau Powys a Cheredigion i ogledd Sir Gaerfyrddin. Ceir cynrychiolaeth uchel yng ngogledd-orllewin Sir Forgannwg hefyd. Gellir dod o hyd i'r cynefin lleiaf ar hyd arfordir y De a'r Gogledd. Nid oes unrhyw dystiolaeth o newid sylweddol yn y dosbarthiad ers 2012. Nid oes unrhyw ddata ar gael i farnu tueddiadau tymor byr oherwydd amrywioldeb eang yn y gronfa ddata a'r cyfyngau hyder.

Ymhlith y prif bwysau mawr y mae gorbori a thanbori, sy'n rhwystro naill ai adfywio coed neu'r gefnogaeth ar gyfer planhigion is. Mae llygredd aer o ddyddodiad nitrogen yn effeithio ar y cynefin yn gyffredinol, gyda bryoffytau a chennau yn arbennig o sensitif. Mae rhywogaethau estron goresgynnol, yn enwedig *Rhododendron ponticum* ac amryw o gonwydd, yn fygythiadau eang eu gwasgariad. Ymhlith y pwysau ychwanegol y mae datblygiadau ynni dŵr, newidiadau mewn arferion rheoli coedwigoedd, ac effeithiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar gysylltedd cynefin.

Ymhlith y prif fesurau y mae addasu systemau pori i gefnogi'r broses o adfywio coed ac amrywiaeth is o blanhigion. Mae ymdrechion ar y gweill i reoli a chael gwared ar rywogaethau goresgynnol megis y rhododendron a chonwydd estron. Ymhlith y camau gweithredu eraill y mae camau i liniaru effeithiau ynni dŵr ac adfer arferion rheoli coedwigoedd traddodiadol. Mae pwyslais hefyd ar wella rhwydweithiau ecolegol ar gyfer gwydnwch yn erbyn hinsawdd a rheoli pathogenau planhigion megis *Phytophthora* spp.

Mae'n disgwyl i gyfanswm arwynebedd y cynefin gynyddu oherwydd polisïau Llywodraeth Cymru ar blannu coetiroedd ac adfer planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol. Fodd bynnag, gall cyflwr y cynefin barhau i ddirywio oherwydd heriau wrth gyflawni systemau pori priodol a llygredd nitrogen parhaus. Mae pathogenau planhigion a newid hinsawdd yn peri risgiau ychwanegol, yn enwedig i rywogaethau sensitif o blanhigion is. Mae prosiectau megis Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE yn cyfrannu at y broses o adfer cynefin a dulliau rheoli gwell.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o hen goedwigoedd derw mes di-goes yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: David Reed, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H91A0

Map gwasgariad ar gyfer H91A0

H91A0 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 480

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H91A0 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H91D0 Coetir corsiog

Yng Nghymru, ceir coetir corsiog mewn patrwm dameidiog heb ei feintioli'n dda. Yn llym, mae'r diffiniad yn cynnwys ond y coetiroedd a geir mewn corsydd gweithredol ombrogenaidd â'r gorchudd canopi lleiaf posibl a heb effeithiau andwyol ar y rhywogaethau cors sy'n bresennol. Fel arfer, mae'r cynefin hwn yn gysylltiedig â mathau mawn WETMEC 1 a WETMEC 2 (*Wetland Water Supply Mechanism*), ond mae'r posibilrwydd ei fod yn bresennol lle ceir mawn WETMEC 3 yn parhau i fod yn ansicr. Yng Nghymru, mae'r cysylltiadau cryfaf â chymuned brin W4c y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol ac, i raddau llai, W2b ac W3, er bod y ddau olaf yn cael eu hadnabod yn llai hyderus fel mathau o goetiroedd corsiog yng Nghymru. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am goetiroedd corsiog, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H91D0/.

Cwblhawyd y dadansoddiad cynhwysfawr diweddaraf o wasgariad a maint yn 2012 gan ddefnyddio arolygon etifeddol o lystyfiant. Nid oes unrhyw ddata newydd wedi newid yr asesiad hwn yn sylweddol. Mae dosbarthiad yn parhau i fod yn gyfyngedig: mae'r cynefin yn eang ei wasgariad ar draws y Gogledd a'r Canolbarth, ac mae rhywfaint o bresenoldeb yn y De-ddwyrain, ond mae'n absennol yn y De-orllewin. Mae amcangyfrif gofalus wedi'i seilio ar farn arbenigwyr yn awgrymu cyfanswm arwynebedd o tua 150 hectar, o fewn gwasgariad posibl o 100–200 hectar. Ni chynhaliwyd unrhyw ailasesiad, ac ni ellir dod i unrhyw gasgliadau ar dueddiadau diweddar.

Ymhlith y prif bwysau y mae llygredd aer, yn enwedig dyddodiad nitrogen, sy'n fwy na lefelau llwyth critigol ar draws pob safle ac yn effeithio ar gymunedau sy'n llawn bryoffytau. Mae rhywogaethau goresgynnol megis *Rhododendron ponticum* yn peri bygythiadau difrifol. Mae amhariadau ar y lefel trwythiad oherwydd draenio hefyd yn arwyddocaol. Gall newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, o ran dyddodiad a chysylltedd ecolegol, herio gwydnwch y cynefin ymhellach. Mae anghydbwysedd pori a llygredd ffynonellau dŵr yn cyfrannu at y pwysau parhaus ar y cynefin.

Mae camau cadwraeth wedi anelu at adfer hydrolegol a chynnal cyfanrwydd strwythurol. Ymhlith y prif fesurau y mae codi lefelau trwythiad, rheoli rhywogaethau goresgynnol, adfer cynefinoedd coedwig ar fawn dwfn, a gwella gwydnwch yn erbyn effeithiau newid hinsawdd trwy rwydweithiau ecolegol. Mae prosiectau'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd ac Adfywio Cyforgorsydd LIFE wedi cyfrannu at yr ymdrechion, ac mae cynlluniau ychwanegol yn canolbwyntio ar reoli ceirw, bod yn effro i bathogenau, a systemau pori addasol.

Mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer y cynefin wedi'u cyfyngu gan ansicrwydd ecolegol a photensial sefydlu cyfyngedig oherwydd cystadleuaeth â chynefinoedd eraill sy'n cael eu hadfer. Er y gall gorchudd coetiroedd yng Nghymru gynyddu yn gyffredinol, mae'n annhebygol y bydd hyn o fudd uniongyrchol i goetiroedd corsiog oherwydd cyfyngiadau ar blannu mewn mawndiroedd. Mae adfer o hen safleoedd conwydd yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig. Heb gamau pellach i leihau dyddodiad nitrogen, mae'n disgwyl i lawer o'r cynefin fod mewn cyflwr anffafriol erbyn 2035.

Mae'r asesiad cyntaf hwn o goetir corsiog ar lefel Cymru yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) yn nodi statws anffafriol–annigonol. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sy'n gwella.

Llun gan: Dan Abrahams, Natural England 2025

Map dosbarthiad ar gyfer H91D0

Map gwasgariad ar gyfer H91D0

H91D0 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 1.5

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H91D0 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H91E0 Coedwigoedd llifwaddodol gyda gwern ac ynn

Mae coedwigoedd llifwaddodol gyda gwern (*Alnus glutinosa*) ac ynn (*Fraxinus excelsior*) yng Nghymru yn eang eu gwasgariad ond yn ddarniog iawn. Gellir dod o hyd iddynt ar lifwaddod afonydd a gorlifdiroedd, gan gynnwys amrywiaeth o fathau o goetiroedd. Mae tuedd gyfansoddiadol gref tuag at goetiroedd gwlyb, gan fod y mwyaf o briddoedd gorlifdiroedd sy'n draenio'n rhydd wedi'u haddasu at ddefnyddiau eraill. Gall y coedwigoedd hyn fod yn gymhleth ac yn amrywiol o ran eu strwythurau, ond mae eu potensial wedi'i gyfyngu gan ddarnio a'r duedd hon i goetiroedd gwlyb. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am goedwigoedd llifwaddodol gyda gwern ac ynn, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H91E0/.

Dadansoddwyd dosbarthiad coetir llifwaddodol yn gynhwysfawr ddiwethaf yn 2012, ac nid oes unrhyw ddata newydd wedi newid yr asesiad hwn yn sylweddol. Nid oes digon o dystiolaeth i bennu tueddiadau diweddar o ran maint cyffredinol y cynefin hwn yng Nghymru. Adroddir bod y cynefin yn parhau i fod yn bresennol yn yr un sgwariau 10 cilometr ag o'r blaen, ac mae'n ddarniog iawn o hyd. Mae amcangyfrifon wedi'u seilio ar ddadansoddiad System Gwybodaeth Ddaearyddol, sy'n ymgorffori data ynghylch gorchudd y coetir, topograffeg, a'r potensial ar gyfer llifogydd, gan ystyried rhywfaint o farn arbenigwyr.

Ymhlith y prif bwysau ar goetiroedd llifwaddodol y mae tynnu dŵr, trosi tir yn dir amaethyddol, a datblygiadau sy'n tarfu ar brosesau hydrolegol naturiol. Mae bygythiadau eraill yn deillio o rywogaethau estron goresgynnol, yn enwedig y rheini sy'n ymledu trwy ddŵr, megis jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*) a chlymog Japan (*Fallopia japonica*). Mae llygredd aer a dŵr, yn enwedig o amaethyddiaeth, yn cyfrannu at bwysau ychwanegol, tra bod clefydau'n effeithio ar rywogaethau canopi pwysig megis gwern ac ynn. Ymhlith y bygythiadau yn y dyfodol y mae effeithiau newid hinsawdd, pori gan geirw, a chyfleoedd cyfyngedig i ehangu'r cynefin oherwydd cystadleuaeth â defnyddiau eraill o'r tir.

Mae mesurau cadwraeth yn canolbwyntio ar gynnal ac adfer strwythur a swyddogaeth, gan gynnwys gwaith ailgysylltu hydrolegol gorlifdiroedd a gwaith adfer cynefin. Mae ymdrechion ar y gweill i reoli rhywogaethau goresgynnol a phathogenau planhigion, ac i weithredu strategaethau addasu i'r hinsawdd i wella cysylltedd tirwedd. Mae lleihau llygredd ac arferion rheoli coedwigoedd priodol hefyd yn cael eu hyrwyddo i gefnogi bioamrywiaeth. Mae atebion ar sail natur, megis ehangu coetiroedd ar orlifdiroedd ar gyfer gwasanaethau ecosystemau, yn cael eu cefnogi fwyfwy gan fentrau polisi.

Er bod coetiroedd llifwaddodol wedi'u dosbarthu'n eang, mae eu harwynebedd yn fach ac wedi'i ddarnio i raddau helaeth, ac nid oes fawr o gyfle i adfer prosesau naturiol llawn. Mae'n disgwyl i golli cynefinoedd ar raddfa fach fynd rhagddo, ond gellir creu ardaloedd newydd ar gyfer bioamrywiaeth a lliniaru llifogydd, gyda chefnogaeth polisïau a chynlluniau plannu. Mae rhagolygon strwythurol a swyddogaethol yn ansicr oherwydd pwysau a buddion cyferbyniol, ond gall cyfran sylweddol barhau i fod mewn cyflwr anffafriol oherwydd dyddodiad nitrogen. Ymhlith y gyrwyr cadarnhaol y mae cydnabod gwasanaethau ecosystemau a'r posibilrwydd o ailgyflwyno afancod, er bod risgiau o rywogaethau goresgynnol a llygredd yn parhau i fod yn broblem.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o goedwigoedd llifwaddodol gyda gwern ac ynn yn nodi bod eu statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: David Reed, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H91E0

Map gwasgariad ar gyfer H91E0

H91E0 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 30

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Ansicr

H91E0 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anffafriol–annigonol (U1)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anhysbys (XX)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

H91J0 Coetir lle mae yw yn drech

Mae coetir lle mae yw yn drech yn gynefin prin yng Nghymru, a geir mewn ychydig o leoliadau yn unig, ac fel arfer dros galchfaen. Mae'n cyfateb i W13 yn y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, ac fe'i nodweddir gan ganopi lle mae yw (*Taxus baccata*) yn goruchafu bron yn gyfan gwbl. Mae'r cysgod trwchus a grëir gan yr yw yn arwain at fflora daear sy'n brin eu rhywogaethau a haen gyfyngedig o lwyni. Mae ecoleg y cynefin, gan gynnwys ei adfywiad a'i ryngweithiadau â chynefinoedd eraill, yn cael ei deall yn wael. I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am goetir lle mae yw yn drech, gweler disgrifiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o'r cynefin: https://sac.jncc.gov.uk/habitat/H91J0/.

Yn 2012, fe amcangyfrifodd dadansoddiad fod cyfanswm arwynebedd y coetir lle mae yw yn drech yng Nghymru yn 29.2 hectar, gydag amcangyfrif gofalus o 50 hectar, a therfyn uchaf o 100 hectar. Nid yw'r dosbarthiad wedi newid ers 2012, ac mae'n parhau i fod yn gyfyngedig i ychydig o leoliadau. Ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer tueddiadau tymor byr, ac ystyrir bod trywydd y duedd yn anhysbys. Mae'n annhebygol bod llawer o gellïoedd mawr wedi cael eu methu, er ei bod yn bosibl nad yw llecynnau bach wedi'u cofnodi.

Ymhlith y prif bwysau y mae gweithgareddau hamdden megis sathru a chynnau tanau, pori gan geirw, a llygredd aer o ddyddodiad nitrogen. Ymhlith y pwysau eraill o bryder canolig y mae rhywogaethau estron goresgynnol, newidiadau mewn amodau anfiotig oherwydd newid hinsawdd, a newidiadau mewn patrymau dyddodiad. Mae'r un ffactorau hyn yn parhau i fod yn fygythiadau yn y dyfodol, ac mae pryderon ychwanegol ynghylch ymlediad pathogenau coed a phoblogaethau o geirw sy'n ehangu. Gall sychder sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a darnio cysylltedd cynefin waethygu'r bygythiadau hyn ymhellach.

Mae ymdrechion cadwraeth cyfredol yn canolbwyntio ar gynnal ac adfer strwythur a swyddogaeth y cynefin trwy ymarferion dylunio coedwigoedd a chynlluniau rheoli cynefin. Mae mesurau'n cynnwys rheoleiddio defnydd hamdden, rheoli poblogaethau o geirw i annog adfywiad naturiol, a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys conwydd anfrodorol. Nod strategaethau addasu i'r hinsawdd yw gwella cysylltedd a gwydnwch ecolegol ar draws tirweddau. Cydnabyddir bod llygredd aer yn effaith sylweddol, er bod camau lliniaru lleol yn parhau i fod yn aneglur.

Nid yw'r rhagolygon ar gyfer coetiroedd yn y dyfodol lle mae yw yn drech yng Nghymru yn sicr oherwydd dealltwriaeth gyfyngedig o'u hecoleg a gofynion penodol safleoedd. Mae'n annhebygol y bydd ehangiad coetiroedd a ysgogir gan bolisi o fudd sylweddol i'r cynefin hwn, er y gall enillion lleol bach ddigwydd trwy adfer coetiroedd hynafol. Gall y cynefin ehangu'n naturiol mewn ardaloedd a rennir â choedwigoedd ffawydd neu lle mae clefyd coed ynn yn caniatáu i yw ddod yn drech. Serch hynny, mae pwysau o ganlyniad i weithgareddau hamdden, ceirw, rhywogaethau goresgynnol, dyddodiad nitrogen, a newid hinsawdd yn awgrymu tuedd negyddol debygol o ran cyflwr.

Mae'r asesiad cyntaf hwn ar lefel Cymru o goetir lle mae yw yn drech yn nodi bod ei statws cadwraethol cyffredinol yn anffafriol–drwg. Er nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, roedd yr asesiad blaenorol ar lefel y DU (2019) hefyd yn nodi statws anffafriol–drwg. Asesir bod tuedd gyffredinol y cynefin yng Nghymru yn anhysbys, o'i chymharu â'r gwerthusiad blaenorol ar lefel y DU, a oedd yn nodi statws sefydlog.

Llun gan: James Latham, Cyfoeth Naturiol Cymru

Map dosbarthiad ar gyfer H91J0

Map gwasgariad ar gyfer H91J0

H91J0 Arwynebedd y cynefin a thueddiadau tymor byr

Arwynebedd (cilometr sgwâr): 0.5

Tuedd tymor byr yr arwynebedd: Anhysbys

Tuedd tymor byr gwasgariad: Sefydlog

Tuedd tymor byr strwythur a swyddogaeth: Anhysbys

H91J0 Statws cadwraethol ffafriol a thueddiadau

Statws yr arwynebedd: Anhysbys (XX)

Statws gwasgariad: Ffafriol (FV)

Statws strwythur a swyddogaeth: Anffafriol–drwg (U2)

Statws rhagolygon y dyfodol: Anffafriol–drwg (U2)

Statws cyffredinol: Anffafriol–drwg (U2)

Tuedd gyffredinol: Anhysbys

I ddod o hyd i'r dystiolaeth ategol lawn, gweler y tabl chwiliadwy o adroddiadau manwl.

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan drwydded Llywodraeth Agored.

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ddelweddau yn © Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar y dde cronfa ddata. Cedwir pob hawl.